# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 12/01/2016

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Cynhyrchu Ynni Lleol
3. Statement: Local Energy Generation

4. Datganiad: Diweddariad ar y Gweithredu gan Lywodraeth Cymru ar Lifogydd yng Nghymru
4. Statement: Update on Welsh Government Action on Flooding in Wales

5. Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016
5. The Education Workforce Council (Registration Fees) (Wales) Regulations 2016

6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles a Gwaith sy'n ymwneud â Darpariaethau/Diwygiadau i'r Bil ynghylch y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol
6. Legislative Consent Motion on the Welfare Reform and Work Bill relating to Provisions/Amendments to the Bill about the Social Mobility Commission

7. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2014-15
7. Debate on the Commissioner for Older People in Wales's Impact and Reach Annual Report 2014-15

8. Cyfnod Pleidleisio
8. Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

# 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

# 1. Questions to the First Minister

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the First Minister. And question 1 is Kirsty Williams.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma. A daw cwestiwn 1 gan Kirsty Williams.

### Ffedereiddio Ysgolion

### School Federation

13:31

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Happy new year, Presiding Officer, and happy new year to the First Minister.

Blwyddyn newydd dda, Lywydd, a blwyddyn newydd dda i'r Prif Weinidog.

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ffedereiddio ysgolion ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2633(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy on school federation in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)2633(FM)*

13:31

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The same to you.

Yr un fath i chithau.

We're committed to school-to-school working, including federation, as part of a self-improving school system, which underpins our policy in 'Qualified for Life'. But it is for schools and local authorities to determine whether federation is the best option for schools locally and will lead to improved outcomes.

Rydym ni wedi ymrwymo i weithio ar sail ysgol i ysgol, gan gynnwys ffedereiddio, yn rhan o system ysgolion hunanwella, sy'n sail i'n polisi yn 'Cymwys am Oes'. Ond cyfrifoldeb ysgolion ac awdurdodau lleol yw penderfynu ai ffedereiddio yw'r dewis gorau i ysgolion yn lleol ac a fydd yn arwain at well deilliannau.

13:31 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your Government-stated policy is that federation can indeed be a very viable alternative to school closures, especially in rural areas, where school closures may mean young children travelling considerable distances to schools, and also recognising schools as an important social aspect of a wider successful and thriving community. What steps do you take to ensure that your policy intention in your documents is actually carried out by local authorities and they actually do give due consideration to federation as an option, rather than simply looking at closure, as they're currently doing with the case of Nantmel and other small primary schools in Brecon and Radnor?

Brif Weinidog, eich polisi a nodwyd gan y Llywodraeth yw y gall ffedereiddio yn wir fod yn ddewis amgen ymarferol iawn yn hytrach na chau ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle gallai cau ysgolion olygu plant ifanc yn teithio cryn bellter i ysgolion, ac mae hefyd yn cydnabod ysgolion fel agwedd gymdeithasol bwysig ar gymuned lwyddiannus a ffyniannus ehangach. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod eich bwriad polisi yn eich dogfennau yn cael ei wireddu gan yr awdurdodau lleol a'u bod yn rhoi ystyriaeth briodol mewn gwirionedd i ffedereiddio fel dewis, yn hytrach na dim ond ystyried cau ysgolion, fel y maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd gydag achos Nantmel ac ysgolion cynradd bach eraill ym Mrycheiniog a Maesyfed?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We would encourage any local authority, without speaking about a specific instance, to consider federation, and, indeed, schools have had the power to federate by choice since 2010. To encourage greater federation, in 2014 we introduced regulations that allow local authorities to federate schools, as well as schools themselves. It's certainly an option that local authorities should be looking at wherever they face decisions over schools, and we would expect them to give full consideration to the regulations we put in place in 2014.

Byddem yn annog unrhyw awdurdod lleol, heb siarad am enghraifft benodol, i ystyried ffedereiddio, ac, yn wir, bu'r pŵer gan ysgolion i ffedereiddio trwy ddewis ers 2010. Er mwyn annog mwy o ffedereiddio, cyflwynwyd rheoliadau gennym yn 2014 sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ffedereiddio ysgolion, yn ogystal ag ysgolion eu hunain. Mae'n sicr yn ddewis y dylai awdurdodau lleol fod yn ei ystyried ble bynnag y maen nhw'n wynebu penderfyniadau am ysgolion, a byddem yn disgwyl iddyn nhw roi ystyriaeth lawn i'r rheoliadau a roddwyd ar waith gennym yn 2014.

## Pwysau Eithafol y Gaeaf

## Extreme Winter Pressures

13:32 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith pwysau eithafol y gaeaf ar y GIG yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)2646(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the impact of extreme winter pressures on the NHS in South Wales East? OAQ(4)2646(FM)*

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, the NHS always plans for this as the busiest time of year. Health boards and trusts have managed effectively through the holiday period into January. It is clear that there has been resilience despite some material increases in demand into January that have provided some peaks in pressure that have been managed locally.

Gwnaf, mae'r GIG bob amser yn cynllunio ar gyfer hwn fel cyfnod prysuraf y flwyddyn. Mae byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd wedi ymdopi'n effeithiol trwy gyfnod y gwyliau i mewn i fis Ionawr. Mae'n amlwg y bu cydnerthedd er gwaethaf rhywfaint o gynnydd perthnasol mewn galw i mewn i fis Ionawr, sydd wedi darparu rhywfaint o gyfnodau o bwysau brig a reolwyd yn lleol.

13:33 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the First Minister for his answer. We have had, as you recognise, unseasonal weather. It's been particularly mild, with very little incidence of frost or snow resulting in breakages and fractures, which would normally mean A&E. We haven't had a major flu outbreak, yet we still have extreme pressures on the health service in south-east Wales. Does this mean that the correct resources are not being allocated?

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. Rydym ni wedi cael, fel yr ydych chi'n cydnabod, tywydd annhymhorol. Mae wedi bod yn arbennig o fwyn, gydag ychydig iawn o achosion o rew neu eira yn arwain at doriadau a thorri esgyrn, a fyddai'n golygu mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys fel rheol. Nid ydym wedi cael achos mawr o ffliw, ac eto rydym ni'n dal i gael pwysau eithafol ar y gwasanaeth iechyd yn y de-ddwyrain. A yw hyn yn golygu nad yw'r adnoddau cywir yn cael eu neilltuo?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. We've seen an increase, for example, on some days in A&E of 25 per cent compared with the same period last year, and some days of significant pressure with higher ambulance calls and arrivals at emergency units. Nevertheless, the system has coped. What happens with A&E—. I think I'm right in saying that A&E attendances are actually higher often in the summer, but they tend to be cuts and grazes, sometimes fractures; they don't involve a long stay at A&E. In the winter, especially when there's damp weather, respiratory conditions are the issue. They, of course, especially amongst older people, require a longer stay for assessment in A&E, and often admission to hospital. And that's why, of course, we see pressures building up in the winter, especially at this time of year. But, despite those pressures, we know that the ambulance service and, indeed, the local health boards, have managed, and we're confident that the plans that they've put in place have been effective.

Nac ydy. Rydym ni wedi gweld cynnydd, er enghraifft, ar rai diwrnodau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, o 25 y cant o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a rhai dyddiau o bwysau sylweddol â mwy o alwadau ambiwlans a derbyniadau mewn unedau achosion brys. Serch hynny, mae'r system wedi ymdopi. Yr hyn sy'n digwydd gydag adrannau damweiniau ac achosion brys—. Rwy'n meddwl fy mod i'n iawn wrth ddweud bod presenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn aml yn uwch yn yr haf, ond maen nhw'n tueddu i fod yn friwiau a chrafiadau, weithiau toriadau; nid ydynt yn golygu arhosiad hir yn yr adran damweiniau ac achosion brys. Yn y gaeaf, yn enwedig pan fo tywydd llaith, cyflyrau anadlol yw'r broblem. Maen nhw, wrth gwrs, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, yn golygu aros yn hwy ar gyfer asesiad yn yr adran damweiniau ac achosion brys, a derbyniad i'r ysbyty yn aml. A dyna pam, wrth gwrs, yr ydym ni'n gweld pwysau'n adeiladu yn y gaeaf, yn enwedig ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Ond, er gwaethaf y pwysau hwnnw, rydym ni'n gwybod bod y gwasanaeth ambiwlans ac, yn wir, y byrddau iechyd lleol, wedi ymdopi, ac rydym ni'n hyderus bod y cynlluniau y maen nhw wedi eu rhoi ar waith wedi bod yn effeithiol.

13:34 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr a blwyddyn newydd dda, bawb.

Thank you very much and a happy new year, everyone.

First Minister, last year, your Government outlined how it planned to tackle increased winter pressures in our hospitals. Could you outline how well Government efforts to liaise with social services and primary care providers are working so far to reduce unnecessary hospital admissions this winter?

Brif Weinidog, y llynedd, amlinellodd eich Llywodraeth sut yr oedd yn bwriadu mynd i'r afael â phwysau cynyddol y gaeaf yn ein hysbytai. A allech chi amlinellu pa mor dda y mae ymdrechion y Llywodraeth i gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gofal sylfaenol yn gweithio hyd yn hyn i leihau derbyniadau diangen i'r ysbyty y gaeaf hwn?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

If you look at delayed transfers of care, they are reducing in Wales. I'm glad to see that they're coming down. The Member will have seen the money we've put into the intermediate care fund, which will help in terms of people being able to remain at home and to come home. It's not simply a question, as the Member will know, of dealing with pressures as they arise in the hospitals, but of also being able to make sure that people can go home as quickly as possible. And we're seeing a downward trend in Wales in terms of delayed transfers of care

Os edrychwch chi ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, maen nhw'n gostwng yng Nghymru. Rwy'n falch o weld eu bod yn gostwng. Bydd yr Aelod wedi gweld yr arian yr ydym ni wedi ei roi i mewn i'r gronfa gofal canolraddol, a fydd yn helpu o ran pobl yn gallu aros yn eu cartrefi ac i ddod adref. Nid yw'n gwestiwn syml, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, o ymdrin â phwysau fel y mae'n codi yn yr ysbytai, ond mae hefyd yn golygu gallu gwneud yn siŵr y gall pobl fynd adref cyn gynted â phosibl. Ac rydym ni'n gweld tuedd at i lawr yng Nghymru o ran oedi wrth drosglwyddo gofal.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:35

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We now move to questions from the party leaders, and, first this afternoon, we have the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:35

### Leanne Wood [Bywgraffiad] [Biography]

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch, Lywydd, a blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

Thank you, Presiding Officer, and a happy new year to you all.

A happy new year to you all.

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

First Minister, last night you participated in the first major public debate on the future for Wales within the European Union. You went head to head with the voice of the far right. Do you think your performance helped or hindered the Welsh campaign to remain in the EU?

Brif Weinidog, cymerasoch ran neithiwr yn y ddadl gyhoeddus fawr gyntaf ar ddyfodol Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd. Aethoch benben â llais y dde eithafol. A ydych chi'n meddwl bod eich perfformiad wedi helpu neu niweidio'r ymgyrch yng Nghymru i aros yn yr UE?

13:35

### Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Well, I'll leave that to others. What I can say is that this is a hugely important issue. It is the major constitutional issue that we will face this year, and I will never stop making the case for Wales's membership of the EU—to protect the 200,000 jobs that rely on our membership of the European Union, to recognise the billions of pounds of funding that we've had, and, of course, the access to one of the world's biggest single markets. And I will keep on making that case for the next few months.

Wel, gadawaf hynny i eraill. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod hwn yn fater eithriadol o bwysig. Mae'n fater cyfansoddiadol pwysig y byddwn yn ei wynebu eleni, a ni fyddaf byth yn rhoi'r gorau i ddadlau'r achos dros aelodaeth Cymru o'r UE—i amddiffyn y 200,000 o swyddi sy'n dibynnu ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, i gydnabod y biliynau o bunnoedd o gyllid yr ydym ni wedi ei gael, ac, wrth gwrs, y mynediad at un o farchnadoedd sengl mwyaf y byd. A byddaf yn parhau i ddadlau'r achos hwnnw dros yr ychydig fisoedd nesaf.

13:36

### Leanne Wood [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Well, First Minister, I guess it's up to people to decide whether or not you helped or hindered that case. It's my view that those who try to frighten people into voting a certain way run the risk of a backlash. People want to hear a positive case for Wales remaining in the European Union, rather than a new version of project fear. Now, you said last night that EU reform was not on the agenda. Have you given up building a better Europe, just as you've given up building a better Wales?

Wel, Brif Weinidog, mae'n debyg mai'r bobl sydd i benderfynu a ydych chi wedi helpu neu niweidio'r achos hwnnw. Fy marn i yw bod y rhai sy'n ceisio dychryn pobl i bleidleisio mewn ffordd benodol mewn perygl o adwaith. Mae pobl eisiau clywed achos cadarnhaol dros Gymru yn aros yn yr Undeb Ewropeaidd, yn hytrach na fersiwn newydd o brosiect ofn. Nawr, dywedasoch neithiwr nad oedd diwygio'r UE ar yr agenda. A ydych chi wedi troi eich cefn ar adeiladu Ewrop gwell, yn union fel yr ydych chi wedi troi eich cefn ar adeiladu Cymru well?

13:36

### Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

It's the Prime Minister who has set his face in favour of reform; it's for him to deliver the reforms that he has suggested. I think there are some areas where the European Union needs to reform itself: it needs to be more transparent; the European Commission needs to be less powerful, and the Parliament more powerful; it could do with not moving around, between Brussels and Strasbourg, as it does. But she and I will both agree that there's a lot wrong with the structure of the UK as well that needs reform. It's a question not of walking away from the European Union, but securing reform that keeps Wales at the heart of Europe.

Prif Weinidog y DU sydd wedi penderfynu gweithredu o blaid diwygio; ei gyfrifoldeb ef yw cyflwyno'r diwygiadau y mae wedi eu hawgrymu. Rwy'n meddwl bod rhai meysydd lle mae angen i'r Undeb Ewropeaidd ddiwygio ei hun: mae angen iddo fod yn fwy tryloyw; mae angen i'r Comisiwn Ewropeaidd fod yn llai pwerus, a'r Senedd yn fwy pwerus; byddai'n ddefnyddiol pe na byddai'n symud o gwmpas, rhwng Brwsel a Strasbwrg, fel y mae'n ei wneud. Ond bydd hi a minnau'n cytuno bod llawer o'i le ar strwythur y DU hefyd y mae angen ei ddiwygio. Nid yw'n fater o droi cefn ar yr Undeb Ewropeaidd, ond o sicrhau diwygiadau sy'n cadw Cymru wrth galon Ewrop.

13:37 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, people want a positive vision. They are yearning for political change at all levels, and they are fed up with politicians telling them that this is as good as it gets. Now, a new Europe is possible, I believe, just as a new Wales is possible, but you failed to put that positive vision in that debate last night. We got an insight last night, I think, as to how you intend to approach the period leading up to the referendum, and I hope that you will reflect on last night's debate and give serious consideration to changing tack.

Brif Weinidog, mae pobl eisiau gweledigaeth gadarnhaol. Maen nhw'n dyheu am newid gwleidyddol ar bob lefel, ac maen nhw wedi cael llond bol o wleidyddion yn dweud wrthyn nhw mai dyma'r gorau y gall pethau fod. Nawr, mae Ewrop newydd yn bosibl, rwy'n credu, yn union fel y mae Cymru newydd yn bosibl, ond fe wnaethoch fethu â chyfleu'r weledigaeth gadarnhaol honno yn y ddadl yna neithiwr. Cawsom gipolwg neithiwr, rwy'n credu, ar sut yr ydych chi'n bwriadu ymdrin â'r cyfnod yn arwain at y refferendwm, a gobeithiaf y gwnewch chi fyfyrio ar y ddadl neithiwr a rhoi ystyriaeth ddifrifol i newid trywydd.

Now, moving on from last night, can you outline to us what contingency planning your Government has undertaken, or is undertaking, for Wales's removal from the European Union? Have you sought legal advice on the ramifications of Wales voting in but being taken out? And what action will the Welsh Government take in terms of its relationship with the European Union if we are no longer a part of it? In other words, First Minister, do you have a plan B?

Nawr, gan symud ymlaen o neithiwr, a allwch chi amlinellu i ni pa gynlluniau wrth gefn y mae eich Llywodraeth wedi eu gwneud, neu wrthi'n eu gwneud, ar gyfer ymadawiad Cymru o'r Undeb Ewropeaidd? A ydych chi wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch goblygiadau Cymru'n pleidleisio i aros i mewn ond yn cael ei thynnu allan? A pha gamau wnaiff Llywodraeth Cymru eu cymryd o ran ei pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd os nad ydym yn rhan ohono mwyach? Mewn geiriau eraill, Brif Weinidog, a oes gennych chi gynllun B?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of Plaid Cymru and I have had discussions—sensible discussions—where we have talked about how it might be possible to put in place a cross-party campaign in order to put the case for Wales's membership of the European Union. Now, she fails to outline how she would have done anything different and what message she would put forward, and it seems to me she's already given up, because what she's talking about is, 'What will we do if we leave?' I haven't given up yet. I will continue to make the case for Wales's membership of the European Union, I will continue to make the case for Wales's prosperity, for the need for Wales to be at the heart of Europe, and, certainly, it's not our intention to give up at this stage, which seems to be the message that she puts across.

Mae arweinydd Plaid Cymru a minnau wedi cael trafodaethau—trafodaethau synhwyrol—lle'r ydym ni trafod sut y gallai fod yn bosibl sefydlu ymgyrch drawsbleidiol er mwyn cyflwyno'r ddadl dros aelodaeth Cymru o'r Undeb Ewropeaidd. Nawr, mae hi'n methu ag amlinellu sut y byddai wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol a pha neges y byddai'n ei gyfleu, ac mae'n ymddangos i mi ei bod hi eisoes wedi rhoi'r ffidil yn y to, oherwydd yr hyn y mae hi'n siarad amdano yw, 'Beth fyddwn ni'n ei wneud os byddwn ni'n gadael?' Nid wyf i wedi rhoi'r ffidil yn y to eto. Byddaf yn parhau i ddadlau'r achos dros aelodaeth Cymru o'r Undeb Ewropeaidd, byddaf yn parhau i ddadlau'r achos dros ffyniant Cymru, dros yr angen i Gymru fod wrth galon Ewrop, ac, yn sicr, nid ein bwriad yw rhoi'r ffidil yn y to ar y cam hwn, sef y neges y mae'n ymddangos ei bod hi'n ei gyfleu.

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, happy new year to you—I think it's still politically correct, in the second week of January, to wish people a happy new year. A happy new year to everyone in the Chamber as well.

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, blwyddyn newydd dda i chi—credaf ei fod dal yn wleidyddol gywir, yn ail wythnos mis Ionawr, i ddymuno blwyddyn newydd dda i bobl. Blwyddyn newydd dda i bawb yn y Siambr hefyd.

We all saw the terrible picture in north Wales around the flooding. There can be nothing more depressing, I would suggest, than walking into someone's home and seeing their lifetime's possessions thrown outside because of the flooding and the effects, and some of those possessions completely irreplaceable. Some of the issues I'm sure the Minister for Natural Resources will touch on in his statement. You have toured many of the villages and towns that were affected by the flooding. Now some time has passed—not for the victims of the flooding, because they'll be living with it for many weeks and months ahead—many of the public bodies, such as local authorities, have had time to make an assessment. Have you had any requests from the local authorities for additional support over and above what the Government has made available from the consequential that the Westminster Government has given out on the flooding to date? Will you be furnishing that level of support and making it available in the quickest time possible?

Gwelodd pob un ohonom y darlun ofnadwy yn y gogledd o ran y llifogydd. Ni all fod dim mwy digalon, byddwn yn awgrymu, na cherdded i mewn i gartref rhywun a gweld eiddo eu hoes wedi'u taflu y tu allan oherwydd y llifogydd a'r effeithiau, ac mae rhai o'r eiddo hwnnw'n gwbl unigryw. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn cyffwrdd ar rai o'r materion yn ei ddatganiad. Rydych chi wedi teithio o gwmpas llawer o'r pentrefi a'r trefi a gafodd eu heffeithio gan y llifogydd. Nawr bod ychydig o amser wedi mynd heibio—nid i'r rhai a ddioddefodd lifogydd, gan y byddan nhw'n byw gyda hyn am wythnosau a misoedd lawer i'r dyfodol—mae llawer o'r cyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol, wedi cael amser i wneud asesiad. A ydych chi wedi cael unrhyw geisiadau gan awdurdodau lleol am gymorth ychwanegol yn ogystal â'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi ei roi ar gael o'r cyllid canlyniadol y mae Llywodraeth San Steffan wedi ei ddyrannu ar y llifogydd hyd yn hyn? A fyddwch chi'n ategu'r lefel honno o gefnogaeth ac yn ei rhoi ar gael cyn gynted â phosibl?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

At this stage, no, but we have put in place about £3.3 million into a fund that local authorities can bid into. It's early days yet, in fairness, as far as that fund is concerned. Nevertheless, it is money that will be made available to them in order to help with smaller schemes to deal with flooding.

Ar hyn o bryd, na fyddwn, ond rydym ni wedi cyfrannu tua £3.3 miliwn at gronfa y gall awdurdodau lleol wneud cais am gyllid ohoni. Dyddiau cynnar yw hi eto, er tegwch, cyn belled ag y mae'r gronfa honno yn y cwestiwn. Serch hynny, mae'n arian a fydd ar gael iddyn nhw er mwyn helpu gyda chynlluniau llai i ymdrin â llifogydd.

When I visited the north, I visited Llanrwst. The flood defences there, by and large, held. Speaking to local representatives, they were very happy with what had been done since I last visited Llanrwst some years ago, with the Member then at the time. There'd been a difficulty not just with the river overflowing its banks—the Conwy—but groundwater was coming up through people's houses. That didn't happen this time around.

Pan ymwelais â'r gogledd, ymwelais â Llanrwst. Safodd yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yno yn gadarn ar y cyfan. O sgwrsio â chynrychiolwyr lleol, roeddent yn hapus iawn gyda'r hyn a wnaed ers i mi ymweld â Llanrwst ddiwethaf, rai blynyddoedd yn ôl, gyda'r Aelod yno ar y pryd. Bu anhawster nid yn unig gyda'r afon yn gorlifo ei glannau—afon Conwy—ond roedd dŵr daear yn dod i fyny trwy dai pobl. Ni ddigwyddodd hynny y tro hwn.

On the A55 at Talybont, money was never an issue in terms of funding the scheme, but the scheme is in the design stage, and Gwynedd county council have been working with Natural Resources Wales and us in order to put such a scheme in place. There was never a question of the funding not being made available. I visited people there, and I was happy to see that that scheme can now move forward.

Ar yr A55 yn Nhalybont, nid oedd arian erioed yn broblem o ran ariannu'r cynllun, ond mae'r cynllun ar y cam dylunio, ac mae cyngor sir Gwynedd wedi bod yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a ninnau er mwyn rhoi cynllun o'r fath ar waith. Ni fu unrhyw amheuaeth erioed na fyddai'r cyllid ar gael. Ymwelais â phobl yno, ac roeddwn i'n falch o weld y gall y cynllun hwnnw symud ymlaen nawr.

Bontnewydd, again, is a village where there is a flood defence in place, and, in fact, the flood defences weren't overtopped; again, it was a problem with groundwater. What NRW were telling me there is that there is a need to look at the entire system—the entire catchment area—to stop the flow of water coming in through the river there at Bontnewydd via the streams. But the message for us is this: we enter an age where it's becoming ever more difficult to predict where flooding might occur. We know that there are some areas of Wales historically that have suffered flooding. The Conwy valley is one such example, but NRW will need to examine very carefully, as will local authorities as the flood authorities, as to where new pressures may arise and then, of course, deal with them.

Mae Bontnewydd, unwaith eto, yn bentref lle ceir amddiffynfa rhag llifogydd, ac, a dweud y gwir, ni thorrwyd yr amddiffynfeydd rhag llifogydd; eto, roedd y broblem yn ymwneud â dŵr daear. Yr hyn yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddweud wrthyf yno yw bod angen edrych ar y system gyfan—y dalgylch cyfan—i atal llif y dŵr rhag dod i mewn drwy'r afon yno ym Montnewydd drwy'r nentydd. Ond y neges i ni yw hyn: rydym ni'n cyrraedd oes lle mae'n dod yn fwyfwy anodd rhagweld ble y gallai llifogydd ddigwydd. Rydym ni'n gwybod bod rhai ardaloedd o Gymru yn hanesyddol wedi dioddef llifogydd. Mae dyffryn Conwy yn un enghraifft o'r fath, ond bydd angen i Gyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal ag awdurdodau lleol fel yr awdurdodau llifogydd, edrych yn ofalus iawn o ran lle y gallai pwysau newydd godi ac yna, wrth gwrs, ymdrin â nhw.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for that answer, and I appreciate that many of these questions might well be addressed also by the natural resources Minister in his statement, but also there are some solutions that can be brought forward via the rural development fund, allowing farmers to use land as floodplains to hold water back. I do declare an interest as a farmer and with regard to the rural development plan. Also, in other parts of the United Kingdom, the rules and regulations around ditch clearance and allowing landowners to clear those ditches without hindrance to allow water capture on their land will be removed as of 1 April. Will the Welsh Government be taking forward some of these proposals? For many communities, it's the big shiny projects that people look at that cost many millions of pounds, and I get that, but, equally, there are some very small steps that we can take, and I would suggest that the rural development plan and using some of the money that's in that to help landowners play a more active part in flood prevention, and also adopting some of the measures taken by other parts of the United Kingdom to allow for ditch clearance for water containment, could be welcome additions to the arsenal to help communities stem this flooding problem.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am yr ateb yna, ac rwy'n sylweddoli y gallai llawer o'r cwestiynau hyn gael sylw gan y Gweinidog cyfoeth naturiol yn ei ddatganiad, ond hefyd ceir rhai atebion y gellir eu cynnig drwy'r gronfa datblygu gwledig, gan ganiatáu i ffermwyr ddefnyddio tir fel gorlifdiroedd i ddal dŵr yn ôl. Rwy'n datgan buddiant fel ffermwr ac o ran y cynllun datblygu gwledig. Hefyd, mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, bydd y rheolau a'r rheoliadau o ran clirio ffosydd a chaniatáu tirfeddianwyr i glirio'r ffosydd hynny heb rwystr i ganiatáu i ddŵr gael ei ddal ar eu tir yn cael eu diddymu o 1 Ebrill. A fydd Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â rhai o'r cynigion hyn? I lawer o gymunedau, y prosiectau mawr sgleiniog y mae pobl yn eu hystyried, sy'n costio miliynau lawer o bunnoedd, ac rwy'n deall hynny, ond, yn yr un modd, mae rhai camau bach iawn y gallwn eu cymryd, a byddwn yn awgrymu y byddai'r cynllun datblygu gwledig a defnyddio rhywfaint o'r arian sydd yn hwnnw i helpu tirfeddianwyr chwarae rhan fwy ymarferol o ran atal llifogydd, a hefyd mabwysiadu rhai o'r mesurau a gymerwyd gan rannau eraill o'r Deyrnas Unedig i alluogi ffosydd i gael eu clirio i ddal dŵr, yn ychwanegiadau i'w croesawu at yr arfau i helpu cymunedau i ymdrin â'r broblem llifogydd hon.

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. It does depend, of course, on us being members of the European Union to access that money. It has been used, if I remember, for Rhydyfelin in terms of the flood scheme there. But he's right to say—and I use the Conwy valley as an example—that you cannot simply guard against flooding by building a wall. The issue in the Conwy valley is that there were flood defences around the farm land, so the farm land was protected but the settlements were not. In order to control flooding in the Conwy valley, there are occasions, and I think it happened this time around, where the farm land must be allowed to flood. Farmers, of course, are part of that. There were discussions with them in advance of that project being put in place, but you can't channel a body of water and try and build walls around it all the time. The water will come up as groundwater; it has to be allowed to flood into its natural floodplain from time to time in order to enable houses to be protected. The Conwy valley is a good example where farmers and the local community worked together in order to put in place an effective flood scheme.

Bydd. Mae'n dibynnu, wrth gwrs, ar inni fod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd i gael mynediad at yr arian hwnnw. Fe'i defnyddiwyd, os cofiaf, ar gyfer Rhydyfelin o ran y cynllun llifogydd yno. Ond mae'n iawn i ddweud—ac rwy'n defnyddio Dyffryn Conwy fel enghraifft—na allwch chi ddiogelu rhag llifogydd dim ond trwy adeiladu wal. Y broblem yn nyffryn Conwy yw bod amddiffynfeydd rhag llifogydd o gwmpas y tir fferm, felly roedd y tir fferm wedi'i ddiogelu ond nid oedd yr aneddiadau. Er mwyn rheoli llifogydd yn nyffryn Conwy, ceir adegau, ac rwy'n meddwl ei fod wedi digwydd y tro hwn, lle mae'n rhaid caniatáu llifogydd ar dir fferm. Mae ffermwyr, wrth gwrs, yn rhan o hynny. Cafwyd trafodaethau gyda nhw cyn cyflwyno'r prosiect hwnnw, ond ni allwch chi sianelu corff o ddŵr a cheisio adeiladu waliau o'i gwmpas drwy'r amser. Bydd y dŵr yn dod i fyny fel dŵr daear; mae'n rhaid caniatáu iddo orlifo i'w orlifdir naturiol o bryd i'w gilydd er mwyn galluogi tai i gael eu diogelu. Mae dyffryn Conwy yn enghraifft dda lle gweithiodd ffermwyr a'r gymuned leol gyda'i gilydd i sefydlu cynllun llifogydd effeithiol.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. The other issue that happened over the Christmas recess and as recently as yesterday morning was the road network, with the adverse weather that was predicted via weather forecasting, in north Wales, for example, with the icy conditions. There were 68 accidents yesterday in north Wales. The M4 in your own area between Pencoed and Sarn was shut at least half a dozen times, and around the Newport area an equal number to that as well because of the adverse weather. There is an issue in my mind about the way the trunk road agency in Wales manage these key routes. I'd be interested to know whether you will commission a study to see exactly how they are managing the maintenance of these roads to look into these adverse weather conditions that are causing, both for flooding and icy conditions, road closures. We can argue about the European Union, we can argue about the middle east, and we can argue about global politics, but, for most people, when they get outside their front door, they want one of three things: to get to work, get the kids to school or get to that appointment that is critical to their end day. Those in north Wales yesterday couldn't do that and many people in south Wales over the festive period couldn't do it either. For simple maintenance in many areas, these issues could be resolved, so will you undertake to have a review of the way the trunk road agency is engaging in this process so that we can be satisfied that all corners are covered off?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Y mater arall a ddigwyddodd yn ystod toriad y Nadolig ac mor ddiweddar â bore ddoe oedd y rhwydwaith ffyrdd, gyda'r tywydd gwael a ragwelwyd trwy ragolygon y tywydd, yn y gogledd, er enghraifft, gyda'r amodau rhewllyd. Bu 68 o ddamweiniau ddoe yn y gogledd. Caewyd yr M4 yn eich ardal eich hun rhwng Pencoed a Sarn o leiaf hanner dwsin o weithiau, a chynifer â hynny o gwmpas ardal Casnewydd hefyd oherwydd y tywydd garw. Mae problem yn fy meddwl am y ffordd y mae'r asiantaeth cefnffyrdd yng Nghymru yn rheoli'r llwybrau allweddol hyn. Byddai gen i ddiddordeb mewn cael gwybod a wnewch chi gomisiynu astudiaeth i weld yn union sut y maen nhw'n rheoli'r gwaith o gynnal a chadw'r ffyrdd hyn i ymchwilio i'r amodau tywydd garw hyn sy'n achosi, o ran llifogydd ac amodau rhewllyd, i ffyrdd gau. Gallwn ddadlau am yr Undeb Ewropeaidd, gallwn ddadlau am y dwyrain canol, a gallwn ddadlau am wleidyddiaeth fyd-eang, ond, i'r rhan fwyaf o bobl, pan fyddant yn mynd y tu allan i'w drws ffrynt, maen nhw eisiau un o dri pheth: cyrraedd y gwaith, cael y plant i'r ysgol neu gyrraedd yr apwyntiad yna sy'n hanfodol i'w diwrnod yn y pen draw. Ni allai'r rhai yn y gogledd wneud hynny ddoe, ac ni allai llawer o bobl yn y de wneud hynny ychwaith dros gyfnod y Nadolig. Ar gyfer gwaith cynnal a chadw syml mewn llawer o ardaloedd, gallai'r problemau hyn gael eu datrys, felly a wnewch chi addo cynnal adolygiad o'r ffordd y mae'r asiantaeth cefnffyrdd yn ymgymryd â'r broses hon fel y gallwn fod yn fodlon bod pob agwedd wedi ei hystyried?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it's not to do with maintenance. First of all, most of the accidents, I understand, were on local roads, local authority roads, although there were some instances on trunk roads. What I am informed by local authorities is that the weather was not predicted by the Met Office yesterday. As a result, of course, the roads hadn't been gritted. But, in terms of what we saw between Christmas and new year, I saw the M4 flooded out between Pyle and Pencoed, something I've never seen, ever, in all the years I've been living there, such was the volume of the rain. We saw the same thing happen, of course, on the A55 and it goes to show that we do face challenges now of flooding in areas that were previously thought not to be at risk of flooding. That, now, is a challenge for Natural Resources Wales in order to carry out an assessment of where the pressures will come in the future.

Wel, nid yw'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw. Yn gyntaf oll, roedd mwyafrif y damweiniau, rwy'n deall, ar ffyrdd lleol, ffyrdd awdurdodau lleol, er bod rhai achosion ar gefnffyrdd. Yr hyn y mae awdurdodau lleol yn ei ddweud wrthyf yw na ragwelwyd y tywydd gan y Swyddfa Dywydd ddoe. O ganlyniad, wrth gwrs, nid oedd y ffyrdd wedi cael eu graeanu. Ond, o ran yr hyn a welsom rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd, gwelais lifogydd ar yr M4 rhwng y Pîl a Phencoed, rhywbeth nad wyf i erioed wedi ei weld yn yr holl flynyddoedd yr wyf i wedi bod yn byw yno, cymaint oedd y glaw a ddaeth i lawr. Gwelsom yr un peth yn digwydd, wrth gwrs, ar yr A55 ac mae'n dangos ein bod yn wynebu heriau nawr o lifogydd mewn ardaloedd na ystyriwyd cynt eu bod mewn perygl o lifogydd. Mae honno, nawr, yn her i Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cynnal asesiad o ble daw'r pwysau yn y dyfodol.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Now we move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you. First Minister, when the literacy and numeracy framework was launched in 2012, you said it would transform standards of literacy and numeracy in Wales. Last year, your schools inspector, Estyn, said that the programme had had no impact in improving literacy levels. One year on, would you expect progress to have been made?

Diolch. Brif Weinidog, pan lansiwyd y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn 2012, dywedasoch y byddai'n gweddnewid safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Y llynedd, dywedodd eich arolygwr ysgolion, Estyn, nad oedd y rhaglen wedi cael unrhyw effaith o ran gwella lefelau llythrennedd. Flwyddyn yn ddiweddarach, a fyddech chi'n disgwyl bod cynnydd wedi ei wneud?

13:46 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First of all, it didn't say that, because the findings of the interim report present a positive picture of the early stages of implementation of the programme. Bear in mind, of course, that fieldwork was carried out between September 2013 and December 2014. That's the period in which the programmes, such as the literacy and numeracy framework and testing, were first introduced to schools. So, this is an evaluation that's taken place in the very first period of the testing programme. It shows, overall, a positive picture and we will continue with the national literacy and numeracy programmes.

Yn gyntaf oll, nid oedd yn dweud hynny, oherwydd mae canfyddiadau'r adroddiad dros dro yn cyflwyno darlun cadarnhaol o gamau cynnar y broses o weithredu'r rhaglen. Cofiwch, wrth gwrs, y gwnaed y gwaith maes rhwng mis Medi 2013 a mis Rhagfyr 2014. Dyna'r cyfnod y cyflwynwyd y rhaglenni, fel y fframwaith a phrofion llythrennedd a rhifedd, i ysgolion gyntaf. Felly, mae hwn yn werthusiad a wnaed yn ystod cyfnod cyntaf y rhaglen brofi. Mae'n dangos, ar y cyfan, darlun cadarnhaol a byddwn yn parhau â'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.

13:47 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

What the evaluation does say, and I quote, is that they have found 'no robust evidence' to suggest that the literacy and numeracy framework has supported an improvement in pupil outcomes.

Yr hyn y mae'r gwerthusiad yn ei ddweud, a dyfynnaf, yw nad ydynt wedi canfod unrhyw dystiolaeth gadarn i awgrymu bod y fframwaith llythrennedd a rhifedd wedi cefnogi gwelliant i ddeilliannau disgyblion.

Now, it's four years—four years—since the programme was launched. Four years—half the time a child will spend in primary school. That's their one chance, First Minister, and it's your responsibility. So, what is your expectation? When will your programme see real outcomes and real delivery for our school students?

Nawr, mae'n bedair blynedd—pedair blynedd—ers lansio'r rhaglen. Pedair blynedd—hanner yr amser y bydd plentyn yn ei dreulio yn yr ysgol gynradd. Dyna eu hunig gyfle, Brif Weinidog, a'ch cyfrifoldeb chi yw hynny. Felly, beth yw eich disgwyliadau? Pryd fydd eich rhaglen yn arwain at ganlyniadau go iawn a darpariaeth go iawn i'n myfyrwyr ysgol?

13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Well, the leader of the Liberal Democrats is mistaken, because the evaluation took place between September 2013 and December 2014, as I've said. That was the period in which programmes such as the LNF and testing were first introduced to schools. It doesn't go back further than that.

Wel, mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn camgymryd, oherwydd cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Medi 2013 a mis Rhagfyr 2014, fel y dywedais. Dyna oedd y cyfnod pan gyflwynwyd rhaglenni fel y FfLlRh a phrofion mewn ysgolion gyntaf. Nid yw'n mynd yn ôl ymhellach na hynny.

Whilst good progress has been made, we want to see further progress—that much is true. Speaking as a parent, I am delighted that I am able to see the progress that my children are making in school and many, many other parents take the same view. She asked when we will see improvement. We are seeing, of course, the best GCSE results ever in Wales—not as a result of this, that much is true, it is too early yet, but it does show that what we are putting in place is improving education and the frameworks themselves will show improvement over the course of the next few years.

Er bod cynnydd da wedi ei wneud, rydym ni eisiau gweld cynnydd pellach—mae cymaint â hynny'n wir. Yn siarad fel rhiant, rwyf wrth fy modd fy mod i'n gallu gweld y cynnydd y mae fy mhlant yn ei wneud yn yr ysgol ac mae llawer iawn o rieni eraill o'r un farn. Gofynnodd pryd y byddwn ni'n gweld gwelliant. Rydym ni yn gweld, wrth gwrs, y canlyniadau TGAU gorau erioed yng Nghymru—nid o ganlyniad i hyn, mae cymaint â hynny'n wir, mae'n rhy gynnar eto, ond mae'n dangos bod yr hyn yr ydym ni'n ei gyflwyno yn gwella addysg a bydd y fframweithiau eu hunain yn dangos gwelliant yn ystod y blynyddoedd nesaf.

13:48 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Well, I'm delighted, First Minister, that your children are making progress, but I'm interested in everybody's child. Every child in this country deserves to go to a decent school—a school that's not just been put into special measures, like one of the flagship schools in your own county borough has been. Every child in Wales should go to an outstanding school.

Wel, rwyf i wrth fy modd, Brif Weinidog, bod eich plant yn gwneud cynnydd, ond mae gen i ddiddordeb ym mhlentyn pawb. Mae pob plentyn yn y wlad hon yn haeddu mynd i ysgol dda—ysgol nad yw newydd gael ei gwneud yn destun mesurau arbennig, fel y gwnaed yn un o'r ysgolion blaenllaw yn eich bwrdeistref sirol eich hun. Dylai pob plentyn yng Nghymru fynd i ysgol ragorol.

Now, the State of the Nation report last year said that the scale of progress required by Wales to ensure that its children—all our children—can compete academically with others is dramatic.

Nawr, dywedodd adroddiad Cyflwr y Genedl y llynedd bod maint y cynnydd sy'n ofynnol gan Gymru i sicrhau y gall ei phlant—ein holl blant—gystadlu'n academaidd gydag eraill yn sylweddol.

We need dramatic progress from your Government for our children. Now, you have had 16 years. That is the second longest-running Government in modern history. So, if it can't be in the first 16 years, when are we going to see the dramatic progress that our country needs, and why should any parent or any pupil in Wales believe and have hope that your Government can deliver it for them?

Mae arnom angen cynnydd sylweddol iawn gan eich Llywodraeth ar gyfer ein plant. Nawr, rydych chi wedi cael 16 mlynedd. Hon yw'r ail Lywodraeth fwyaf hirhoedlog mewn hanes modern. Felly, os na all fod yn y 16 mlynedd gyntaf, pryd ydym ni'n mynd i weld y cynnydd sylweddol sydd ei angen ar ein gwlad, a pham y dylai unrhyw riant neu unrhyw ddisgybl yng Nghymru gredu a bod â gobaith y gall eich Llywodraeth gyflawni ar eu cyfer nhw?

13:49

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of the Liberal Democrats wilfully misrepresented what I just said. Like all parents in Wales, myself included, I am delighted that I am able to see how my children are progressing, as I'm sure she is as well, and all parents are in Wales. She should just be careful what she says, because that's not what I said, in terms of the way that she represented it. If you look at Wales, we have the best GCSE results ever. We see schools being built—no schools were built when her party was in power in Westminster. [Interruption.] No schools were built when her party was in power in Westminster. We see new comprehensive schools being built across Wales, we see new primary schools being built across Wales, and we are seeing delivery in education. When her party were in power in Westminster, the major pledge that they put forward to the people of Britain is that they would not increase tuition fees. That was broken immediately. [Interruption.] That was broken immediately. So, when it comes to keeping promises, we're not going to be lectured by the Liberal Democrats.

Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol newydd gam-gynrychioli'r hyn yr wyf i newydd ei ddweud yn fwriadol. Fel pob rhiant yng Nghymru, gan gynnwys fy hun, rwyf wrth fy modd fy mod i'n gallu gweld y cynnydd y mae fy mhlant yn ei wneud, fel yr wyf yn siŵr y mae hithau hefyd, ac fel y mae pob rhiant yng Nghymru. Dylai fod yn ofalus o'r hyn y mae'n ei ddweud, oherwydd nid dyna ddywedais i, o ran y ffordd iddi hi ei gyfleu. Os edrychwch chi ar Gymru, mae gennym ni'r canlyniadau TGAU gorau erioed. Rydym ni'n gweld ysgolion yn cael eu hadeiladu—ni adeiladwyd unrhyw ysgolion pan oedd ei phlaid hi mewn grym yn San Steffan. [Torri ar draws.] Ni adeiladwyd unrhyw ysgolion pan oedd ei phlaid hi mewn grym yn San Steffan. Rydym ni'n gweld ysgolion cyfun newydd yn cael eu hadeiladu ledled Cymru, rydym ni'n gweld ysgolion cynradd newydd yn cael eu hadeiladu ledled Cymru, ac rydym ni'n gweld cyflawni mewn addysg. Pan oedd ei phlaid hi mewn grym yn San Steffan, y prif addewid a wnaed ganddynt i bobl Prydain yw na fyddent yn codi ffioedd dysgu. Torrwyd hwnnw'n syth. [Torri ar draws.] Torrwyd hwnnw'n syth. Felly, pan ddaw'n fater o gadw addewidion, nid ydym ni'n mynd i dderbyn pregeth gan y Democratiaid Rhyddfrydol.

13:50

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Angela Burns.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Angela Burns.

### Llifogydd Gorllewin Cymru

### Floods in West Wales

13:50

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Good afternoon, First Minister.

Diolch i chi, Lywydd. Prynhawn da, Brif Weinidog.

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y llifogydd diweddar yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2645(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the recent floods in west Wales? OAQ(4)2645(FM)*

13:50

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Good afternoon. The Minister for Natural Resources will be making a statement later this afternoon on the flooding across the whole of Wales. Over the lifetime of this Government, we will invest over £33 million in flood and coastal risk management in west Wales to help build resilience to flooding.

Gwnaf. Prynhawn Da. Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gwneud datganiad yn ddiweddarach y prynhawn yma ar y llifogydd ar draws Cymru gyfan. Yn ystod oes y Llywodraeth hon, byddwn yn buddsoddi dros £33 miliwn mewn rheoli perygl llifogydd ac arfordirol yn y gorllewin i helpu i gynyddu'r cydnerthedd i wrthsefyll llifogydd.

13:51 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, when are you and your Government going to get to grips with planning policy? Because you have a policy that enables county councils to allow house builders to develop in areas of flood risk, as evidenced by the recent builds in my constituency that have been flooded in the last three months, let alone the last few years. However, that same planning policy is being used to stop a £100 million investment into south Carmarthenshire on the grounds that the company is building in an area of risk, yet, when you look at the topography, if that business were to flood, then we would have chunks of Swansea and a significant proportion of Llanelli underwater as well. So, it's a ridiculous and conflicting situation. It's a situation that's been raised here before—this disparity in planning policy and the allowing of one thing, but not another thing, houses versus jobs versus lives versus risk. When, First Minister, will you and your Government finally get to grips with this and go one way or the other and make it coherent and consistent?

Brif Weinidog, pryd ydych chi a'ch Llywodraeth yn mynd i fynd i'r afael â pholisi cynllunio? Oherwydd mae gennych chi bolisi sy'n galluogi cynghorau sir i ganiatáu adeiladwyr tai i ddatblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, fel y dangoswyd gan yr adeiladau diweddar yn fy etholaeth i sydd wedi dioddef llifogydd yn y tri mis diwethaf, heb sôn am yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r un polisi cynllunio yn cael ei ddefnyddio i atal buddsoddiad o £100 miliwn yn ne Sir Gaerfyrddin ar y sail bod y cwmni yn adeiladu mewn ardal o risg, ac eto, pan edrychwch chi ar y topograffi, pe byddai'r busnes hwnnw'n dioddef llifogydd, yna byddai gennym ni rannau o Abertawe a chyfran sylweddol o Lanelli dan ddŵr hefyd. Felly, mae'n sefyllfa chwerthinllyd ac anghyson. Mae'n sefyllfa a godwyd yma o'r blaen—yr anghysondeb hwn o ran polisi cynllunio a chaniatáu un peth, ond nid rhywbeth arall, tai yn erbyn swyddi yn erbyn bywydau yn erbyn risg. Pryd, Brif Weinidog, wnewch chi a'ch Llywodraeth fynd i'r afael o'r diwedd â hyn a dilyn un trywydd neu'r llall a'i wneud yn eglur a chyson?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

More rain fell in Capel Curig than anywhere else in the UK over the course of the last week of December, and yet we did not see flooding in the Conwy. We did see flooding in Cumbria. Why? Because of the failure of her party to invest in flood defences in England. Those are not my words; those are the words of others—the House of Commons committee. There was not enough investment put in, and so we cannot accept any kind of lecturing from the party opposite, because of their failure to invest in flood defences in England. [Interruption.] When it comes to technical advice note 15—

Syrthiodd mwy o law yng Nghapel Curig nag yn unrhyw le arall yn y DU yn ystod wythnos olaf mis Rhagfyr, ac eto ni welsom lifogydd yng Nghonwy. Gwelsom lifogydd yn Cumbria. Pam? Oherwydd methiant ei phlaid hi i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Lloegr. Nid fy ngeiriau i yw'r rheiny; geiriau pobl eraill ydyn nhw—pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Ni wnaed digon o fuddsoddiad, ac felly ni allwn dderbyn unrhyw fath o bregethu gan y blaid gyferbyn, oherwydd ei methiant i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Lloegr. [Torri ar draws.] Pan ddaw i nodyn cyngor technegol 15—

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I mean, I know it's uncomfortable for them, but there we are, that's the truth. When it comes to TAN 15, I remember, as the Minister responsible for introducing it, the Conservative benches opposed it, because they thought it was too extreme. How many times did I hear Conservative Members saying, 'We can't have this policy where you're not allowed to build in an area where there's a one-in-1,000-year flood risk, it's too extreme'? TAN 15 is perfectly clear, but it's absolutely crucial that local authorities follow TAN 15, and, where that doesn't happen, of course, there are remedies if they turn down planning permission in circumstances where they do not follow that planning guidance. But the planning guidance is absolutely crystal clear.

Hynny yw, gwn ei fod yn anghyfforddus iddyn nhw, ond dyna ni, dyna'r gwir. Pan ddaw i TAN 15, rwy'n cofio, fel y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am ei gyflwyno, i'r meinciau Ceidwadol ei wrthwynebu, gan eu bod yn meddwl ei fod yn rhy eithafol. Sawl gwaith glywais i Aelodau Ceidwadol yn dweud, 'Ni allwn ni gael y polisi hwn lle nad oes gennych chi ganiatâd i adeiladu mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd unwaith mewn 1,000 o flynyddoedd, mae'n rhy eithafol'? Mae TAN 15 yn gwbl eglur, ond mae'n gwbl hanfodol bod awdurdodau lleol yn dilyn TAN 15, a, phan nad yw hynny'n digwydd, wrth gwrs, ceir atebion os byddant yn gwrthod caniatâd cynllunio dan amgylchiadau lle nad ydynt yn dilyn y canllawiau cynllunio hynny. Ond mae'r canllawiau cynllunio yn gwbl, gwbl eglur.

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, Brif Weinidog, nid oes yr un blaid sydd wedi bod mewn Llywodraeth wedi cymryd newid hinsawdd o ddifrif yn ddigonol, ac mae hynny, yn anffodus, yn wir. Ond, a throi at effaith y llifogydd yma yng ngorllewin Cymru, mae nifer o fusnesau a thai unigol—. Yn hytrach nac ardaloedd eang, rwy'n gwybod roedd lot o dai unigol wedi cael eu heffeithio—llefydd fel Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot ac ati. Rydym ni wedi gweld yn Lloegr fod awdurdodau lleol wedi bod yn rhoi grantiau o £500 i helpu'r bobl yna i ddod yn ôl ar eu traed. Yn yr Alban, maen nhw wedi rhoi grant o £1,500 yn yr un modd, ac roeddem ni'n falch o weld bod y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru wedi lansio cronfa adfer wedi'r llifogydd heddiw. A ydy e'n fwriad gyda chi, a'ch Llywodraeth chi, i gefnogi grantiau o'r math yma yng Nghymru i helpu pobl a helpu busnesau i fynd yn ôl ar eu traed, neu, yn wir, i gyfrannu at y gronfa genedlaethol?

Well, First Minister, no party of Government has taken climate change seriously enough, and that is very unfortunate indeed. But, turning to the impact of these floods in west Wales, a number of businesses and individual homes—. Rather than wide areas, I know that many individual homes have been affected in places such as Tenby, Saundersfoot and so on. We have seen in England that local authorities have been providing grants of £500 to assist those people to get back up on their feet. In Scotland, they have similarly provided a grant of £1,500, and we were pleased to see that the Community Foundation in Wales has launched a fund to restore things after the flooding today. Is it your intention as a Government to support such grants here in Wales to assist people and to assist businesses to get back on their feet, or to contribute to that national fund that I mentioned?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n rhywbeth, wrth gwrs, i ni ei ystyried. Bydd gan ran fwyaf o bobl, byddwn i'n erfyn, insiwrans o ryw fath—byddai rhai, wrth gwrs, yn gorfod talu peth arian tuag at unrhyw alwad y byddan nhw'n ei wneud ar insiwrans eu tai neu eu busnesau. Mae hwnnw'n rhywbeth rydym ni'n dal i ystyried ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn gallu ateb y cwestiynau yn fanwl yn ystod ei ddatganiad ef.

That is something, of course, for us to consider. Most people, I expect, would have insurance of some kind—some, of course, would have to make partial payments towards any demand that they would make on the insurance on their homes or their businesses. This is something we are still considering, and I'm sure that the Minister will be able to answer these questions in detail during his statement.

13:55 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Blwyddyn newydd dda, bawb.

A happy new year to you all.

First Minister, the RainScape sustainable drainage project in Llanelli has proved to be worth its weight in the recent flooding events, particularly at Queen Mary's Walk in Llanelli. Dŵr Cymru, as I understand it, has got further plans to roll out similar schemes in other flood-risk zones across Wales between now and 2020, but what plans does the Welsh Government have to undertake a full evaluation of how that scheme has actually worked in practice so that we can build in as many learning points as possible to make other locations resilient against flooding in the future?

Brif Weinidog, mae prosiect draenio cynaliadwy RainScape yn Llanelli wedi bod yn effeithiol iawn yn ystod ar achosion diweddar o lifogydd, yn enwedig yn Rhodfa'r Frenhines Mary yn Llanelli. Mae gan Ddŵr Cymru, yn ôl a ddeallaf, gynlluniau pellach i gyflwyno cynlluniau tebyg mewn ardaloedd eraill sydd mewn perygl o lifogydd ledled Cymru rhwng nawr a 2020, ond pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad llawn o sut y mae'r cynllun wedi gweithio'n ymarferol fel y gallwn gynnwys cynifer o bwyntiau dysgu â phosibl i wneud lleoliadau eraill yn gydnerth rhag llifogydd yn y dyfodol?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It's something that's always under consideration. The Member is absolutely right to point out that controlling flooding is not just about building walls. It's about stemming the flow of water by planting trees, quite often, in the upland areas. I've seen examples of that in Montgomeryshire where that has happened. With that, of course, the trees absorb the water and help to stem the speed of the water coming down the hillsides. There's the issue of soakaways and the issue, of course, of not building driveways particularly that are impermeable to water. Part of the challenge that we face is that many of our road surfaces were built at a time when those standards were far lower. Water does not soak through the road; it comes off the road quite often—as I saw in Talybont—down the camber and into some people's houses. Many of the roads —the A55 was one—were built to a far lower standard than we would build now, and, of course, what we try to do is to look at sections of the A55 in order to improve those sections and avoid the risk of flooding. But the Member's quite right to point out that there are a number of ways to deal with flooding rather than simply building walls all the time.

Mae'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn barhaus. Mae'r Aelod yn gwbl gywir i nodi nad yw rheoli llifogydd yn golygu adeiladu waliau yn unig. Mae'n golygu atal llif dŵr trwy blannu coed, yn ardaloedd yr ucheldir yn aml iawn. Rwyf wedi gweld enghreifftiau o hynny yn Sir Drefaldwyn lle mae hynny wedi digwydd. O wneud hynny, wrth gwrs, mae'r coed yn amsugno'r dŵr ac yn helpu i atal cyflymder y dŵr sy'n dod i lawr y llechweddau. Ceir y mater o ffosydd cerrig a'r mater, wrth gwrs, o beidio ag adeiladu tramwyfeydd yn benodol sy'n anhydraidd i ddŵr. Rhan o'r her sy'n ein hwynebu yw bod llawer o arwynebau ein ffyrdd wedi cael eu hadeiladu ar adeg pan yr oedd y safonau hynny'n llawer is. Nid yw dŵr yn socian drwy'r ffordd; mae'n dod oddi ar y ffordd yn aml iawn—fel y gwelais yn Nhalybont—i lawr y cambr ac i mewn i dai rhai pobl. Adeiladwyd llawer o'r ffyrdd—roedd yr A55 yn un—i safon is o lawer nag y byddem yn adeiladu nawr, ac, wrth gwrs, yr hyn yr ydym ni'n ceisio ei wneud yw edrych ar rannau o'r A55 er mwyn gwella'r rhannau hynny ac osgoi'r perygl o lifogydd. Ond mae'r Aelod yn gwbl gywir i nodi bod nifer o ffyrdd i ymdrin â llifogydd yn hytrach na dim ond adeiladu waliau drwy'r amser.

## Trosglwyddo Asedau

## Asset Transfers

13:56 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithdrefnau ar gyfer trosglwyddo asedau gan awdurdodau lleol? OAQ(4)2648(FM)[W]*

*4. Will the First Minister make a statement on procedures for local authority asset transfers? OAQ(4)2648(FM)[W]*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, mater i awdurdodau lleol unigol yw gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo asedau gan awdurdodau lleol, ond byddwn i'n erfyn, wrth gwrs, iddynt gysylltu'n fanwl gyda'r gymuned leol.

Well, procedures for local authority asset transfers are a matter for individual local authorities, but of course I would expect them to consult in detail with the local communities.

13:57 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Bu pryderon ymhlith trigolion sir Gaerfyrddin ynghylch cynigion gan y cyngor sir i drosglwyddo parciau i gynghorau cymuned neu elusennau neu sefydliadau preifat, gan gynnwys Parc Howard yn Llanelli, a wnaeth sbarduno deiseb a lofnodwyd gan dros 5,000 o bobl i gadw'r parc mewn perchnogaeth gyhoeddus, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r cyngor sir yfory. A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad gydag aelodau o'r cyhoedd ar unrhyw gynnig i drosglwyddo asedau a chynnal diwydrwydd taladwy o unrhyw sefydliad preifat sy'n dymuno cymryd rhan mewn trosglwyddo asedau?

Thank you. There have been concerns among Carmarthenshire residents about proposals by the council to transfer parks to community councils or charities or private organisations, including Parc Howard in Llanelli, which engendered a petition signed by over 5,000 people to keep the park in public ownership, which will be presented to the council tomorrow. Do you agree that local authorities should hold a consultation with members of the public on any proposal to transfer assets, and conduct due diligence of any private organisation that wishes to take part in any such asset transfer?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Ydwyf. Asedau awdurdodau lleol yw asedau cyhoeddus, ac felly dylai cynghorau siarad a chysylltu â chymunedau a hefyd preswylwyr pan fônt yn meddwl am drosglwyddo asedau. Dylen nhw, wrth gwrs, hefyd ymgymryd 'analysis' llawn o'r risgiau pan fônt yn trosglwyddo asedau cyhoeddus i unrhyw drydydd parti. Mae yna ganllawiau ar gael—mae yna ganllawiau ar gael o Lywodraeth Cymru, sef y canllawiau ar drosglwyddo asedau cymunedol—cafodd hynny, wrth gwrs, ei gyhoeddi gennym ni llynedd.

Yes. Local authority assets are public assets and so councils should discuss and consult with their communities and also with their residents when they are considering the transfer of assets. Of course, they should also undertake a full analysis of the risks when they transfer public assets to any third party. Guidelines are available on this from Welsh Government, namely the guidelines on community asset transfer—that was published by us last year.

13:58 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, following your recent Government's assessment and consultation on protecting assets of community value, what consideration have you given to the 78 per cent of respondents who actually support the power to initiate asset transfer from public sector bodies? We are so far behind in Wales compared to how the UK Government are handling this. In the same consultation, 68 per cent actually reckoned that we should have greater opportunities for a first-refusal basis. How are you taking forward the community asset transfer and, you know, why are you not bringing forward solid proposals, like the community right to bid here in Wales, and allow them to actually make the decisions about how they retain their local assets?

Brif Weinidog, yn dilyn asesiad ac ymgynghoriad diweddar eich Llywodraeth ar ddiogelu asedau o werth cymunedol, pa ystyriaeth ydych chi wedi ei rhoi i'r 78 y cant o ymatebwyr sy'n cefnogi'r pŵer i gychwyn trosglwyddiad asedau o gyrff sector cyhoeddus? Rydym ni mor bell ar ei hôl hi yng Nghymru o'i gymharu â sut mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â hyn. Yn yr un ymgynghoriad, roedd 68 y cant yn meddwl y dylem ni gael mwy o gyfleoedd ar gyfer sail cynnig cyntaf. Sut ydych chi'n bwrw ymlaen â'r trosglwyddiad asedau cymunedol a pham nad ydych chi'n cyflwyno cynigion cadarn, fel yr hawl gymunedol i wneud cais yma yng Nghymru, a chaniatáu iddynt wneud y penderfyniadau am sut y maen nhw'n cadw eu hasedau lleol?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, the reason, of course, why this is being carried on in England at a great rate is because of the massive cuts in funding that local authorities have received in England—cuts that I'm sure her party would like to replicate. We know that they want to cut local government funding by 12 per cent here in Wales. That seems unambitious compared to their colleagues elsewhere in England. Our view is that, where councils can no longer continue to support assets, we would encourage them to seek community solutions, making the disposal of assets a key decision, as the Minister, in fairness, proposes as part of the draft local government Bill, will facilitate asset transfer and make the whole process more transparent. But, fortunately, local authorities are not under the same pressure in Wales as they are in England, where the cuts are so large.

Wel, y rheswm, wrth gwrs, pam mae hyn yn digwydd ar raddfa fawr yn Lloegr yw oherwydd y toriadau enfawr i gyllid y mae awdurdodau lleol wedi eu dioddef yn Lloegr—toriadau yr wyf yn siŵr y byddai ei phlaid hi yn hoffi eu hailadrodd. Rydym ni'n gwybod eu bod eisiau torri cyllid llywodraeth leol gan 12 y cant yma yng Nghymru. Mae hynny'n ymddangos yn anuchelgeisiol o'i gymharu â'u cydweithwyr mewn mannau eraill yn Lloegr. Ein barn ni yw lle na all cynghorau barhau i gefnogi asedau mwyach, byddem yn eu hannog i chwilio am atebion cymunedol, gan wneud cael gwared ar asedau yn benderfyniad allweddol, fel y mae'r Gweinidog, er tegwch, yn ei gynnig yn rhan o'r Bil llywodraeth leol drafft, a fydd yn hwyluso trosglwyddiad asedau ac yn gwneud y broses gyfan yn fwy tryloyw. Ond, yn ffodus, nid yw awdurdodau lleol o dan yr un pwysau yng Nghymru ag y maen nhw yn Lloegr, lle mae'r toriadau mor fawr.

14:00 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Roedd Keith Davies yn disgrifio sefyllfa a oedd yn bodoli yn sir Gaerfyrddin 12 mis yn ôl, pan oedd y cyngor, o dan arweinyddiaeth y Blaid Lafur bryd hynny, yn bygwth clybiau a chymdeithasau lleol, gan ddweud pe na baen nhw'n cymryd cyfrifoldeb am yr asedau hynny, y byddent yn wynebu codiad o 1,000 y cant yn y rhenti yr oedd y cyngor yn eu cyflwyno iddyn nhw. Llwyddodd Plaid Cymru, fel yr wrthblaid, i wyrdroi'r penderfyniad hwnnw. Maent yn parhau i wneud hynny wrth arwain y cyngor. A wnewch chi longyfarch Emlyn Dole yn sir Gaerfyrddin am gynnal trafodaeth gyda chlybiau a chymdeithasau lleol ynglŷn â dyfodol yr asedau hyn, mewn sefyllfa o doriadau enbyd ar gyllid llywodraeth leol, ac mewn sefyllfa lle maen nhw'n wynebu penderfyniadau anodd dros ben?

Keith Davies described a situation that existed in Carmarthenshire 12 months ago, when the council, which was led by Labour at that time, threatened clubs and societies at a local level that, if they didn't take responsibility for these assets, they would face an increase of 1,000 per cent in the rents that the council was charging them. Plaid Cymru's opposition managed to overturn that decision. They continued to do that in leading the council. Will you congratulate Emlyn Dole in Carmarthenshire for holding discussions with local clubs and societies on the future of these assets, in a situation of huge cuts on local authority funding, and in a situation where they are facing very difficult decisions indeed?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, rydym i gyd yn gallu gweld yn y Siambr hon bod cyngor sir Gâr wedi newid ynglŷn â phwy sy'n rhedeg y cyngor. Rwy'n gweld yn awr bod yr Aelod yn siarad mewn ffordd wahanol am y cyngor i'r ffordd yr oedd yn siarad amdano o'r blaen, pan roedd y Blaid Lafur yn rhedeg y cyngor. Rwy'n siŵr y byddwn yn gweld mwy o sbort a sbri ynglŷn â hynny dros y misoedd nesaf. Byddwn yn dweud wrth unrhyw gyngor sir, wrth gwrs, i ymgysylltu mewn ffordd fanwl iawn gyda phobl leol er mwyn sicrhau bod eu lleisiau nhw yn cael eu clywed.

Well, we can all see in this Chamber that Carmarthenshire council has changed its leadership. I see now that the Member is alluding to the council in a very different way to the way he talked about the council when the Labour party were in charge. I'm sure there'll be more fun and games about that over the ensuing months. I would say to any county council, of course, that they should consult in great detail with the local people to ensure that their voices are heard.

Senedd.tv Fideo Video

## Tlodi Plant

## Child Poverty

14:01 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

*5. Pa fesurau arbennig y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddileu tlodi plant erbyn 2020? OAQ(4)2641(FM)*

*5. What special measures is the Welsh Government taking in order to eradicate child poverty by the year 2020? OAQ(4)2641(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our child poverty strategy, published last year, does set out our priorities for tackling child poverty. Specific actions in that strategy include the roll-out of the Healthy Child Wales programme, doubling the numbers accessing Flying Start, closing education attainment gaps and reducing the number of children living in workless households.

Mae ein strategaeth tlodi plant, a gyhoeddwyd y llynedd, yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant. Mae camau penodol yn y strategaeth honno yn cynnwys cyflwyno rhaglen Plant Iach Cymru, dyblu nifer y bobl sy'n defnyddio Dechrau'n Deg, cau bylchau o ran cyrhaeddiad addysg a lleihau nifer y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Well, First Minister, we know that the UK Tory Government's policies on tax credits and welfare reforms are not helping poorer children and families in Wales, to say the least. But, can you really explain why, after 16 years in office, this Welsh Government has still left Wales with the highest level of child poverty in the United Kingdom?

Wel, Brif Weinidog, rydym ni'n gwybod nad yw polisïau Llywodraeth Dorïaidd y DU ar gredydau treth a diwygiadau lles yn helpu plant a theuluoedd tlotach yng Nghymru, a dweud y lleiaf. Ond, a allwch chi wir esbonio pam, ar ôl 16 mlynedd, y mae'r Llywodraeth Cymru hon yn dal i fod wedi gadael Cymru â'r lefel uchaf o dlodi plant yn y Deyrnas Unedig?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are not helped, he's quite right, by the policies of the UK Government. Bear in mind that his party were in Government for four years—something that they try to sweep under the carpet. They were part of the previous Government, which I think we should emphasise. But we have a child poverty strategy. It reaffirms our ambition to eradicate child poverty by 2020, and we will continue to move towards achieving that ambition.

Nid ydym ni'n cael ein helpu, mae'n gwbl gywir, gan bolisïau Llywodraeth y DU. Cofiwch fod ei blaid ef mewn Llywodraeth am bedair blynedd—rhywbeth y maen nhw'n ceisio ei ysgubo o dan y carped. Roedden nhw'n rhan o'r Llywodraeth flaenorol, ac rwyf yn meddwl y dylem ni bwysleisio hynny. Ond mae gennym ni strategaeth tlodi plant. Mae'n ail-bwysleisio ein huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020, a byddwn yn parhau i symud tuag at gyflawni'r uchelgais hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

In Swansea East, Flying Start ensures that children start in nursery with a developmental age equal to their chronological age. Communities First gives support to children in education via an evening homework club and evening holiday support. Does the First Minister agree that it is important to continue these two schemes and also to ensure the maximum take-up of these opportunities for the benefit of our children?

Yn Nwyrain Abertawe, mae Dechrau'n Deg yn sicrhau bod plant yn dechrau yn y feithrinfa gydag oedran datblygiadol sy'n cyfateb i'w hoedran cronolegol. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhoi cymorth i blant mewn addysg trwy glwb gwaith cartref fin nos a chymorth gwyliau fin nos. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno ei bod yn bwysig parhau'r ddau gynllun hyn a hefyd i sicrhau bod cymaint â phosibl yn manteisio ar y cyfleoedd hyn er lles ein plant?

Senedd.tv Fideo Video

14:03

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The Member is absolutely right to highlight schemes that this Government has introduced in order to help many families and many children. That is a commitment that we will never waver from. It is a commitment that we will always make to our poorest families. It is a commitment that is at the very heart of what we stand for as a party.

Mae'r Aelod yn gwbl gywir i dynnu sylw at gynlluniau y mae'r Llywodraeth hon wedi eu cyflwyno i helpu llawer o deuluoedd a llawer o blant. Mae hwnnw'n ymrwymiad na fyddwn ni fyth yn troi ein cefnau arno. Mae'n ymrwymiad y byddwn bob amser yn ei wneud i'n teuluoedd tlotaf. Mae'n ymrwymiad sydd wrth wraidd yr hyn yr ydym ni'n ei gynrychioli fel plaid.

14:03

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Although the proportion of children living in poverty in low-income households in England is at its lowest since the 1980s, as we heard, Wales has the highest child poverty among the UK nations, and the second highest among the 12 UK regions, but persists in using a measure of child poverty that appears to show child poverty reducing when economies are shrinking and families are getting poorer. What consideration have you therefore given to looking at measures being applied in England to look at matters that lead to the underlying causes of poverty, such as educational attainment, drug and alcohol abuse, family breakdown and, of course, worklessness?

Er bod cyfran y plant sy'n byw mewn tlodi mewn cartrefi incwm isel yn Lloegr ar ei isaf ers y 1980au, fel y clywsom, Cymru sydd â'r tlodi plant uchaf ymhlith gwledydd y DU, a'r ail uchaf ymhlith 12 rhanbarth y DU, ond mae'n parhau i ddefnyddio mesur o dlodi plant sy'n ymddangos ei fod yn dangos bod tlodi plant yn lleihau pan fo economïau'n crebachu a theuluoedd yn mynd yn dlotach. Pa ystyriaeth ydych chi wedi ei rhoi, felly, i edrych ar fesurau sy'n cael eu cymryd yn Lloegr i ystyried materion sy'n arwain at achosion sylfaenol tlodi, fel cyrhaeddiad addysgol, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, teuluoedd yn chwalu ac, wrth gwrs, bod heb waith?

14:04

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, of course, if I remember rightly, the definition of poverty in England was changed in order to make it look better than it actually was. But he asks me to deal with what is the fundamental cause of poverty in the UK, and it is a Conservative Government—there is no question about that—with all the policies that you have introduced. One of the problems, of course, with people living in poverty is the fact that they are on low pay, and what his party proposes to do is to cut their pay even further. Even further. We used to say in this country: 'If you get a job, then your financial circumstances will improve'. What the Conservatives will do from April onwards is to say to people: 'Even if you get a job, you will actually not be any better off'. That is something that no Government since 1945 has ever said to its people, and it's shameful that the Tories have done it in Britain.

Wel, wrth gwrs, os cofiaf yn iawn, newidiwyd y diffiniad o dlodi yn Lloegr er mwyn ei wneud i edrych yn well nag yr oedd mewn gwirionedd. Ond mae'n gofyn i mi i ymdrin â'r achos sylfaenol o dlodi yn y DU, sef Llywodraeth Geidwadol —nid oes amheuaeth am hynny—gyda'r holl bolisïau yr ydych chi wedi eu cyflwyno. Un o'r problemau, wrth gwrs, gyda phobl sy'n byw mewn tlodi yw'r ffaith eu bod ar gyflog isel, a'r hyn y mae ei blaid ef yn bwriadu ei wneud yw torri eu tâl hyd yn oed ymhellach. Hyd yn oed ymhellach. Roeddem ni'n arfer dweud yn y wlad hon: 'Os byddwch chi'n cael swydd, yna bydd eich amgylchiadau ariannol yn gwella'. Yr hyn y bydd y Ceidwadwyr yn ei wneud o fis Ebrill ymlaen yw dweud wrth bobl: 'Hyd yn oed os byddwch chi'n cael swydd, ni fyddwch chi'n well eich byd o gwbl mewn gwirionedd'. Mae hynny'n rhywbeth nad oes unrhyw Lywodraeth wedi ei ddweud wrth ei phobl ers 1945, ac mae'n gywilyddus bod y Torïaid wedi ei wneud ym Mhrydain.

14:05

## Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

The UK Government's changes to the social security system will have serious repercussions on child poverty levels here, as the data contained in the Bevan Foundation's recent report highlighting the numbers of children in Wales in households in receipt of some type of benefits show. We know that 284,000 children in Wales are in households receiving tax credits, and 86 per cent of these children are in a household where someone works. First Minister, how is the Welsh Government taking this into account in your strategies to tackle child poverty?

Bydd newidiadau Llywodraeth y DU i'r system nawdd cymdeithasol yn arwain at oblygiadau difrifol i lefelau tlodi plant yma, fel y mae data sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad diweddar Sefydliad Bevan gan dynnu sylw at nifer y plant yng Nghymru mewn cartrefi sy'n derbyn rhyw fath o fudd-daliadau yn ei ddangos. Rydym ni'n gwybod bod 284,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn cartrefi sy'n derbyn credydau treth, ac mae 86 y cant o'r plant hyn mewn aelwyd lle mae rhywun yn gweithio. Brif Weinidog, sut y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd hyn i ystyriaeth yn eich strategaethau i fynd i'r afael â thlodi plant?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Member for highlighting the heartlessness of the policies being pursued by the Conservative Government? The leader of the opposition laughs at that—he always does—the heartlessness of the policies being pursued, the vendetta that's being pursued against those who are on low pay, and the help that's being given to those who have the most amount of money. We shouldn't be surprised at that. That is, after all, what his party stands for. We're well aware of the disproportionate effect of the UK Government's welfare reforms in Wales. We know that the impacts of those reforms are not spread equally. We know that those households that are already around the poverty line—families with children and disabled households—will be amongst the hardest hit. We will take account of that as part of our child poverty strategy. I cannot say, of course, that we'll be able to deal with all the damage that the Conservative Government is doing, but we know that they continue in their vendetta against the lowest paid, the disabled and children.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am dynnu sylw at greulondeb y polisïau a ddilynir gan y Llywodraeth Geidwadol? Mae arweinydd yr wrthblaid yn chwerthin ar hynny—mae'n gwneud hynny bob amser—creulondeb y polisïau a ddilynir, y fendeta sy'n cael ei ddilyn yn erbyn y rhai sydd ar gyflogau isel, a'r help sy'n cael ei roi i'r rhai sydd â'r mwyaf o arian. Ni ddylem synnu at hynny. Dyna, wedi'r cwbl, y mae ei blaid yn ei gynrychioli. Rydym ni'n gwbl ymwybodol o effaith anghymesur diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Rydym ni'n gwybod nad yw effeithiau'r diwygiadau hynny wedi'u rhannu'n gyfartal. Rydym ni'n gwybod bod y cartrefi hynny sydd eisoes yn agos at y llinell dlodi—teuluoedd â phlant a chartrefi anabl—ymhlith y rhai a fydd yn cael eu taro galetaf. Byddwn yn cymryd hynny i ystyriaeth yn rhan o'n strategaeth tlodi plant. Ni allaf ddweud, wrth gwrs, y byddwn yn gallu ymdrin â'r holl niwed y mae'r Llywodraeth Geidwadol yn ei wneud, ond rydym ni'n gwybod eu bod yn parhau yn eu fendeta yn erbyn y rhai ar y cyflogau isaf, pobl anabl a phlant.

### Business Improvement Districts

### Ardaloedd Gwella Busnes

14:06 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*6. Will the First Minister make a statement on the role of business improvement districts in Wales? OAQ(4)2636(FM)*

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl ardaloedd gwella busnes yng Nghymru? OAQ(4)2636(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

There's been excellent progress across Wales with five areas last year voting to establish business improvement districts. This is a positive movement with business communities, of course. They work with a range of partners in these areas, and provide a significant programme of investment to support regeneration and economic development.

Bu cynnydd ardderchog ar draws Cymru gyda phum ardal yn pleidleisio y llynedd i sefydlu ardaloedd gwella busnes. Mae hwn yn symudiad cadarnhaol gyda chymunedau busnes, wrth gwrs. Maen nhw'n gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid yn yr ardaloedd hyn, ac yn darparu rhaglen sylweddol o fuddsoddiad i gefnogi adfywio a datblygu economaidd.

14:07 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that, First Minister. Neath Inspired is the name of the new business improvement district in Neath town centre, formed with Welsh Government funding, as you say, after a successful balloting of local businesses. Neath town centre businesses have seen the advantage of commerce-set priorities for local investment, regeneration benefits and local partnerships. Going live on 1 April, Neath Inspired will run for five years and result in £500,000 additional funding. First Minister, can you outline what measures the Welsh Government is undertaking to promote the formation of more business improvement districts?

Diolch am hynna, Brif Weinidog. Neath Inspired yw enw'r ardal gwella busnes newydd yng nghanol tref Castell-nedd, a ffurfiwyd gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, fel y dywedwch, ar ôl cynnal pleidlais lwyddiannus ymhlith busnesau lleol. Mae busnesau canol tref Castell-nedd wedi gweld mantais blaenoriaethau wedi'u pennu gan fasnach ar gyfer buddsoddi lleol, manteision adfywio a phartneriaethau lleol. Gan gychwyn ar 1 Ebrill, bydd Neath Inspired yn rhedeg am bum mlynedd ac yn arwain at gyllid ychwanegol o £500,000. Brif Weinidog, a allwch chi amlinellu pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo ffurfio mwy o ardaloedd gwella busnes?

14:07

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, thank you. We're pleased to see the new districts being established. We are expecting four further ballots in 2016. We want to see the conclusion of the whole programme before we're in a position to reflect and consider how we take this forward in the future, but what is encouraging is that there is plenty of interest in towns around Wales in putting in BIDs in the future.

Gallaf, diolch. Rydym ni'n falch o weld yr ardaloedd newydd yn cael eu sefydlu. Rydym ni'n disgwyl pedair pleidlais arall yn 2016. Rydym ni eisiau gweld cwblhad y rhaglen gyfan cyn ein bod ni mewn sefyllfa i fyfyrio ac ystyried sut yr ydym ni'n bwrw ymlaen â hyn yn y dyfodol, ond yr hyn sy'n galonogol yw bod digonedd o ddiddordeb mewn trefi ledled Cymru mewn gwneud ceisiadau yn y dyfodol.

14:08

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, my region, of course, is already fortunate to have a very formidable business improvement district in Swansea, and its success is due in no small part to businesses' ability to work maturely in partnership with the local authority on its own priorities—often, of course, they have the same priorities as the council, but not always—rather than being dominated by the council. With the new BID in Neath, and of course the establishment of a BID steering group in Bridgend, would you agree that BIDs need to be led by local businesses and that any suggestion that a council's own decisions on town improvement might be contingent upon a BID behaving in particular way would be inappropriate?

Brif Weinidog, mae fy rhanbarth i, wrth gwrs, eisoes yn ffodus i fod ag ardal gwella busnes gref iawn yn Abertawe, ac mae ei llwyddiant i raddau helaeth o ganlyniad i allu busnesau i weithio'n aeddfed mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ar ei flaenoriaethau ei hun—yn aml, wrth gwrs, mae ganddyn nhw'r un blaenoriaethau â'r cyngor, ond nid bob amser—yn hytrach na chael eu dominyddu gan y cyngor. Gyda'r BID newydd yng Nghastell-nedd, a sefydlu grŵp llywio BID ym Mhen-y-bont ar Ogwr wrth gwrs, a fyddech chi'n cytuno bod angen i BIDs gael eu harwain gan fusnesau lleol a bod unrhyw awgrym y gallai penderfyniadau cyngor ei hun ar wella tref fod yn amodol ar un BID yn ymddwyn mewn ffordd arbennig yn amhriodol?

14:08

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

No, these are bids from businesses. Clearly, those bids have to chime with the priorities of the local authority, but of course I'd expect businesses and local authorities to work together, as we've seen in other towns in Wales, in order to provide benefits for towns. In fairness to Members, they've already highlighted the Labour council in Swansea, and the work that they have done in working with businesses in order to provide improvements in that city.

Na, ceisiadau gan fusnesau yw'r rhain. Yn amlwg, mae'n rhaid i'r ceisiadau hynny gydsynio â blaenoriaethau'r awdurdod lleol, ond wrth gwrs byddwn i'n disgwyl i fusnesau ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd, fel yr ydym ni wedi gweld mewn trefi eraill yng Nghymru, er mwyn cynnig manteision i drefi. Er tegwch i'r Aelodau, maen nhw eisoes wedi tynnu sylw at y cyngor Llafur yn Abertawe, a'r gwaith y maen nhw wedi ei wneud drwy weithio gyda busnesau i ddarparu gwelliannau yn y ddinas honno.

14:09

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wrth gwrs, mae yna botensial mawr i ardaloedd gwella busnes roi hwb economaidd i ardaloedd masnachu, ac mae hi'n hollol gywir bod yr ymgynghoriad efo busnesau o fewn yr ardaloedd hynny yn gosod y seiliau ar gyfer yr ardaloedd. Ond a fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno â fi ei bod hi'n hanfodol, hefyd, i ymgynghori efo rhanddeiliaid ehangach o fewn yr ardaloedd hynny, yn cynnwys trigolion o fewn y gymuned?

Of course, there is huge potential for business improvement districts to give an economic boost to those trading areas, and it's entirely right to say that the consultation with businesses within those industries does set the foundation for those areas. But would the First Minister agree with me that it's crucial also to consult with wider stakeholders within those areas, including residents within the community?

14:09

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae hynny'n iawn. Nid jest busnesau lleol, wrth gwrs, sydd â diddordeb yn hwn. Mae'n siŵr y bydd yna gyrff eraill sydd â diddordeb er mwyn creu'r amgylchedd masnachu iawn yn yr ardal. Felly, mae'n bwysig dros ben bod cyrff yn gweithio gyda'i gilydd—y busnesau, awdurdodau lleol, cyrff eraill—er mwyn sicrhau bod y dref ei hun yn cael ei gwella er lles pawb.

That's right. It's not just the local businesses that are interested in this, of course. Other organisations are interested in order to create the right trading environment in the area. It's extremely important that bodies work in partnership—businesses, local authorities and other bodies—in order to ensure that the towns themselves are improved for everybody's benefit.

14:10 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, business improvement districts obviously have the potential for great economic benefits. But, for many smaller communities or individual high streets within larger cities that are not the city centres themselves, perhaps a full business improvement district is a step too far and there may be benefits to facilitating networking within those local communities that is perhaps short of a business improvement district. I'm wondering what support the Welsh Government can give to those local communities, for example, like the arcades in Cardiff or high streets such as the Canton high street area, to develop those networks and informal trading relationships.

Brif Weinidog, mae'n amlwg bod gan ardaloedd gwella busnes botensial i greu buddion economaidd mawr. Ond, i lawer o gymunedau llai neu strydoedd mawr unigol mewn dinasoedd mwy nad ydynt yng nghanol y dinasoedd eu hunain, efallai fod ardal gwella busnes lawn yn gam yn rhy bell ac y gallai fod manteision o hwyluso rhwydweithio yn y cymunedau lleol hynny sydd efallai'n brin o ardal gwella busnes. Rwy'n meddwl tybed pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei roi i'r cymunedau lleol hynny, er enghraifft, fel yr arcedau yng Nghaerdydd neu strydoedd mawr fel ardal stryd fawr Treganna, i ddatblygu'r rhwydweithiau hynny a chysylltiadau masnachu anffurfiol.

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

BIDs, of course, are important for some town centres. We have 'Vibrant and Viable Places', which is of course the programme that also helps in terms of developing areas that are centres of particular importance. If we look at Cardiff, there's Canton high street, which seems to be doing very well at the moment. There are other parts of Cardiff—Wellfield Road is another example of this—where there are districts that have been traditionally doing very, very well. But it's important, of course, that when we look at a city the size of Cardiff—and indeed there are many other settlements that will be in the same category—we don't just look at the centre, but understand that there are other retail areas in the city, outside the city centre, that are also important to those areas, Albany Road and Wellfield Road being examples in that area, and down towards Canton.

Mae BIDs, wrth gwrs, yn bwysig i rai canol trefi. Mae gennym ni 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', sef y rhaglen wrth gwrs sydd hefyd yn helpu o ran datblygu ardaloedd sy'n ganolfannau o bwysigrwydd arbennig. Os edrychwn ni ar Gaerdydd, ceir stryd fawr Treganna, y mae'n ymddangos ei bod yn gwneud yn dda iawn ar hyn o bryd. Ceir rhannau eraill o Gaerdydd—mae Wellfield Road yn enghraifft arall o hyn—lle ceir ardaloedd sydd wedi bod yn gwneud yn arbennig o dda yn draddodiadol. Ond mae'n bwysig, wrth gwrs, pan fyddwn ni'n edrych ar ddinas o faint Caerdydd—a cheir llawer o aneddiadau eraill a fydd yn yr un categori yn wir—nad ydym yn edrych ar y canol yn unig, ond yn deall bod ardaloedd manwerthu eraill yn y ddinas, y tu allan i ganol y ddinas, sydd hefyd yn bwysig i'r ardaloedd hynny, ac mae Albany Road a Wellfield Road yn enghreifftiau yn yr ardal honno, ac i lawr tuag at Dreganna.

## Llifogydd yn Llanddulas

## Floods in Llanddulas

14:11 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal llifogydd yn Llanddulas rhag digwydd eto? OAQ(4)2644(FM)*

*7. What action is the Welsh Government taking to prevent the recurrence of floods in Llanddulas? OAQ(4)2644(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We know that Llanddulas experienced coastal flooding during the storms of 2013. We have put £544,000 in towards the construction of coastal flood defences. They have substantially lowered the flood risk in the village. That said, I do know that three houses were affected by flooding over the course of the last few weeks—awful, of course, for those people who are involved, and of course heartbreaking. We have made, as the Member has heard, £3.3 million of support available for local authorities and I would now expect Conwy council to investigate the sources of flooding and bring forward an appropriate solution with the relevant risk-management authorities.

Rydym ni'n gwybod bod Llanddulas wedi dioddef llifogydd arfordirol yn ystod stormydd 2013. Rydym ni wedi rhoi £544,000 tuag at adeiladu amddiffynfeydd arfordirol rhag llifogydd. Maen nhw wedi lleihau'r perygl o lifogydd yn y pentref yn sylweddol. Wedi dweud hynny, rwy'n gwybod yr effeithiwyd ar dri thŷ gan lifogydd yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf—ofnadwy, wrth gwrs, i'r bobl hynny a effeithiwyd, a thorcalonnus wrth gwrs. Rydym ni wedi rhoi, fel y mae'r Aelod wedi clywed, £3.3 miliwn o gymorth ar gael i awdurdodau lleol, a byddwn yn disgwyl nawr i Gyngor Conwy ymchwilio i ffynonellau llifogydd a chynnig ateb priodol gyda'r awdurdodau rheoli risg perthnasol.

14:12 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the detailed response, First Minister. Like you, I was very disappointed to note that flooding had reoccurred in Llanddulas. It faces not only flooding risks from the sea, but also from the River Dulas, which flows very closely to the properties that you have mentioned. But those households have faced flooding now five times since 2010, and even though investment has been put into the coastal defences, part of that flooding has been as a result of coastal problems—although it was fluvial flooding that affected them over the Christmas period. What discussions is the Welsh Government having with Conwy council to encourage them to bring forward a bid, particularly for Llanddulas, in conjunction with Welsh Water and Natural Resources Wales, so that they can get this problem sorted once and for all for those families, albeit small in number, who have been affected?

Diolch am yr ymateb manwl, Brif Weinidog. Fel chithau, roeddwn i'n siomedig iawn o nodi y bu llifogydd unwaith eto yn Llanddulas. Mae'n wynebu nid yn unig peryglon llifogydd o'r môr, ond hefyd o Afon Dulas, sy'n llifo'n agos iawn at yr adeiladau yr ydych chi wedi'u crybwyll. Ond mae'r cartrefi hynny wedi wynebu llifogydd bum gwaith ers 2010 erbyn hyn, ac er bod buddsoddiad wedi cael ei wneud yn yr amddiffynfeydd arfordirol, mae rhan o'r llifogydd hynny wedi bod o ganlyniad i broblemau arfordirol—er mai llifogydd afonol a effeithiodd arnyn nhw dros gyfnod y Nadolig. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda Chyngor Conwy i'w annog i wneud cais, ar gyfer Llanddulas yn benodol, ar y cyd â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, fel y gallant ddatrys y broblem hon unwaith ac am byth i'r teuluoedd hynny, er eu bod yn fach o ran nifer, sydd wedi cael eu heffeithio?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is right to say that the flooding was caused by surface water from the adjacent highway. The local authority were unable to deploy a pump, we understand, because that pump was already deployed at Trefriw, where, in their assessment, there were more properties at risk. But I'd repeat what I said earlier on; it's for Conwy council to bring forward proposals for consideration and I would of course encourage them to do so in order to help those people who were affected in Llanddulas.

Mae'n iawn dweud yr achoswyd y llifogydd gan ddŵr wyneb o'r briffordd gyfagos. Nid oedd yr awdurdod lleol yn gallu defnyddio pwmp, rydym ni'n deall, gan fod y pwmp eisoes yn cael ei ddefnyddio yn Nhrefriw, ble, yn ôl eu hasesiad, yr oedd mwy o adeiladau mewn perygl. Ond byddwn yn ailadrodd yr hyn a ddywedais yn gynharach; cyfrifoldeb cyngor Conwy yw cyflwyno cynigion i'w hystyried a byddwn yn ei annog i wneud hynny wrth gwrs, er mwyn helpu'r bobl hynny yr effeithiwyd arnynt yn Llanddulas.

14:13 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae yna gwestiwn mwy cyffredinol yn codi, wrth gwrs, ynglŷn â lle mae yna waith atal llifogydd wedi digwydd ac, yn wyneb her gynyddol newid hinsawdd, lle mae lefelau'r môr ac yn y blaen yn codi'n uwch. Pa broses sydd yn ei lle i asesu a yw'r gwaith sydd wedi cael ei gwblhau yn y blynyddoedd diwethaf yn dal i fod yn addas wrth symud ymlaen i wynebu her llawer uwch o lifogydd yn y dyfodol?

There is a more general question arising as to where flood prevention work has taken place and, in the light of the increasing challenge of climate change, where sea levels are rising. What process is in place to assess whether the works that have been completed over the past few years are still appropriate as we move on to face the greater challenges of flooding in the future?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid hynny a ddigwyddodd yn ystod y Nadolig. Nid hynny a ddigwyddodd yn y Bontnewydd ac nid hynny a ddigwyddodd yn Nhalybont; nac, wrth gwrs, yn Nyffryn Conwy. Nid dŵr yn dod dros wal oedd y broblem. Rydym wedi gweld beth ddigwyddodd o'r blaen yn nyffryn Conwy pan aeth y dŵr i mewn i'r Afon Crafnant ac wedyn i mewn i Drefriw. Roedd yr un broblem gyda'r Afon Leri yn y Talybont arall yng Ngheredigion, a'r un broblem, wrth gwrs, wedi digwydd yn Llanelwy. Ond nid felly ddigwyddodd y tro hwn. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wastad yn asesu pa mor effeithiol yw'r banciau sydd yn gwarchod cymunedau, wrth gofio, wrth gwrs, y newid hinsawdd rydym yn ei weld.

That's not what happened over Christmas. That's not what happened in Bontnewydd and that's not what happened in Talybont, nor in the Conwy valley. It wasn't a matter of the water overtopping the walls. We've seen the problem previously in the Conwy valley when the water came into the River Crafnant and then into Trefriw. We had the same problem with the River Leri in the other Talybont in Ceredigion, and the same problem in St Asaph. But that wasn't the case this time. Having said that, of course, Natural Resources Wales always assess how effective the embankments safeguarding communities are, bearing in mind the climate change that we are witnessing.

14:14 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rydych wedi cyfeirio at y ffaith bod angen edrych ar y A55. Rydych yn dweud, hwyrach, nad yw'r safon y cafodd y ffordd ei hadeiladu iddi yn dderbyniol erbyn hyn, wrth feddwl am yr holl law rydym wedi gweld yn ystod y misoedd olaf yma. Ond, hefyd, mae'r A483, ffordd osgoi Wrecsam, a'r A5 hefyd naill ai wedi cael eu cau dros gyfnod neu mae yna gyflymder dros dro arnyn nhw, sy'n creu perygl i deithwyr hefyd. Felly, a fydd yr asiantaeth cefnffyrdd yn edrych ar yr holl ffyrdd yn yr ardaloedd yma sydd wedi cael eu heffeithio er mwyn gwneud yn sicr bod rhaglenni sy'n edrych ar wariant y Llywodraeth yn y dyfodol yn cael eu hanelu at y llefydd cywir?

First Minister, you refer to the fact that we need to look at the A55. You state perhaps that the quality that the road was built to initially is not acceptable, given all the rain that we have seen over the past few months. But, also, the A483, the Wrexham bypass, and the A5 also have either been closed temporarily or have had temporary speed restrictions on them, which create problems for travellers, too. So, will the trunk road agency look at all the roads in the areas affected to ensure that programmes looking at Government expenditure in the future are targeted at the right areas?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r asiantaeth yn gyfrifol am yr heolydd 'trunk', y prif heolydd, ac nid, wrth gwrs, heolydd lleol, sydd yn gyfrifoldeb i awdurdodau lleol. Ynglŷn â'r A55, yr A5 a'r M4, er enghraifft, yr hyn sy'n digwydd yw, er taw ni sy'n gyfrifol fel Llywodraeth, awdurdodau lleol sy'n cynnal y ffyrdd dros y Llywodraeth, a dyna sy'n wir am yr A55 hefyd. Ond, wrth gwrs, byddwn yn erfyn ar unrhyw asiantaeth i ystyried y risgiau ym mhob rhan o'r heolydd maent yn gyfrifol amdanynt, er mwyn sicrhau bod y risgiau yna'n cael eu hasesu ac, wrth gwrs, i weld a oes yna ffordd o leihau'r risgiau yna yn y pen draw.

The agency is responsible for the trunk roads, the major roads, not, of course, the local roads, which are the responsibility of the local authorities. As regards the A55, the A5 and the M4, for example, what happens again is that, although it's a Government responsibility, it's the local authorities that maintain the roads on behalf of the Government, and that's true of the A55, too. But, of course, we would expect any agency to consider all the risks in every stretch of road that they're responsible for, in order to ensure that those risks are assessed and, of course, to see whether, ultimately, those risks can be mitigated.

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:16

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef y datganiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Lywydd. A happy new year to you all. There has been one change to the business statement for this week's business. The Minister for Natural Resources will make a statement to provide an update on Welsh Government action on flooding in Wales. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Blwyddyn newydd dda i chi i gyd. Mae un newid i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gwneud datganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru ar lifogydd yng Nghymru. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:16 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I declare an interest, being a farmer who operates under the common agricultural policy scheme rules. I'd be grateful if we could have a statement from the Deputy Minister in relation to the payment window that opened on 1 December for the basic payment scheme to farmers. I understand there's a considerable amount of money still outstanding to be paid to farmers across Wales, and I'd be grateful if the Minister could make a statement available to give a progress update as to what progress has been made by the Government in getting this important money into the rural economy and into rural businesses.

Secondly, I'd also be grateful for a statement from the same Minister on the rules around the Glastir scheme. Given the atrocious weather that we've had, I've had numerous constituents approach me who are involved in the Glastir scheme around the capital works element of the Glastir scheme. Because of the inability to get onto the land and undertake the capital works, they might fall foul of the scheme rules. There is the opportunity for force majeure to be introduced, as I understand it, and I'd be grateful if the Minister could issue a statement to indicate whether any discussion within the department has been considered to introduce into the scheme rules force majeure since the weather is an act of God—it's beyond anyone's control—and this would allow farmers participating in Glastir to, obviously, fulfil their contractual requirements, rather than have penalties imposed on them.

Diolch i chi, Lywydd. Rwyf yn datgan buddiant, gan fy mod i'n ffermwr sy'n gweithredu o dan reolau'r cynllun polisi amaethyddol cyffredin. Byddwn yn ddiolchgar pe gallem gael datganiad gan y Dirprwy Weinidog ynglŷn â'r cyfnod talu a agorodd ar 1 Rhagfyr ar gyfer y cynllun taliadau sylfaenol i ffermwyr. Rwyf yn deall bod swm sylweddol o arian yn dal heb ei dalu i ffermwyr ledled Cymru, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog yn sicrhau bod datganiad ar gael a fydd yn rhoi diweddariad ar ba gynnydd sydd wedi'i wneud gan y Llywodraeth o ran cael yr arian pwysig hwn i'r economi wledig ac i mewn i fusnesau gwledig.

Yn ail, byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad gan yr un Gweinidog ar y rheolau yn ymwneud â chynllun Glastir. O ystyried y tywydd ofnadwy yr ydym wedi'i gael, rwyf wedi cael nifer o etholwyr yn dod ataf sydd yn ymwneud â'r elfen gwaith cyfalaf o'r cynllun Glastir. Oherwydd nad ydynt yn gallu mynd ar y tir a gwneud y gwaith cyfalaf, efallai eu bod yn torri rheolau'r cynllun. Mae cyfle i gyflwyno force majeure, yn ôl yr hyn a ddeallaf, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi datganiad i nodi a oes unrhyw drafodaeth wedi ei hystyried o fewn yr adran i gyflwyno force majeure i reolau'r cynllun gan mai gweithred gan Dduw yw'r tywydd—mae y tu hwnt i reolaeth unrhyw un—a byddai hyn yn caniatáu i ffermwyr sy'n cymryd rhan yn Glastir, yn amlwg, gyflawni eu gofynion cytundebol, yn hytrach na chael cosbau wedi'u gorfodi arnynt.

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I would like to respond on behalf of the Deputy Minister this afternoon in relation to your first question, just to report that more than half of Welsh farm businesses that are eligible under the new basic payment scheme received their part payment—approximately 80 per cent of the individual farm business payment—during the first week of the payment window, and more than two thirds were paid by the end of December. This does meet our published target, and our payments will continue to be paid as soon as possible, and we remain on track to pay the vast majority of farmers early this year. In terms of more complex cases, the Minister and officials will be writing to those farmers who haven't yet been paid by the end of January to update them on progress and advise them of when they will be likely to receive payment. I think, also, your second point, of course, is something that I will raise with the Minister in terms of clarity, particularly in relation to the recent weather events.

Wel, hoffwn ymateb ar ran y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma o ran eich cwestiwn cyntaf, dim ond i adrodd bod mwy na hanner y busnesau fferm yng Nghymru sy'n gymwys o dan y cynllun taliad sylfaenol newydd, wedi derbyn eu rhan hwy o'r taliad—oddeutu 80 y cant o'r taliad ar gyfer ffermydd unigol—yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod talu, a thalwyd mwy na dwy ran o dair erbyn diwedd mis Rhagfyr. Mae hyn yn cyrraedd ein targed cyhoeddedig, a bydd ein taliadau yn parhau i gael eu talu cyn gynted ag y bo modd, ac rydym yn parhau ar y trywydd iawn i dalu'r mwyafrif helaeth o ffermwyr yn gynnar eleni. O ran achosion mwy cymhleth, bydd y Gweinidog a'r swyddogion yn ysgrifennu at y ffermwyr hynny nad ydynt wedi eu talu eto erbyn diwedd mis Ionawr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd ac i roi cyngor iddynt ynghylch pryd y maent yn debygol o dderbyn taliad. Rwyf yn credu, hefyd, bod eich ail bwynt, wrth gwrs, yn rhywbeth y byddaf yn ei godi gyda'r Gweinidog o ran eglurder, yn enwedig ynglŷn â'r tywydd diweddar.

14:19 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wanted to raise two issues. First of all, I'm sure the Minister is aware of the very good news that came out in the recess, that Cardiff University's School of Dentistry in the Heath in my constituency of Cardiff North has ranked as No. 1 in the UK in the recent 'Good University Guide', and it's world-renowned research was placed highest in the research excellence framework. So, could we have a debate or a statement about dental training and dental work in Wales, in view of this great achievement?

Roedd arnaf eisiau codi dau fater. Yn gyntaf oll, rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r newyddion da iawn a ddaeth yn ystod y toriad, bod Ysgol Ddeintyddiaeth Prifysgol Caerdydd yn y Mynydd Bychan yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, wedi ei rhestru yn safle Rhif 1 yn y DU yn y ' Good University Guide' yn ddiweddar, a rhoddwyd ei hymchwil byd-enwog yn y safle uchaf yn y fframwaith rhagoriaeth ymchwil. Felly, a allem ni gael dadl neu ddatganiad am hyfforddiant deintyddol a gwaith deintyddol yng Nghymru, o ystyried y cyflawniad gwych hwn?

The second point is not a devolved issue, but I wanted to raise the difficulties that my constituents from Bangladesh are experiencing in getting visas for themselves, their colleagues, their friends, their relatives to come to Wales because of the removal of the decision-making process on visa applications from Dhaka to New Delhi and I understand that this has led to delays in decision making and, it's alleged, more unfavourable decisions, and there's been a big petition by the British-Bangladeshi community. I don't know whether you could suggest any way that the Welsh Government—any actions that could be taken in order to help our constituents from Bangladesh?

Nid yw'r ail bwynt yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond roeddwn i eisiau codi'r anawsterau y mae fy etholwyr o Bangladesh yn eu profi o ran cael gafael ar fisas ar eu cyfer eu hunain, eu cydweithwyr, eu ffrindiau, a'u perthnasau, i ddod i Gymru yn dilyn dileu'r broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau fisa o Dhaka i Delhi Newydd a deallaf fod hyn wedi arwain at oedi o ran gwneud penderfyniadau ac, fe honnir, mwy o benderfyniadau anffafriol, a threfnwyd deiseb fawr gan y gymuned Bangladeshi- Brydeinig. Nid wyf yn gwybod a allech awgrymu unrhyw ffordd y gallai Llywodraeth Cymru—unrhyw gamau y gellid eu cymryd er mwyn helpu ein hetholwyr o Fangladesh?

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie Morgan, the Member for Cardiff North, for both those questions to the business statement. I think, particularly, I welcome the fact that we can celebrate, I'm sure, across the Chamber today the achievements of the Cardiff School of Dentistry. In fact, if you look at the school's courses, they were given a maximum of 100 out of 100 score in 'The Guardian' university guide, which ranked provision across 119 UK universities, and also there are high levels of student satisfaction and employability as a result of ongoing investment in the school from both Cardiff University and the Welsh Government. So, this is fantastic recognition that we will all, I'm sure, support today. The staff in the school and the hospital are working hard to ensure that students in Cardiff receive the highest standard of learning experience.

Diolchaf i Julie Morgan, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, am y ddau gwestiwn yna ynghylch y datganiad busnes. Rwyf yn credu, yn arbennig, fy mod yn croesawu'r ffaith ein bod yn gallu dathlu, rwy'n siŵr, ar draws y Siambr heddiw, cyflawniadau Ysgol Ddeintyddiaeth Caerdydd. Yn wir, os edrychwch ar gyrsiau'r ysgol, cawsant y sgôr uchaf o 100 allan o 100 yng nghanllaw prifysgolion 'The Guardian', a restrodd y ddarpariaeth ar draws 119 o brifysgolion yn y DU, a cheir hefyd lefelau uchel o foddhad ymhlith myfyrwyr ac o ran cyflogadwyedd o ganlyniad i fuddsoddiad parhaus yn yr ysgol gan Brifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Felly, mae hyn yn gydnabyddiaeth wych y byddwn i gyd, rwyf yn siŵr, yn ei chefnogi heddiw. Mae aelodau staff yr ysgol a'r ysbyty yn gweithio'n galed i sicrhau bod myfyrwyr yng Nghaerdydd yn derbyn profiad dysgu o'r safon uchaf.

On your second point, of course I'm sure we would all also recognise and appreciate your concern on behalf of your constituents from Bangladesh and I'm sure that's shared by other Members here today in terms of their constituents. Of course, it's a non-devolved matter controlled by the UK Government, but I will make sure that colleagues bear this in mind when talking to relevant UK Ministers, as this does affect many families in Wales.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs rwyf yn siŵr y byddem hefyd i gyd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi eich pryder ar ran eich etholwyr o Fangladesh ac rwyf yn siŵr bod hynny yn cael ei rannu gan Aelodau eraill yma heddiw o ran eu hetholwyr. Wrth gwrs, mae'n fater nad yw wedi ei ddatganoli a reolir gan Lywodraeth y DU, ond byddaf yn sicrhau bod cydweithwyr yn ystyried hynny wrth siarad â Gweinidogion perthnasol y DU, gan fod hyn yn effeithio ar lawer o deuluoedd yng Nghymru.

14:21 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Tybed, Weinidog, a allwn ni gael dau ddatganiad ar ddatblygiadau sydd wedi digwydd yn ystod y toriad. Yn gyntaf oll, os caf droi at fater ynni adnewyddol, rwy'n deall bod yna ddatganiad heddiw ar ynni lleol gan y Gweinidog, ond rwy'n sôn am ynni adnewyddol sydd dal yn nwylo Llywodraeth San Steffan. Byddwch yn cofio bod y Llywodraeth honno wedi gwrthod sawl cais cynllunio ar gyfer ffermydd gwynt yn y canolbarth, ond mae dau o'r ceisiadau hynny sy'n ymwneud â Llanbryn-mair a Charnedd Wen wedi ennill achos llys yn yr Uchel Lys ac yn awr yn ôl gydag Amber Rudd ar gyfer penderfyniad—y ddau gwmni yw RWE a Renewable Energy Systems Ltd. Rydw i'n awyddus iawn i weld nad yw'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwyrdroi neu eu troi i lawr am resymau gwleidyddol, ond yn cael eu penderfynu fel materion cynllunio a materion ynni adnewyddol yn benodol. A ydy hi'n bosibl, felly, inni gael datganiad gan y Gweinidog priodol ynglŷn â beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r ceisiadau hyn, gan eu bod yn gydnaws â pholisïau cenedlaethol y Llywodraeth, a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ac i hyrwyddo'r cynlluniau hyn gyda'r Gweinidog yn San Steffan? Mae'n hynod bwysig nad ydym yn gweld yr hyn y mae'r Toriaid yn dechrau ei wneud yn y canolbarth, lle mae Glyn Davies wedi bygwth troi'r rhain i lawr am resymau gwleidyddol, yn dod yn realiti.

I wonder, Minister, whether we could have two statements on developments that have taken place over recess. First of all, if I could turn to the issue of renewable energy, I understand that there is to be a statement today on local energy from the Minister, but I am talking about renewable energy still held by Westminster. You will recall that that Government rejected a number of planning applications for wind farms in mid Wales, but two of those applications related to Llanbryn-mair and Carnedd Wen have won a court case in the High Court and are now back with Amber Rudd for a decision—the two companies are RWE and Renewable Energy Systems Ltd. I'm very eager to ensure that these decisions aren't overturned or rejected for political reasons, but should be decided specifically on renewable energy and planning grounds. Would it be possible, therefore, for us to have a statement from the appropriate Minister as to what the Welsh Government is doing to promote these applications, because they are in keeping with the Government's national policies, and what the Welsh Government is doing to support and promote these projects with the Minister in Westminster? It's extremely important that we don't see what the Tories are starting to do in mid Wales, where Glyn Davies has threatened to reject these for political reasons, becoming a reality.

Yr ail gais am ddatganiad yw un gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae hwn yn ymwneud â'r asesiad a'r gwerthusiad o'r fframwaith rhifedd a llythrennedd yr oedd Kirsty Williams wedi'i grybwyll wrth y Prif Weinidog gynnau fach, ond rwy'n sylwi bod y Gweinidog addysg wedi gwneud datganiad reit ar ddiwedd y tymor diwethaf cyn inni gael cyfle i ofyn unrhyw gwestiwn iddo ef ynglŷn â'r gwerthusiad hwnnw, ac rwyf hefyd yn sylwi bod y gwerthusiad ei hunan yn dweud bod angen i'r Llywodraeth ystyried a oes angen cymorth pellach ar gyfer gweithredu'r fframwaith. Byddwn i felly yn croesawu'r cyfle i gael datganiad gan y Gweinidog addysg ar y materion hyn fel ein bod ni, a Kirsty Williams mae'n siŵr, yn gallu holi'r Gweinidog a oes cefnogaeth yn ei lle ac a fydd y fframwaith yma wir yn llwyddo, fel mae'r Prif Weinidog yn haeru ei fod ef.

The second bid for a statement is a statement from the Minister for Education and Skills. This relates to the assessment and evaluation of the numeracy and literacy framework that Kirsty Williams mentioned to the First Minister a little earlier, but I note that the education Minister had issued a statement at the very end of last term before we had any opportunity to ask any questions of him on that evaluation. I also note that the evaluation itself states that the Government should consider whether further assistance is required for the implementation of the framework. I would therefore welcome the opportunity to hear a statement from the education Minister on these issues so that I, and Kirsty Williams no doubt, could question the Minister as to whether the necessary support is in place and whether this framework will be truly successful, as the First Minister claims it is.

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I thank Simon Thomas for his questions to the business statement. On your first point, renewable energy is clearly a key part of our approach to increasing prosperity in Wales and tackling climate change in response to the Paris agreement. There were announcements in December, as you say, during recess—UK Government announcements—which reflected changes to subsidies and which still could have an impact on the ability to deliver local energy generation, and we will be working with communities and developers across Wales to make sure that Wales benefits. Of course, the Minister is very well aware of these prospects and opportunities, as well as the challenges and threats that you so rightly raise today.

Wel, diolchaf i Simon Thomas am ei gwestiynau am y datganiad busnes. O ran eich pwynt cyntaf, mae ynni adnewyddadwy yn amlwg yn rhan allweddol o'n dull ar gyfer cynyddu ffyniant yng Nghymru a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mewn ymateb i gytundeb Paris. Roedd cyhoeddiadau ym mis Rhagfyr, fel y dywedwch, yn ystod y toriad— cyhoeddiadau gan Lywodraeth y DU—a oedd yn adlewyrchu newidiadau i gymorthdaliadau ac a allai effeithio o hyd ar y gallu i ddarparu a chynhyrchu ynni lleol, a byddwn yn gweithio â chymunedau a datblygwyr ledled Cymru i wneud yn siŵr bod Cymru yn elwa. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r rhagolygon a'r cyfleoedd hyn, yn ogystal â'r heriau a'r bygythiadau yr ydych yn eu codi'n briodol heddiw.

In terms of your second point on the literacy and numeracy framework, of course the findings of the interim evaluation report present a positive picture of the early stages of implementation of the national literacy and numeracy programmes. And, of course, it is important that the Minister, I'm sure, will have opportunities, as we enter into this new term, to respond to questions, but it is about investing and working with our partners in regional education consortia, particularly to ensure practitioners feel supported to deliver on literacy and numeracy.

O ran eich ail bwynt ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd, mae'n wir bod canfyddiadau'r adroddiad gwerthuso dros dro yn cyflwyno darlun cadarnhaol o'r camau cynnar yn y broses o weithredu'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Ac, wrth gwrs, mae'n bwysig y bydd y Gweinidog, rwyf yn siŵr, yn cael cyfleoedd, wrth i ni symud i'r tymor newydd hwn, i ymateb i gwestiynau, ond mae hyn yn ymwneud â buddsoddi a gweithio gyda'n partneriaid mewn consortia addysg rhanbarthol, yn enwedig er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni ar lythrennedd a rhifedd.

14:25

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I ask for two statements, and, firstly, a statement from the Minister for rural affairs and agriculture? The one third of farmers that have not been paid must all be living in Brecon and Radnorshire, it seems, because I have been inundated with farmers who have yet to receive payments. Now, some of those businesses can withstand that; others are in a very precarious position. And I'm particularly concerned about cases that are referred to me by the Farm Crisis Network. It takes a lot of guts for a farmer to go to that network to talk about the very difficult situations they find themselves in. I would be grateful to know what can be done for those cases where there is proven extreme hardship, and that those payments can be fast-tracked, because there are some businesses that cannot afford to wait, and I am always very concerned what that might mean for individuals and their families. And whilst updating us on the roll-out of BPS, would the Minister be able to give us an update on the implementation of the rural development plan, especially the sustainable production grant element of that programme, which is causing grave concerns at present?

Weinidog, a gaf i ofyn am ddau ddatganiad, ac, yn gyntaf, datganiad gan y Gweinidog materion gwledig ac amaethyddiaeth? Mae'n rhaid bod y traean o ffermwyr nad ydynt wedi eu talu yn byw ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, mae'n ymddangos, gan fod llu o ffermwyr wedi dod ataf nad ydynt wedi derbyn taliadau hyd yn hyn. Nawr, gall rhai o'r busnesau hynny wrthsefyll hynny; mae eraill mewn sefyllfa beryglus iawn. Ac rwyf yn pryderu'n arbennig am achosion sy'n cael eu cyfeirio ataf gan y Rhwydwaith Argyfwng Ffermio. Mae'n rhaid i ffermwr fagu asgwrn cefn i fynd at y rhwydwaith hwnnw i siarad am y sefyllfaoedd anodd iawn y maent yn canfod eu hunain ynddynt. Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod beth y gellir ei wneud ar gyfer yr achosion hynny o galedi eithafol y gellir eu profi, a bod modd gwneud y taliadau hynny yn gyflymach, gan fod rhai busnesau nad ydynt yn gallu fforddio aros, ac rwyf bob amser yn bryderus iawn am yr hyn a allai hynny olygu i unigolion a'u teuluoedd. Ac wrth ein diweddaru ar y broses o gyflwyno Cynllun y Taliad Sylfaenol, a wnaiff y Gweinidog roi diweddariad i ni ynglŷn â gweithredu'r cynllun datblygu gwledig, yn enwedig yr elfen grant gynhyrchu gynaliadwy o'r rhaglen honno, sy'n achosi pryderon mawr ar hyn o bryd?

Datganiad Busnes - kirsty Williams

Business Statement - kirsty Williams

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Secondly, Minister, this year sees the Welsh Government's Year of Adventure being launched to develop and promote tourism in Wales. Therefore, it was of great concern to me to receive an e-mail from the organisers of the mountain biking enduro series, who were hoping, as part of that series, to have a number of races in Wales. They have not been given permission by Natural Resources Wales to have those races in the Merthyr area, in the Aberdare area and now in the Aberavon area. Therefore, there will be no south Wales mountain bike enduro races as part of this series because of Natural Resources Wales. Now, I've had difficulty with this in the past in my own area. Thanks to the intervention of the previous Minister, that has been sorted. I would now ask the current Minister to get a grip of Natural Resources Wales to actually work alongside Government colleagues to deliver the Year of Adventure, and not actually deprive communities of the opportunities that these events bring to them. And I'd be grateful for a statement from the Minister to that effect.

Yn ail, Weinidog, bydd Blwyddyn Antur Llywodraeth Cymru yn cael ei lansio eleni i ddatblygu a hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru. Felly, achos pryder mawr i mi oedd derbyn neges e-bost gan drefnwyr y gyfres rasys beicio mynydd enduro, a oedd yn gobeithio, yn rhan o'r gyfres honno, cynnal nifer o rasys yng Nghymru. Nid ydynt wedi cael caniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gynnal y rasys hynny yn ardal Merthyr, yn ardal Aberdâr a nawr yn ardal Aberafan. Felly, ni fydd unrhyw rasys beicio mynydd enduro yn ne Cymru yn rhan o'r gyfres hon oherwydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Nawr, rwyf wedi cael trafferth gyda hyn yn y gorffennol yn fy ardal fy hun. Diolch i ymyrraeth y Gweinidog blaenorol, mae hynny wedi ei ddatrys. Rwyf nawr yn gofyn i'r Gweinidog presennol ddylanwadu ar Gyfoeth Naturiol Cymru i weithio mewn gwirionedd ochr yn ochr â chydweithwyr y Llywodraeth i ddarparu'r Flwyddyn Antur, â pheidio ag amddifadu'r cymunedau hyn o'r cyfleoedd y mae'r digwyddiadau hyn yn eu cynnig iddynt. A byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad gan y Gweinidog i'r perwyl hwnnw.

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Kirsty Williams, for your questions. If I perhaps could return to my earlier response to Andrew R.T. Davies about basic payment schemes, and I mentioned the more complex cases that, obviously, you were referring to, which would take longer. And there has been communication with those farmers who will not have been paid by the end of this month to update them on progress. They should be advised of when they're going to receive payment. Final instalments of the part payments—that's the 20 per cent—will be made in April, in line with our published target. But, clearly, those points have been aired now today in terms of that group of farmers.

Diolch i chi, Kirsty Williams, am eich cwestiynau. Os efallai y caf ddychwelyd at fy ymateb yn gynharach i Andrew R.T. Davies am gynlluniau taliad sylfaenol, a chrybwyllais yr achosion mwy cymhleth, yr oeddech yn amlwg yn cyfeirio atynt, a fyddai'n cymryd mwy o amser. A chyfathrebwyd â'r ffermwyr hynny na fyddant wedi eu talu erbyn diwedd y mis hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd. Dylid rhoi gwybod iddynt pryd y byddant yn derbyn y taliad. Gwneir taliadau terfynol y rhandaliadau—hwnnw yw'r 20 y cant—ym mis Ebrill, yn unol â'r targed a gyhoeddwyd gennym. Ond, yn amlwg, mae'r pwyntiau hynny wedi'u trafod heddiw o ran y grŵp hwnnw o ffermwyr.

On your second point on mountain biking races in the Year of Adventure, of course we would look to consider this issue, and the Minister will have heard the points you made.

O ran eich ail bwynt ar rasys beicio mynydd yn y Flwyddyn Antur, wrth gwrs byddem yn ceisio ystyried y mater hwn, a bydd y Gweinidog wedi clywed y pwyntiau a godwyd gennych.

14:29 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I ask for a statement on winter resilience for the transport network, please, Minister, from the Minister for Economy, Science and Transport? I'm very concerned about the news yesterday that there were 69 crashes in just six hours across north Wales as a result of icy conditions on the roads. A number of local authorities did grit their roads in advance of the icy conditions, but, unfortunately, a number of others didn't. And it appears that there was different interpretation of the same data on the weather conditions in the north, and I wonder whether there might be an opportunity for the Minister to clarify the guidance that is given to local authorities on the gritting arrangements, and what should or should not trigger gritting taking place. I travelled on those roads yesterday. I saw the chaos that was being caused by some of those accidents that had taken place. The gritters were out by 8.30 a.m. and 9 o'clock on the roads when I was travelling, but, clearly, they hadn't been the night before, and many of those accidents could have been prevented. Could we have an urgent statement on this matter please?

A gaf i ofyn am ddatganiad ar gydnerthedd gaeaf y rhwydwaith trafnidiaeth, os gwelwch yn dda, Weinidog, gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth? Rwyf yn pryderu'n fawr iawn am y newyddion ddoe y bu 69 o ddamweiniau o fewn dim ond chwe awr ledled y gogledd o ganlyniad i amodau rhewllyd ar y ffyrdd. Fe wnaeth nifer o awdurdodau lleol raeanu eu ffyrdd cyn y tywydd rhewllyd, ond, yn anffodus, roedd sawl un arall nad oedd wedi gwneud hynny. Ac mae'n ymddangos y bu dehongliad gwahanol o'r un data ar yr amodau tywydd yn y gogledd, ac rwyf yn meddwl tybed a allai fod cyfle i'r Gweinidog egluro'r canllawiau a roddir i awdurdodau lleol ar y trefniadau graeanu, a'r hyn a fyddai'n penderfynu a fyddai angen graenu ai peidio. Teithiais ar y ffyrdd hynny ddoe. Gwelais yr anhrefn a oedd yn cael ei achosi gan rai o'r damweiniau hynny a oedd wedi digwydd. Roedd y peiriannau graeanu allan erbyn 8.30 a.m. a 9 o'r gloch ar y ffyrdd pan oeddwn i'n teithio, ond, yn amlwg, nid oeddent wedi bod yno y noson gynt, a gallai llawer o'r damweiniau hynny fod wedi'u hatal. A allem ni gael datganiad brys ar y mater hwn os gwelwch yn dda?

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of the guidance, of course this is the responsibility of local authorities, as you recognise, but in terms of clarifying the guidance, the Minister is happy to do that. This is something that local authorities should be working together on, and we do have an overarching response to winter pressures, which does involve fully local government in those discussions and preparations.

O ran y canllawiau, wrth gwrs, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw hyn, fel yr ydych yn cydnabod, ond o ran egluro'r canllawiau, mae'r Gweinidog yn hapus i wneud hynny. Mae hyn yn rhywbeth y dylai awdurdodau lleol fod yn gweithio gyda'i gilydd arno, ac mae gennym ymateb cyffredinol i bwysau'r gaeaf, sy'n cynnwys llywodraeth leol yn llawn yn rhan o'r trafodaethau a pharatoadau hynny.

14:30 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm sure, like me—and I will follow on from Darren Millar's question—that you will have been appalled by the numerous fatal road traffic accidents on Welsh roads over the Christmas period, and subsequently. And I'm not just talking about times when we've had icy conditions. Obviously, you'll be keen, like me, to express your sympathies to the families and communities who have been affected in this way. I would like a statement, Minister, from the Welsh Government, on what it's doing to ensure that Welsh roads are as safe as they can possibly be. I'm particularly keen to know how the Welsh Government is engaging with partners such as emergency services, the police and crime commissioners and the trunk road agencies to achieve this.

Weinidog, rwyf yn siŵr, fel finnau—a byddaf yn dilyn ymlaen o gwestiwn Darren Millar—y byddwch wedi eich brawychu gan y nifer o ddamweiniau traffig angheuol ar ffyrdd Cymru dros gyfnod y Nadolig, ac ar ôl hynny. Ac nid wyf ond yn sôn am adegau pan yr ydym wedi cael amodau rhewllyd. Yn amlwg, byddwch yn awyddus, fel finnau, i fynegi eich cydymdeimlad â theuluoedd a chymunedau sydd wedi eu heffeithio yn y ffordd hon. Hoffwn gael datganiad, Weinidog, gan Lywodraeth Cymru, ar yr hyn y mae'n ei wneud i sicrhau bod ffyrdd Cymru mor ddiogel ag y gallant fod. Rwyf yn arbennig o awyddus i wybod sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phartneriaid megis y gwasanaethau brys, y comisiynwyr heddlu a throseddu a'r asiantaethau cefnffyrdd er mwyn cyflawni hyn.

14:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, Christine Chapman, I'm glad also that you've raised this very serious matter because I'm sure we would all have been appalled by those accidents that we read about too regularly over the Christmas weeks, and our heartfelt sympathies, as you say, go to those families on the loss of often very young lives. The Minister will report on the whole picture in terms of circumstances, but she does actually receive police reports, for example, on a regular basis, particularly in relation to the trunk road network and serious incidents, and meets regularly with the four chief constables.

Wrth gwrs, Christine Chapman, rwyf yn falch hefyd eich bod wedi codi'r mater difrifol iawn hwn oherwydd rwyf yn siŵr y byddem i gyd wedi cael ein brawychu gan y damweiniau hynny y darllenasom amdanynt yn rhy aml dros yr wythnosau o amgylch y Nadolig, ac rydym yn anfon ein cydymdeimladau dwysaf, fel y dywedwch, at y teuluoedd hynny sydd wedi colli bywydau sydd yn aml yn ifanc iawn. Bydd y Gweinidog yn adrodd ar y darlun cyfan o ran yr amgylchiadau, ond mae'n wir ei bod hi'n derbyn adroddiadau gan yr heddlu, er enghraifft, yn rheolaidd, yn enwedig yn ymwneud â'r rhwydwaith cefnffyrdd a digwyddiadau difrifol, ac mae hi'n cwrdd yn rheolaidd â'r pedwar prif gwnstabl.

14:32 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I've been told by concerned mothers in Neath Port Talbot that the role of breastfeeding lead is soon to be scrapped in Public Health Wales, leaving breastfeeding with no representative in Public Health Wales or the Welsh Government. There is now a fear amongst those mothers who have come to me that there will be no proper promotion of breastfeeding, and that hospitals and health boards will no longer be incentivised to achieve baby-friendly initiative accreditation, and no funding for breastfeeding training for hospital staff as a result. I was wondering if we could have a statement from Welsh Government, from the Minister for Health and Social Services, to give some sort of sympathy to these mothers who are seeking help in this regard, at this time.

Weinidog, dywedodd mamau sy'n pryderu yng Nghastell-nedd Port Talbot wrthyf fod y swydd arweinydd bwydo ar y fron ar fin cael ei diddymu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan adael bwydo ar y fron heb unrhyw gynrychiolydd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru na Llywodraeth Cymru. Erbyn hyn mae ofn ymhlith y mamau hynny sydd wedi dod ataf na fydd unrhyw hyrwyddo priodol o fwydo ar y fron, ac ni fydd ysbytai a byrddau iechyd bellach yn cael eu cymell i gyflawni achrediad menter cyfeillgar i fabanod, ac ni fydd unrhyw arian ar gyfer hyfforddiant bwydo ar y fron i aelodau staff ysbytai o ganlyniad. Roeddwn yn meddwl tybed a allem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru, gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i estyn rhyw fath o gydymdeimlad i'r mamau hyn sy'n chwilio am gymorth yn hyn o beth, ar hyn o bryd.

I also wanted to ask a question that has come to light in an e-mail to me in the last 10 minutes. I do quite a lot of work with opencast mining in Wales, and it's been alleged that Miller Argent are to sell Ffos-y-fran in Merthyr. I wondered if we could have a statement from the environment Minister, because we want to try and understand whether they will be putting forward their restoration obligations in this regard, and that we won't have another Margam on our hands, where we have a void in the ground.

Rwyf hefyd yn awyddus i ofyn cwestiwn sydd wedi dod i'r amlwg mewn e-bost a ddaeth ataf yn y 10 munud diwethaf. Rwyf yn gwneud cryn dipyn o waith gyda chloddio glo brig yng Nghymru, a honnwyd bod Miller Argent yn mynd i werthu Ffos-y-fran ym Merthyr. Roeddwn yn meddwl tybed a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog amgylchedd, gan ein bod yn awyddus i geisio deall a fyddant yn cyflwyno eu rhwymedigaethau adfer yn hyn o beth, ac na fydd gennym Margam arall ar ein dwylo, lle y mae gennym wagle yn y ddaear.

My third request for a statement would be of the same Minister. I'm not picking on him in the new year. [Laughter.] [Interruption.] Yes. It is with regard to research carried out by Spinwatch with regard to fracking. Many insurance companies have said that they will not be giving insurance claims to householders who have fracking-related disturbances in their areas, and I was wondering if the Welsh Government had a view on this, especially given that there are applications in Pontrhydyfen in my area, in Llanharan, also in my area, and test running in Llangyfelach soon. Thank you.

Mae fy nhrydydd cais am ddatganiad gan yr un Gweinidog. Nid wyf yn pigo arno yn y flwyddyn newydd. [Chwerthin.] [Torri ar draws.] Ie. Mae'n ymwneud ag ymchwil a wnaed gan Spinwatch ynglŷn â ffracio. Mae llawer o gwmnïau yswiriant wedi dweud na fyddant yn caniatáu hawliadau yswiriant i ddeiliaid tai sydd a chynyrfiadau cysylltiedig â ffracio yn eu hardaloedd hwy, ac roeddwn yn meddwl a oes gan Lywodraeth Cymru safbwynt ar hyn, yn enwedig o ystyried bod gweithrediadau ym Mhontrhydyfen yn fy ardal i, yn Llanharan, sydd hefyd yn fy ardal i, ac arbrofion yn cael eu cynnal yn Llangyfelach cyn bo hir. Diolch.

14:34

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Bethan Jenkins. In terms of strong support for breastfeeding, we work closely as the Welsh Government with health boards to support them to improve breastfeeding rates across Wales. We recognise the strong links between breastfeeding and good health, and the role that breastfeeding can play in tackling child poverty. All maternity health visiting and neonatal services in Wales are working towards UNICEF UK baby-friendly accreditation, and the child health system in Wales has now been set up to enable more consistent collection of infant feeding data at birth, 10 days and six weeks from health boards, and progress is being made on improving collection rates. So, I hope that you will be able to report that back and assure your constituents of that positive response.

Diolch i chi, Bethan Jenkins. O ran cefnogaeth gref i fwydo ar y fron, rydym yn gweithio'n agos, fel Llywodraeth Cymru, gyda byrddau iechyd er mwyn eu cefnogi i wella cyfraddau bwydo ar y fron ledled Cymru. Rydym yn cydnabod y cysylltiadau cryf rhwng bwydo ar y fron ac iechyd da, a'r rhan y mae bwydo ar y fron yn gallu ei chwarae wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Mae pob gwasanaeth ymwelwyr iechyd mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru yn gweithio tuag at achrediad cyfeillgar i fabanod Cronfa Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Plant y DU, ac mae'r system iechyd plant yng Nghymru bellach wedi ei sefydlu i alluogi casglu data mwy cyson am fwydo babanod ar enedigaeth, ar ôl 10 diwrnod ac ar ôl chwe wythnos gan fyrddau iechyd, ac mae cynnydd yn cael ei wneud o ran gwella cyfraddau casglu. Felly, gobeithiaf y byddwch yn gallu adrodd hynny yn ôl a sicrhau eich etholwyr am yr ymateb cadarnhaol hwnnw.

We will have to await any announcement, which you have just been made aware of, which, certainly, myself and the Minister are not, in terms of your second point in relation to opencast mining. And also, on your third point, of course you're quite well aware of our moratorium in terms of fracking, and that has an important point, that this means that we are not progressing, even though there are those applications.

Bydd yn rhaid inni aros am unrhyw gyhoeddiad, yr ydych newydd gael gwybod amdano, nad oeddwn i, yn sicr, na'r Gweinidog yn ymwybodol ohono, o ran eich ail bwynt ynghylch cloddio glo brig. A hefyd, ar eich trydydd pwynt, wrth gwrs eich bod yn ymwybodol iawn o'n moratoriwm o ran ffracio, ac mae gan hynny bwynt pwysig, sy'n golygu nad ydym yn gwneud cynnydd, er bod y gweithrediadau hynny yn bodoli.

14:35

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I'd like to ask for two statements, if I may. Firstly, I'd like to request a statement from the Minister for Natural Resources on the status in law of green wedges, as opposed to green belts. You will be aware that the Cardiff local development plan, as approved by the planning inspector, proposes a green wedge, as opposed to a belt. However, as I understand it, wedges are only protected for the lifetime of the plan, whereas green belts enjoy a much broader statutory protection. I'd welcome a statement from the Minister to discuss this, to lay out the differences between the two sets of protections, and also to identify whether or not the Welsh Government would be minded to change the rules here in Wales to allow green wedges to have a greater protection in law.

Weinidog, hoffwn ofyn am ddau ddatganiad, os caf. Yn gyntaf, hoffwn ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar statws cyfreithiol lletemau glas, yn hytrach na lleiniau glas. Byddwch yn ymwybodol bod cynllun datblygu lleol Caerdydd, fel y'i cymeradwywyd gan yr arolygydd cynllunio, yn cynnig lletem las, yn hytrach na llain. Fodd bynnag, fel yr wyf yn deall, mae lletemau glas yn cael eu diogelu dim ond yn ystod oes y cynllun, tra bod lleiniau glas yn elwa ar warchodaeth statudol llawer ehangach. Byddwn yn croesawu datganiad gan y Gweinidog i drafod hyn, i wneud yn glir y gwahaniaethau rhwng y ddwy gyfres o ddiogeliadau, a hefyd i nodi a fyddai Llywodraeth Cymru o blaid newid y rheolau yma yng Nghymru neu beidio er mwyn sicrhau bod lletemau glas yn cael eu diogelu'n well gan y gyfraith.

Secondly, a number of my constituents have been raising with me the issue of asbestos in schools in my region, in Rhondda Cynon Taf in particular. And I was surprised by the Minister for Education and Skills' refusal to conduct an audit into where this might be a problem. I wonder whether I might ask, therefore, the Minister for Public Services to make a statement about the duties on local authorities when disposing of such properties that many contain asbestos. I am aware that there are two properties in Rhondda Cynon Taf that are currently on the market, but, obviously, may be empty for a period of time. Now, clearly, if there is asbestos—which, I am assured, is contained within those buildings—there is a danger, if those properties are left to become derelict, that that asbestos may not remain contained. I wonder whether we could have a statement urgently on the duties of public bodies to ensure that asbestos in buildings, under the process of transfer of ownership, remain protected, and that asbestos remains contained.

Yn ail, mae nifer o fy etholwyr wedi bod yn codi â mi y mater o asbestos mewn ysgolion yn fy rhanbarth i, yn Rhondda Cynon Taf yn arbennig. Ac fe'm synnwyd gan wrthodiad y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnal archwiliad i mewn i ble y gallai hyn fod yn broblem. Tybed a gaf i ofyn, felly, i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud datganiad am y dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol pan fyddant yn cael gwared ar eiddo o'r fath a allai gynnwys asbestos. Rwyf yn gwybod am ddau eiddo yn Rhondda Cynon Taf sydd ar y farchnad ar hyn o bryd, ond, yn amlwg, a allai fod yn wag am gyfnod. Nawr, yn amlwg, os oes asbestos—ac, fe'm sicrhawyd ei fod wedi ei gyfyngu yn yr adeiladau hynny—mae perygl, pe byddai'r adeiladau hynny yn cael eu gadael i adfeilio, na fyddai'r asbestos hwnnw yn parhau i fod wedi ei gyfyngu o fewn yr adeilad. Tybed a allem ni gael datganiad ar frys ar ddyletswyddau cyrff cyhoeddus i sicrhau bod asbestos mewn adeiladau, o dan y broses o drosglwyddo perchnogaeth, yn dal i gael ei warchod, a bod asbestos yn parhau i gael ei gyfyngu o fewn yr adeilad.

14:37

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Eluned Parrott, you raise issues relating to green wedges and greenfield sites, which, of course, are the responsibility in terms of Planning Policy Wales and the guidance of the Minister. Of course, there will be opportunities for you to follow up in questions to the Minister on those points. Of course, in terms of asbestos in schools, where local authorities have taken responsibility, and guidance has been given by the Welsh Government, these are key issues, which the Minister is aware of.

Wel, Eluned Parrott, rydych yn codi materion yn ymwneud â lletemau glas a safleoedd tir glas, sydd, wrth gwrs, yn gyfrifoldeb o ran Polisi Cynllunio Cymru a chanllawiau'r Gweinidog. Wrth gwrs, bydd cyfleoedd i chi ofyn mwy yn ystod cwestiynau i'r Gweinidog ar y pwyntiau hynny. Wrth gwrs, o ran asbestos mewn ysgolion, lle y mae awdurdodau lleol wedi cymryd cyfrifoldeb, ac y rhoddwyd arweiniad gan Lywodraeth Cymru, mae'r rhain yn faterion allweddol, y mae'r Gweinidog yn ymwybodol ohonynt.

14:38

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was also going to actually call for a statement on road safety in cold weather. You've already responded to Darren Millar on that, stating that the Minister will be happy to clarify the guidance. Could I, therefore, ask you to ensure that that is done—I would say, aggressively, but with vigour—and take note that Flintshire, Denbighshire and Anglesey had the vast majority of accidents, but had failed to grit the previous evening? Their council chiefs said that overnight freezing temperatures had not been forecast, and that they reacted when the temperatures dropped, even though Gwynedd and Conwy confirm that they had gritted on the previous routes. And I can confirm, as a resident of Flintshire, that I went out to my car at 9 p.m. the previous evening—the Sunday evening—and my car was already fully iced up, and my drive and the adjoining road were already very slippy to walk on.

Roeddwn i hefyd yn mynd i alw mewn gwirionedd am ddatganiad ar ddiogelwch ar y ffyrdd mewn tywydd oer. Rydych eisoes wedi ymateb i Darren Millar am hynny, gan nodi y bydd y Gweinidog yn falch o egluro'r canllawiau. A gaf i, felly, ofyn i chi sicrhau y gwneir hynny—byddwn yn dweud, mewn modd penderfynol, llawn egni—a nodi bod y mwyafrif helaeth o ddamweiniau wedi digwydd yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych ac Ynys Môn, nad oeddent wedi graeanu y noson gynt? Dywedodd penaethiaid eu cynghorau nad oedd y rhagolygon wedi darogan tymereddau rhewi dros nos, a'u bod wedi ymateb pan ostyngodd y tymheredd, er bod Gwynedd a Chonwy yn cadarnhau eu bod wedi graeanu ar eu llwybrau blaenoriaethol. A gallaf gadarnhau, fel un o drigolion sir y Fflint, fy mod i wedi mynd allan at fy nghar am 9p.m. y noson gynt—fin nos ddydd Sul—ac roedd fy nghar wedi rhewi eisoes, ac roedd y lôn bach at y tŷ a'r ffordd gyfagos eisoes yn llithrig iawn i gerdded arnynt.

14:38

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, Mark Isherwood, it is important, again, to repeat what the First Minister said earlier on, which is very clear, and I'm sure that the Minister for Natural Resources will be saying that these weather events were unprecedented, and they weren't forecast. And it's very clear that, therefore, we need to look at the impact of climate change as a whole, and I'm sure that the Minister will be addressing that in his statement.

Rwyf yn credu, Mark Isherwood, ei bod yn bwysig, unwaith eto, i ailadrodd yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog yn gynharach, sydd yn glir iawn, ac rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn dweud bod digwyddiadau tywydd hyn yn ddigynsail, ac nid oedd rhagolygon ohonynt. Ac mae'n glir iawn, felly, bod arnom angen edrych ar effaith y newid yn yr hinsawdd yn ei gyfanrwydd, ac rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn mynd i'r afael â hynny yn ei ddatganiad.

14:39 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I join Bethan Jenkins in asking on the issues about breastfeeding, because I've also received many receipts from constituents regarding the issue? It's not public health boards, it's Public Health Wales that has made the decision of, apparently, removing the breastfeeding lead and the programme. Therefore, can you ask whether the Minister can clarify the position on who will now lead the breastfeeding programme here in Wales?

Weinidog, a gaf i ymuno â Bethan Jenkins wrth ofyn am y materion ynglŷn â bwydo ar y fron, oherwydd fy mod innau hefyd wedi cael nifer o dderbyniadau gan etholwyr ynghylch y mater hwn? Nid byrddau iechyd y cyhoedd, ond Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi gwneud y penderfyniad, mae'n debyg, i gael gwared ar arweinydd bwydo ar y fron a'r rhaglen. Felly, a wnewch chi ofyn os yw'r Gweinidog yn gallu egluro'r sefyllfa o ran pwy fydd bellach yn arwain y rhaglen bwydo ar y fron yma yng Nghymru?

And, second point, we've heard much since we last were in this Chamber on the future of the steel industry here in Wales, and, particularly in my constituency, the Port Talbot plant, where there is an anticipated statement to be made by Tata, with the possible consequence of the loss of many jobs within that area. Could the Government actually make a statement on the actions it is now taking and the discussions it's having with Tata? I've met with the local unions, and they are very concerned over the future. It seems that the Welsh Government actually is the only Government in the UK that is determined to do something about steel. Can you therefore lead on this and make sure that we get a message clear to Tata on where we want to take steel and the work we can do to help the workers in the plant?

Ac, o ran yr ail bwynt, clywsom lawer ers y tro diwethaf yr oeddem yn y Siambr hon, ar ddyfodol y diwydiant dur yma yng Nghymru, ac, yn enwedig yn fy etholaeth i, mae'r gwaith ym Mhort Talbot, lle y disgwylir datganiad gan Tata, gyda'r canlyniad posibl o golli llawer o swyddi yn yr ardal honno. A wnaiff y Llywodraeth wneud datganiad am y camau y mae yn eu cymryd nawr a'r trafodaethau y mae'n eu cynnal gyda Tata? Cyfarfûm â'r undebau lleol, ac maent yn bryderus iawn ynghylch y dyfodol. Mae'n ymddangos mai Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd yw'r unig Lywodraeth yn y DU sy'n benderfynol o wneud rhywbeth ynglŷn â dur. Felly, a wnewch chi arwain ar hyn a gwneud yn siŵr ein bod yn cyfleu neges glir i Tata ynglŷn â ble yr ydym yn awyddus i fynd o ran dur a'r gwaith y gallwn ei wneud i helpu'r gweithwyr yn y gwaith dur?

14:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank David Rees, the Member for Aberavon, for taking the lead as a local Member in terms of defending and supporting the steel industry and Tata in his constituency? I believe that no-one has defended the steel industry more than the Welsh Government. It's vital to the future of the Welsh economy, the public and private sector. We need to work together immediately to ensure that we have a viable future here in Wales, and we are pressing the UK Government—continuing to press them—for swift action on key issues, and we are determined to ensure there continues to be a sustainable steelmaking presence in Wales.

Hoffwn ddiolch i David Rees, yr Aelod dros Aberafan, am gymryd yr awenau fel Aelod lleol o ran amddiffyn a chefnogi'r diwydiant dur a Tata yn ei etholaeth? Credaf nad oes neb wedi amddiffyn y diwydiant dur yn fwy na Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol i ddyfodol economi Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd ar unwaith i sicrhau bod gennym ddyfodol hyfyw yma yng Nghymru, ac rydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU—yn parhau i bwyso arni—am weithredu cyflym ar faterion allweddol, ac rydym yn benderfynol o sicrhau bod presenoldeb cynhyrchu dur cynaliadwy yn parhau i fodoli yng Nghymru.

The Minister for economy is meeting with industry leaders across Wales to see again what she can do and what they can do to make them more competitive and to prevent more job losses. I think one of the important points last week, when I announced £8.6 million of European Union funding for engineering doctorates at the new Swansea campus, was that that event was attended by young graduates and indeed managers who had benefited from those doctorates that had been funded by the European Union, and they said how important for Tata this investment was.

Mae Gweinidog yr Economi yn cwrdd ag arweinwyr y diwydiant ledled Cymru i weld eto beth y gall hi ei wneud a'r hyn y gallant ei wneud i'w gwneud yn fwy cystadleuol ac atal colli mwy o swyddi. Credaf mai un o'r pwyntiau pwysig yr wythnos diwethaf, pan gyhoeddais £8.6 miliwn o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer doethuriaethau peirianneg yn y campws newydd yn Abertawe, oedd y ffaith bod graddedigion ifanc ac yn wir rheolwyr a oedd wedi elwa ar y doethuriaethau hynny yn bresennol yn y digwyddiad, a oedd wedi'u hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd, a dywedasant pa mor bwysig oedd y buddsoddiad hwn i Tata.

14:41 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Business Minister, I wonder if I might ask you to request the health Minister to bring forth a statement regarding the pressures upon the ambulance service in South Wales East. On Sunday afternoon, a constituent of mine waited 50 minutes for an ambulance although living within a short distance of both the city centre and the local ambulance station. When the ambulance arrived, it came from the Bristol area. I'm given to understand that there were no local ambulances available after 3 o'clock on Sunday afternoon. I expect that the Minister would like the opportunity to reassure potential patients within south-east Wales that the ambulance service remains robust.

Weinidog Busnes, tybed a gaf i ofyn i chi ofyn i'r Gweinidog iechyd wneud datganiad ynghylch y pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans yn Nwyrain De Cymru. Brynhawn ddydd Sul, arhosodd un o fy etholwyr 50 munud am ambiwlans er ei fod yn byw nid nepell o ganol y ddinas a'r orsaf ambiwlans leol hefyd. Pan gyrhaeddodd yr ambiwlans, roedd wedi dod o ardal Bryste. Rwyf ar ddeall nad oedd unrhyw ambiwlansys lleol ar gael ar ôl 3 o'r gloch brynhawn Sul. Rwyf yn disgwyl y byddai'r Gweinidog yn dymuno cael y cyfle i roi sicrwydd i gleifion posibl yn y de-ddwyrain bod y gwasanaeth ambiwlans yn parhau i fod yn gadarn.

14:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank William Graham for that question today and also for the importance of recognising the difficult times that we have had over Christmas in terms of the pressures on ambulance services and through accident and emergency. I think you will be reassured that the latest published figures show that, in terms of ambulance response times, 70.8 per cent of the most immediately life-threatening calls to the Welsh ambulance service were receiving a response within eight minutes during November. It's clearly important that we do address particular cases as the one you have, and I'm sure you will be raising that, but I think the fact that we are seeing the Welsh ambulance service achieving a new response time target and helping to deliver excellent patient outcomes as the pilot continues is important.

Diolchaf i William Graham am y cwestiwn yna heddiw a hefyd am bwysigrwydd cydnabod y cyfnod anodd yr ydym wedi ei gael dros y Nadolig o ran y pwysau ar wasanaethau ambiwlans a thrwy adrannau damweiniau ac achosion brys. Rwyf yn credu y byddwch yn cael eich calonogi bod y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod, o ran amseroedd ymateb ambiwlansys, 70.8 y cant o'r galwadau mwyaf bygythiol i fywyd a wnaed i wasanaeth ambiwlans Cymru wedi cael ymateb o fewn wyth munud yn ystod mis Tachwedd. Mae'n amlwg yn bwysig ein bod yn rhoi sylw i achosion penodol fel yr un sydd gennych chi, ac rwy'n siŵr y byddwch yn codi hynny, ond rwyf yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn gweld gwasanaeth ambiwlans Cymru yn cyflawni targed amser ymateb newydd ac yn helpu i sicrhau canlyniadau ardderchog i gleifion wrth i'r cynllun arbrofol barhau.

14:43 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, two requests, if I may. Firstly, you've had a number of queries and requests today for action on the problems with road safety over the new year. Can I also echo those calls for action? There were a number of accidents on the A466 link road just outside Chepstow that need to be looked at. Last year, the Minister for Economy, Science and Transport did pledge to hold a review of the trunk road network in Wales. I wonder if we could have an update on that and on decisions that have been taken in the wake of that review.

Weinidog, dau gais, os caf. Yn gyntaf, rydych chi wedi cael nifer o ymholiadau heddiw yn gofyn am weithredu ar y problemau ynghylch diogelwch ar y ffyrdd dros y flwyddyn newydd. A gaf i hefyd adleisio'r galwadau hynny am weithredu? Bu nifer o ddamweiniau ar y ffordd gyswllt A466 ychydig y tu allan i Gas-gwent y mae angen eu hystyried. Y llynedd, gwnaeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth addewid i gynnal adolygiad o'r rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru. Tybed a allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny ac ar benderfyniadau a wnaethpwyd yn sgil yr adolygiad hwnnw.

Secondly, over the Christmas period, the older people's commissioner has praised Monmouthshire County Council for its new scheme for introducing flexible hours for carers. It seems to me that this scheme has a lot to commend itself. I wonder if you could look in more detail at this and at whether Welsh Government will bring forward proposals for rolling out this good practice with regard to looking out for carers in Wales across the rest of the country.

Yn ail, dros gyfnod y Nadolig, mae'r comisiynydd pobl hŷn wedi canmol Cyngor Sir Fynwy am ei gynllun newydd ar gyfer cyflwyno oriau hyblyg i ofalwyr. Mae'n ymddangos i mi fod gan y cynllun hwn lawer i'w ganmol. Tybed a allech chi edrych yn fanylach ar hyn ac ar ba un a fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion ar gyfer cyflwyno yr arfer da hwn o ran gofalu am ofalwyr yng Nghymru ar draws gweddill y wlad.

14:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Nick Ramsay. I want to assure all Members—and, of course, you've raised it again as a Member—about the serious concerns arising from road safety and road conditions, some of which were related to the weather and weather conditions. But, it is something that I've already said that the Minister is going to look at in the round in terms of road safety, and, of course, that would include trunk roads. I've already mentioned the fact that she is working very closely with the four chief constables as far as that's concerned, so she will be returning with a response to that to the Assembly. And, of course, we welcome any examples of good practice that can be identified by the older people's commissioner particularly, in her role—good practice particularly relating to carers and the support that can be given by Monmouthshire County Council. I know that we will be taking account of that and learning from good practice.

Diolch i chi, Nick Ramsay. Rwyf eisiau sicrhau yr Aelodau i gyd—ac wrth gwrs, rydych chi wedi ei godi eto fel Aelod—am y pryderon difrifol sy'n codi o ddiogelwch ar y ffyrdd ac amodau ar y ffyrdd, rhai ohonynt yn gysylltiedig â'r tywydd ac amodau'r tywydd. Ond, mae'n rhywbeth yr wyf eisoes wedi ei ddweud bod y Gweinidog yn mynd i edrych arno yn ei gyfanrwydd o ran diogelwch ar y ffyrdd, ac, wrth gwrs, byddai hynny'n cynnwys cefnffyrdd. Soniais eisoes am y ffaith ei bod yn gweithio'n agos iawn â'r pedwar prif gwnstabl cyn belled ag y mae hynny yn y cwestiwn, felly bydd yn dychwelyd gydag ymateb i hynny i'r Cynulliad. Ac, wrth gwrs, rydym yn croesawu unrhyw enghreifftiau o arfer da y gellir ei nodi gan y comisiynydd pobl hŷn, yn enwedig, yn ei swyddogaeth—arfer da yn ymwneud yn arbennig â gofalwyr a'r gefnogaeth y gellir ei rhoi gan Gyngor Sir Fynwy. Gwn y byddwn yn ystyried hynny a dysgu oddi wrth arfer da.

14:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:45

## 3. Datganiad: Cynhyrchu Ynni Lleol

## 3. Statement: Local Energy Generation

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the Minister for Natural Resources on local energy generation—Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol ar gynhyrchu ynni lleol—Carl Sargeant.

14:45 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. This statement provides an update on the action I have taken to deliver on local energy since the publication of 'Green Growth Wales: Local Energy' in July last year. I'm pleased to say that all the actions proposed within the year are done or well under way.

Diolch i chi, Lywydd. Mae'r datganiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerais i gyflawni ar ynni lleol ers cyhoeddi 'Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol' ym mis Gorffennaf y llynedd. Rwy'n falch o ddweud bod yr holl gamau gweithredu a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn wedi eu gwneud neu maent ar y gweill.

I spent a very productive time in December at the climate change negotiations in Paris. We were a key part of the UK delegation, showing our clear commitment to becoming a globally responsible Wales. The impacts of climate change are becoming more visible. We were told to expect warmer, wetter winters, and more frequent extreme weather events. The recent effects of flooding have been impossible to ignore.

Treuliais amser cynhyrchiol iawn ym mis Rhagfyr yn y trafodaethau newid yn yr hinsawdd ym Mharis. Roeddem yn rhan allweddol o ddirprwyaeth y DU, gan ddangos ein hymrwymiad clir i ddod yn Gymru gyfrifol yn fyd-eang. Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn dod yn fwy gweladwy. Dywedwyd wrthym i ddisgwyl gaeafau cynhesach, gwlypach, a digwyddiadau tywydd eithafol amlach. Mae effeithiau diweddar llifogydd wedi bod yn amhosibl eu hanwybyddu.

We need to act fast to reduce emissions and to preserve and transition economic activity in Wales. The UK climate change committee has highlighted the costs of delaying action and the importance of assessing fully the costs and wider benefits that can be realised by reducing emissions.

Mae angen i ni weithredu'n gyflym i leihau allyriadau ac i warchod a newid gweithgarwch economaidd yng Nghymru. Mae pwyllgor newid yn yr hinsawdd y DU wedi tynnu sylw at gostau gohirio gweithredu a phwysigrwydd asesu yn llawn y costau a'r manteision ehangach y gellir eu gwireddu drwy leihau allyriadau.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 is designed to improve the wellbeing of Wales through ensuring that all our actions provide social, economic, cultural, and environmental benefits. Energy underpins our whole way of life in today's society. It is a fundamentally important thing for us to transform the energy system here in Wales. Delivering on local energy can provide multiple benefits to help achieve our seven wellbeing goals. The renewable energy sector has seen strong growth, and we now have over 51,000 renewable energy installations across Wales. The sector now needs our support for it to continue to flourish.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi ei chynllunio i wella lles Cymru drwy sicrhau bod ein holl weithredoedd yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae ynni yn sail i'n holl ffordd o fyw yng nghymdeithas heddiw. Mae'n rhywbeth sylfaenol bwysig i ni weddnewid y system ynni yma yng Nghymru. Gall cyflawni ar ynni lleol gynnig manteision lluosog i helpu i gyflawni ein saith nod lles. Mae'r sector ynni adnewyddol wedi gweld twf cryf, ac erbyn hyn mae gennym dros 51,000 o osodiadau ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Mae'r sector angen ein cefnogaeth nawr er mwyn gallu parhau i ffynnu.

'Green Growth Wales: Local Energy' sets out our four areas of action. Firstly, leadership: the UK Government's energy policy has created significant uncertainty. Recent feed-in tariff announcements provided more certainty but will reduce our ability to deliver local generation in Wales. The trajectory of support for renewables is clearly downward, and there is a difficult balance to strike between the affordability of energy and supporting sustainable economic growth. We are working, through our support services, to find ways to deliver projects without relying on subsidy for the long term.

Mae 'Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol' yn pennu ein pedwar maes gweithredu. Yn gyntaf, arweinyddiaeth: mae polisi ynni Llywodraeth y DU wedi creu ansicrwydd sylweddol. Mae cyhoeddiadau tariff cyflenwi trydan diweddar wedi darparu mwy o sicrwydd, ond bydd yn lleihau ein gallu i ddarparu cynhyrchu lleol yng Nghymru. Mae trywydd cefnogaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy yn amlwg tuag at i lawr, ac mae cydbwysedd anodd i'w daro rhwng fforddiadwyedd ynni a chefnogi twf economaidd cynaliadwy. Rydym yn gweithio, drwy ein gwasanaethau cymorth, i ddod o hyd i ffyrdd i gyflawni prosiectau heb ddibynnu ar gymhorthdal ar gyfer y tymor hir.

Selling electricity directly at a sensible price is vital for new projects. Ofgem, the energy regulator, is consulting on principles-based regulation in the energy retail market. However, we must not delay if we are to enable Welsh energy companies to continue to thrive. We continue to work with the UK Government and Ofgem to secure the transformation in the market that we need for Wales.

Mae gwerthu trydan yn uniongyrchol am bris synhwyrol yn hanfodol ar gyfer prosiectau newydd. Mae Ofgem, y rheoleiddiwr ynni, yn ymgynghori ar reoleiddio sy'n seiliedig ar egwyddorion yn y farchnad manwerthu ynni. Fodd bynnag, rhaid inni beidio ag oedi os ydym am alluogi cwmnïau ynni Cymru i barhau i ffynnu. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac Ofgem i sicrhau'r gweddnewid yn y farchnad sydd ei angen arnom ar gyfer Cymru.

Where we own the levers, we have been breaking new ground. The Environment (Wales) Bill will enable Wales's resources to be managed in a more proactive, sustainable and joined-up way. The Bill introduces statutory climate change targets and carbon budgeting. Low-carbon energy generation and energy efficiency will be a key element of delivering these too.

Pan ein bod yn berchen ar yr ysgogwyr, rydym wedi bod yn torri tir newydd. Bydd Bil Amgylchedd (Cymru) yn ei gwneud yn bosibl i adnoddau Cymru gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae'r Bil yn cyflwyno targedau newid yn yr hinsawdd a chyllidebu carbon statudol. Bydd cynhyrchu ynni carbon isel ac effeithlonrwydd ynni yn elfen allweddol o gyflawni'r rhain hefyd.

The public sector has a significant leadership role to play in Wales, and I'm already providing support for public bodies in Wales to accelerate and de-risk energy generation and energy efficient projects. I am pleased to announce that I have been able to secure an additional £1.5 million from the European Investment Bank's ELENA programme to improve the energy performance of public bodies here in Wales. We will now be working up an offer, which I anticipate will deliver around £30 million of low-risk investment in energy efficiency over the next three years.

Mae gan y sector cyhoeddus swyddogaeth arweiniol bwysig i'w chwarae yng Nghymru, ac rwyf eisoes yn darparu cymorth i gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflymu a dileu risg cynhyrchu ynni a phrosiectau ynni effeithlon. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi fy mod wedi gallu sicrhau £1.5 miliwn ychwanegol o raglen ELENA Banc Buddsoddi Ewrop i wella perfformiad ynni cyrff cyhoeddus yma yng Nghymru. Byddwn yn awr yn paratoi cynnig, yr wyf yn rhagweld fydd yn darparu tua £30 miliwn o fuddsoddiad risg isel mewn effeithlonrwydd ynni dros y tair blynedd nesaf.

We have also worked with local authorities to develop smart living demonstrators. One of the key projects is working with Bridgend, Energy Technologies Institute and Energy Systems Catapult to explore opportunities for smarter systems and heat generation.

Rydym hefyd wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu arddangoswyr byw yn glyfar. Mae un o'r prosiectau allweddol yn gweithio gyda Phen-y-bont ar Ogwr, Y Sefydliad Technolegau Ynni a Chatapwlt Systemau Ynni, i archwilio cyfleoedd ar gyfer systemau craffach a chynhyrchu gwres.

My second priority area is overcoming barriers to delivering local energy. However, we must ensure that energy developments in Wales are appropriate and acceptable to the public. The forthcoming changes to the consenting regime promised through the UK energy and Wales Bills, as well as the implementation of the developments of national significance regime onshore mean that, in future, most renewable energy decisions will be taken in Wales for the benefit of the people of Wales.

Fy ail faes blaenoriaeth yw goresgyn rhwystrau i ddarparu ynni lleol. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni sicrhau bod datblygiadau ynni yng Nghymru yn briodol ac yn dderbyniol i'r cyhoedd. Mae'r newidiadau sydd ar ddod i'r drefn ganiatáu a addawyd drwy Filiau ynni'r DU a Chymru, yn ogystal â gweithredu'r drefn datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar y tir yn golygu, yn y dyfodol, y bydd y rhan fwyaf o benderfyniadau ynni adnewyddadwy yn cael eu gwneud yng Nghymru er budd pobl Cymru.

We are also delivering on the third strand—supporting local action. For example, this year, we made £3.5 million available to support locally owned renewable energy projects.

Rydym hefyd yn cyflenwi ar y drydedd elfen— cefnogi gweithredu lleol. Er enghraifft, eleni, gwnaethom sicrhau bod £3.5 ar gael i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy sydd ym mherchnogaeth leol.

I am currently consulting on proposals for the fourth strand, namely improving access to finance—'Green Growth Wales: Investment Support'. I welcome views on the proposed suite of interventions to support and accelerate investment in resource efficiency, renewables and waste infrastructure.

Ar hyn o bryd rwy'n ymgynghori ar gynigion ar gyfer y bedwaredd elfen, sef gwella mynediad at gyllid—'Twf Gwyrdd Cymru: Cymorth Buddsoddi'. Rwy'n croesawu barn ar y gyfres arfaethedig o ymyriadau i gefnogi a chyflymu buddsoddiad mewn effeithlonrwydd adnoddau, ynni adnewyddadwy a seilwaith gwastraff.

The potential pipeline of energy efficiency, heat and renewable energy projects identified already by local authorities alone is approaching £400 million in capital value.

Mae'r bibell posibl o ran prosiectau effeithlonrwydd ynni, gwres ac ynni adnewyddadwy a nodwyd eisoes gan yr awdurdodau lleol ei hunain yn agos at £400 miliwn mewn gwerth cyfalaf.

Our support will help the public sector meet its sustainable development duties and support private and third sector projects that continue to help with our wellbeing goals. I will continue to make it my priority to set the direction for Wales to deliver local energy and the long-term social, environmental and economic benefits it can bring for us all here in Wales. Thank you.

Bydd ein cefnogaeth yn helpu'r sector cyhoeddus i gyflawni ei ddyletswyddau datblygu cynaliadwy ac yn cefnogi prosiectau sector preifat a'r trydydd sector sy'n parhau i helpu gyda'n nodau lles. Byddaf yn parhau i'w gwneud yn flaenoriaeth i osod y cyfeiriad ar gyfer Cymru er mwyn darparu ynni lleol a'r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tymor hir y gall eu rhoi i ni i gyd yma yng Nghymru. Diolch.

14:51

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for this statement. Can I take this opportunity, too, to wish you a very happy new year? But your statement is at some odds with what the select committee has heard from those seeking to establish small-scale local community energy projects. It was clear that these localised projects often needed help with various processes involved in the application process. Will you be looking to make available skilled advisers to these projects at an early stage, either through your own offices or local authorities?

Diolch i chi, Weinidog, am y datganiad hwn. A gaf i gymryd y cyfle hwn, hefyd, i ddymuno blwyddyn newydd dda iawn i chi? Ond mae eich datganiad yn groes braidd i'r hyn y mae'r pwyllgor dethol wedi'i glywed gan y rhai sy'n ceisio sefydlu prosiectau ynni cymunedol lleol ar raddfa fach. Roedd yn amlwg bod y prosiectau lleol hyn yn aml angen help gyda gwahanol brosesau sy'n ymwneud â'r broses ymgeisio. A fyddwch chi'n ceisio sicrhau bod cynghorwyr medrus ar gael i'r prosiectau hyn yn gynnar, naill ai drwy eich swyddfa chi eich hun neu drwy awdurdodau lleol?

I'm also disappointed not to see any reference in your statement regarding initiatives to drive forward the effective retrofitting of older properties to ensure that these properties are more energy efficient. These projects have the potential to significantly reduce household bills and have the potential to make a major impact on carbon emissions.

Rwy'n siomedig hefyd o beidio â gweld unrhyw gyfeiriad yn eich datganiad ynglŷn â chynlluniau i fwrw ymlaen ag ôl-osod effeithiol ar eiddo hŷn i sicrhau bod y tai hyn yn fwy effeithlon o ran ynni. Mae gan y prosiectau hyn y potensial i leihau biliau aelwydydd yn sylweddol ac mae ganddynt y potensial i gael effaith sylweddol ar allyriadau carbon.

14:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her contribution. The Member will be aware of future programmes and current programmes. The Ynni'r Fro scheme is a scheme where we have been helping many communities to enable themselves to create local energy schemes, with mixed success. But I do understand that it's very difficult for some communities to start this programme, and what I'm trying to create, within my department and with external stakeholders, is a portal where people can access information to help them start to develop these community projects, and not reinventing the wheel again. If they've been through some difficult challenges, whether that be in planning or development, we should have a hub-type development to continue to support, and the Ynni'r Fro scheme is one of those portals that we use.

Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o raglenni yn y dyfodol a rhaglenni cyfredol. Mae cynllun Ynni'r Fro yn gynllun lle'r ydym wedi bod yn helpu llawer o gymunedau i'w galluogi eu hunain i greu cynlluniau ynni lleol, gyda llwyddiant cymysg. Ond rwy'n deall ei bod yn anodd iawn i rai cymunedau ddechrau'r rhaglen hon, a'r hyn yr wyf i'n ceisio ei greu, yn fy adran a gyda rhanddeiliaid allanol, yw porth lle gall pobl gael gafael ar wybodaeth i'w helpu i ddechrau datblygu'r prosiectau cymunedol hyn, ac nid ailddyfeisio'r olwyn eto. Os ydynt wedi bod trwy rhai heriau anodd, boed hynny wrth gynllunio neu ddatblygu, dylai fod gennym ddatblygiad o fath canolfan i barhau i gefnogi, ac mae cynllun Ynni'r Fro yn un o'r pyrth hynny a ddefnyddiwn.

We have a very successful programme on energy efficiency with the Nest and Arbed schemes. Unlike England, where there is a significant reduction being made in energy efficiency, we will continue to make it one of our priorities here in Wales. It's not about just creating clever technologies to create more energy; we have to make people's homes and businesses much more energy efficient, too, to reduce our impact on the climate. That is something that we continue to do within this department.

Mae gennym raglen lwyddiannus iawn ar effeithlonrwydd ynni gyda'r cynlluniau Nest ac Arbed. Yn wahanol i Loegr, lle mae gostyngiad sylweddol yn cael ei wneud mewn effeithlonrwydd ynni, byddwn yn parhau i'w wneud yn un o'n blaenoriaethau yma yng Nghymru. Nid yw'n ymwneud â chreu technolegau clyfar yn unig i greu mwy o ynni; mae'n rhaid i ni wneud cartrefi a busnesau pobl yn llawer mwy effeithlon o ran ynni, hefyd, i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn parhau i'w wneud o fewn yr adran hon.

14:53 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Minister. Obviously, local energy generation is hugely important, not least because energy generated locally stays in Wales, as opposed to companies coming in from the outside that then have the capacity to export the profits. I've had a quick look at the toolkit that you commissioned from the Energy Saving Trust, which looks very clear, so we aren't reinventing the wheel, and local community groups can see exactly how you do it. You mentioned a figure of £30 million investment over three years. Are you minded to set some targets for local authorities, so all local authorities are thinking actively about this and realising that this is a key part of their future role in leading their local communities?

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Yn amlwg, mae cynhyrchu ynni lleol yn hynod o bwysig, yn bennaf oherwydd bod ynni a gynhyrchir yn lleol yn aros yng Nghymru, yn hytrach na bod cwmnïau yn dod i mewn o'r tu allan sydd wedyn â'r gallu i allforio'r elw. Rwyf wedi cael golwg sydyn ar y pecyn cymorth a gomisiynwyd gennych gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, sy'n ymddangos yn glir iawn, felly nid ydym yn ailddyfeisio'r olwyn, a gall grwpiau cymunedol lleol weld yn union sut yr ydych yn ei wneud. Soniasoch am ffigur o £30 miliwn o fuddsoddiad dros dair blynedd. A ydych chi'n bwriadu gosod rhai targedau ar gyfer awdurdodau lleol, fel bod pob awdurdod lleol yn meddwl yn weithredol am hyn ac yn sylweddoli bod hyn yn rhan allweddol o'u swyddogaeth wrth arwain eu cymunedau lleol yn y dyfodol?

14:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her really important question and welcome her positive remarks around the toolkit. Can I say that many local authorities already have this on their agenda? They recognise the importance of their actions and the implications of investment that can make clever solutions for communities, including the public sector as a whole. I've got many examples. I made reference to Bridgend council earlier regarding the smart systems and district heating schemes. I know there's a scheme being worked up in my friend Alun Davies's constituency in Blaenau Gwent regarding a new local area energy model focused on local benefits. This is something, again, that many local authorities are starting to do. They will have to address this through the wellbeing of future generations Act too—their impact on the climate. I think we've got a suite of tools here that can help develop a much more cohesive approach to a Wales solution to local energy projects, but it is taking a little bit of time to get momentum behind that. I won't be introducing targets for them at this point, but I do believe it's something that we may want to consider in the future.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn pwysig iawn ac rwy'n croesawu ei sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r pecyn cymorth. A gaf i ddweud bod gan lawer o awdurdodau lleol hyn ar eu hagenda eisoes? Maent yn cydnabod pwysigrwydd eu gweithredoedd a goblygiadau buddsoddiad a all wneud atebion clyfar i gymunedau, gan gynnwys y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Mae gen i lawer o enghreifftiau. Cyfeiriais at gyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn gynharach ynghylch y systemau clyfar a chynlluniau gwresogi ardal. Rwy'n gwybod bod cynllun yn cael ei lunio yn etholaeth fy ffrind Alun Davies ym Mlaenau Gwent ynghylch model ynni ardal leol newydd sy'n canolbwyntio ar fuddion lleol. Mae hyn yn rhywbeth, unwaith eto, y mae llawer o awdurdodau lleol yn dechrau ei wneud. Bydd yn rhaid iddynt roi sylw i hyn drwy'r Ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol hefyd—eu heffaith ar yr hinsawdd. Rwy'n credu bod gennym gyfres o offer yma a allai helpu i ddatblygu dull llawer mwy cydlynol i ateb Cymru i brosiectau ynni lleol, ond mae'n cymryd ychydig o amser i gael momentwm y tu ôl i hynny. Ni fyddaf yn cyflwyno targedau ar eu cyfer ar hyn o bryd, ond rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y byddwn yn dymuno ei ystyried yn y dyfodol.

14:55 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. It's a useful update on certain aspects of energy policy, but I have to say that when I saw in the business proposal that there was to be a statement on local energy generation, I thought to myself, 'New year, new impetus from the Welsh Government, and new bold initiatives to make community energy the norm in Wales and maybe not the rarity that it currently is'. In that respect, Minister, I have to say this is very much an underwhelming statement from the Government today. Let's be honest, the Welsh Government record on community energy is quite abysmal.

Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad. Mae'n ddiweddariad defnyddiol ar rai agweddau ar bolisi ynni, ond mae'n rhaid i mi ddweud pan welais yn y cynnig busnes y byddai datganiad am gynhyrchu ynni lleol, roeddwn yn meddwl wrthyf fy hun, 'Blwyddyn newydd, hwb newydd oddi wrth Lywodraeth Cymru, a mentrau beiddgar newydd i wneud ynni cymunedol y norm yng Nghymru ac efallai nid y prinder yr ydyw ar hyn o bryd'. Yn hynny o beth, Weinidog, mae'n rhaid i mi ddweud bod hwn i raddau helaeth iawn yn ddatganiad llai na syfrdanol gan y Llywodraeth heddiw. Gadewch i ni fod yn onest, mae record Llywodraeth Cymru ar ynni cymunedol yn wael iawn.

We have just 2 MW of installed community energy capacity here in Wales—2 MW. Compare that to Scotland: 508 MW of installed community energy capacity. I'd be interested in hearing from you, Minister, how successful you really think your Government's approach to community energy has been in that light, or in light of those statistics. I was hoping, Minister, that you'd be announcing today a target for community energy generation here in Wales. It was certainly one of the recommendations of the environment committee's report—over three years ago now—into energy policy and planning. The recommendation was that the Government sets a target for community renewable energy generation in Wales. It was a recommendation that your Government accepted, and yet we're still waiting. I was hoping maybe that we'd hear something on that from you today.

Rydym newydd osod 2 MW o gapasiti ynni cymunedol yma yng Nghymru—2 MW. Cymharwch hynny â'r Alban: 508 MW o gapasiti ynni cymunedol wedi'i osod. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed gennych, Weinidog, pa mor llwyddiannus ydych chi wir yn meddwl y bu ymagwedd eich Llywodraeth i ynni cymunedol yn y goleuni hwnnw, neu yng ngoleuni'r ystadegau hynny. Roeddwn yn gobeithio, Weinidog, y byddech yn cyhoeddi targed heddiw ar gyfer cynhyrchu ynni cymunedol yma yng Nghymru. Yr oedd yn sicr yn un o argymhellion adroddiad y pwyllgor amgylchedd—dros dair blynedd yn ôl bellach—i bolisi a chynllunio ynni. Yr argymhelliad oedd bod y Llywodraeth yn gosod targed ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru. Roedd yn argymhelliad a dderbyniwyd gan eich Llywodraeth, ac eto rydym yn dal i aros. Roeddwn yn gobeithio efallai y byddem yn clywed rhywbeth ar hynny gennych heddiw.

Now, we also know, of course, that finance and funding is one of the main barriers for community energy projects in Wales. It was good to hear you talk about money coming for energy efficiency in your statement, but, of course, we know that in Scotland there's a community renewable energy scheme that loans money to these projects—high-risk pre-planning support for these projects—and I was hoping, Minister, that we would be hearing from you today some of your ideas about how we could maybe emulate that, or indeed build on that, and what new financial support the Welsh Government would be looking to provide for community energy projects in Wales. You may want to take the opportunity to outline those ideas to us in reply to my comments.

Yn awr, rydym hefyd yn gwybod, wrth gwrs, fod cyllid a chyllido yn un o'r prif rwystrau ar gyfer prosiectau ynni cymunedol yng Nghymru. Roedd yn dda eich clywed yn sôn am arian yn dod ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn eich datganiad, ond, wrth gwrs, rydym yn gwybod bod yn yr Alban gynllun ynni adnewyddadwy cymunedol sy'n rhoi benthyg arian i'r prosiectau hyn—cymorth risg uchel cyn-cynllunio ar gyfer y prosiectau hyn—ac roeddwn yn gobeithio, Weinidog, y byddem yn clywed gennych heddiw rai o'ch syniadau chi ynglŷn â sut y gallem ni efallai efelychu hynny, neu yn wir adeiladu ar hynny, a pha gymorth ariannol newydd y byddai Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer prosiectau ynni cymunedol yng Nghymru. Efallai y byddwch yn dymuno manteisio ar y cyfle i amlinellu'r syniadau hynny i ni mewn ymateb i fy sylwadau.

The other barrier, of course, that we know about for community energy is the extortionate cost, very often, of linking into the grid of those projects. Access to the grid has killed off a number of community energy projects because of the extortionate fees that they're facing.

Y rhwystr arall y gwyddom amdano, wrth gwrs, ar gyfer ynni cymunedol yw'r gost afresymol, yn aml iawn, o gysylltu i mewn i grid y prosiectau hynny. Mae mynediad i'r grid wedi lladd nifer o brosiectau ynni cymunedol oherwydd y ffioedd gormodol y maent yn eu hwynebu.

Now, one thing that Plaid Cymru has called for—and I would ask you, Minister, whether you would be willing to support this call today—is for Wales to have a much stronger voice in Ofgem. There's a head for Scotland, at director level. Wales needs a much stronger voice in that respect so that we can properly contribute to some of the discussions and some of the work that Ofgem is leading on, so that Wales can contribute as we would wish in terms of community energy and as the potential we have demands that we do contribute to the energy potential that we have on a community level here in Wales. Diolch.

Nawr, un peth y mae Plaid Cymru wedi galw amdano—a byddwn yn gofyn i chi, Weinidog, a fyddech chi'n barod i gefnogi'r galwad hwn heddiw—yw i Gymru gael llais llawer cryfach yn Ofgem. Mae pennaeth ar gyfer yr Alban, ar lefel cyfarwyddwr. Mae ar Gymru angen llais llawer cryfach yn hynny o beth fel y gallwn gyfrannu'n briodol at rai o'r trafodaethau a rhywfaint o'r gwaith y mae Ofgem yn arwain arno, fel y gall Cymru gyfrannu fel y byddem yn dymuno o ran ynni cymunedol a gan fod y potensial sydd gennym yn mynnu ein bod yn cyfrannu at y potensial ynni sydd gennym ar lefel gymunedol yma yng Nghymru. Diolch.

14:59

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member, and a happy new year to him too. I don't know how he sleeps at night, because he's very grumpy in the new year. He didn't welcome the £3.5 million available for support for locally owned renewable energy. He didn't welcome the announcement of the additional £1.5 million from the European Investment Bank for the programme for energy performance on public bodies. All he was doing was being cheerled by his new coalition friend, Janet Finch-Saunders, by the sound of it, for every comment that he made. The fact of the matter is that we're very proud of the fact that we continue to work with a green growth strategy, developing a new opportunity for renewables here in Wales. I speak to the renewable companies across Wales on a regular basis, and they are still happy to do business here in Wales because of the attitude of this Welsh Labour Government because we're open for business.

Diolch i'r Aelod, a blwyddyn newydd dda iddo yntau hefyd. Nid wyf yn gwybod sut y mae'n cysgu yn y nos, oherwydd mae e'n flin iawn yn y flwyddyn newydd. Nid oedd yn croesawu'r £3.5 miliwn sydd ar gael ar gyfer cymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn perchnogaeth leol. Nid oedd yn croesawu'r cyhoeddiad o'r £1.5 miliwn ychwanegol gan Fanc Buddsoddi Ewrop ar gyfer y rhaglen ar gyfer perfformiad ynni ar gyrff cyhoeddus. Y cyfan yr oedd yn ei wneud oedd cael ei gymeradwyo gan ei ffrind glymblaid newydd, Janet Finch-Saunders, mae'n ymddangos, ar gyfer pob sylw a wnaeth. Y ffaith amdani yw ein bod yn falch iawn o'r ffaith ein bod yn parhau i weithio gyda strategaeth twf gwyrdd, yn datblygu cyfle newydd ar gyfer ynni adnewyddadwy yma yng Nghymru. Rwy'n siarad â'r cwmnïau adnewyddadwy ledled Cymru yn rheolaidd, ac maent yn dal i fod yn barod i wneud busnes yma yng Nghymru oherwydd agwedd y Llywodraeth Lafur Cymru hon oherwydd ein bod ar agor ar gyfer busnes.

In England, they're closing the doors to renewables and are full of rhetoric in terms of what their green credentials are. We continue to work with our local authorities and our other partners to make sure we can deliver on schemes and, yes, the Member is right in part of the contribution he made, the Ynni'r Fro scheme has been a very difficult scheme to bring forward, but we are seeing delivery on that. We have projects in the pipeline, at different stages, for delivery. But we mustn't turn our back on the opportunities that communities are trying to create in terms of the space for development. I have visited some very good schemes. In fact, I visited one recently in Gwynedd, where there was a great hydroelectricity scheme being supported by the local community and, indeed, my officials too. So, we do know that this can work, but we have to make sure we help people along that journey. We've got a very good record on local energy enablement, and we will continue to do so.

Yn Lloegr, maent yn cau'r drysau i ynni adnewyddadwy ac yn llawn rhethreg o ran yr hyn yw eu cymwysterau gwyrdd. Rydym yn parhau i weithio gyda'n hawdurdodau lleol a'n partneriaid eraill i wneud yn siŵr y gallwn gyflawni ar gynlluniau ac, ydy, mae'r Aelod yn iawn yn rhan o'r cyfraniad a wnaeth, mae cynllun Ynni'r Fro wedi bod yn gynllun anodd iawn i'w ddatblygu, ond rydym yn gweld cyflawni ar hynny. Mae gennym brosiectau ar y gweill, ar wahanol gamau, ar gyfer eu cyflawni. Ond rhaid i ni beidio â throi ein cefnau ar y cyfleoedd y mae cymunedau yn ceisio'u creu o ran y lle ar gyfer datblygiad. Rwyf wedi ymweld â rhai cynlluniau da iawn. Mewn gwirionedd, ymwelais ag un yn ddiweddar yng Ngwynedd, lle'r oedd cynllun trydan dŵr mawr yn cael ei gefnogi gan y gymuned leol ac, yn wir, fy swyddogion innau hefyd. Felly, rydym yn gwybod y gall hyn weithio, ond mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn helpu pobl ar hyd y daith honno. Mae gennym ni hanes da iawn ar alluogi ynni lleol, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

15:01

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very grateful, indeed, to the Minister for this statement today, but I do accept the comments made by Llyr Gruffydd. There is something of a paucity of ambition underlying this statement. I think that has to be said. However, there are many welcome aspects. I particularly welcome the news of the £1.5 million ELENA contribution from the European Investment Bank. I think that will bring considerable benefit, and it would be churlish not to acknowledge that. Another issue that I've already highlighted previously in this Chamber is the importance of a much stronger role for Ofcom, and a distinct Welsh dimension, as has been already flagged up. Clearly, the current situation that applies is very much a hindrance to community energy's capacity to fulfil its potential. When we do have an outcome from the current review into the marketplace, I would ask the Minister to give us reassurance that Welsh Government will look to help to implement that, in partnership with the Westminster Government, with some urgency.

Rwy'n ddiolchgar iawn, yn wir, i'r Gweinidog am y datganiad hwn heddiw, ond rwy'n derbyn y sylwadau a wnaed gan Llyr Gruffydd. Mae rhywfaint o ddiffyg uchelgais yn sail i'r datganiad hwn. Credaf fod yn rhaid dweud hynny. Fodd bynnag, mae nifer o agweddau i'w croesawu. Croesawaf yn arbennig y newyddion am y cyfraniad £1.5 miliwn ELENA gan Fanc Buddsoddi Ewrop. Rwy'n credu y bydd yn dod â budd sylweddol, a byddai'n anfoesgar peidio â chydnabod hynny. Mater arall yr wyf eisoes wedi tynnu sylw ato yn y Siambr hon yw pwysigrwydd swyddogaeth llawer cryfach i Ofcom, a dimensiwn Cymreig penodol, fel y nodwyd eisoes. Yn amlwg, mae'r sefyllfa bresennol sy'n berthnasol yn rhwystr i raddau helaeth i allu ynni cymunedol i gyflawni ei botensial. Pan fydd gennym ganlyniad o'r adolygiad presennol i mewn i'r farchnad, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog roi sicrwydd i ni y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio helpu i weithredu hynny, mewn partneriaeth â Llywodraeth San Steffan, ar beth byrder.

A further important factor in the success of community energy projects is, crucially, buy-in and co-operation from local authorities. In this context, Minister, I would ask you to consider whether, as part of this new package of funding for community energy schemes in Wales, you would be prepared to consider working with the Minister for Public Services on setting a target for community energy generation in Wales at local authority level. What benefits do you think would accrue, and what assessment have you made of the situation that currently applies in Scotland? I understand that Scotland has a target to see 500 MW of community and locally owned renewables by 2020. Having spoken to some community energy groups, I understand that that is felt by many to have potential benefits. I also hope that the current chair of Community Energy Cymru, Chris Blake, when he takes up his role as a board member of NRW, will bring extra impetus in that regard. Minister, I would be pleased to hear your views on how we can better promote partnership between Welsh Government, on the one hand, and local authorities the length and breadth of Wales.

Ffactor pwysig arall o ran llwyddiant prosiectau ynni cymunedol yw, yn hollbwysig, ymrwymiad a chydweithrediad gan awdurdodau lleol. Yn y cyd-destun hwn, Weinidog, byddwn yn gofyn i chi ystyried, yn rhan o'r pecyn newydd o gyllid ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol yng Nghymru, a fyddech yn barod i ystyried gweithio gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar osod targed ar gyfer cynhyrchu ynni cymunedol yng Nghymru ar lefel awdurdod lleol. Pa fuddion ydych chi'n credu fyddai'n cronni, a pha asesiad ydych chi wedi'i wneud o'r sefyllfa sy'n berthnasol ar hyn o bryd yn yr Alban? Rwy'n deall bod gan yr Alban darged o weld 500 MW o ynni adnewyddadwy cymunedol ac ynni mewn perchnogaeth leol erbyn 2020. Ar ôl siarad â rhai grwpiau ynni cymunedol, rwy'n deall bod llawer yn teimlo bod gan hynny fanteision posibl. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd cadeirydd presennol Ynni Cymunedol Cymru, Chris Blake, pan fydd yn dechrau ar ei swyddogaeth fel aelod o fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dod â hwb ychwanegol yn hynny o beth. Weinidog, byddwn yn falch o glywed eich barn am sut y gallwn hyrwyddo partneriaeth yn well rhwng Llywodraeth Cymru, ar y naill law, ac awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru.

Improving access to finance is also crucial, as has already been said, and I am glad to hear that this is one strand that you will be consulting upon, as one of the main barriers faced by community energy groups, as we've already heard, is in relation to access to finance. And, finally, I know that you have written to Alun Ffred Jones, the current chair of the Environment and Sustainability Committee, on this topic, but I'd be very grateful for some clarity as to how you plan, at Welsh Government level, to implement recommendations coming forward from our smarter energy inquiry, which is currently preoccupying my committee.

Mae gwella mynediad at gyllid yn hollbwysig hefyd, fel y dywedwyd eisoes, ac rwy'n falch o glywed bod hon yn un elfen y byddwch yn ymgynghori arni, gan mai un o'r prif rwystrau a wynebir gan grwpiau ynni cymunedol, fel yr ydym wedi clywed eisoes, yw o ran mynediad at gyllid. Ac, yn olaf, gwn eich bod wedi ysgrifennu at Alun Ffred Jones, cadeirydd presennol y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ar y pwnc hwn, ond byddwn yn ddiolchgar iawn am rywfaint o eglurder o ran sut yr ydych yn bwriadu, ar lefel Llywodraeth Cymru, i weithredu'r argymhellion a gyflwynwyd gan ein hymchwiliad ynni craffach, sydd ar hyn o bryd yn mynd â bryd fy mhwyllgor.

15:04

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for his comments, and the welcoming of the investment that we have announced today. I think the Member is right to say that a lot of this is developed around market confidence. Making sure that we have people who are ready to make investments alongside the Government and communities will give a better outcome in terms of what we are trying to achieve. But the levers that are not in our control, so the UK levers around feed-in tariffs, et cetera—that gives the market a lack of confidence and has a negative impact on service delivery. I'm not yet convinced, as I said to Jenny earlier on, around setting targets. We have a very diverse country, and making sure that we can align investment where communities want to see this type of investment made is something where we need to work with them, not tell them what they have to do. So, it's something I'm quite keen to work with local authorities on, and, as I said, we've got many pipeline projects, particularly in the green growth area—up to around £400 million-worth of capital projects.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau, a'i groeso i'r buddsoddiad yr ydym wedi'i gyhoeddi heddiw. Rwy'n credu bod yr Aelod yn iawn i ddweud bod llawer o hyn yn cael ei ddatblygu o gwmpas hyder y farchnad. Bydd gwneud yn siŵr bod gennym bobl sy'n barod i wneud buddsoddiadau ochr yn ochr â'r Llywodraeth a chymunedau yn rhoi canlyniad gwell o ran yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Ond mae'r ysgogiadau nad ydynt dan ein rheolaeth, felly ysgogiadau'r DU yn ymwneud â thariffau cyflenwi trydan, ac ati—mae hynny'n rhoi diffyg hyder i'r farchnad ac yn cael effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau. Nid wyf yn argyhoeddedig eto, fel y dywedais wrth Jenny yn gynharach, ynghylch gosod targedau. Mae gennym wlad amrywiol iawn, ac mae gwneud yn siŵr ein bod yn gallu cyfochri buddsoddiad lle mae cymunedau eisiau gweld y math hwn o fuddsoddiad yn cael ei wneud yn rhywbeth lle mae angen inni weithio gyda hwy, nid dweud wrthynt beth mae'n rhaid iddynt ei wneud. Felly, mae'n rhywbeth yr wyf yn eithaf awyddus i weithio gydag awdurdodau lleol arno, ac, fel y dywedais, mae gennym lawer o brosiectau ar y gweill, yn enwedig yn y maes twf gwyrdd—hyd at werth tua £400 miliwn o brosiectau cyfalaf.

The issue I see Welsh Government taking a leading role in is in improving access to finance. We're doing that. It is improving the process around planning and conditions. We are doing that with the new Planning (Wales) Act 2015. It's a suite of tools that we are developing alongside Natural Resources Wales and the third sector organisations and the renewable networks. It's something that we have to work harder on if we are to see renewables succeed in Wales, and particularly community programmes, based on the fact that the grid is much more difficult to access now, and the capacity around the grid. I do believe that we can have some clever, local solutions in the market, but we've got to work together to achieve that.

Y mater yr wyf yn gweld Llywodraeth Cymru yn cymryd swyddogaeth arweiniol arno yw gwella mynediad at gyllid. Rydym yn gwneud hynny. Mae'n gwella'r broses o amgylch cynllunio ac amodau. Rydym yn gwneud hynny gyda'r Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 newydd. Mae'n gyfres o offerynnau yr ydym yn datblygu ochr yn ochr â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r sefydliadau trydydd sector a'r rhwydweithiau adnewyddadwy. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni weithio'n galetach arno os ydym am weld ynni adnewyddadwy yn llwyddo yng Nghymru, ac yn enwedig rhaglenni cymunedol, yn seiliedig ar y ffaith bod y grid yn llawer mwy anodd cael mynediad ato nawr, a'r gallu o amgylch y grid. Rwy'n credu y gallwn gael rhai atebion clyfar, lleol yn y farchnad, ond mae'n rhaid i ni gydweithio i gyflawni hynny.

15:06 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yesterday, I was very pleased to visit Radyr Weir hydro scheme, which lies on the River Taff between my constituency of Cardiff North and the health Minister's constituency of Cardiff West. It was so exciting to see the amount of energy that would be generated from the force of the water in the Taff, with two turbines generating enough electricity to power the equivalent of 550 homes. This is a local authority project, but I'm sure the Minister will want to congratulate Cardiff council on its efforts to combat climate change and try to make Cardiff a One Planet city. The interesting point that came up during the visit was that they'd just managed to do the commissioning on 17 December, which was the day before the Westminster Government actually changed the tariffs. This was a four-year project, and the Westminster Government announced that there would be changes to the tariffs three months into the contract that had already been let by Cardiff council, and with only three months' notice. So, it could have been disastrous, but, by enormous efforts, they managed to get this project finished by 17 December, and I'm sure we'd all want to congratulate them on that.

Ddoe, roeddwn yn falch iawn o ymweld â chynllun dŵr Cored Radyr, sy'n gorwedd ar Afon Taf rhwng fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd ac etholaeth y Gweinidog Iechyd, sef Gorllewin Caerdydd. Roedd hi mor gyffrous gweld faint o ynni a fyddai'n cael ei gynhyrchu o rym y dŵr yn y Taf, gyda dau dyrbin yn cynhyrchu digon o drydan i bweru cyfwerth â 550 o gartrefi. Prosiect awdurdod lleol yw hwn, ond rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn awyddus i longyfarch cyngor Caerdydd ar ei ymdrechion i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd a cheisio gwneud Caerdydd yn ddinas Planed Un. Y pwynt diddorol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymweliad oedd eu bod wedi llwyddo i wneud y comisiynu ar 17 Rhagfyr, sef y diwrnod cyn i Lywodraeth San Steffan newid y tariffau mewn gwirionedd. Roedd hwn yn brosiect pedair blynedd, a chyhoeddodd Llywodraeth San Steffan y byddai newidiadau yn y tariffau dri mis i mewn i'r contract a oedd eisoes wedi'i osod gan gyngor Caerdydd, a gyda dim ond tri mis o rybudd. Felly, gallai fod wedi bod yn drychinebus, ond, drwy ymdrechion enfawr, llwyddwyd i orffen y prosiect hwn erbyn 17 Rhagfyr, ac rwy'n siŵr y byddem i gyd eisiau eu llongyfarch ar hynny.

This is one of the biggest projects of its kind in Wales, but I do think it shows the potential for many more projects of this kind. You've just got to look at the rivers in Cardiff and the number of weirs. It would be possible, if there was more financial help available, to do many more schemes like that, and, if you even look at the Cardiff bay barrage, that could have some retrofitting in order for that to produce energy. So, I think there is a huge amount of potential here. I don't know if the Minister would be able to comment on whether he thinks these changes in the tariff schemes that have happened—but, fortunately, Cardiff were able to get in just before—will be a disincentive for the development of these sorts of projects, or whether he thinks that can be overcome.

Mae hwn yn un o'r prosiectau mwyaf o'i fath yng Nghymru, ond rwy'n meddwl ei fod yn dangos y potensial ar gyfer llawer mwy o'r math yma o brosiectau. Nid oes ond rhaid i chi edrych ar yr afonydd yng Nghaerdydd a nifer y coredau. Byddai'n bosibl, pe byddai mwy o gymorth ariannol ar gael, i wneud llawer mwy o gynlluniau felly, ac, os ydych yn edrych ar forglawdd bae Caerdydd hyd yn oed, gallai hwnnw gael rhywfaint o ôl-osod er mwyn i hwnnw gynhyrchu ynni. Felly, rwy'n credu bod llawer iawn o botensial yma. Nid wyf yn gwybod os yw'r Gweinidog yn gallu rhoi sylwadau ar ba un a yw'n credu y bydd y newidiadau hyn yn y cynlluniau tariff sydd wedi digwydd—ond, yn ffodus, roedd Caerdydd wedi gallu ei ddechrau ychydig cyn hynny—yn anghymhelliad ar gyfer datblygu'r mathau hyn o brosiectau, neu a yw'n credu y gellir eu goresgyn.

15:08 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her comments this afternoon. She's right to raise the issue of the changes in the feed-in tariff. I have spoken to the Ministers in Westminster, saying that, while I accept the process which they used to make changes in policy, and I understand that, because that's the democratic, electoral process, what I was very concerned about was how quickly they did that, so there wasn't any transition time. I think the hydropower scheme that the Member talks about is very impressive, and there are many others across Wales, but I do fear that the issue of the uncertainty over the feed-in tariff created the market insecurity that has given people reason now to reconsider their investments here in Wales, which is of concern.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau y prynhawn yma. Mae hi'n iawn i godi mater y newidiadau yn y tariff cyflenwi trydan. Rwyf wedi siarad â'r Gweinidogion yn San Steffan, gan ddweud, er fy mod yn derbyn y broses y maent yn ei defnyddio i wneud newidiadau mewn polisi, ac rwy'n deall hynny, oherwydd dyna'r broses ddemocrataidd, etholiadol, yr hyn yr oeddwn yn bryderus iawn amdano oedd pa mor gyflym y gwnaethant hynny, fel nad oedd amser trosglwyddo. Rwy'n meddwl bod y cynllun ynni dŵr y mae'r Aelod yn siarad amdano yn drawiadol iawn, ac mae llawer o rai eraill ar draws Cymru, ond rwy'n ofni bod y mater o ansicrwydd am y tariff cyflenwi trydan wedi creu'r ansicrwydd yn y farchnad sydd wedi rhoi rheswm i bobl erbyn hyn ail-ystyried eu buddsoddiadau yma yng Nghymru, sydd yn peri pryder.

I would like to think that we can work long-term solutions for energy such as the hydropower scheme she talked about, where we have to reduce the scale of subsidy, but I think it's doable—we just need to create a different environment for that to happen. The problem is that we haven't had the timescale to do that. So, I do think that we've seen a negative effect in terms of community renewables schemes by the consequences of the UK Government's decisions, but I don't think we should now stop the work we're doing—we should just think about new, clever innovation to help enable schemes like the one she talked about today to continue here in Wales.

Hoffwn gredu y gallwn weithio atebion tymor hir ar gyfer ynni megis y cynllun ynni dŵr yr oedd hi'n siarad amdano, lle mae'n rhaid i ni leihau maint y cymhorthdal, ond rwy'n credu bod modd ei wneud—mae angen i ni greu amgylchedd gwahanol er mwyn iddo ddigwydd. Y broblem yw nad ydym wedi cael y raddfa amser i wneud hynny. Felly, rwy'n credu ein bod wedi gweld effaith negyddol o ran cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol oherwydd canlyniadau penderfyniadau Llywodraeth y DU, ond nid wyf yn meddwl y dylem yn awr atal y gwaith yr ydym yn ei wneud—dylem feddwl am arloesi newydd, clyfar i helpu i alluogi cynlluniau fel yr un y mae hi'n siarad amdano heddiw i barhau yma yng Nghymru.

15:10

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Er bod amcanion y Llywodraeth sydd yn cael eu datgan yn y datganiad yma'n gymeradwy iawn, mae'r ffeithiau'n adrodd stori wahanol. Mi fyddwn i'n hoffi eglurhad gan y Gweinidog am pam mae'n meddwl mai dim ond 2 MW o ynni cymunedol sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru o gymharu â'r 500 MW sydd yn yr Alban.

Although the Government's objectives, which are made clear in this statement, are very laudable, the facts do tell a very different story. I would like some clarity from the Minister as to why he thinks only 2 MW of community energy is produced in Wales, as compared with the 500 MW in Scotland.

Fy mhrif bwynt, serch hynny, ydy'r anghysondeb rhwng datganiadau'r Llywodraeth o blaid cynlluniau ynni adnewyddol cymunedol a lleol a'r drefn gynllunio a thrwyddedu, sy'n gwbl anghyson ar draws Cymru. Rwy'n gwybod am un cynllun ynni glân cymunedol sydd wedi derbyn cefnogaeth y Carbon Trust, Ynni'r Fro, arian Llywodraeth Cymru a Gwynedd Werdd ac yna wedi cael ei wrthod gan gynllunwyr yn lleol ac yn genedlaethol. Beth mae'r Gweinidog yn mynd i'w wneud i greu polisi cynllunio a thrwyddedu sy'n gyson ag amcanion gwyrdd y Llywodraeth?

My main point, however, is on the inconsistency between Government statements in favour of community renewable energy and local renewable energy and the planning and licensing system, which is entirely inconsistent across Wales. I know of one community clean energy proposal that has received the support of the Carbon Trust, Ynni'r Fro, Welsh Government funding and Gwynedd Werdd, and then has been rejected by planners at a local level and at a national level. What's the Minister going to do to create a planning and licensing policy that is consistent with the Government's green objectives?

15:11

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the Member raises an important issue around how we create an enabling space for projects like this to continue. It is something I'm considering with the planning system, and around how that operates, and also the licensing regime with NRW and ourselves. What we have to do is make sure that we enable communities to develop. We are doing that with Ynni'r Fro and additional funding that's being made available. We have to give the support to communities in order for them to go through these processes, but not, as I said earlier on, having to reinvent this process each time an application comes through. There needs to be a consistent message and a supportive message and leadership from the Government. I believe we're taking that line and I will continue to push hard for planning authorities to understand that their role in developing community energy schemes should be considered a positive one. I'd be happy to discuss further with the Member regarding specific schemes—not planning related, but issues that are coming up that he feels are inconsistent policy that's been demonstrated in some of the planning authorities he refers to.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn codi mater pwysig ynghylch sut yr ydym yn creu lle sy'n galluogi prosiectau fel hyn i barhau. Mae'n rhywbeth yr wyf i'n ystyried gyda'r system gynllunio, ac o amgylch sut mae hynny'n gweithio, a hefyd y drefn drwyddedu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a ni ein hunain. Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud yw gwneud yn siŵr ein bod yn galluogi cymunedau i ddatblygu. Rydym yn gwneud hynny gydag Ynni'r Fro a'r arian ychwanegol sy'n cael ei ddarparu. Mae'n rhaid i ni roi'r gefnogaeth i gymunedau er mwyn iddynt fynd drwy'r prosesau hyn, ond nid, fel y dywedais yn gynharach, gorfod ailddyfeisio'r broses hon bob tro y mae cais yn dod drwodd. Mae angen cael neges gyson a neges gefnogol ac arweiniad gan y Llywodraeth. Rwy'n credu ein bod yn cymryd yr agwedd honno a byddaf yn parhau i wthio awdurdodau cynllunio yn galed i ddeall y dylai eu swyddogaeth o ran datblygu cynlluniau ynni cymunedol gael ei hystyried yn un gadarnhaol. Byddwn yn hapus i drafod ymhellach gyda'r Aelod ynghylch cynlluniau—nid yn gysylltiedig â chynllunio, ond materion sydd ar y gweill y mae ef yn teimlo sy'n bolisi anghyson sydd wedi ei arddangos mewn rhai o'r awdurdodau cynllunio y mae'n cyfeirio atynt.

15:12 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Firstly, can I welcome the Minister's statement? I'm sure the statement would be welcome to all those in Wales who wish to promote community energy schemes that exploit renewable resources. I have believed for a long time that too much emphasis has been placed on large-scale energy production, such as Hinkley Point, and not enough on local energy generation.

Yn gyntaf, a gaf i groesawu datganiad y Gweinidog? Rwy'n siŵr y byddai'r datganiad yn dderbyniol i bawb yng Nghymru sydd eisiau hyrwyddo cynlluniau ynni cymunedol sy'n manteisio ar adnoddau adnewyddadwy. Rwyf wedi credu ers amser maith bod gormod o bwyslais wedi ei roi ar gynhyrchu ynni ar raddfa fawr, megis Hinkley Point, a dim digon ar gynhyrchu ynni lleol.

For many organisations, combined heat and power offers the most significant single opportunity to reduce energy costs and to improve environmental performance, with existing users saving around 20 per cent of their energy costs. I'm sure that the Minister will agree with me that it would be much easier to develop sustainability of energy supply in Wales while maximising the benefits to the Welsh economy if we had the powers to determine tariffs and distribution arrangements devolved to the Welsh Government.

I lawer o sefydliadau, mae gwres a phŵer cyfun yn cynnig y cyfle unigol mwyaf sylweddol i leihau costau ynni ac i wella perfformiad amgylcheddol, gyda defnyddwyr presennol yn arbed tua 20 y cant o'u costau ynni. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi y byddai'n llawer haws datblygu cynaliadwyedd y cyflenwad ynni yng Nghymru wrth wneud y mwyaf o fanteision i economi Cymru pe byddai gennym y pwerau i benderfynu ar dariffau a threfniadau dosbarthu wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.

Finally, is the Minister aware that the City and County of Swansea is working on a city deal that would provide smart energy generation for the Swansea bay city region and which could be of national importance? It's about ensuing that it's done locally and renewably, rather than at a distance and expensively.

Yn olaf, a yw'r Gweinidog yn ymwybodol bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gweithio ar gytundeb dinas a fyddai'n darparu cynhyrchu ynni craffach ar gyfer dinas-ranbarth Bae Abertawe ac a allai fod o bwysigrwydd cenedlaethol? Mae'n ymwneud â sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn lleol ac yn adnewyddadwy, yn hytrach nag o bell ac yn ddrud.

15:13 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his contribution. Of course, the Wales Bill and the electricity Bill will be the vehicle where we have the new powers, subject to agreement with the UK Government and the First Minister and the Government. I am aware of the Swansea bay city deal energy programme. As I said to Members earlier on, we've got some really innovative authorities working together to try to create a better environment, both in energy costs and energy efficiency—and they do go hand in hand—and the Labour authority in Swansea is one of the examples that you share with us today.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Wrth gwrs, Bil Cymru a'r Bil trydan fydd y cyfrwng lle mae gennym bwerau newydd, yn amodol ar gytundeb â Llywodraeth y DU a Phrif Weinidog Cymru a'r Llywodraeth. Rwy'n ymwybodol o raglen ynni bargen dinas bae Abertawe. Fel y dywedais wrth yr Aelodau yn gynharach, mae gennym rai awdurdodau gwirioneddol arloesol sy'n gweithio gyda'i gilydd i geisio creu amgylchedd gwell, mewn costau ynni ac effeithlonrwydd ynni—ac maent yn mynd law yn llaw—ac mae'r awdurdod Llafur yn Abertawe yn un o'r enghreifftiau yr ydych yn ei rhannu gyda ni heddiw.

15:14 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I very much welcome the statement that you've made this afternoon and the answers to questions as well. I think it gives everybody here who's concerned about these matters some very great reassurance. I wonder if I could ask you to make a fuller statement on the agreement reached in Paris, how that will affect us here in Wales, how the Welsh Government intends to respond to those agreements in Paris, and how that will affect the existing programmes and priorities of the Welsh Government. I think that would be very useful for all of us.

Weinidog, rwy'n croesawu'n fawr y datganiad yr ydych wedi'i wneud y prynhawn yma a'r atebion i gwestiynau hefyd. Rwy'n credu ei fod yn rhoi sicrwydd pwysig iawn i bob un ohonom yma sy'n pryderu am y materion hyn. Tybed a gaf i ofyn i chi wneud datganiad llawnach ar y cytundeb a wnaed ym Mharis, sut y bydd hynny'n effeithio arnom ni yma yng Nghymru, sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r cytundebau hynny ym Mharis, a sut y bydd hynny'n effeithio ar raglenni a blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru. Rwy'n credu y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn i bob un ohonom.

In terms of the statement that you've made this afternoon, I think it's fair to say that we don't anticipate or expect any positive support or help from the United Kingdom Government, either now or in the future. It's one of the most profoundly disappointing aspects of the new UK Government that they've turned their backs completely on the renewable agenda and on support for renewable energy. It's a fantastically short-sighted approach, but it's one that appears, at the moment, to be set in stone. It would therefore appear to me that, in Wales, we have to create a new financial model if we are to sustain and support the development of renewable energy in this country. I wonder, Minister, if you could consider how that new financial model would fit with our existing priorities, which, of course, were set at a different time, when there was a different context with the United Kingdom Government, and also how a new financial model to support local energy generation fits into the wider policy objectives of the Welsh Government, particularly in terms of economic policy. The Minister is aware of the deep place study, which was focused on Tredegar in my constituency. That placed local energy generation at the centre of a new approach to community generation involving sustainable economic development and social policy. I would suggest to the Minister that that would create a very different and a very far-sighted approach to local energy generation for the future in Wales.

O ran y datganiad yr ydych wedi'i wneud y prynhawn yma, rwy'n meddwl ei fod yn deg i ddweud nad ydym yn rhagweld nac yn disgwyl unrhyw gefnogaeth na chymorth cadarnhaol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, naill ai ar hyn nac yn y dyfodol. Mae'n un o agweddau mwyaf hynod siomedig ar Lywodraeth newydd y DU ei bod wedi troi ei chefn yn llwyr ar yr agenda adnewyddadwy ac ar gefnogaeth i ynni adnewyddadwy. Mae'n ddull hynod annoeth, ond mae'n un sy'n ymddangos, ar hyn o bryd, i fod yn gadarn. Byddai felly'n ymddangos i mi, yng Nghymru, bod yn rhaid i ni greu model ariannol newydd os ydym i gynnal a chefnogi datblygiad ynni adnewyddadwy yn y wlad hon. Tybed, Weinidog, a allech ystyried sut y byddai'r model ariannol newydd hwnnw'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau presennol, sydd, wrth gwrs, wedi eu gosod ar adeg wahanol, pan oedd cyd-destun gwahanol gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a hefyd sut mae'r model ariannol newydd i gefnogi cynhyrchu ynni lleol yn cyd-fynd ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran polisi economaidd. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol o'r astudiaeth lle dwfn, a oedd yn canolbwyntio ar Dredegar yn fy etholaeth i. Roedd honno'n gosod cynhyrchu ynni lleol yng nghanol agwedd newydd tuag at gynhyrchu cymunedol sy'n ymwneud â datblygu economaidd cynaliadwy a pholisi cymdeithasol. Byddwn yn awgrymu i'r Gweinidog y byddai hynny'n creu ymagwedd wahanol iawn a phellweledol iawn i gynhyrchu ynni lleol ar gyfer y dyfodol yng Nghymru.

15:16

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his comments. He's absolutely right: I think what we can do is, if not be the best, we can be one of the best in a global context regarding what Wales can do in terms of green growth and opportunity. It's not just about creating the arena for cheaper energy, but actually we can provide the opportunity for transition, supply chains, jobs and economic growth, which all feature in the whole green growth agenda. I have a green growth event in March, later this year, where we hope to have the chief executive of the World Bank speaking, because the issues relating to this are global responsibilities, and it is around the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. But actually, we could have so many benefits from doing the right things on energy conservation and the creation of renewable energy sources, too. It is a place where I hope Wales can be one of the leading lights, not only in the UK context, but certainly in the global arena.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Mae'n llygad ei le: rwy'n meddwl mai'r hyn y gallwn ei wneud yw, os nad bod y gorau, gallwn fod yn un o'r rhai gorau mewn cyd-destun byd-eang o ran yr hyn y gall Cymru ei wneud o ran twf a chyfle gwyrdd. Nid yw'n ymwneud â chreu'r arena ar gyfer ynni rhatach yn unig, ond mewn gwirionedd gallwn ddarparu'r cyfle ar gyfer pontio, cadwyni cyflenwi, swyddi a thwf economaidd, sydd i gyd yn rhan o'r agenda twf gwyrdd gyfan. Mae gen i ddigwyddiad twf gwyrdd ym mis Mawrth, yn ddiweddarach eleni, pryd yr ydym yn gobeithio cael prif weithredwr Banc y Byd yn siarad, oherwydd bod y materion sy'n ymwneud â hyn yn gyfrifoldebau byd-eang, ac mae'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ond mewn gwirionedd, gallem gael cymaint o fanteision o wneud y pethau iawn ynghylch arbed ynni a chreu ffynonellau ynni adnewyddadwy, hefyd. Mae'n lle yr wyf yn gobeithio y gall Cymru fod yn un o'r arweinwyr ynddo, nid yn unig yng nghyd-destun y DU, ond yn sicr yn yr arena fyd-eang.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*

15:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:17

# 4. Datganiad: Diweddariad ar y Gweithredu gan Lywodraeth Cymru ar Lifogydd yng Nghymru

# 4. Statement: Update on Welsh Government Action on Flooding in Wales

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 is the second statement by the Minister for Natural Resources, this one an update on Welsh Government action on flooding in Wales. I call the Minister—Carl Sargeant.

Eitem 4 yw'r ail ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, diweddariad yw'r un yma am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru ar lifogydd yng Nghymru. Galwaf ar y Gweinidog—Carl Sargeant.

15:17

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm grateful for the opportunity to provide an update on the flooding experienced across Wales over the last month, particularly on Boxing Day. I would like to start by expressing my sympathy to everybody who has seen their homes and businesses affected over what should have been a festive period, as well as those who experienced disruption to road or rail journeys.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y llifogydd a brofwyd ar draws Cymru yn ystod y mis diwethaf, yn enwedig ar Ddydd San Steffan. Hoffwn ddechrau drwy fynegi fy nghydymdeimlad â phawb sydd wedi gweld eu cartrefi a'u busnesau wedi'u heffeithio dros yr hyn a ddylai fod wedi bod yn gyfnod yr ŵyl, yn ogystal â'r rhai a brofodd amharu ar deithiau ar y ffordd neu reilffordd.

I would like to offer my sincere thanks to those who were involved in the response to these floods, which includes community volunteers, the emergency services, Natural Resources Wales, trunk road agencies and local authority staff who have worked tirelessly over Christmas and continue to do so. I witnessed just a small part of this ongoing work when I visited teams in north Wales on 28 December. They have been out across Wales clearing debris, pumping floodwater, making roads safe and helping communities in wet and sometimes dangerous conditions. It is positive to see these organisations working together in the preparation, response and recovery to flooding and I'm extremely grateful for their collaborative work.

Hoffwn gynnig fy niolch diffuant i'r rhai a gymerodd ran yn yr ymateb i'r llifogydd hyn, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr cymunedol, y gwasanaethau brys, Cyfoeth Naturiol Cymru, asiantaethau cefnffyrdd a staff yr awdurdod lleol sydd wedi gweithio'n ddiflino dros y Nadolig ac sy'n parhau i wneud hynny. Dim ond rhan fach o'r gwaith parhaus hwn welais i pan ymwelais â thimau yn y gogledd ar 28 Rhagfyr. Maent wedi bod allan ar draws Cymru yn clirio llanast, yn pwmpio llifddwr, yn gwneud y ffyrdd yn ddiogel ac yn helpu cymunedau mewn amodau gwlyb ac weithiau amodau peryglus. Mae'n gadarnhaol gweld y sefydliadau hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn y paratoi, yr ymateb a'r adfer i lifogydd ac rwy'n hynod o ddiolchgar am eu gwaith ar y cyd.

As well as flooding to properties, there was also disruption to roads and railways across the country. Whilst we have all heard the news reports about the flooding and closure of the A55 in north Wales, there were also a number of other major and minor roads flooded as well as the Conwy Valley railway line. You will have received a letter from the Minister for Economy, Science and Transport on the impacts on our road network and how they will be addressed. We will continue to work together on this, and our officials have been liaising since Boxing Day on helping to put these issues right.

Yn ogystal â llifogydd mewn eiddo, gwelwyd hefyd amharu ar ffyrdd a rheilffyrdd ledled y wlad. Er ein bod i gyd wedi clywed yr adroddiadau ar y newyddion am y llifogydd a chau'r A55 yn y gogledd, roedd hefyd nifer o ffyrdd mawr a bach eraill dan ddŵr, yn ogystal â rheilffordd Dyffryn Conwy. Byddwch wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar yr effeithiau ar ein rhwydwaith ffyrdd a sut y byddant yn cael sylw. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd ar hyn, ac mae ein swyddogion wedi bod yn cysylltu ers Gŵyl San Steffan ar helpu i liniaru'r problemau.

I have also read reports on the flooding of properties in Llanwrst. My officials have asked NRW investigate events to fully understand what happened there. I will be writing to NRW to follow up the request that this be looked into urgently. Clearly, lessons will have to be learnt around the use of demountable defences to ensure that such an incident is not repeated.

Rwyf hefyd wedi darllen adroddiadau am lifogydd mewn eiddo yn Llanrwst. Mae fy swyddogion wedi gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru ymchwilio i ddigwyddiadau i ddeall yn llawn yr hyn a ddigwyddodd yno. Byddaf yn ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru i ddilyn y cais i edrych ar hyn ar frys. Yn amlwg, bydd yn rhaid dysgu gwersi yn ymwneud â'r defnydd o amddiffynfeydd symudol i sicrhau na fydd digwyddiad o'r fath yn digwydd eto.

Local authorities and NRW are continuing to work to assess the full extent of the damages and impacts; however, we are already aware of flooding in the local authorities of Gwynedd, the Isle of Anglesey, Caerphilly and Pembrokeshire. It is estimated that around 150 properties across Wales over the whole of December were affected with numerous near misses.

Mae awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio i asesu graddau llawn y difrod a'r effeithiau; fodd bynnag, rydym eisoes yn ymwybodol o lifogydd yn awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn, Caerffili a Sir Benfro. Amcangyfrifir bod tua 150 o eiddo ar draws Cymru dros fis Rhagfyr cyfan wedi eu heffeithio gyda nifer o achosion a fu bron a digwydd.

Met Office records show that we've experienced the wettest December since records began. Capel Curig in Conwy was the wettest place in the whole of the UK, with over a metre of rainfall during December. To put this in context: this is 66 per cent more than the previous recorded maximum. However, despite such rain and record river levels, we did not see the levels of devastation and property flooding that was witnessed across the border. Our sustained investment in flood-risk management, awareness raising and warning systems has had a positive impact. Overall, our flood defences performed well. For example, data show that recorded river levels in Dolgellau were higher than the height of the previous flood defences. So, we know that the recently completed scheme protected over 300 properties from flooding. The same is true for towns across the country including Porthmadog, St Asaph, Ystradgynlais and Tregaron, where defences prevented properties from flooding.

Mae cofnodion y Swyddfa Dywydd yn dangos ein bod wedi profi'r mis Rhagfyr gwlypaf ers dechrau cadw cofnodion. Capel Curig yng Nghonwy oedd y lle gwlypaf yn y DU gyfan, gyda dros fetr o law yn ystod mis Rhagfyr. I roi hyn mewn cyd-destun: mae hyn yn 66 y cant yn fwy na'r uchafswm blaenorol a gofnodwyd. Fodd bynnag, er gwaethaf glaw o'r fath a'r lefelau afonydd uchaf a gofnodwyd, ni welsom y lefelau o ddinistr a llifogydd i eiddo a welwyd dros y ffin. Mae ein buddsoddiad parhaus mewn rheoli risg llifogydd, codi ymwybyddiaeth a systemau rhybuddio wedi cael effaith gadarnhaol. Ar y cyfan, perfformiodd ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd yn dda. Er enghraifft, mae data yn dangos bod lefelau afonydd a gofnodwyd yn Nolgellau yn uwch nag uchder yr amddiffynfeydd rhag llifogydd blaenorol. Felly, rydym yn gwybod bod y cynllun a gwblhawyd yn ddiweddar wedi diogelu dros 300 eiddo rhag llifogydd. Mae'r un peth yn wir am drefi ar draws y wlad, gan gynnwys Porthmadog, Llanelwy, Ystradgynlais a Thregaron, lle gwnaeth amddiffynfeydd atal eiddo rhag llifogydd.

Whilst this has been an exceptional period of rainfall, we must acknowledge that, as our climate changes, weather events such as these will become more frequent. For this reason, we need to be prepared and plan for when events such as these occur by making our communities much more resilient. As a Government we are recognising the implications and risks posed by the changing climate and are prioritising actions to address this. This is why we are committed to building climate resilience and adaptation into the heart of decision making for our flood defence programme and coastal plans. It's also why coastal risk management remains a key priority for this Government.

Er bod hwn wedi bod yn gyfnod eithriadol o lawio, mae'n rhaid inni gydnabod, fel y mae ein hinsawdd yn newid, y bydd digwyddiadau tywydd fel y rhain yn dod yn amlach. Am y rheswm hwn, mae angen i ni fod yn barod a chynllunio ar gyfer pan fydd digwyddiadau fel y rhain yn digwydd drwy wneud ein cymunedau yn llawer mwy cydnerth. Fel Llywodraeth, rydym yn cydnabod y goblygiadau a'r risgiau a berir gan newid yn yr hinsawdd ac yn blaenoriaethu camau gweithredu i ymdrin â hyn. Dyma pam yr ydym wedi ymrwymo i adeiladu cydnerthedd o ran yr hinsawdd a rhoi hynny ac addasu wrth wraidd gwneud penderfyniadau ar gyfer ein rhaglen amddiffyn rhag llifogydd a chynlluniau arfordirol. Dyna hefyd pam y mae rheoli risg arfordirol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon.

Our total investment in flood and coastal erosion, excluding ERDF, has increased by 18.3 per cent in real terms over the lifetime of this Government. We've invested over £240 million into flood-risk management, which was and has been supported by a further £47 million from Europe. This has allowed for significant investment across Wales including schemes at Beaumaris, Rhyl, Dolgellau, Swansea, Colwyn Bay, Cardiff and other places across Wales. This investment has already reduced flood and coastal erosion risk to over 12,000 properties to date, including over 10,700 homes. European funding has made a significant contribution to our programme and it's important to highlight the success that this money has achieved. We have doubled our predicted target on the number of flood risk management schemes supported, and tripled the predicted number of properties that benefit. In total, over 8,960 properties, as well as businesses, infrastructure and major links have seen their risk reduced thanks to our effective use of European funding. With regard to coastal risk and adaptation, we are planning ahead and have already committed a further £150 million to coastal risk management from 2018. Reducing risk to homes and businesses remains our focus but the programme also seeks out additional economic, environmental and wellbeing benefits whilst people secure long term security in their homes.

Mae cyfanswm ein buddsoddiad mewn llifogydd ac erydu arfordirol, ac eithrio ERDF, wedi cynyddu 18.3 y cant mewn termau real yn ystod oes y Llywodraeth hon. Rydym wedi buddsoddi dros £240 miliwn i reoli risg llifogydd, a oedd ac sydd wedi ei gefnogi gan £47 miliwn ychwanegol gan Ewrop. Mae hyn wedi caniatáu ar gyfer buddsoddiad sylweddol ledled Cymru gan gynnwys cynlluniau ym Miwmares, Y Rhyl, Dolgellau, Abertawe, Bae Colwyn, Caerdydd a lleoedd eraill ar draws Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn eisoes wedi lleihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol i dros 12,000 eiddo hyd yma, gan gynnwys dros 10,700 o gartrefi. Mae cyllid Ewropeaidd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'n rhaglen ac mae'n bwysig tynnu sylw at y llwyddiant y mae'r arian hwn wedi'i gyflawni. Rydym wedi dyblu ein targed a ragfynegwyd ar nifer y cynlluniau rheoli perygl llifogydd a gefnogir, a threblu'r nifer a ragfynegwyd o eiddo sy'n elwa ar hynny. Yn gyfan gwbl, mae dros 8,960 eiddo, yn ogystal â busnesau, seilwaith a chysylltiadau pwysig wedi gweld eu risg yn cael ei leihau diolch i'n defnydd effeithiol o gyllid Ewropeaidd. O ran risg ac addasu arfordirol, rydym yn cynllunio ymlaen llaw ac eisoes wedi ymrwymo gwerth £150 miliwn arall at reoli risg arfordirol o 2018 ymlaen. Mae lleihau'r risg i gartrefi a busnesau yn parhau i fod yn bwyslais i ni, ond mae'r rhaglen hefyd yn ceisio nodi manteision economaidd, amgylcheddol a lles ychwanegol tra bod pobl yn sicrhau diogelwch hirdymor yn eu cartrefi.

Our river and sea defences remain vital in managing flood risk, but they are not our only option. Managing our natural resources effectively and using our improving knowledge of flooding to make better decisions in managing the land and directing new developments is also important. We promote natural flood-risk management where it can provide real benefits to a scheme, like in Swansea—a scheme I opened in 2014—where defences have been moved back to create a wider natural floodplain which will purposely flood and protect homes and businesses further downstream. Similar approaches are being used throughout Wales, with recent work at north Cardiff, Borth and Colwyn Bay all utilising natural processes rather than relying on hard defences. In addition, we will continue to build community resilience, both through raising awareness of flooding and preparing flood plans to reduce the impacts on lives and properties. We will never be able to stop completely all flooding. Communities themselves are playing an increasingly important role by being well-prepared to deal with and prevent the worst effects of floods as well as helping to deal with the after-effects.

Mae ein hamddiffynfeydd afonydd a'r môr yn parhau i fod yn hanfodol wrth reoli perygl llifogydd, ond nid dyna ein hunig ddewis. Mae rheoli ein hadnoddau naturiol yn effeithiol a defnyddio ein gwybodaeth sy’n gwella o lifogydd i wneud penderfyniadau gwell wrth reoli'r tir a chyfarwyddo datblygiadau newydd hefyd yn bwysig. Rydym yn hyrwyddo rheoli risg llifogydd naturiol pan ei fod yn gallu darparu manteision gwirioneddol i gynllun, fel yn Abertawe—cynllun a agorais yn 2014—lle mae amddiffynfeydd wedi cael eu symud yn ôl i greu gorlifdir naturiol ehangach a fydd yn fwriadol yn gorlifo ac yn amddiffyn cartrefi a busnesau ymhellach i lawr yr afon. Mae dulliau tebyg yn cael eu defnyddio ar hyd a lled Cymru, gyda gwaith diweddar yng ngogledd Caerdydd, Borth a Bae Colwyn i gyd yn defnyddio prosesau naturiol yn hytrach na dibynnu ar amddiffynfeydd caled. Yn ogystal, byddwn yn parhau i adeiladu cydnerthedd cymunedol, drwy godi ymwybyddiaeth o lifogydd a pharatoi cynlluniau llifogydd i leihau'r effeithiau ar fywydau ac eiddo. Ni fyddwn byth yn gallu stopio'r holl lifogydd yn gyfan gwbl. Mae cymunedau eu hunain yn chwarae rhan gynyddol bwysig trwy fod wedi’u paratoi'n dda i ymdrin ag effeithiau gwaethaf llifogydd a’u hatal yn ogystal â helpu i ymdrin â’r ôl-effeithiau.

In my written statement of 29 December, I committed £1 million for immediate repairs and maintenance work to river and drainage schemes. This was boosted by an announcement from the First Minister last week of an additional £2.3 million, meaning that we can now offer a package of £3.3 million. My officials have written to all local authorities with details of this additional funding. These schemes are to be completed by the end of March and make a real difference to recovery, restoring resilience to flooded communities and reducing flood risk for further communities across Wales.

Yn fy natganiad ysgrifenedig ar 29 Rhagfyr, ymrwymais £1 miliwn ar gyfer gwaith atgyweirio ar unwaith a gwaith cynnal a chadw i gynlluniau afonydd a draenio. Cafodd hyn hwb drwy gyhoeddiad gan y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf o £2.3 miliwn ychwanegol, sy'n golygu y gallwn yn awr gynnig pecyn o £3.3 miliwn. Mae fy swyddogion wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol gyda manylion am yr arian ychwanegol hwn. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth a byddant yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i adferiad, adfer cydnerthedd i gymunedau dan ddŵr a lleihau perygl llifogydd ar gyfer cymunedau eraill ledled Cymru.

As part of the draft budget in December, the Finance Minister announced £3 million for construction of the priority flood scheme at St Asaph, and £3 million extra to help local authorities across Wales design and develop their coastal schemes in preparation for the £150 million coastal risk management programme. Today, I am also pleased to announce an additional £4.2 million of funding for 2016-17 on important flood defence schemes at Boverton in the Vale of Glamorgan and Porthcawl. Both schemes will commence in 2016 and, together, they will reduce risk to around 300 homes and businesses, as well as providing amenity improvements to a popular and important area of tourism. Construction of the Boverton scheme will take place alongside, and complement, the works upstream at Llanmaes, reducing risk across the catchment.

Yn rhan o'r gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid £3 miliwn i adeiladu'r cynllun blaenoriaeth llifogydd yn Llanelwy, a £3 miliwn ychwanegol i helpu awdurdodau lleol ledled Cymru i ddylunio a datblygu eu cynlluniau arfordirol wrth baratoi ar gyfer y rhaglen rheoli risg arfordirol £150 miliwn. Heddiw, rwyf hefyd yn falch o gyhoeddi £4.2 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer 2016-17 ar gynlluniau amddiffyn rhag llifogydd pwysig yn Nhrebefered ym Mro Morgannwg a Phorthcawl. Bydd y ddau gynllun yn dechrau yn 2016 a, gyda'i gilydd, byddant yn lleihau'r risg i tua 300 o gartrefi a busnesau, yn ogystal â darparu gwelliannau amwynderau i ardal dwristiaeth boblogaidd a phwysig. Bydd adeiladu'r cynllun Trebefered yn digwydd ochr yn ochr, ac yn ategu, y gwaith i fyny'r afon yn Llan-maes, gan leihau risg ar draws y dalgylch.

This package of funding will complement the existing programme for next year and help to ensure that more communities remain resilient. As I started by saying, we cannot do this alone, though I would like to conclude by reiterating my thanks to those involved in the response to these flooding events, and who continue to work hard to assist in the recovery. Thank you.

Bydd y pecyn hwn o gyllid yn ategu'r rhaglen bresennol ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn helpu i sicrhau bod mwy o gymunedau yn parhau i fod yn gydnerth. Gan i mi ddechrau drwy ddweud, ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain, serch hynny hoffwn gloi drwy ailadrodd fy niolch i'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymateb i’r digwyddiadau llifogydd hyn, ac sy'n parhau i weithio'n galed i gynorthwyo yn yr adferiad. Diolch.

15:26 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for confirming the £3 million to be invested in the flood scheme at St Asaph. The current temporary measures, as you know, came dangerously close to being breached over Xmas. However, following the events over Christmas, will the Minister agree that there is still much to be done? We are only halfway through this winter, and there is urgent need to repair flood defences that failed. NRW will be required to report on these events. It is vital that these lessons are learnt.

Diolch i chi, Weinidog, am gadarnhau'r £3 miliwn sy'n cael ei fuddsoddi yn y cynllun llifogydd yn Llanelwy. Daeth y mesurau dros dro presennol, fel y gwyddoch, yn beryglus o agos at gael eu torri dros y Nadolig. Fodd bynnag, yn dilyn y digwyddiadau dros y Nadolig, a fydd y Gweinidog yn cytuno bod llawer o waith i'w wneud? Nid ydym ond hanner ffordd drwy'r gaeaf hwn, ac mae angen brys i atgyweirio amddiffynfeydd rhag llifogydd a fethodd. Bydd yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru adrodd ar y digwyddiadau hyn. Mae'n hanfodol bod y gwersi hyn yn cael eu dysgu.

Within north Wales, there have been reports of defences failing and communication difficulties. I'm not surprised by that—Superfast Cymru. Within north Wales, residential homes were affected by these recent floods. Businesses have suffered and at least two significant historical sites have been severely damaged. Would the Minister agree that the recent events point to an urgent need for a review of how we are managing flooding? This calls for a joined-up approach, starting with the run-off from our uplands, management of our rivers, coastal defences, urban drainage and the effectiveness of our emergency plans. When I was in Llanrwst when the river levels were falling, it was to visit homes that were at risk of being flooded by surface water contaminated by sewage, and this was due to the urban drainage system not being fit for purpose.

Yn y gogledd, cafwyd adroddiadau o amddiffynfeydd yn methu ac anawsterau cyfathrebu. Nid wyf wedi fy synnu gan hynny—Cyflymu Cymru. Yn y gogledd, cafodd cartrefi preswyl eu heffeithio gan y llifogydd diweddar hyn. Mae busnesau wedi dioddef ac o leiaf dau safle hanesyddol arwyddocaol wedi eu difrodi'n ddifrifol. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod y digwyddiadau diweddar yn pwyntio at angen brys am adolygiad o'r modd yr ydym yn rheoli llifogydd? Mae hyn yn galw am ddull cydgysylltiedig, gan ddechrau gyda'r dŵr ffo o'n hucheldiroedd, rheoli ein hafonydd, amddiffynfeydd arfordirol, draenio trefol ac effeithiolrwydd ein cynlluniau argyfwng. Pan oeddwn yn Llanrwst pan oedd y lefelau afonydd yn gostwng, roedd hynny er mwyn ymweld â chartrefi a oedd mewn perygl o gael eu gorlifo gan ddŵr wyneb wedi'i halogi gan garthion, ac roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith nad oedd y system ddraenio trefol yn addas i'w diben.

Also, our emergency plans. These need to be tested in October before we face the winter, and lessons learnt. In Llanrwst, as I referred to earlier, there were communication difficulties. They were relying on communicating with the St Asaph control centre, computer to computer, mobile phone to mobile phone, and it went down. There was no plan B. We could have gone back to VHF radio communications—that's what mountain rescue used to use and still do in some areas. So, it is vital that first responders are able to use communications, and this failed in Llanrwst—that's a real shortfall. So, I would ask the Minister to look particularly at that. Thank you.

Hefyd, ein cynlluniau argyfwng. Mae angen i'r rhain gael eu profi ym mis Hydref cyn i ni wynebu'r gaeaf, a dysgu gwersi. Yn Llanrwst, fel y cyfeiriais ato yn gynharach, roedd anawsterau cyfathrebu. Roeddent yn dibynnu ar gyfathrebu â chanolfan reoli Llanelwy, cyfrifiadur i gyfrifiadur, ffôn symudol i ffôn symudol, a methodd hynny. Nid oedd unrhyw gynllun B. Gallem fod wedi mynd yn ôl at gyfathrebu radio VHF—dyna beth oedd timau achub mynydd yn arfer ei ddefnyddio ac maent yn dal i wneud hynny mewn rhai ardaloedd. Felly, mae'n hanfodol bod ymatebwyr cyntaf yn gallu defnyddio cyfathrebiadau, ac fe fethodd hyn yn Llanrwst—mae hynny'n ddiffyg gwirioneddol. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog edrych yn benodol ar hynny. Diolch.

15:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her contribution. One hundred and fifty homes across Wales were affected directly, which is tragic for those homeowners and it has a massive effect on them. But, as I said earlier on, I think the resilience of our services across Wales stood up well. There are lessons to be learnt, of course; as always, when events like this happen, we learn all the time. I have asked specifically for details from NRW around the Llanrwst incident which occurred over the critical period.

Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad. Cafodd cant a hanner o gartrefi ledled Cymru eu heffeithio yn uniongyrchol, sydd yn ddifrifol i'r perchnogion tai hynny ac mae wedi cael effaith enfawr arnynt. Ond, fel y dywedais yn gynharach, rwy'n meddwl bod cydnerthedd ein gwasanaethau ar draws Cymru wedi bod yn dda. Mae gwersi i'w dysgu, wrth gwrs; fel bob amser, pan fydd digwyddiadau fel hyn yn digwydd, rydym yn dysgu drwy'r amser. Rwyf wedi gofyn yn benodol am fanylion gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch digwyddiad Llanrwst a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod allweddol.

I will ask the Member to support the environment Bill, because the fact of the matter is that we are changing the way we operate in terms of management, area statements and catchment areas, looking holistically at services and water courses—a much broader base. An example that we've used is the catchment of water up on the uplands, through the carbon storage and peat bogs in the uplands, which prevents quick run-off to places like Conwy and Llanrwst. We know that's keeping water up in the hills and the slow release has that effect. That's not, therefore, about making concrete structures and building walls down in the lower areas; it's actually about managing land better further afield. So, that's contained within the environment Bill, and I hope that you'll support that as that moves forward.

Rwyf yn gofyn i'r Aelod gefnogi'r Bil amgylchedd, gan mai'r gwir amdani yw ein bod yn newid y ffordd yr ydym yn gweithredu o ran rheoli, datganiadau ardal a dalgylchoedd, gan edrych yn gyfannol ar wasanaethau a chyrsiau dŵr—sylfaen llawer ehangach. Enghraifft o'r hyn yr ydym wedi'i defnyddio yw'r dalgylch dŵr i fyny ar yr ucheldiroedd, trwy storio carbon a chorsydd mawn yn yr ucheldir, sy'n atal dŵr ffo cyflym i leoedd fel Conwy a Llanrwst. Rydym yn gwybod bod hynny'n cadw dŵr i fyny yn y bryniau ac mae'r rhyddhau araf yn cael yr effaith honno. Nid yw hynny, felly, yn ymwneud â gwneud adeileddau concrid ac adeiladau waliau i lawr yn yr ardaloedd is; mewn gwirionedd mae'n ymwneud â rheoli tir yn well ymellach i ffwrdd. Felly, mae hynny wedi'i gynnwys yn y Bil amgylchedd, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn cefnogi hwnnw wrth iddo symud yn ei flaen.

We do continue working with the emergency services, and they do continuously have emergency plans and update them, and have practice sessions; there was one not so long back at Bala lake, actually, where the emergency services were enacting events with regard to flooding. Technical advice note 15 secures our services around the planning system, which we believe are robust. But whatever political party is in power, the Minister may be impressive, but he can't control the weather. The rain is the rain, and, unfortunately, we did have unprecedented rainfall in the month of December, but I do think, as a whole—it's of little comfort to the 150 homes that were flooded, and I accept that absolutely—we have worked together with the agencies, with volunteers, to make sure—. At 7 o'clock on Boxing Day morning, I received a phone call from officials at NRW, operating in the Llanrwst area, and the St Asaph area, waiting for flooding that was predicted. Fortunately, in some areas, that didn't happen, and I believe that's because of the resilience of the services that we put in place and also the quick action of staff and services from other organisations, including my team here in Welsh Government.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r gwasanaethau brys, ac mae ganddynt gynlluniau argyfwng yn barhaus ac maent yn eu diweddaru, ac yn cael sesiynau ymarfer; roedd un ddim mor bell a hynny yn ôl ar lyn y Bala, mewn gwirionedd, lle'r oedd y gwasanaethau brys yn creu digwyddiadau yn ymwneud â llifogydd. Mae nodyn cyngor technegol 15 yn sicrhau ein gwasanaethau o amgylch y system gynllunio, yr ydym yn credu sy'n gadarn. Ond pa bynnag blaid wleidyddol sydd mewn grym, efallai fod y Gweinidog yn creu argraff, ond ni all reoli'r tywydd. Y glaw yw'r glaw, ac, yn anffodus, cawsom law digynsail ym mis Rhagfyr, ond rwy'n meddwl, ar y cyfan—nid yw fawr o gysur i'r 150 o gartrefi a oedd dan ddŵr, ac rwy'n derbyn hynny'n llwyr—ein bod wedi cydweithio gyda'r asiantaethau, gyda gwirfoddolwyr, i wneud yn siŵr—. Am 7 o'r gloch ar fore Gŵyl San Steffan, cefais alwad ffôn gan swyddogion yn Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithredu yn ardal Llanrwst, ac ardal Llanelwy, yn aros am lifogydd a gafodd eu rhagfynegi. Yn ffodus, mewn rhai ardaloedd, ni ddigwyddodd hynny, a chredaf fod hynny oherwydd cydnerthedd y gwasanaethau a roesom ar waith a hefyd y gweithredu cyflym gan staff a gwasanaethau gan sefydliadau eraill, gan gynnwys fy nhîm i yma yn Llywodraeth Cymru.

15:32

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank you for your statement, Minister, and join with you in thanking those individuals and organisations who responded quite heroically in many instances to the circumstances as they developed over Christmas and in recent weeks? I also welcome the financial commitments that you've announced today. I'm sure all of us will be very welcoming of that.

A gaf i ddiolch i chi am eich datganiad, Weinidog, ac ymuno â chi i ddiolch i unigolion a sefydliadau a ymatebodd yn eithaf arwrol mewn llawer o achosion i'r amgylchiadau hynny wrth iddynt ddatblygu dros y Nadolig ac yn yr wythnosau diwethaf? Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiadau ariannol yr ydych wedi'u cyhoeddi heddiw. Rwy'n siŵr y bydd pob un ohonom yn croesawu hynny'n fawr iawn.

Now, you do say in your statement that you are committed to building climate resilience and adaptation into the heart of decision making for our flood programme and coastal plans, and I would agree with you there. It is, therefore, disappointing, Minister, that you rejected Plaid Cymru's amendment to the environment Bill at Stage 2 for the Welsh Government to lay a climate change adaptation programme before the National Assembly for Wales. So, in light of your statement today, I would ask you to reconsider your opposition to that, and maybe you would tell us if you would be willing to consider supporting that proposal at Stage 3.

Nawr, rydych yn dweud yn eich datganiad eich bod wedi ymrwymo i adeiladu cydnerthedd yn yr hinsawdd a rhoi hynny ac addasu wrth wraidd gwneud penderfyniadau ar gyfer ein rhaglen llifogydd a chynlluniau arfordirol, a byddwn yn cytuno â chi yn hynny o beth. Y mae, felly, yn siomedig, Weinidog, eich bod wedi gwrthod gwelliant Plaid Cymru i'r Bil amgylchedd yng Nghyfnod 2 i Lywodraeth Cymru osod rhaglen addasu newid yn yr hinsawdd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, yng ngoleuni eich datganiad heddiw, byddwn yn gofyn i chi ailystyried eich gwrthwynebiad i hynny, ac efallai y byddech yn dweud wrthym a fyddech yn barod i ystyried cefnogi'r cynnig hwnnw yng Nghyfnod 3.

As I said, I welcome the additional investment, but, of course, that is happening with the backdrop of your department facing more cuts in budget—proportionally higher cuts in recent years than many other departments in Welsh Government, and, of course, as a national body responsible for flood-risk management, it's crucial that somebody like Natural Resources Wales has sufficient resources in place to carry out its duty. So, it's worrying, clearly, that the Welsh Government's draft budget includes a 9.7 per cent cut to the 'sponsor and manage delivery bodies' action. Maybe you could tell us how much of this cut would be borne by Natural Resources Wales. There's also been a 9.7 per cent cut in revenue to the 'develop and implement flood and coastal risk, water and sewage policy and legislation' line in the budget, and I'd be grateful if you could tell us what effect you think this will have on Wales's ability to better protect our people, our properties and our businesses from the risks of flooding.

Fel y dywedais, rwy'n croesawu'r buddsoddiad ychwanegol, ond, wrth gwrs, mae hynny'n digwydd gyda'r cefndir o'ch adran yn wynebu mwy o doriadau yn y gyllideb—toriadau sy'n gymesur uwch yn y blynyddoedd diwethaf na llawer o adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru, ac, wrth gwrs, fel y corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am reoli risg llifogydd, mae'n hanfodol bod gan rywun fel Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau ar waith i gyflawni ei ddyletswydd. Felly, mae'n peri pryder, yn amlwg, fod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys 9.7 y cant o doriad i'r weithred 'noddi a rheoli cyrff cyflenwi'. Efallai y gallech ddweud wrthym faint o'r toriad hwn fyddai'n cael ei ysgwyddo gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Bu toriad o 9.7 y cant hefyd mewn refeniw i'r llinell 'datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth risg llifogydd ac arfordirol, dŵr a charthion' yn y gyllideb, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym pa effaith y credwch y bydd hyn yn ei chael ar allu Cymru i amddiffyn ein pobl, ein heiddo a'n busnesau yn well rhag peryglon llifogydd.

You also underline in your statement the importance of directing new development, with an eye, of course, on the risk of flooding. Now, two years ago, I brought to your attention the fact that 341 planning applications in the preceding 10 years for development on flood-risk areas have actually been approved by local authorities in Wales, against the advice of experts. Do you agree, therefore, that the Government should look again at TAN 15, and get to grips with something that's, quite clearly, storing up problems, and storing up costs, for future generations?

Rydych hefyd yn tanlinellu yn eich datganiad y pwysigrwydd o gyfeirio datblygiadau newydd, gyda golwg, wrth gwrs, ar y perygl o lifogydd. Nawr, ddwy flynedd yn ôl, tynnais eich sylw at y ffaith fod 341 o geisiadau cynllunio yn y 10 mlynedd flaenorol ar gyfer datblygu ar ardaloedd risg llifogydd mewn gwirionedd wedi eu cymeradwyo gan awdurdodau lleol yng Nghymru, yn groes i gyngor arbenigwyr. A ydych chi'n cytuno, felly, y dylai'r Llywodraeth edrych eto ar TAN 15, a mynd i'r afael â rhywbeth sydd, yn gwbl amlwg, yn storio problemau, ac yn storio costau, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

And, finally, Minister, you tell us that utilising natural processes rather than relying purely on hard defences is important. Well, I couldn't agree more. But I would say that Government progress on this has been rather slow to date, and I would ask you therefore: will you commit to moving on this more decisively, and with greater urgency, because we can mix as much concrete as we like—? The reality is that we have to work with nature, because, at the end of the day, nature will win.

Ac, yn olaf, Weinidog, rydych yn dweud wrthym fod defnyddio prosesau naturiol yn hytrach na dibynnu yn unig ar amddiffynfeydd caled yn bwysig. Wel, ni allwn gytuno mwy â chi. Ond byddwn yn dweud bod cynnydd y Llywodraeth ar hyn wedi bod braidd yn araf hyd yn hyn, a byddwn yn gofyn i chi, felly: a wnewch chi ymrwymo i symud ar hyn yn fwy pendant, a gyda mwy o frys, oherwydd gallwn gymysgu cymaint o goncrit ag a fynnwn —? Y gwir amdani yw bod yn rhaid inni weithio gyda natur, oherwydd, yn y pen draw, natur fydd yn ennill.

15:35

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I find myself agreeing with some of the comments that the Member makes this afternoon, which is sometimes unusual, too. But, can I say, I'm not minded, still, to support your amendment, as laid, to the environment Bill? To suggest that, by not supporting your amendment, we don't have a climate change adaptation programme would be incorrect, and we are working very carefully with our teams to ensure that that is part of the robustness of decisions that we make.

Rwy'n canfod fy hun yn cytuno â rhai o'r sylwadau y mae'r Aelod yn eu gwneud y prynhawn yma, sydd weithiau'n anarferol, hefyd. Ond, a gaf i ddweud, nad wyf yn bwriadu, o hyd, cefnogi eich gwelliant, fel y'i gosodwyd, i'r Bil amgylchedd? Byddai awgrymu, trwy beidio â chefnogi eich gwelliant, nad oes gennym raglen addasu newid yn yr hinsawdd yn anghywir, ac rydym yn gweithio'n ofalus iawn gyda'n timau i sicrhau bod hynny'n rhan o gadernid y penderfyniadau a wnawn.

In terms of resources, I can't defend the fact that we have had £1.8 billion less to the Welsh economy from the Conservative Government in the UK. That has an impact on public services, and the delivery of services. And that's why we can't continue to carry on working in the same guise as we used to before; we have to make clever investments, clever solutions to the issues that face us, and we have to try and mitigate to the best of our ability.

O ran adnoddau, ni allaf amddiffyn y ffaith ein bod wedi cael £1.8 biliwn yn llai i economi Cymru gan y Llywodraeth Geidwadol yn y DU. Mae hynny yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus, a darparu gwasanaethau. A dyna pam na allwn barhau i ddal i weithio yn yr un ffordd ag yr arferem wneud o'r blaen; mae'n rhaid i ni wneud buddsoddiadau clyfar, atebion clyfar i'r materion sy'n ein hwynebu, ac mae'n rhaid i ni geisio lliniaru hyd eithaf ein gallu.

I am confident that NRW can continue the excellent work that they do in terms of flood-risk management, alongside the local authorities, which also do a considerable amount of work. But we have to, therefore, work on the principle of doing something different, and one of the examples I alluded to—and you did, too, in support—was making sure that we can take a more holistic view on the impacts on communities. And it may be making clever investments in another community to stop a neighbouring local authority flooding. But that's the whole purpose of the area statements that NRW will be working through on the environment Bill, as I am sure the Member knows.

Rwy'n hyderus y gall Cyfoeth Naturiol Cymru barhau â'r gwaith rhagorol y mae'n ei wneud o ran rheoli risg llifogydd, ochr yn ochr â'r awdurdodau lleol, sydd hefyd yn gwneud cryn dipyn o waith. Ond mae'n rhaid i ni, felly, weithio ar yr egwyddor o wneud rhywbeth gwahanol, ac un o'r enghreifftiau y cyfeiriais ati—a gwnaethoch chithau, hefyd, i gefnogi—oedd gwneud yn siŵr ein bod yn gallu cymryd golwg fwy cyfannol ar yr effeithiau ar gymunedau. A gall olygu gwneud buddsoddiadau clyfar mewn cymuned arall i atal llifogydd awdurdod lleol cyfagos. Ond dyna holl bwrpas y datganiadau ardal y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio drwyddynt ar y Bil amgylchedd, fel yr wyf yn siŵr y bod yr Aelod yn gwybod.

In terms of TAN 15, we do operate a very robust plan, in terms of consideration of applications, where there is consideration of building within a flood plain. TAN 15 is the toolkit used to complement the decision-making process. Where there are applications that are agreed to build in a flood-risk area, there has to be a mitigation process to ensure that the properties there are de-risked, in that principle. I can't comment on specific applications, but I do expect—and very robustly—that all planning applications, and planning authorities, have to make sure that they consider TAN 15 on application, and, where they are minded to approve, I will certainly receive advice on that basis from my officials, too. We must continue to ensure that this is up to date and continues to be working effectively.

O ran TAN 15, rydym yn gweithredu cynllun cadarn iawn, o ran ystyried ceisiadau, lle y ceir ystyriaeth o adeiladu o fewn gorlifdir. TAN 15 yw'r pecyn cymorth a ddefnyddir i ategu'r broses o wneud penderfyniadau. Lle mae ceisiadau sydd wedi eu cytuno i adeiladu mewn ardal risg llifogydd, mae'n rhaid cael proses liniaru i sicrhau bod yr eiddo yno yn cael eu dad-beryglu, yn yr egwyddor honno. Ni allaf wneud sylw ar geisiadau penodol, ond rwyf yn disgwyl—ac yn gadarn iawn—bod yn rhaid i'r holl geisiadau cynllunio, ac awdurdodau cynllunio, sicrhau eu bod yn ystyried TAN 15 ynglŷn â chais, a, lle y maent yn bwriadu ei ganiatáu, byddaf yn sicr yn cael cyngor ar y sail honno gan fy swyddogion, hefyd. Mae'n rhaid i ni barhau i sicrhau bod hyn yn gyfredol ac yn parhau i weithio'n effeithiol.

15:38

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, can I add my thanks to you and to officials for the outstanding work that they have done over the festive period, as well as the community activists and the flood wardens? But could I also just mention the emergency services and, in particular, the Royal National Lifeboat Institution flood rescue team from Rhyl lifeboat station, who went up to Cumbria on that very first weekend, and putting themselves at risk there? But they went up there, and then came back, and were on standby should things have happened across the north Wales coast. So, I'd like to mention them, and record my thanks to them for their dedication.

Weinidog, a gaf i ychwanegu fy niolch i chi ac i'r swyddogion am y gwaith rhagorol y maent wedi'i wneud dros yr ŵyl, yn ogystal â'r ymgyrchwyr cymunedol a'r wardeiniaid llifogydd? Ond a gaf i hefyd sôn am y gwasanaethau brys ac, yn arbennig, tîm achub llifogydd Sefydliad Cenedlaethol y Badau Achub Brenhinol o orsaf bad achub Y Rhyl, a aeth i fyny i Cumbria ar y penwythnos cyntaf un, a rhoi eu hunain mewn perygl yno? Ond aethant i fyny yno, ac yna daethant yn ôl, ac roeddent wrth law pe byddai pethau wedi digwydd ar draws arfordir y gogledd. Felly, hoffwn sôn amdanynt, a chofnodi fy niolch iddynt am eu hymroddiad.

I welcome your investment, and so do the people of the lower part of St Asaph—and you've alluded to a couple of near misses there—and apart from you standing on the banks and telling the river to go back, I don't know what else we can actually do, in view of that. [Laughter.] But at least the investment that you've put there now, and the fact that you've brought the capital programme forward, I think, is of great consequence there.

Rwy'n croesawu eich buddsoddiad, ac mae pobl rhan isaf Llanelwy hefyd—ac rydych wedi cyfeirio at un neu ddau o achosion a fu bron â digwydd yno—ac ar wahân i chi sefyll ar y glannau a dweud wrth yr afon i fynd yn ôl, wn i ddim beth arall y gallwn ni ei wneud mewn gwirionedd, o ystyried hynny. [Chwerthin.] Ond o leiaf mae'r buddsoddiad yr ydych wedi'i roi yno erbyn hyn, a'r ffaith eich bod wedi dod â'r rhaglen gyfalaf yn ei blaen, rwy'n meddwl, o bwys mawr yn y fan honno.

I wanted to talk to you about contour forestation. You may have heard me mention this to previous Ministers, and I think I have spoken to you about it. I wonder whether that is yet another tool in the box that we need to look at ways in which we can deal with the effects of climate change and the effects of the rivers there. All in all, this is to say that I appreciate the work of the Natural Resources Wales officials on Boxing Day. I too had a phone call very early. I apologise to the person who had to deal with my grandchild who thought she was Sheriff Callie at the same time. I apologise for that, but, nevertheless, we got the message, and I know that they did work hard. So, I want to state that. But would you look at contour forestation or plantation as a way forward and as another tool in the box to mitigate some of the problems that we're having?

Roeddwn i eisiau siarad â chi am goedwigo gyda rhediad y tir. Efallai eich bod wedi fy nghlywed yn sôn am hyn wrth Weinidogion blaenorol, ac rwy'n meddwl fy mod wedi siarad â chi am y peth. Tybed a yw hynny'n arf arall yn y blwch sydd ei angen arnom i edrych ar ffyrdd y gallwn ymdrin ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ac effeithiau yr afonydd yno. Ar y cyfan, mae hyn i ddweud fy mod yn gwerthfawrogi gwaith swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru ar Ddydd San Steffan. Cefais innau hefyd alwad ffôn yn gynnar iawn. Rwy'n ymddiheuro i'r sawl a oedd yn gorfod ymdrin â fy wyres a oedd yn meddwl mai hi oedd Siryf Callie ar yr un pryd. Ymddiheuraf am hynny, ond, serch hynny, cawsom y neges, a gwn eu bod wedi gweithio'n galed. Felly, rwyf eisiau datgan hynny. Ond a wnewch chi edrych ar goedwigo neu blanhigfa ar rediad y tir fel ffordd ymlaen ac fel arf arall yn y blwch i liniaru rhai o'r problemau yr ydym ni'n eu cael?

15:40

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her comments. I agree and concur with her on the issue around the great work that the emergency services and volunteers played in action not just locally but across the country where the needs were greater in some areas. I work very closely with the Minister for Public Services and, continuously over many years, we've made significant investments in the fire service too to help with flooding issues because they are becoming more prevalent—we recognise that. One of the areas the Member raises with this is about contour forestation. That is another good example of clever investment, where it meets the criteria of our tree-planting. So, it's that clever solution of not just planting trees for the sake of planting trees, but planting them with a purpose. That's an example I know the Member is keen to pursue, and we have made some impact in the St Asaph area on that proposal. That is just one part of another area where we need to think clever about the whole catchment of the area in order to stop the waters breaching in places like St Asaph. I did visit St Asaph with the Member, and I must say that there is an element of luck in this too. On Boxing Day particularly, we were very close to the banks breaching but they didn't. We have advanced the capital investment, and I'm grateful for the Member's comments on that. But we are facing unprecedented weather conditions and climate change, which we have to tackle head-on to ensure that we can address all of these issues where, continually, they keep surprising us with some of these odd events that happen in areas where we never expected flooding to happen before.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Rwy'n cytuno ac yn cyd-weld â hi ar y mater o amgylch y gwaith gwych a chwaraeodd y gwasanaethau brys a'r gwirfoddolwyr yn weithredol nid yn unig yn lleol ond ar draws y wlad lle mae'r anghenion yn fwy mewn rhai ardaloedd. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ac, yn barhaus dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol yn y gwasanaeth tân hefyd i helpu gyda materion llifogydd am eu bod yn dod yn fwy cyffredin—rydym yn cydnabod hynny. Mae un o'r meysydd y mae'r Aelod yn ei godi gyda hyn yn ymwneud â choedwigo ar rediad y tir. Dyna enghraifft dda arall o fuddsoddiad clyfar, lle mae'n bodloni'r meini prawf ar blannu coed gennym. Felly, mae'n ateb clyfar o nid yn unig blannu coed er mwyn plannu coed, ond eu plannu gyda phwrpas. Dyna enghraifft yr wyf yn gwybod bod yr Aelod yn awyddus i fynd ar ei thrywydd, ac rydym wedi cael rhywfaint o effaith yn ardal Llanelwy ar y cynnig hwnnw. Nid yw hynny ond un rhan o faes arall lle mae angen i ni feddwl yn glyfar am ddalgylch cyfan yr ardal er mwyn atal dyfroedd rhag bylchu mewn lleoedd fel Llanelwy. Ymwelais â Llanelwy gyda'r Aelod, ac mae'n rhaid imi ddweud bod elfen o lwc yn hyn hefyd. Ar Ddydd San Steffan yn arbennig, roeddem yn agos iawn at weld y glannau yn torri ond ni wnaethant. Rydym wedi talu'r buddsoddiad cyfalaf, ac rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Aelod ar hynny. Ond rydym yn wynebu amodau tywydd a newid yn yr hinsawdd digynsail, y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â nhw yn ddigyfaddawd i sicrhau y gallwn ymdrin â'r holl faterion hyn pan eu bod, yn barhaus, yn dal i'n synnu ni gyda rhai o'r digwyddiadau rhyfedd hyn sy'n digwydd mewn ardaloedd lle nad oeddem erioed wedi disgwyl i lifogydd ddigwydd o'r blaen.

15:42

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to thank the Minister very much for his statement today. I'd also like to associate myself with his remarks, and indeed those remarks of Ann Jones, with regard to the efforts made by emergency services, local authority workers, NRW staff, but also employees of the utility companies. I am aware in my own community of individual staff members from Western Power, who went up to Cumbria to help with the efforts there. As we all know very well, the recent floods affected some significant communities in parts of mid and west Wales and particularly north Wales and, of course, much of the north of England.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Hoffwn hefyd gysylltu fy hun gyda'i sylwadau, ac yn wir sylwadau Ann Jones, o ran yr ymdrechion a wnaed gan y gwasanaethau brys, gweithwyr awdurdodau lleol, staff Cyfoeth Naturiol Cymru, ond hefyd gweithwyr y cwmnïau cyfleustodau. Rwy'n ymwybodol yn fy nghymuned fy hun o aelodau staff unigol o Western Power, a aeth i fyny i Cumbria i helpu gyda'r ymdrech yno. Fel yr ydym i gyd yn gwybod yn dda iawn, mae'r llifogydd diweddar wedi effeithio ar rai cymunedau sylweddol mewn rhannau o ganolbarth a gorllewin Cymru ac yn enwedig y gogledd ac, wrth gwrs, llawer o ogledd Lloegr.

The emphasis in the Minister's statement has very much been on a partnership approach and upon us not being alone. In that context, Minister, I wonder whether you agree with me that it is a bit baffling that the UK Conservative Government has set its face against making an application to the EU solidarity fund. There have been calls by Liberal Democrat MEP Catherine Bearder and by your own colleague Derek Vaughan MEP that we should, as the UK, be making an application. In recent years, up to €66 million have been claimed by Bulgaria, Italy and Romania in similar disastrous flooding events. These funds are set aside; they would be available, but it is crucial that there is a 12-week window for application. Given the pressure on resources that we've heard about today, surely it would be sensible to bring forward such an application.

Mae'r pwyslais yn natganiad y Gweinidog wedi bod i raddau helaeth ar ddull partneriaeth ac arnom ni ddim yn ymdopi ar ein pennau ein hunain. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, tybed a ydych chi'n cytuno â mi ei bod braidd yn rhyfedd fod Llywodraeth Geidwadol y DU yn benderfynol o beidio â gwneud cais i gronfa undod yr UE. Bu galwadau gan ASE y Democratiaid Rhyddfrydol Catherine Bearder a gan eich cydweithiwr eich hun Derek Vaughan ASE y dylem, fel y DU, wneud cais. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae hyd at €66 miliwn wedi ei hawlio gan Bwlgaria, yr Eidal a Romania mewn digwyddiadau llifogydd trychinebus tebyg. Mae'r cronfeydd hyn wedi eu neilltuo; byddent ar gael, ond mae'n hanfodol bod cyfnod 12 wythnos ar gyfer gwneud cais. O ystyried y pwysau ar adnoddau yr ydym wedi clywed amdano heddiw, siawns y byddai'n ddoeth i gyflwyno cais o'r fath.

The current trend towards the more frequent weather events that we've heard so much about and witnessed clearly indicates that we're going to see more of this in the time to come. Minister, do you agree with me that this demonstrates that the current modelling of 100-year return events is no longer appropriate to use as a risk-management tool in respect of river flooding? Would you consider, perhaps, a more appropriate way of risk modelling, such as one based upon a known record level model, which would provide a more realistic benchmark for measuring and dealing with flood risk?

Mae'r duedd bresennol tuag at ddigwyddiadau tywydd amlach yr ydym wedi clywed cymaint amdanynt ac wedi bod yn dyst iddynt, yn nodi'n glir ein bod yn mynd i weld mwy o hyn yn yr amser i ddod. Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi bod hyn yn dangos nad yw'r modelu presennol o ddigwyddiadau'n dychwelyd bob 100 mlynedd yn briodol i'w ddefnyddio fel dull o reoli risg o ran llifogydd afon? A fyddech chi'n ystyried, efallai, ffordd fwy priodol o fodelu risg, megis un yn seiliedig ar fodel lefel hysbys uchaf erioed, a fyddai'n darparu meincnod mwy realistig ar gyfer mesur ac ymdrin â pherygl llifogydd?

In addition, comment has also been made that there is currently no UK standard for flood protection work. Will you, in partnership with Ministers in other administrations within the UK, look at the potential for developing such a national UK standard?

Yn ogystal, mae sylw wedi ei wneud hefyd nad oes safon y DU ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd ar hyn o bryd. A wnewch chi, ar y cyd â Gweinidogion mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU, edrych ar y potensial ar gyfer datblygu safon genedlaethol o'r fath yn y DU?

Furthermore, given the extent to which homes, property and farmland have been damaged across areas of Wales, will you commit to exploring the making available of grants to householders and farmers in flood-risk areas who want to put in place improvements to their properties and also to build resilience within the wider communities?

Hefyd, o ystyried y graddau y mae cartrefi, eiddo a thir amaethyddol wedi cael eu difrodi ar draws ardaloedd yng Nghymru, a wnewch chi ymrwymo i archwilio'r broses o roi grantiau ar gael i ddeiliaid tai a ffermwyr mewn ardaloedd risg llifogydd sydd eisiau rhoi gwelliannau ar waith i'w heiddo a hefyd i adeiladu cydnerthedd yn y cymunedau ehangach?

I have spoken previously about the merits of tree planting and we've heard much of it this afternoon in this Chamber, particularly the rolling out, on a wider scale, of the Pontbren project in mid Wales that would have considerable merit, and I'd welcome the Minister's thoughts on that. I also look forward to the Minister joining me on a forthcoming visit to the Centre for Alternative Technology where we can look in some more detail at some other climate change mitigation measures, and maybe lessons that can be learnt on a wider basis.

Rwyf wedi siarad o'r blaen am rinweddau plannu coed ac rydym wedi clywed llawer am hynny y prynhawn yma yn y Siambr hon, yn arbennig cyflwyno, ar raddfa ehangach, prosiect Pontbren yng nghanolbarth Cymru a fyddai iddo gryn deilyngdod, a byddwn yn croesawu barn y Gweinidog ar hynny. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at weld y Gweinidog yn ymuno â mi ar ymweliad sydd ar ddod i'r Ganolfan Dechnoleg Amgen lle gallwn edrych yn fanylach ar rai mesurau eraill i liniaru newid yn yr hinsawdd, ac efallai ar wersi y gellir eu dysgu ar sail ehangach.

I'd also like to comment briefly on the NRW investigation that was announced last week into the flooding events in Llanwrst. I'm pleased to hear that the Minister has acknowledged that lessons need to be learnt and I look forward to a statement being brought forward.

Hoffwn hefyd wneud sylwadau byr ar ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn y digwyddiadau llifogydd yn Llanrwst. Rwy'n falch o glywed bod y Gweinidog wedi cydnabod bod angen dysgu gwersi ac edrychaf ymlaen at weld datganiad yn cael ei gyflwyno.

Finally, I would endorse comments that were made today at business statement by Bethan Jenkins with regard to the issues around fracking. We have heard in the news recently that flood victims who live in some of the areas covered by the new fracking licences announced by the UK Government before Christmas could face difficulties in terms of their insurance status. In that context, Minister, will the Welsh Government put pressure on the UK Government to introduce a presumption against siting fracking zones in areas identified as falling within a flood-risk zone?

Yn olaf, byddwn yn cymeradwyo sylwadau a wnaed heddiw yn ystod datganiad busnes gan Bethan Jenkins o ran y materion sy'n ymwneud â ffracio. Rydym wedi clywed yn y newyddion yn ddiweddar y gallai dioddefwyr llifogydd sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd a gwmpesir gan y trwyddedau ffracio newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU cyn y Nadolig wynebu anawsterau o ran eu statws yswiriant. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, a fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i gyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn lleoli parthau ffracio mewn ardaloedd a nodir fel rhai sy’n dod o fewn parth risg llifogydd?

15:46

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his many comments. The EU solidarity fund, I’ve no idea why the UK Government hasn’t applied for that, but I would urge the Ministers in Westminster to stop playing politics on the back of the EU, and if it’s needed, then we should apply for those funds on the basis of need and release those funds to the appropriate communities across the UK.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau niferus. Cronfa undod yr UE, nid oes gennyf unrhyw syniad pam nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud cais am hynny, ond byddwn yn annog y Gweinidogion yn San Steffan i roi'r gorau i chwarae gwleidyddiaeth ar gefn yr UE, ac os oes angen, yna dylem wneud cais am y cronfeydd hynny ar sail angen a rhyddhau’r cronfeydd hynny i'r cymunedau priodol ar draws y DU.

The Member touched on the risk modelling assessment that we use for flood management. I would urge caution about moving to a different model based on known data. I visited the River Alyn in the constituency of Lesley Griffiths on the twenty-eighth, witnessing there the River Alyn, which was at the highest it has been for 26 years—the highest recorded rate. So, we just have to look at the data that are provided—the current data—and NRW are very good at this in terms of the risk assessments, but as I said, we have to consolidate the known-risk data versus the increased climate change and the impact that’s having on our communities, and we have to make sure we get that right.

Soniodd yr Aelod am yr asesiad modelu risg yr ydym yn ei ddefnyddio ar gyfer rheoli llifogydd. Byddwn yn annog gofal ynglŷn â symud i fodel gwahanol yn seiliedig ar ddata hysbys. Ymwelais ag Afon Alun yn etholaeth Lesley Griffiths ar yr wythfed ar hugain gan fod yn dyst yno i’r afon Alun, a oedd ar yr uchaf y mae wedi bod ers 26 mlynedd—y gyfradd uchaf a gofnodwyd. Felly, nid oes ond rhaid i ni edrych ar y data sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd—y data cyfredol—ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dda iawn am hyn o ran yr asesiadau risg, ond fel y dywedais, mae'n rhaid i ni atgyfnerthu'r data risg hysbys yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn cynyddu a’r effaith y mae hynny’n ei chael ar ein cymunedau, ac mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn cael hynny’n iawn.

In terms of the issue around fracking that the Member raised, and also Bethan Jenkins in an earlier contribution, we have no applications for fracking here in Wales. There are licences that have been granted for proposals from the UK Government, but we have no live applications for any fracking proposals here. We operate a precautionary approach on this and a moratorium has been issued to local planning authorities from the Welsh Government last year, and we will continue to act on that precautionary approach.

O ran y mater ynghylch ffracio a godwyd gan yr Aelod, a hefyd Bethan Jenkins mewn cyfraniad cynharach, nid oes gennym unrhyw geisiadau am ffracio yma yng Nghymru. Ceir trwyddedau sydd wedi eu rhoi ar gyfer cynigion gan Lywodraeth y DU, ond nid oes gennym geisiadau byw ar gyfer unrhyw gynigion ffracio yma. Rydym yn gweithredu ymagwedd ragofalus ar hyn ac mae moratoriwm wedi ei roi i awdurdodau cynllunio lleol gan Lywodraeth Cymru y llynedd, a byddwn yn parhau i weithredu yn unol â’r dull rhagofalus hwnnw.

15:48

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I want to add my name to acknowledging all the work that was done through the holidays by all those support staff from wherever they were. Whilst we were enjoying Christmas—the large majority of us—those people were out in the cold and the wet and in the most extremely challenging conditions trying to keep other people safe to ensure that they, equally, enjoyed what they could of the festive period.

Weinidog, rwyf am ychwanegu fy enw at gydnabod yr holl waith a gafodd ei wneud drwy'r gwyliau gan yr holl staff cymorth o ble bynnag yr oeddent. Tra ein bod ni yn mwynhau’r Nadolig—y mwyafrif helaeth ohonom—roedd rhai pobl allan yn yr oerfel a'r gwlybaniaeth ac yn yr amodau mwyaf heriol yn ceisio cadw pobl eraill yn ddiogel i sicrhau eu bod hwythau hefyd yn mwynhau'r hyn a allent o gyfnod y Nadolig .

I don't want to go and reiterate all that has been said, Minister, but the one thing that seems obvious to me is that, when you're trying to talk about the evidence of absence, it is a very slippery concept, but it is somehow obvious that the levels of flooding that happened in Wales against the levels of flooding that happened in England must have some common denominator. It seems to me that the common denominator in England is that they have reduced the budget, year on year, and absolutely failed to protect those areas that were flagged up, in a leaked document, to Ministers, which they clearly ignored. That is a fact, whether we have sighs from the other side, or whether we don't. It is also the case, Minister, that some of those protections that we put in place held firm this time, and I think that alludes to the comments about—and I welcome them—putting in a reasonable assessment of work that is done, so there is a licence and an agreed recommendation of the quality of that work. I absolutely think that is essential.

Nid wyf eisiau ailadrodd popeth a ddywedwyd, Weinidog, ond yr un peth sy'n ymddangos yn amlwg i mi yw, pan ydych yn ceisio siarad am y dystiolaeth o absenoldeb, mae'n gysyniad llithrig iawn, ond mae rhywsut yn amlwg bod yn rhaid i'r lefelau llifogydd sydd wedi digwydd yng Nghymru yn erbyn y lefelau llifogydd a ddigwyddodd yn Lloegr fod â rhyw enwadur cyffredin. Mae'n ymddangos i mi mai'r enwadur cyffredin yn Lloegr yw eu bod wedi gostwng y gyllideb, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac wedi methu yn llwyr â diogelu'r ardaloedd hynny y tynnwyd sylw atynt, mewn dogfen a ddatgelwyd, i Weinidogion, yr oeddent wedi ei hanwybyddu yn amlwg. Mae hynny'n ffaith, pa un a oes gennym ocheneidiau o'r ochr arall, ai peidio. Mae hefyd yn wir, Weinidog, fod rhai o'r amddiffyniadau hynny a roddwyd ar waith gennym wedi dal yn gadarn y tro hwn, a chredaf fod hynny'n cyfeirio at y sylwadau am—ac rwy'n eu croesawu—roi asesiad rhesymol o'r gwaith sy'n cael ei wneud, fel bod trwydded ac argymhelliad y cytunwyd arno o ansawdd y gwaith hwnnw. Rwyf yn bendant yn credu bod hynny'n hanfodol.

The other thing that I really want to focus on here, Minister, is whether, when the Welsh Government or any other body is spending some funds, it seems very clear to me that a wise use of those funds might be a percentage of the total money being invested in environmental projects. I ask you today, Minister, whether you would consider a commitment by any body, whether it's a Government or any other agency, to setting aside money to spend, or a percentage of their funds, on environmental projects. The one thing that was obvious in England was the water cascading down their landscape, taking with it not only the water that might have been retained, had there been trees or anything else to stop it, but the soil and all that goes with that in terms of polluting the water course, which they will have to deal with in another way.

Y peth arall yr wyf i wir eisiau canolbwyntio arno fan hyn, Weinidog, yw, pan fydd Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff arall yn gwario rhywfaint o arian, mae'n ymddangos yn glir iawn i mi y gallai defnydd doeth o'r cronfeydd hynny fod yn ganran o'r cyfanswm arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn prosiectau amgylcheddol. Rwy'n gofyn i chi heddiw, Weinidog, a fyddech chi'n ystyried ymrwymiad gan unrhyw gorff, boed yn Llywodraeth neu unrhyw asiantaeth arall, i neilltuo arian i'w wario, neu ganran o'u cronfeydd, ar brosiectau amgylcheddol. Yr un peth oedd yn amlwg yn Lloegr oedd y dŵr yn rhaeadru i lawr eu tirwedd, gan gymryd gydag ef, nid yn unig y dŵr a allai fod wedi cael ei ddal yn ôl, pe byddai coed neu unrhyw beth arall i'w atal, ond y pridd a phob dim sy'n mynd gyda hynny o ran llygru'r cwrs dŵr, y bydd yn rhaid iddynt ymdrin ag ef mewn ffordd arall.

Also, when we are looking at development, Minister, and there's been much talk here about building on floodplains and TAN 15, the other thing that I would like to see enforced by all agencies when they're building is the creation of permeable surfaces. We really have to take this run-off very, very seriously now. It is one thing giving planning permission according to the expected run-off, but it's another thing not building in the urban creep that would create another 20 per cent of hard standing.

Hefyd, pan fyddwn yn edrych ar ddatblygiad, Weinidog, a bu llawer o sôn yma am adeiladu ar orlifdiroedd a TAN 15, y peth arall yr hoffwn ei weld yn cael ei orfodi gan yr holl asiantaethau pan fyddant yn adeiladu yw creu arwynebau hydraidd. Mae wir yn rhaid i ni ystyried y dŵr ffo hwn yn ddifrifol iawn, iawn yn awr. Un peth yw rhoi caniatâd cynllunio yn unol â'r dŵr ffo disgwyliedig, ond peth arall yw peidio ag adeiladu yn yr ymgripiad trefol a fyddai'n creu 20 y cant arall o wyneb caled.

15:52

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her comments this afternoon. Look, I am responsible for the safety infrastructure in Wales, and that's all I can do. The Member is eloquent in the way she refers to what's happening over the border in England, and I have no control over that, but what we have done here in Wales: our total investment in flood and coastal erosion, as I said, excluding the ERDF, has increased by 18.2 per cent in real terms over the lifetime of this Government. We will continue to press to invest in our communities to make them safer, but, as I said also in my statement, the resilience of services, because of changes in the climate, are making this increasingly more difficult.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau y prynhawn yma. Edrychwch, rwy'n gyfrifol am y seilwaith diogelwch yng Nghymru, a dyna'r cwbl y gallaf ei wneud. Mae'r Aelod yn huawdl yn y ffordd y mae hi'n cyfeirio at yr hyn sy'n digwydd dros y ffin yn Lloegr, ac nid oes gennyf reolaeth dros hynny, ond mae'r hyn yr ydym wedi ei wneud yma yng Nghymru: mae cyfanswm ein buddsoddiad mewn llifogydd ac erydu arfordirol, fel y dywedais, ac eithrio'r ERDF, wedi cynyddu gan 18.2 y cant mewn termau real yn ystod oes y Llywodraeth hon. Byddwn yn parhau i bwyso i fuddsoddi yn ein cymunedau er mwyn eu gwneud yn fwy diogel, ond, fel y dywedais hefyd yn fy natganiad, mae cydnerthedd y gwasanaethau, oherwydd newidiadau yn yr hinsawdd, yn gwneud hyn yn fwy anodd yn gynyddol.

The Member makes reference to hard standings, and I know, for many years, she's campaigned in terms of trying to introduce into building regulations control around hard standings. It's something that, maybe, Governments should take more seriously, with the events that we've seen over the recent happenings of the Christmas period. I think there are some good examples of this in terms of land and water management drainage systems—one in Llanelli, which I know the Member is aware of, and I think that Keith Davies raised that earlier in a question to the First Minister. These are good-quality examples of services that we should replicate in other parts of our community when we are making these investments.

Mae'r Aelod yn cyfeirio at wynebau caled, ac rwy'n gwybod, am flynyddoedd lawer, ei bod hi wedi ymgyrchu ynglŷn â cheisio cyflwyno rheolaeth ynghylch wynebau caled i reoliadau adeiladu. Mae'n rhywbeth, efallai, y dylai llywodraethau ei gymryd fwy o ddifrif, gyda'r digwyddiadau yr ydym wedi'u gweld yn ystod y digwyddiadau diweddar dros gyfnod y Nadolig. Rwy'n meddwl bod rhai enghreifftiau da o hyn o ran systemau draenio rheoli tir a dŵr—un yn Llanelli, y gwn fod yr Aelod yn ymwybodol ohono, a chredaf fod Keith Davies wedi codi hyn yn gynharach mewn cwestiwn i'r Prif Weinidog. Mae'r rhain yn enghreifftiau o ansawdd da o wasanaethau y dylem eu dyblygu mewn rhannau eraill o'n cymuned pan fyddwn yn gwneud y buddsoddiadau hyn.

I do work with other Ministers in terms of the resilience of their investments and making sure that we can check around climate change and making sure that, when we have infrastructure services being developed, we can sometimes use them on a win-win basis, so we can use them as flood defences too, as well as quality infrastructure programmes. Also, there is the tourism aspect, which we see in Darren Millar's constituency, where we've created a flood defence scheme that also acts as a great community place to hold events too, in the right circumstances. The Member raised many issues that are very important to her, but also important to the Government too.

Rwyf yn gweithio gyda Gweinidogion eraill o ran cydnerthedd eu buddsoddiadau a gwneud yn siŵr ein bod yn gallu gwirio ynghylch newid yn yr hinsawdd a gwneud yn siŵr, pan fydd gennym wasanaethau seilwaith yn cael eu datblygu, y gallwn weithiau eu defnyddio ar sail lle mae pawb ar ei ennill, felly gallwn eu defnyddio fel amddiffynfeydd rhag llifogydd hefyd, yn ogystal â rhaglenni seilwaith o safon. Hefyd, mae'r agwedd dwristiaeth, yr ydym yn ei gweld yn etholaeth Darren Millar, lle yr ydym wedi creu cynllun amddiffyn rhag llifogydd sydd hefyd yn gweithredu fel lle cymunedol gwych i gynnal digwyddiadau yn ogystal, o dan yr amgylchiadau cywir. Cododd yr Aelod lawer o faterion sydd yn bwysig iawn iddi hi, ond sy'n bwysig i'r Llywodraeth hefyd.

15:55

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In thanking the emergency services, local authorities and NRW, I would like to place on record my particular tribute, actually, to the many community volunteers and householders who found themselves very alone on Boxing Day. I have to be honest, I want to place on record my disappointment to the Minister, who was fully aware of my concerns, because I literally had to take to social media, asking for support for my constituents.

Wrth ddiolch i'r gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru,, hoffwn gofnodi fy nheyrnged arbennig, mewn gwirionedd, i'r nifer o wirfoddolwyr cymunedol a deiliaid tai a ganfu eu hunain yn unig iawn ar Ŵyl San Steffan. Mae'n rhaid i mi fod yn onest, rwyf eisiau cofnodi fy siom i'r Gweinidog, a oedd yn hollol ymwybodol o fy mhryderon, oherwydd roedd yn rhaid i mi yn llythrennol ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, i ofyn am gymorth ar gyfer fy etholwyr.

You mentioned Llanrwst, and there's been much mention about Llanrwst. Simple things there that I've been informed of: the key for the actual barrier was in Llandudno when it was needed in Llanrwst. That is one of the issues. That was for the flood barrier. So, we have flood alleviation schemes in place, but the lack of communication that's been mentioned before was a big thing. But let's talk about Trefriw; let's talk about Llanfairfechan; let's talk about Penmaenmawr, where we had people in streams going up to the quarry, filling plastic bags with their bare hands because sandbags were not available. Local authority—. I've had an e-mail today, begging for them. This was on 28 December: 'Please accept my apologies for the delay in getting back to you. We do not generally supply sandbags in advance of any flood warnings. Where property owners anticipate that they are susceptible to flooding, they are encouraged to make their own arrangements to purchase sandbags from local builders merchants. We have a limited supply, where requests made during an emergency are considered on a case-by-case basis, prioritised by site layout or need.' Well, we needed sandbags. We needed co-ordinated flood plans in place. We didn't have them.

Roeddech yn sôn am Lanrwst, a bu llawer o sôn am Lanrwst. Pethau syml yno yr wyf wedi cael gwybod amdanynt: roedd yr allwedd ar gyfer y rhwystr gwirioneddol yn Llandudno pan oedd ei angen yn Llanrwst. Dyna un o'r problemau. Roedd hynny ar gyfer y rhwystr llifogydd. Felly, mae gennym gynlluniau lliniaru llifogydd ar waith, ond roedd y diffyg cyfathrebu sydd wedi ei grybwyll o'r blaen yn beth mawr. Ond gadewch i ni sôn am Drefriw; gadewch i ni sôn am Lanfairfechan; gadewch i ni sôn am Benmaenmawr, lle'r oedd gennym bobl yn llifo i fyny i'r chwarel, yn llenwi bagiau plastig gyda'u dwylo noeth am nad oedd bagiau tywod ar gael. Awdurdod lleol—. Rwyf wedi cael e-bost heddiw, yn crefu amdanynt. Roedd hyn ar 28 Rhagfyr: 'Derbyniwch fy ymddiheuriadau am yr oedi cyn dod yn ôl atoch chi. Nid ydym yn gyffredinol yn cyflenwi bagiau tywod cyn unrhyw rybuddion llifogydd. Pan fo perchnogion eiddo yn rhagweld eu bod yn agored i lifogydd, maent yn cael eu hannog i wneud eu trefniadau eu hunain i brynu bagiau tywod gan gyflenwyr adeiladwyr lleol. Mae gennym gyflenwad cyfyngedig, lle mae ceisiadau a wnaed yn ystod argyfwng yn cael eu hystyried ar sail fesul achos, wedi'u blaenoriaethu gan gynllun neu angen y safle.' Wel, roedd angen bagiau tywod. Roedd angen cynlluniau llifogydd cydlynol ar waith. Nid oeddent gennym.

Now, I'm really grateful to you, Minister, for your statement today. The silence from you on Boxing Day—. You say that you were alerted at 7 o'clock in the morning. Well, all I know is that the Prime Minister did actually come out strongly when he knew that there were people over the border very anxious and feeling alone. You know, that is what true leadership is about. For you not to make a statement till three days later was, frankly, appalling. The First Minister came. He didn't come to Aberconwy, sadly. I have many, many devastated—. He may say, 'Oh, 150 properties'. That's a lot of properties, and it's a lot of devastation if you're just one of those 150. But I have new businesses that have set up in north Wales, set up in Aberconwy, that are very successful. Their businesses were devastated on Boxing Day and they want to know now what you are going to do. So, for me, going forward in terms of representing the people of Aberconwy, I want to know why in the £4 million that you've announced today there's no mention there for Conwy. I will actually meet with you again to discuss that.

Nawr, rwy'n hynod ddiolchgar ichi, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Roedd y distawrwydd oddi wrthych ddydd San Steffan—. Rydych yn dweud eich bod wedi cael eich rhybuddio am 7 o'r gloch y bore. Wel, y cyfan a wn i yw bod y Prif Weinidog wedi dod allan yn gryf pan oedd yn gwybod bod pobl dros y ffin yn bryderus iawn ac yn teimlo'n unig. Wyddoch chi, dyna beth yw gwir arweinyddiaeth. Roedd y ffaith na wnaethoch ddatganiad tan dri diwrnod yn ddiweddarach, a dweud y gwir, yn warthus. Daeth y Prif Weinidog. Ni ddaeth i Aberconwy, yn anffodus. Mae gennyf lawer iawn wedi'u dinistrio—. Efallai y bydd yn dweud, 'O, 150 eiddo'. Mae hynny'n llawer o eiddo, ac mae'n llawer o ddinistr os ydych chi'n un o'r 150 hynny. Ond mae gen i fusnesau newydd sydd wedi sefydlu yng ngogledd Cymru, a sefydlwyd yn Aberconwy, sy'n llwyddiannus iawn. Cafodd eu busnesau eu dinistrio ar Ddydd San Steffan ac maent eisiau gwybod yn awr beth yr ydych chi'n mynd i'w wneud. Felly, i mi, wrth fynd ymlaen o ran cynrychioli pobl Aberconwy, rwyf eisiau gwybod pam yn y £4 miliwn yr ydych wedi'i gyhoeddi heddiw nad oes unrhyw sôn yno am Gonwy. Rwyf am gyfarfod â chi eto i drafod hynny.

But, I can tell you now, the A55: we had 100 people who stayed overnight in Llanfairfechan community centre because they were literally stranded. Yes, Boxing Day, stranded in north Wales when they needed—. They had families that they needed to get home to. Not good enough. The A55 is now frequently, on a daily basis, either affected by accidents, by frost or by flooding. You know, Minister, that the drains there have needed maintenance for quite some time. When are you going to sort those problems out?

Ond, gallaf ddweud wrthych yn awr, yr A55: roedd gennym 100 o bobl a arhosodd dros nos yng nghanolfan gymunedol Llanfairfechan oherwydd eu bod yn sownd yn llythrennol. Ie, Gŵyl San Steffan, yn sownd yng ngogledd Cymru pan oedd angen iddynt—. Roedd ganddynt deuluoedd yr oedd angen iddynt fynd adref atynt. Ddim yn ddigon da. Mae'r A55 yn awr yn aml, yn ddyddiol, naill ai'n cael ei heffeithio gan ddamweiniau, gan rew neu gan lifogydd. Fe wyddoch, Weinidog, fod y draeniau yno wedi bod angen cynnal a chadw ers peth amser. Pryd ydych chi'n mynd i ddatrys y problemau hynny?

15:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Inaudible.] The Minister to respond please.

[Anghlywadwy.] Y Gweinidog i ymateb os gwelwch yn dda.

15:58 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her comments. While you were tweeting on Boxing Day, my teams were out on the ground delivering services for the people of Wales. When you were tweeting your comments, which were misplaced, ill-informed, my team, NRW's team and volunteers across the whole of Wales were delivering for the people of Wales. It is £3.3 million of funding we've announced over the last week, myself and the First Minister. One hundred and fifty properties flooded. Don't compare us to England. If you want to go down that road, comparing what's happened in the UK Government and their flood defences, I'm more than happy to have that discussion with you. The reality is —. You said that you haven't heard off Conwy council with regard to what money will be coming forward. We haven't received a bid back from Conwy council, but I'm sure we will. Again, the teams from Conwy were working very hard to ensure that your communities were as safe as they could be. You're incorrect, again, saying there were no flood plans in place. There are questions and answers that are required from NRW with regard to specific elements, particularly around Llanrwst, but don't say that my teams haven't been working particularly hard over the festive season. So, when you're tweeting, we're busy resolving the emergency services and the events that were unprecedented across Wales. I think it's rather shallow of you to start criticising my staff and colleagues across all of Wales who were delivering for the resilience of many of the communities, and successfully, across Wales.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Tra yr oeddech chi'n trydar ar Ŵyl San Steffan, roedd fy nhimau i allan ar lawr gwlad yn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru. Pan oeddech chi'n trydar eich sylwadau, a oedd yn anaddas, yn anwybodus, roedd fy nhîm i, tîm Cyfoeth Naturiol Cymru a gwirfoddolwyr ar draws Cymru gyfan yn cyflawni dros bobl Cymru. Mae'n £3.3 miliwn o gyllid yr ydym wedi'i gyhoeddi dros yr wythnos ddiwethaf, fi a'r Prif Weinidog. Roedd cant a hanner o eiddo dan ddŵr. Peidiwch â'n cymharu ni â Lloegr. Os ydych am fynd i lawr y llwybr hwnnw, gan gymharu beth sydd wedi digwydd yn Llywodraeth y DU a'u hamddiffynfeydd rhag llifogydd, rwy'n fwy na hapus i gael y drafodaeth honno gyda chi. Y realiti yw—. Dywedasoch nad ydych wedi clywed gan Gyngor Conwy o ran faint o arian fydd yn dod. Nid ydym wedi derbyn cais yn ôl gan Gyngor Conwy, ond rwy'n siŵr y byddwn. Unwaith eto, mae'r timau o Gonwy yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod eich cymunedau mor ddiogel ag y gallant fod. Rydych yn anghywir, unwaith eto, yn dweud nad oedd unrhyw gynlluniau llifogydd ar waith. Mae cwestiynau ac atebion sydd yn ofynnol gan Gyfoeth Naturiol Cymru o ran elfennau penodol, yn enwedig o amgylch Llanrwst, ond peidiwch â dweud nad yw fy nhimau wedi bod yn gweithio'n arbennig o galed dros yr Ŵyl. Felly, pan eich bod chi'n trydar, rydym ni'n brysur yn datrys y gwasanaethau brys a'r digwyddiadau a oedd yn ddigynsail ar draws Cymru. Rwy'n credu ei bod braidd yn arwynebol ohonoch i ddechrau beirniadu fy staff a chydweithwyr ar draws Cymru gyfan a oedd yn darparu ar gyfer cydnerthedd llawer o'r cymunedau, a hynny'n llwyddiannus, ledled Cymru.

16:00 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf innau ategu sylwadau'r Gweinidog yn diolch i gymdogion, gweithwyr cyngor, a'r gwasanaethau eraill, a fu mor ddiwyd yn ymateb i'r llifogydd? Fe gyfeirioch chi, Weinidog, at y ffaith bod yna 150 o anheddau yng Nghymru wedi dioddef llifogydd. Roedd treian o'r rheini yng Ngwynedd—yn Nhalybont, Bontnewydd, Llanberis, Llanrug, y Felinheli a Chaernarfon. Wel, nid bai y Llywodraeth oedd ei bod hi wedi bwrw'n ddi-baid am y mis diwethaf yma, ond mae pobl yn disgwyl i'w cynrychiolwyr ddangos consýrn a gweithredu lle y gallan nhw. Ddoe, rwy'n credu, ddaru Syr Philip Dilley ymddiswyddo am fethu cyrraedd yn ôl o Barbados mewn pryd—cadeirydd yr Environment Agency yn Lloegr. Y gwir amdani oedd mi ddaru o gyrraedd o Barbados yn gynt nag y gwnaeth unrhyw aelod o Gabinet y Llywodraeth i Arfon ac Ynys Môn yn dilyn y llifogydd. Buaswn yn licio gofyn pam bod hynny wedi bod.

May I endorse the Minister's comments in thanking neighbours, council workers and the other services, which worked so hard in responding to the floods? You, Minister, referred to the fact that 150 properties in Wales had suffered as a result of flooding. A third of those were in Gwynedd—in Talybont, Bontnewydd, Llanberis, Llanrug, y Felinheli and Caernarfon. Now, it wasn't the Government's fault that it rained without stopping for the last month, but people do expect their representatives to show concern and to take action where they can. Yesterday, I think, Sir Philip Dilley resigned for failing to return from Barbados in time. He, of course, was the chair of the Environment Agency in England. The truth was that he got back from Barbados more swiftly than any member of the Welsh Cabinet got to Arfon or Anglesey following the recent flooding. I would like to ask why that was the case.

Gan gyfeirio at y llifogydd ar yr A55 ger Talybont yn fy etholaeth i, nid oes un cyfeiriad yn eich datganiad chi bod cynllun atal llifogydd ar yr A55 ger Talybont i'w ariannu. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd y Llywodraeth yn cyllido cynllun atal llifogydd Talybont yn llawn, a hynny ar fyrder, fel na fydd pobl fel Jane Hughes, 83 oed, yn cael ei amddifadu o'i chartref am y trydydd tro mewn ychydig flynyddoedd? Diolch.

In referring to the floods on the A55 near Talybont in my own constituency, there's been no reference in your statement to the flood prevention scheme on the A55 near Talybont being funded. Will the Minister confirm that the Government will fund a flood prevention plan in full for Talybont, as a matter of urgency, so that people such as Jane Hughes, who is 83 years old, are not kept from their homes for the third time in just a few years? Thank you.

16:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his comments. Again, I thank the teams that worked very hard in Gwynedd, and I also have visited Gwynedd to look at some of the issues relating to, generally, surface water drainage schemes that caused trouble for local communities.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Unwaith eto, diolchaf i'r timau sy'n gweithio'n galed iawn yng Ngwynedd, ac rwyf hefyd wedi ymweld â Gwynedd i edrych ar rai o'r materion sy'n ymwneud â, yn gyffredinol, cynlluniau draenio dŵr arwyneb a oedd yn achosi trafferth i gymunedau lleol.

I did see the Member's comments again in the newspaper and also on the BBC, I think, in regard to the A55. Let me remind the Member of the facts: in 2008, a scheme to upgrade the A55 between Aber and Tai'r Meibion and addressing the flood issues was set to be implemented by 2010. In December 2008, the then Deputy First Minister, Ieuan Wyn Jones—I think the Member knows him well—in line with the policy of prioritising north-south routes over east-west routes, removed this scheme from the plans for immediate work. The Member forgot to mention that. [Interruption.] The Member forgot to mention that in his contribution in the newspaper. [Interruption.]

Gwelais sylwadau'r Aelod unwaith eto yn y papur newydd, a hefyd ar y BBC, rwy'n credu, o ran yr A55. Gadewch i mi atgoffa'r Aelod o'r ffeithiau: yn 2008, roedd cynllun i uwchraddio'r A55 rhwng Aber a Thai'r Meibion a mynd i'r afael â'r materion llifogydd i fod i gael ei weithredu erbyn 2010. Ym mis Rhagfyr 2008, fe wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog bryd hynny, Ieuan Wyn Jones—credaf fod yr Aelod yn ei adnabod yn dda—yn unol â pholisi o flaenoriaethu llwybrau gogledd-de dros lwybrau dwyrain-gorllewin, dynnu'r cynllun hwn o'r cynlluniau ar gyfer gwaith i'w wneud ar unwaith. Anghofiodd yr Aelod sôn am hynny. [Torri ar draws.] Anghofiodd yr Aelod sôn am hynny yn ei gyfraniad yn y papur newydd. [Torri ar draws.]

16:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. Order. You ask the questions. You must listen to the answers. And I don't want heckling and noises off from those who've not participated so far. Minister.

Trefn, trefn. Trefn. Rydych yn gofyn y cwestiynau. Mae'n rhaid i chi wrando ar yr atebion. Ac nid wyf eisiau heclo a sŵn yn y cefndir oddi wrth y rhai nad ydynt wedi cymryd rhan hyd yn hyn. Weinidog.

16:03 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Given that that was the section of the A55 most prone to flooding, this decision effectively also shut the door on the schemes elsewhere, including the nearby Talybont section. The Member shouldn't throw stones in glass houses. The Member should remove himself from the blame game. Actually, what we're trying to do here is continue the work that we've already made. When I was the transport Minister, may I remind the Member, I also invested £600,000 in a scheme to develop drainage systems after the Deputy First Minister had stopped that scheme from moving forward. The A55 scheme that the Member talks about, funding is available for that scheme currently; it's about a planning issue and a local authority development issue. There is funding available from the Welsh Government.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. O gofio mai dyna oedd yr adran o'r A55 a oedd fwyaf tueddol o orlifo, caeodd y penderfyniad hwn y drws hefyd, mewn gwirionedd, ar y cynlluniau mewn mannau eraill, gan gynnwys adran Talybont gerllaw. Ni ddylai'r Aelod daflu cerrig mewn tai gwydr. Dylai'r Aelod dynnu ei hun o'r gêm o weld bai. A dweud y gwir, yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yma yw parhau â'r gwaith yr ydym wedi'i wneud eisoes. Pan oeddwn i'n Weinidog trafnidiaeth, a gaf i atgoffa'r Aelod, fe wnes i hefyd fuddsoddi £600,000 mewn cynllun i ddatblygu systemau draenio ar ôl i'r Dirprwy Brif Weinidog atal y cynllun hwnnw rhag symud ymlaen. Y cynllun A55 y mae'r Aelod yn sôn amdano, mae cyllid ar gael ar gyfer y cynllun hwnnw ar hyn o bryd; mae'n ymwneud â mater cynllunio a mater datblygu awdurdodau lleol. Mae cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru.

16:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before I call the final speaker, who is from the Conservative group, I do take a dim view of the fact that your spokesperson has not been present for all of this statement, having been called first to question the Minister. Darren Millar.

Cyn imi alw ar y siaradwr terfynol, sy'n dod o grŵp y Ceidwadwyr, rwyf yn anfodlon nad yw eich llefarydd wedi bod yn bresennol ar gyfer yr holl ddatganiad hwn, ar ôl cael ei alw gyntaf i holi'r Gweinidog. Darren Millar.

16:04 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I first of all welcome the investment that's gone into my constituency in terms of flood defences in recent years? There have been schemes that have been completed in Abergele, in Ruthin, in Llanfair Talhaiarn, Colwyn Bay and Kinmel Bay in recent years, all with the support of the Welsh Government, and that's been of huge benefit to many of my constituents who escaped flooding this winter because of that investment. So, I want to put on record my thanks, Minister, to you and the Welsh Government for that investment, and, indeed, to the hard-working officials and officers from Denbighshire council and Conwy council, in addition to NRW officials, who were working to support my communities in Clwyd West over the Christmas period.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i yn gyntaf groesawu'r buddsoddiad sydd wedi mynd i mewn i fy etholaeth o ran amddiffynfeydd rhag llifogydd yn y blynyddoedd diwethaf? Mae cynlluniau sydd wedi eu cwblhau yn Abergele, yn Rhuthun, yn Llanfair Talhaearn, Bae Colwyn a Bae Cinmel yn y blynyddoedd diwethaf, pob un gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, ac maent wedi bod o fudd mawr i lawer o fy etholwyr a lwyddodd i osgoi'r lifogydd y gaeaf hwn oherwydd y buddsoddiad. Felly, rwyf am gofnodi fy niolch, Weinidog, i chi a Llywodraeth Cymru am y buddsoddiad hwnnw, ac, yn wir, i'r swyddogion sy'n gweithio'n galed a swyddogion o Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Conwy, yn ogystal â swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn gweithio i gefnogi fy nghymunedau yng Ngorllewin Clwyd dros gyfnod y Nadolig.

But there are two areas that are of concern to me. One I raised during First Minister's questions: in Llanddulas, where people have been flooded out of their homes on five occasions in the past five years, we know that it takes a long time for people to recover from a flood, and there are some simple solutions, I believe, that could be brought to bear for that community to resolve that issue once and for all. I will ask, Minister—I have a meeting that has been arranged with Conwy County Borough Council, Welsh Water and Natural Resources Wales, two weeks on Friday, and I would be very happy to see a Welsh Government official at that meeting, if one is available to attend, in order to drive that process forward and to access some of the resource that you've made available for the delivery of improvements before the end of the financial year. The other area of concern—and they are receiving a significant pounding again today as a result of high tides and stormy weather—is the flood defences in Old Colwyn. I've just seen some images on the 'Daily Post' website that show the water spilling over onto the promenade. Again, a natural extension of the work that has taken place elsewhere in Colwyn Bay on the waterfront is to complete that work right up along the Old Colwyn promenade as well, and I would ask, Minister: what are you doing, what are your officials doing, to drive the local authority to the table, Welsh Water to the table, Natural Resources Wales to the table, and everybody else who needs to be there, in order to sort that problem out? There's vital transport infrastructure at stake that is protected by those flood defences in Old Colwyn. We have the A55 expressway, we have the north Wales railway line; they are critical parts of the transport infrastructure for the whole of north Wales, and I would ask you, Minister—I've lobbied on a number of occasions over the past few years—what action is your Government taking to show some leadership on that particular issue in Old Colwyn? I'd be grateful for some answers.

Ond mae dwy ardal sy'n peri pryder i mi.  Codais un yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog: yn Llanddulas, lle mae pobl wedi cael eu gyrru o'u cartrefi gan lifogydd ar bum achlysur yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym yn gwybod ei bod yn cymryd amser hir i bobl ddod dros llifogydd, ac mae rhai atebion syml, rwy'n credu, y gellid eu cyflwyno i'r gymuned honno i ddatrys y mater hwnnw unwaith ac am byth. Byddaf yn gofyn, Weinidog—mae gennyf gyfarfod sydd wedi'i drefnu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, bythefnos i ddydd Gwener, a byddwn yn hapus iawn i weld un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod hwnnw, os oes un ar gael i fod yn bresennol, er mwyn symud y broses honno yn ei blaen ac i gael mynediad at rai o'r adnoddau yr ydych wedi sicrhau eu bod ar gael ar gyfer cyflwyno gwelliannau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yr ardal arall sy'n peri pryder—ac maent yn cael eu taro'n sylweddol eto heddiw o ganlyniad i lanw uchel a thywydd stormus —yw'r amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Hen Golwyn. Rwyf newydd weld rhai lluniau ar wefan y 'Daily Post' sy'n dangos y dŵr yn llifo ar y promenâd. Unwaith eto, estyniad naturiol o'r gwaith sydd wedi digwydd mewn mannau eraill ym Mae Colwyn ar lan y dŵr yw cwblhau'r gwaith hwnnw i'r pen draw ar hyd promenâd Hen Golwyn, yn ogystal, a byddwn yn gofyn, Weinidog: beth ydych chi'n ei wneud, beth mae eich swyddogion yn ei wneud, i yrru'r awdurdod lleol at y bwrdd, Dŵr Cymru at y bwrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru at y bwrdd, a phawb arall sydd angen iddynt fod yno, er mwyn datrys y broblem hon? Mae seilwaith trafnidiaeth hanfodol yn y fantol sy'n cael ei warchod gan yr amddiffynfeydd rhag llifogydd hynny yn Hen Golwyn. Mae gennym wibffordd yr A55, mae gennym reilffordd y gogledd; maent yn rhannau hanfodol o'r seilwaith trafnidiaeth ar gyfer gogledd Cymru gyfan, ac rwyf yn gofyn i chi, Weinidog—rwyf wedi lobïo ar sawl achlysur dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf—pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i ddangos rhywfaint o arweiniad ar y mater penodol hwnnw yn Hen Golwyn? Byddwn yn ddiolchgar am atebion.

16:07 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his comments. As he is aware, he made reference to the significant investment that we've made in his constituency. Indeed, it's one of the largest investments that we've made in flood defence schemes in the whole of Wales, over £17 million invested into coastal defence schemes in Colwyn Bay, so I'm grateful for the Member to continue to support those schemes, but he also has to understand my predicament where I've got to spread the difficult financial settlement that we've received from the UK Government in terms of making the right strategic moves. I don't take anything away from the Member's position in terms of the need and the suggestion of his constituents. Of course, we've made the investment of £3.3 million for bids from authorities across Wales. I'm sure Conwy and Denbighshire may come up with a solution to that scheme with the help of the Member. I won't be able to send a Government official to that meeting on the basis that we will be making decisions on these bids later, towards the end of the month, I think it is, in terms of how we will spend that £3.3 million. But I urge the Member to continue his work with the authorities to finalise the small bit of investment perhaps needed to complete the package along the north Wales coastline that he talked about.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Fel y mae'n gwybod, cyfeiriodd at y buddsoddiad sylweddol yr ydym wedi'i wneud yn ei etholaeth. Yn wir, mae'n un o'r buddsoddiadau mwyaf yr ydym wedi ei wneud mewn cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru gyfan, dros £17 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn cynlluniau amddiffyn yr arfordir ym Mae Colwyn, felly rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am barhau i gefnogi'r cynlluniau hynny, ond mae'n rhaid iddo hefyd ddeall fy sefyllfa anodd i sy'n golygu bod yn rhaid i mi wasgaru'r setliad ariannol anodd yr ydym wedi ei dderbyn gan Lywodraeth y DU o ran gwneud y symudiadau strategol cywir. Nid wyf yn tynnu unrhyw beth i ffwrdd o safbwynt yr Aelod o ran yr angen ac awgrymiadau ei etholwyr. Wrth gwrs, rydym wedi gwneud y buddsoddiad o £3.3 miliwn ar gyfer ceisiadau gan awdurdodau ledled Cymru. Rwy'n siŵr y gall Conwy a Sir Ddinbych ddod o hyd i ateb i'r cynllun gyda chymorth yr Aelod. Ni fyddaf yn gallu anfon swyddog o'r Llywodraeth i'r cyfarfod hwnnw ar y sail y byddwn yn gwneud penderfyniadau ar y ceisiadau hyn yn ddiweddarach, tua diwedd y mis, rwy'n credu mai dyna pryd y bydd, o ran sut y byddwn yn gwario'r £3.3 miliwn hwnnw. Ond rwy'n annog yr Aelod i barhau ei waith gyda'r awdurdodau i gwblhau'r darn bach o fuddsoddiad sydd o bosibl ei angen i gwblhau'r pecyn ar hyd arfordir y gogledd y mae'n sôn amdano.

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Item 5 is the education workforce council registration—

Diolch yn fawr, Weinidog. Eitem 5 yw cofrestriad y cyngor gweithlu addysg—

16:08 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, can I raise a point of order?

Ddirprwy Lywydd, a gaf i godi pwynt o drefn?

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You may.

Cewch.

16:08 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn. Rwyf eisiau codi mater o drefn. Rwy'n ofni bod y Gweinidog wedi camarwain y Cynulliad—yn anfwriadol, mae'n siŵr.

Thank you very much. I want to raise a point of order. I fear that the Minister misled the Assembly—not deliberately, I'm sure.

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I'll stop you there if you're going to say he misled the Assembly. He did not mislead the Assembly. I do not allow that sort of language. I'll give you another chance to raise your point of order, but be careful.

Trefn. Byddaf yn eich rhoi taw arnoch chi yn y fan yna os ydych chi'n mynd i ddweud ei fod wedi camarwain y Cynulliad. Ni wnaeth gamarwain y Cynulliad. Nid wyf yn caniatáu y math yna o siarad. Fe roddaf gyfle arall i chi i godi eich pwynt o drefn, ond byddwch yn ofalus.

16:08 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, mae yna gymysgu. Ynglŷn â datganiadau i'r Cynulliad, rwy'n cymryd bod disgwyl i'r datganiad fod yn gywir. Y ffaith yw, yn y fan hyn, mi gyfeiriwyd at gynllun Tai'r Meibion-Aber ar yr A55, sydd yn gynllun penodol. Nid oes a wnelo'r cynllun hwnnw ddim byd â llifogydd yn Nhal-y-bont, achos mae'r cynllun hwnnw wedi cael ei ddatblygu yn dilyn llifogydd 2012, a buaswn i'n gobeithio y byddai'r Gweinidog yn gallu cadarnhau bod y ddau yna yn ddau gynllun ar wahân.

Well, there is confusion. In terms of statements made to the Assembly, I assume that the statement is expected to be accurate. The fact is that there was a reference made to the Tai'r Meibion-Aber scheme on the A55, which is a specific scheme. That scheme has nothing whatever to do with flooding in Talybont, because that scheme was developed as a result of floods in 2012, and I would hope that the Minister could confirm that those schemes are very separate issues.

16:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's not really a point of order, but you are right to say that all statements in this Chamber are expected to be accurate, and you can scrutinise on that basis. Do you want to add anything, Minister?

Nid yw'n bwynt o drefn mewn gwirionedd, ond rydych yn iawn i ddweud y disgwylir i bob datganiad yn y Siambr hon fod yn gywir, a gallwch graffu ar y sail honno. A ydych chi eisiau ychwanegu unrhyw beth, Weinidog?

16:09 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can confirm that the statement I made within this Chamber was accurate.

Gallaf gadarnhau bod y datganiad a wneuthum o fewn y Siambr hon yn gywir.

16:09

# 5. Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016

# 5. The Education Workforce Council (Registration Fees) (Wales) Regulations 2016

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 5 is the Education Workforce Council regulations 2016. I call on the Minister for Education and Skills to move the motion—Huw Lewis.

Eitem 5 yw rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg 2016. Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnig y cynnig—Huw Lewis.

Cynnig NDM5910 Jane Hutt

Motion NDM5910 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2015.

Approves that the draft The Education Workforce Council (Registration Fees) (Wales) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 24 November 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:09 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion. Wales is at the forefront of ensuring greater coherence and recognising the contribution that the whole education workforce makes towards learners in Wales. I'm sure Members will agree that the registration of the wider educational workforce is good news as it provides reassurances that all teaching staff are deemed suitable for registration. The fees regulations we are debating this afternoon set out the fee structure from 1 April this year, when registration will be extended to learning support workers in both school and FE settings in Wales. A consultation in 2014 sought views on proposals for the registration fee model to be put in place for registration from this April. Under the preferred fee model, which was widely supported by respondents to the consultation, the proposal was to redistribute the element of funding that is currently provided to local authorities in Wales to subsidise schoolteachers' registration fees, to help reduce the costs of registration for the wider workforce.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig y cynnig. Mae Cymru ar flaen y gad o ran sicrhau mwy o gydlyniad a chydnabod cyfraniad y gweithlu addysg cyfan tuag at ddysgwyr yng Nghymru. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno bod cofrestru'r gweithlu addysg ehangach yn newyddion da gan ei fod yn darparu sicrwydd bod pob aelod staff addysgu wedi'i ystyried yn addas i gofrestru. Mae'r rheoliadau ffioedd yr ydym yn cael dadl amdanynt y prynhawn yma yn nodi'r strwythur ffioedd o 1 Ebrill eleni ymlaen, pan fydd cofrestriad yn cael ei ymestyn i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion ac mewn lleoliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Roedd ymgynghoriad yn 2014 yn gofyn am farn ar gynigion ar gyfer y model ffioedd cofrestru a roddir ar waith ar gyfer cofrestru o fis Ebrill eleni ymlaen. O dan y model ffioedd a ffefrir, ac a gefnogwyd yn eang gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, y cynnig oedd ailddosbarthu'r elfen o gyllid sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd i awdurdodau lleol yng Nghymru i gymorthdalu ffioedd cofrestru athrawon ysgol, i helpu i leihau costau cofrestru i'r gweithlu ehangach.

I wrote to the Secretary of State for Education and Skills requesting that an Order be made removing paragraph 28—General Teaching Council for Wales's fee allowance—from the schoolteachers' pay and conditions document in its entirety. However, the £33 subsidy that teachers in Wales currently receive in their pay to subsidise the council's registration fee has remained in the STPCD for the academic year 2015-16, as the Department for Education in Whitehall could not meet our timetable for the removal of the £33 subsidy in time to meet our deadline for laying these regulations.

Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau i ofyn am i Orchymyn gael ei wneud i gael gwared ar baragraff 28—lwfans ffioedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru—o'r ddogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, mae'r cymhorthdal £33 y mae athrawon yng Nghymru yn ei gael ar hyn o bryd yn eu cyflog i gymorthdalu ffi cofrestru'r cyngor wedi aros yn y ddogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2015-16, gan nad oedd yr Adran Addysg yn Whitehall yn gallu bodloni ein hamserlen ar gyfer cael gwared ar y cymhorthdal £33 cyn ein dyddiad cau ar gyfer gosod y rheoliadau hyn.

However, we are still proposing to redistribute the element of funding that is currently provided to local authorities in Wales to subsidise schoolteachers' registration fees to the council. Without the necessary amendment to the STPCD, this will be achieved through the actual fee that teachers pay, in order to offset against the greater subsidy of £33 that the schoolteachers will retain. This approach will help meet the costs of registration for the wider workforce. In practice, this means that the subsidy for the wider workforce will be routed through individual schoolteachers' fees to the council, rather than through the Welsh Government as a block of funding, if the STCPD—which would have been the case, I beg your pardon, if the STCPD had been amended.

Fodd bynnag, rydym yn dal i gynnig ailddosbarthu'r elfen o gyllid a ddarperir ar hyn o bryd i awdurdodau lleol yng Nghymru i gymorthdalu ffioedd cofrestru athrawon ysgol i'r cyngor. Heb y diwygiad angenrheidiol i'r ddogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol, caiff hyn ei gyflawni drwy'r ffi wirioneddol y mae athrawon yn ei thalu, er mwyn gwrthbwyso'r cymhorthdal uwch o £33 y bydd yr athrawon ysgol yn ei gadw. Bydd y dull hwn yn helpu i dalu costau cofrestru'r gweithlu ehangach. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd cymhorthdal y gweithlu ehangach wedi'i gyfeirio drwy ffioedd athrawon ysgol unigol i'r cyngor, yn hytrach na thrwy Lywodraeth Cymru fel bloc o gyllid, pe byddai'r ddogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol—fel y byddai wedi digwydd, maddeuwch imi, pe byddai'r ddogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol wedi ei diwygio.

The actual fee contribution of schoolteachers from April 2016 will still be £45, the same as FE teachers, which would have been the same figure if the STPCD had been amended. The change to the STPCD would have streamlined the fee process for all those involved and would have made things perhaps a little more elegant, but the end result remains the same. I should also inform the Chamber that school and FE learning support workers will be paying £15. I move.

Bydd cyfraniad ffioedd gwirioneddol athrawon ysgol o Ebrill 2016 ymlaen yn dal i fod yn £45, yr un fath ag athrawon AB, a byddai'r ffigur hwnnw wedi bod yr un fath pe byddai'r ddogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol wedi cael ei newid. Byddai'r newid i'r ddogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol wedi symleiddio'r broses ffioedd i bawb sy'n ymwneud â hi ac efallai y byddai hynny wedi gwneud pethau ychydig yn fwy trefnus, ond mae'r canlyniad terfynol yr un fath. Dylwn hefyd roi gwybod i'r Siambr y bydd gweithwyr cymorth dysgu ysgolion ac AB yn talu £15. Rwy'n cynnig.

16:13

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gobeithio fod y Cynulliad wedi bod yn gwrando'n astud ar beth a ddywedodd y Gweinidog a dilyn pob cam. Mae'n gybolfa a dweud y gwir, a'r rheswm am y gybolfa yw'r ffaith nad yw tâl ac amodau athrawon wedi'u datganoli fel yr argymhellwyd yn adroddiad Silk—ac ni fyddant yn cael eu datganoli chwaith yn ôl y Ddeddf, neu Fesur, Cymru sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd.

I hope that the Assembly was listening carefully to what the Minister said and followed every stage of what he said. There's some confusion at the moment, and the reason for that confusion is the fact that teachers' pay and conditions are not devolved as was recommended in the Silk report—and they won't be devolved either, according to the draft Wales Bill that is currently being discussed.

Ond beth bynnag am y cefndir dryslyd i'r rheoliadau hyn, y ffaith amdani yw bod y ffordd y mae'r Gweinidog wedi penderfynu gweithredu yn arwain at gynnydd o 300 y cant yn y gost y bydd athrawon yn gorfod talu i gofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg newydd. Nid wyf yn gwrthwynebu hynny ar sail egwyddor. Nid yw talu llai na phunt yr wythnos am gefnogaeth a hyfforddiant proffesiynol o reidrwydd yn or-dâl. Nid yw o reidrwydd yn gosb neu'n rhyw fath o dreth addysg. Ond mae'n rhaid gofyn at beth y mae'r tâl yn mynd ac a yw'r cyngor, sydd wedi'i osod yn ei le gan y Llywodraeth, yn addas i dderbyn y tâl yma ac yn briodol i ddelio â'r gwaith sy'n dilyn yn sgil y tâl yma, oherwydd, ers i'r cyngor gweithlu newydd ddod i rym y llynedd, mae'r Llywodraeth wedi ychwanegu'n sylweddol at gylch gorchwyl y cyngor, gan roi ar y cyngor gyfrifoldeb am hyfforddiant proffesiynol athrawon o dan y fargen newydd. Nid wyf yn erbyn hynny mewn egwyddor—a dweud y gwir, ceisiais i wella'r ddeddfwriaeth a oedd gerbron y Cynulliad er mwyn hwyluso'r broses yna, gwelliant a gafodd ei wrthod ar y pryd gan y Llywodraeth. Felly, nid wyf yn siŵr bod Cyngor y Gweithlu Addysg ar hyn o bryd mewn siâp priodol i ymgymryd â'r dasg hon.

But whatever the confused background to these regulations may be, the fact is that the way in which the Minister has decided to act leads to an increase of 300 per cent in the cost borne by teachers to register with the new Education Workforce Council. I don't oppose that as a point of principle. Paying less than £1 a week for support and professional training isn't necessarily excessive. It's not necessarily a penalty or a tax on education. But we must ask what this fee is going to be used for and whether the council, which was put in place by Government, is appropriate to be in receipt of this payment and appropriate to deal with the work that will follow on from those payments, because, since the workforce council came into being last year, the Government has added significantly to the council's remit, placing responsibilities on it for teachers' professional training under the new deal. I'm not against that in principle—indeed, I tried to amend the legislation before this Assembly in order to facilitate that process, an amendment that was rejected at that time by Government. Therefore, I'm not sure that the Education Workforce Council is at the moment in a position to actually undertake this task.

Yr ail beth sy'n codi, wrth gwrs, yw beth fydd natur y corff proffesiynol yma, Cyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau hyn yn cyfeirio sawl gwaith at gyrff proffesiynol cyffelyb—cyrff, er enghraifft, a gewch chi yn y gwasanaeth iechyd. Y gwahaniaeth rhwng y corff hwn a'r cyrff hynny yw bod y cyrff hynny o dan reolaeth uniongyrchol y proffesiwn ei hunan. Yn achos Cyngor y Gweithlu Addysg, y Llywodraeth sy'n penodi aelodau'r cyngor. Y Llywodraeth sy'n dewis pwy sy'n mynd ar y cyngor ac nid yw'r proffesiwn, felly—a'r proffesiwn yn ystyr ehangach y gair, sef athrawon, darlithwyr, cynorthwywyr dosbarth; pawb sy'n gweithio o fewn addysg—yn rheoli'r corff proffesiynol y mae gofyn iddyn nhw dalu amdano.

The second point that arises relates to the nature of the new Education Workforce Council and what that will be. The explanatory memorandum that accompanies these regulations refers to other similar professional organisations—such as those representing the health service. The difference between this body and those bodies is that those bodies are directly run by the profession itself. In the case of the Education Workforce Council, it is the Government that appoints the members of the council. It's the Government that selects who the council's members will be, and the profession therefore—and I'm talking of the profession in its wider sense, including teachers, classroom assistants and lecturers; all those people working in education—isn't actually controlling the professional body that they are asked to pay for.

Felly, mae yna dau wendid penodol o ran y corff newydd. Yn gyntaf oll, nid yw'r dyletswyddau statudol yn ddigon eang, yn fy marn i, i ymgymryd â'r gwaith yma; ac, yn ail, nid yw'n cael ei reoli gan y proffesiwn y mae i fod ei reoli, ac nid yw'r athrawon eu hunain yn cael ethol yn uniongyrchol y bwrdd rheoli ar gyfer y corff hwnnw. Mae hynny'n ei wneud yn wan ac mae'n ei wneud yn ddiffygiol. Mae modd gwella hynny, ac roedd modd gwella hynny o dan y Mesur a aeth drwy'r lle yma, a ddaeth yn Ddeddf ddwy flynedd yn ôl. Erbyn hyn, mae rheoliadau wedi dod i'r Cynulliad yn gofyn i gynyddu cost ymaelodi â'r corff hwnnw. Am y rhesymau rwyf wedi eu hamlinellu—nid am fod y gost o reidrwydd yn ormod nac yn dreth, ond yn sicr am fod y corff y mae'r athrawon, y darlithwyr a'r staff cynorthwyol yn gorfod talu tuag ato yn gorff amhriodol o ran ei strwythur a'i reolaeth i ymgymryd â'r dasg yma—mi fyddaf i a Phlaid Cymru yn gwrthod y rheoliadau hyn.

So, there are two specific weaknesses in this new body. First of all, it doesn't have statutory duties that are broad enough, in my view, to undertake this work, and, secondly, it is not led by the profession and teachers themselves cannot directly elect the members of the council management board. That makes it weak and it leaves it deficient. That can be improved, and it could have been improved or amended via the Bill that went through this place and became an Act two years ago. Now these regulations come to the Assembly, requesting an increase in the membership fee for that body. For the reasons I have outlined—not because the cost is necessarily excessive or a tax, but because the body that staff have to contribute towards is an inappropriate body in terms of its structure and management to undertake this task—I and Plaid Cymru will be rejecting these regulations.

16:17 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym ni'n rhannu rhai o'r pryderon, ond byddwn ni'n pleidleisio o blaid, achos rwy'n meddwl y byddai pleidleisio yn erbyn hwyrach yn gwneud rhai o'r anawsterau y mae Simon Thomas wedi cyfeirio atynt yn waeth fyth. Rwyf eisiau rhannu'r un pryderon, ond hefyd dod at y sefyllfa yma o gyfeiriad tipyn bach yn wahanol, a dweud y gwir. Rwy'n meddwl bod yna gwestiwn yn codi ynglŷn ag a fydd y cyngor yn gallu cyflawni'r holl waith sydd yn cael ei roi arno ar hyn o bryd.

We share some of the concerns, although we will be voting in favour, because I think that voting against would perhaps make some of the difficulties that Simon Thomas referred to even worse. However, I want to share those same concerns and refer to the situation in a slightly different way. I think that a question does arise about whether the council will be able to achieve all of the work that is expected of it at present.

Gofynnaf i'r Gweinidog esbonio rhywbeth. Mae'r memorandwm esboniadol yn cadarnhau bod y Llywodraeth yn credu mai'r gost o ran rhedeg y cyngor yma fydd rhyw £3.5 miliwn y flwyddyn. Beth sydd ddim yn glir, fodd bynnag, ydy, pan roedd yr holl drafodaethau ynglŷn â'r cyngor yma'n cymryd lle yn 2013 a 2014, mi roedd union yr un gost wedi cael ei amcangyfrif gan y Llywodraeth o ran y gost flynyddol i'r cyngor. Fel y mae Simon Thomas eisoes wedi ei ddweud, mae cyfrifoldebau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar y cyngor ers hynny. Felly, nid wyf yn deall sut roedd y gost flynyddol union yr un fath cyn y cyfrifoldebau ychwanegol yma ac yn y sefyllfa bresennol. Yn benodol, felly, rwyf eisiau gofyn a oes unrhyw waith wedi cael ei wneud gan y gweision sifil i amcangyfrif y gost o ran y fargen newydd a hefyd rhaglen Cymwys am Oes sydd wedi cael ei gyflwyno gan y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn olaf.

I want to ask the Minister to explain something. The explanatory memorandum confirms that the Government believes that the cost in terms of running the council stands at around £3.5 million a year. What isn't clear, however, is that, when all of the discussions in relation to this body took place in 2013-14, the exact same annual cost was estimated by the Government. As Simon Thomas has already said, additional responsibilities have been placed on the council since then. So, I don't understand how this annual cost is exactly the same as it was before the additional responsibilities. Specifically, I want to ask whether any work has been done by civil servants to try to estimate the cost in terms of the new deal and the Qualified for Life programme introduced by the Government over the past year.

Hefyd, rwy'n nodi bod y Gweinidog wedi dweud ei fod yn anodd dweud yn union beth fydd y sefyllfa ariannol tan ar ôl mis Ebrill, pan fydd y niferoedd sy'n cofrestru yn cael eu cadarnhau, ond ei fod o'n awyddus i sicrhau bod yr arian ar gael i'r cyngor a'i fod o felly yn blaenoriaethu taliadau i'r cyngor o fewn ei gyllideb o. Yn benodol, mae o'n dweud bod unrhyw ddiffyg o ran ariannu'r cyngor yn mynd i gael ei drosglwyddo oddi ar linell gwariant datblygiad a chymorth i athrawon yn ystod y flwyddyn nesaf. Felly, rwyf am ofyn iddo yn benodol: am fod paragraff 7.13 o'r rheoliadau yn dweud bod yr arian yna'n mynd i gael ei drosglwyddo o'r gwariant yna o fewn y gyllideb, a ydy o mewn sefyllfa y prynhawn yma i ddweud pa elfen o'r gwariant yna a fydd yn cael ei gwtogi o fis Ebrill ymlaen i gyrraedd y diffyg sydd wedi cael ei danlinellu yn y rheoliadau? Diolch.

Also, I note that the Minister has said that it's difficult to say exactly what the financial situation will be until after April, when the number registered is confirmed, but that he is eager to ensure that the funding is available to the council and is therefore prioritising payments to the council within his budget. Specifically, he has said that any deficiency in terms of funding for the council will be transferred from the expenditure line for teacher development and support over the next year. So, I would like to ask: because paragraph 7.13 of the regulations state that the funding is going to be transferred from that expenditure in the budget, is he in a position this afternoon to say what element of that expenditure will be cut from April onwards, in order to fund the shortfall that has been underlined in the regulations? Thank you.

16:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

16:20 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv Fideo Video

My thanks, Deputy Presiding Officer. Well, Simon Thomas might roll out what seems to be a very scary figure of a 300 per cent uplift but, of course, it's 300 per cent of not very much at all. That is the reality of the situation. As far as I am aware, the teaching profession in Wales will be facing the lowest professional registration fees out of any profession by some considerable margin, even given this uplift, because, of course—and I suspect that many of the answers I'm about to give are already known to opposition spokespeople—we are at a particular stage of the evolution of the workforce council as a professional body. This stage involves expanding the reach, if you like, of the workforce council to include all professionals in contact with young people in terms of teaching and learning and we will then, as I have repeatedly stated—and this will be a matter for the next Welsh Government, which I very much hope they will take on board—be in the business of moving towards the quality control and delivery of professional development as being the next consideration about what this professional body then takes on. That is a complex and large-scale task and it's a job that will require several years of evolution. But I'm disappointed that Plaid Cymru are set to reject these proposals here this afternoon because they're essentially rejecting an essential next step on that journey.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wel, efallai fod Simon Thomas wedi cyflwyno ffigur sy'n swnio'n frawychus iawn, sef codiad o 300 y cant, ond, wrth gwrs, mae'n 300 y cant o ddim llawer o gwbl. Dyna realiti'r sefyllfa. Cyn belled ag y gwn i, bydd y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn wynebu'r ffioedd cofrestru proffesiynol isaf o unrhyw broffesiwn o gryn dipyn, hyd yn oed gyda'r codiad hwn, oherwydd, wrth gwrs—ac rwy'n amau bod llefarwyr y gwrthbleidiau eisoes yn gwybod llawer o'r atebion yr wyf i ar fin eu rhoi—rydym mewn cyfnod penodol o esblygiad y cyngor gweithlu fel corff proffesiynol. Mae'r cam hwn yn golygu ehangu cyrhaeddiad, os mynnwch chi, y cyngor gweithlu i gynnwys yr holl weithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â phobl ifanc o ran addysgu a dysgu a byddwn wedyn, fel yr wyf wedi'i ddweud dro ar ôl tro—a bydd hwn yn fater i Lywodraeth nesaf Cymru; rwy'n gobeithio'n fawr iawn y byddant yn ymdrin ag ef—yn symud tuag at reoli ansawdd a darparu datblygiad proffesiynol fel yr ystyriaeth nesaf o ran gwaith y corff proffesiynol hwn. Mae honno'n dasg gymhleth a mawr ac mae'n waith a fydd sawl blwyddyn o esblygiad. Ond rwy'n siomedig bod Plaid Cymru'n mynd i wrthod y cynigion hyn yma y prynhawn yma oherwydd maent, yn y bôn, yn gwrthod y cam nesaf hanfodol ar y daith honno.

In terms of Aled Roberts' points, just to give him some figures and some reassurance, the council will need to raise an estimated £3.5 million every year in order to carry out these core functions as they stand at present, which equates to an annual registration fee of £49 per registrant. He's quite right again to talk about the developments on the horizon that we will steer the workforce towards in terms of professional development and the oversight and delivery of the new deal. But that is some way in the future as yet and certainly beyond the next Assembly elections. I can guarantee, though, that if there were to be any shortfall, which I do not anticipate would be a problem—but if there were to be any shortfall, for instance, that there would be fewer teachers registering than was anticipated and so on, then the Welsh Government will undertake to make up that shortfall so that the workforce council does have that guarantee of £49 per registrant, which should be sufficient for it to undertake its duties. In short then, Deputy Presiding Officer, I commend the motion and hope that Members will support these regulations and the Order here this afternoon.

O ran pwyntiau Aled Roberts, dim ond i roi rhai ffigurau a rhywfaint o dawelwch meddwl iddo, bydd angen i'r cyngor godi amcangyfrif o £3.5 miliwn bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r swyddogaethau craidd hyn fel y maent ar hyn o bryd, sy'n cyfateb i ffi gofrestru flynyddol o £49 gan bob gweithiwr cofrestredig. Mae yn llygad ei le unwaith eto i sôn am y datblygiadau ar y gorwel y byddwn yn llywio'r gweithlu tuag atynt o ran datblygiad proffesiynol a goruchwylio a darparu'r cytundeb newydd. Ond mae hynny'n eithaf pell yn y dyfodol hyd yma ac yn sicr y tu hwnt i etholiadau nesaf y Cynulliad. Gallaf warantu, fodd bynnag, pe byddai unrhyw ddiffyg—ac nid wyf yn rhagweld y byddai hynny'n broblem—ond pe byddai unrhyw ddiffyg, er enghraifft, pe byddai llai o athrawon yn cofrestru na'r disgwyl ac yn y blaen, bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i wneud iawn am y diffyg hwnnw fel bod gan y cyngor gweithlu warant o £49 ar gyfer pob gweithiwr cofrestredig, a ddylai fod yn ddigon iddo ymgymryd â'i dyletswyddau. Yn fyr felly, Ddirprwy Lywydd, rwy'n cymeradwyo'r cynnig ac yn gobeithio y gwnaiff yr Aelodau gefnogi'r rheoliadau hyn a'r Gorchymyn yma y prynhawn yma.

16:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

16:23

## 6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles a Gwaith sy'n ymwneud â Darpariaethau/Diwygiadau i'r Bil ynghylch y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol

## 6. Legislative Consent Motion on the Welfare Reform and Work Bill relating to Provisions/Amendments to the Bill about the Social Mobility Commission

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 6 is the legislative consent motion on the welfare reform Bill relation to the social mobility commission. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Eitem 6 yw'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar berthynas y Bil diwygio lles â'r comisiwn symudedd cymdeithasol. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5908 Lesley Griffiths

Motion NDM5908 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Diwygio Lles a Gwaith, sy'n ymwneud â thlodi plant a symudedd cymdeithasol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Welfare Reform and Work Bill relating to child poverty and social mobility in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:24

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. This LCM on the UK Government's Welfare Reform and Work Bill concerns provisions and amendments relating to the UK Social Mobility and Child Poverty Commission. I'd like to thank the National Assembly's Enterprise and Business Committee for its scrutiny of the LCM and for its report. Clause 5 of the Welfare Reform and Work Bill sets out proposals to fundamentally reform the UK Social Mobility and Child Poverty Commission, which will become the Social Mobility Commission. Given the UK Government's move away from a focus on child poverty, I have requested a number of amendments to the Bill. Whilst the commission will continue to report annually on its views on the progress made towards improving social mobility in the UK, including Wales, the amendments will mean the report will no longer describe the measures taken by Welsh Ministers in accordance with our child poverty strategy. In addition, the appointment of the Welsh commissioner, who is a leading expert within the field of tackling child poverty, will come to an end when the Bill comes into force.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn ar Fil Diwygio Lles a Gwaith Llywodraeth y DU yn ymwneud â darpariaethau a diwygiadau sy'n ymwneud â Chomisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU. Hoffwn ddiolch i Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol am graffu ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac am ei adroddiad. Mae cymal 5 y Bil Diwygio Lles a Gwaith yn amlinellu cynigion i ddiwygio Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU yn sylfaenol, i ffurfio Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn symud oddi wrth pwyslais ar dlodi plant, rwyf wedi gofyn am nifer o ddiwygiadau i'r Bil. Er y bydd y comisiwn yn parhau i adrodd yn flynyddol ar ei farn ar y cynnydd a wnaethpwyd tuag at wella symudedd cymdeithasol yn y DU, gan gynnwys Cymru, bydd y diwygiadau'n golygu na fydd yr adroddiad mwyach yn disgrifio'r camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â'n strategaeth tlodi plant. Hefyd, bydd penodi comisiynydd Cymru, sy'n arbenigwr blaenllaw ym maes trechu tlodi plant, yn dod i ben pan ddaw'r Bil i rym.

Going forwards, although no longer a member of the UK social mobility commission, Catriona Williams will remain engaged with my tackling poverty external advisory group through its policy sessions. Her views and opinions, as well as her extensive knowledge and expertise, are very much valued.

Yn y dyfodol, er na fydd mwyach yn aelod o gomisiwn symudedd cymdeithasol y DU, bydd Catriona Williams yn parhau i ymgysylltu â fy ngrŵp cynghori allanol ar drechu tlodi drwy gyfrwng ei sesiynau polisi. Mae ei safbwyntiau a'i barn hi, yn ogystal â'i gwybodaeth a'i harbenigedd helaeth, yn werthfawr iawn.

Our focus in Wales will remain on tackling and preventing child poverty. We will continue to invest in the early years, in educational attainment and supporting parents into employment. Only by tackling child poverty can we hope to address the issue of social mobility, a fact which I believe the UK Government has failed to recognise.

Bydd ein pwyslais yng Nghymru yn parhau i fod ar drechu ac atal tlodi plant. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar, mewn cyrhaeddiad addysgol ac mewn cefnogi rhieni i gyflogaeth. Dim ond drwy drechu tlodi plant y gallwn obeithio ymdrin â mater symudedd cymdeithasol, ac yn fy marn i mae Llywodraeth y DU wedi methu â chydnabod y ffaith honno.

16:25

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Although the revised remit of the social mobility commission proposed by the UK Welfare Reform and Work Bill will be to promote social mobility in England only, and to advise the UK Government at its request on how to improve social mobility in England only, it must also publish an annual report setting out its views on the progress made towards improving social mobility in the United Kingdom as a whole, i.e. including Wales. A Welsh voice would therefore continue to be appropriate in this respect to ensure knowledge and understanding of Welsh law, of Welsh practice, of Welsh policy and Welsh circumstances.

Er mai cylch gorchwyl diwygiedig y comisiwn symudedd cymdeithasol a gynigir gan Fil Diwygio Lles a Gwaith y DU fydd hyrwyddo symudedd cymdeithasol yn Lloegr yn unig, a chynghori Llywodraeth y DU ar gais am sut i wella symudedd cymdeithasol yn Lloegr yn unig, mae’n rhaid iddo hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi ei farn am y cynnydd a wnaethpwyd tuag at wella symudedd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, h.y. gan gynnwys Cymru. Felly, byddai llais o Gymru yn parhau i fod yn briodol yn y cyswllt hwn i sicrhau gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, o arferion Cymru, o bolisïau Cymru ac o amgylchiadau Cymru.

I also note that the Social Mobility and Child Poverty Commission, which this would replace, has previously found that Wales had the second highest child poverty rate and the second lowest working age employment rate amongst the UK regions; that almost three quarters of children eligible for free school meals in Wales were not achieving five good GCSEs, higher than any English region; that there were fewer professional jobs in Wales than anywhere but north-east England and Northern Ireland; and that Wales had higher rates of children living in workless households, a lower employment rate, a higher unemployment rate and a higher proportion of the working age population without any qualifications than England, and pay levels 8 per cent lower than the UK average.

Nodaf hefyd fod y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, y byddai hwn yn ei ddisodli, wedi canfod cyn hyn mai Cymru oedd â'r ail gyfradd tlodi plant uchaf a'r ail gyfradd gyflogaeth oed gweithio isaf o blith rhanbarthau'r DU; bod bron i dri chwarter y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn methu â chyflawni pum pwnc TGAU da, sy’n uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr; bod llai o swyddi proffesiynol yng Nghymru nag mewn unrhyw le heblaw gogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Iwerddon; a bod gan Gymru gyfraddau uwch o blant yn byw mewn cartrefi di-waith, cyfradd gyflogaeth is, cyfradd ddiweithdra uwch a chyfran uwch o'r boblogaeth oed gweithio heb unrhyw gymwysterau na Lloegr, a bod lefelau tâl 8 y cant yn is na chyfartaledd y DU.

Without Welsh representation on the new commission, there is therefore also the danger that unwelcome findings in future annual reports may not be given the credence they deserve, as I feel perhaps they might have been given in responding to previous reports under the chairmanship of Alan Milburn.

Heb gynrychiolaeth o Gymru ar y comisiwn newydd, ceir perygl hefyd felly na chaiff y canfyddiadau digroeso mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yr hygrededd y maent yn ei haeddu, fel yr wyf yn credu efallai eu bod wedi’i gael wrth ymateb i adroddiadau blaenorol o dan gadeiryddiaeth Alan Milburn.

In your letter, Minister, to the Enterprise and Business Committee you say that the decision by the UK Government to move away from a focus on child poverty doesn't fit with the priorities of the Welsh Government, and that you therefore requested that the term in office of the commissioner should come to an end when the Welfare Reform and Work Bill is passed, and changes to the commission take effect. So, it would appear that Iain Duncan Smith was acting at your request and those of your colleagues in Scotland when he put down this amendment. In fact, at a UK level, the UK Government is introducing a new and strengthened approach to tracking the life chances of the most disadvantaged children, with more effective measures focused on the real causes of poverty. The current child poverty measure—and apparently the one still favoured by yourself—appears to show a reduction in the number of children in child poverty, when actually an economy is contracting, when it's in recession and when people are getting poorer. Instead, the UK Government for England is proposing to focus on measures which look at the numbers of children living in workless households, improvements in educational attainment, drug and alcohol addiction, family breakdown and so on. So, it's not necessarily accurate to state that the UK Government is moving away from a focus on child poverty, although clearly it is accurate to acknowledge that they're approaching a different measure in the future.

Yn eich llythyr, Weinidog, at y Pwyllgor Menter a Busnes rydych yn dweud nad yw penderfyniad Llywodraeth y DU i symud oddi wrth pwyslais ar dlodi plant yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a'ch bod felly wedi gofyn am i gyfnod y comisiynydd yn y swydd ddod i ben pan gaiff y Bil Diwygio Lles a Gwaith ei basio, a phan fydd newidiadau i'r comisiwn yn dod i rym. Felly, mae'n ymddangos bod Iain Duncan Smith wedi gweithredu ar eich cais chi ac ar gais eich cydweithwyr yn yr Alban pan osododd y gwelliant hwn. Yn wir, ar lefel y DU, mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno dull newydd a chryfach i olrhain cyfleoedd bywyd y plant mwyaf difreintiedig, gyda mesurau mwy effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n achosi tlodi gwirioneddol. Mae'r mesur tlodi plant presennol—yn ôl pob golwg, yr un yr ydych chi'n dal i'w ffafrio—yn ymddangos fel ei fod yn dangos gostyngiad yn nifer y plant mewn tlodi plant, pan fo'r economi mewn gwirionedd yn crebachu, pan ei fod mewn dirwasgiad a phan fo pobl yn mynd yn dlotach. Yn hytrach, mae Llywodraeth y DU yn Lloegr yn cynnig canolbwyntio ar fesurau sy'n edrych ar niferoedd y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith, gwella cyrhaeddiad addysgol, caethiwed i gyffuriau ac alcohol, teuluoedd yn chwalu ac yn y blaen. Felly, nid yw o reidrwydd yn gywir i ddweud bod Llywodraeth y DU yn symud oddi wrth pwyslais ar dlodi plant, er ei bod yn amlwg yn gywir i gydnabod eu bod yn troi at fesur gwahanol yn y dyfodol.

So, for all these reasons, we feel it's still important that Wales still has a voice, knowing that Wales will still be monitored and reported upon by the new commission. We therefore have strong reservations about this legislative consent motion.

Felly, am y rhesymau hyn i gyd, rydym yn teimlo ei bod yn dal i fod yn bwysig bod gan Gymru lais o hyd, o wybod y bydd y comisiwn newydd yn dal i fonitro Cymru a llunio adroddiadau am Gymru. Felly, mae gennym amheuon cryf am y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

16:29

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have a lot of sympathy with some of what Mark Isherwood said. I think we're in the position where the UK Government has effectively abolished and abandoned its programme of dealing with child poverty in preference to social mobility, and the Welsh Government is focusing on child poverty but neglecting social mobility. I think we are in a situation where, by all means, go along different routes, but I think it's important that we actually deal with both issues, because I think as Mark Isherwood has said, improved social mobility can help to tackle poverty and can help to deal with child poverty particularly. I think, clearly, there are concerns therefore about this particular legislative consent motion. The fact that the UK Government agenda no longer fits along with the Welsh Government agenda is understood, and the commission will still report on progress on improving social mobility in Wales in its annual report, but, of course, it won't report on measures taken by Welsh Ministers in accordance with the Welsh strategy, because the Welsh Government does not have a strategy on social mobility, even though that is devolved to us.

Mae gen i lawer o gydymdeimlad â rhywfaint o'r hyn a ddywedodd Mark Isherwood. Rwy'n meddwl ein bod yn y sefyllfa lle mae Llywodraeth y DU i bob diben wedi diddymu ei rhaglen o ymdrin â thlodi plant dros symudedd cymdeithasol, ac wedi cefnu arni, ac mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar dlodi plant ond yn esgeuluso symudedd cymdeithasol. Rwy'n meddwl ein bod mewn sefyllfa lle, ar bob cyfrif, ewch ar hyd llwybrau gwahanol, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi sylw i'r ddau fater, oherwydd rwy'n meddwl, fel y dywedodd Mark Isherwood, y gall gwell symudedd cymdeithasol helpu i drechu tlodi a helpu i drechu tlodi plant yn arbennig. Rwy'n meddwl, yn amlwg, bod pryderon felly am y cynnig cydsyniad deddfwriaethol penodol hwn. Rydym yn deall y ffaith nad yw agenda Llywodraeth y DU bellach yn cyd-fynd ag agenda Llywodraeth Cymru, a bydd y comisiwn yn dal i adrodd am gynnydd o ran gwella symudedd cymdeithasol yng Nghymru yn ei adroddiad blynyddol, ond, wrth gwrs, ni fydd yn adrodd am fesurau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â strategaeth Cymru, oherwydd nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw strategaeth ar symudedd cymdeithasol, er bod hynny wedi'i ddatganoli inni.

I'm concerned that this LCM weakens provisions around reporting on child poverty and social mobility in Wales. We now just have the Welsh Government undertaking its own analysis of its child poverty policies and programmes in line with the Children and Families (Wales) Measure 2010. I think a better approach would be to create a Welsh strategy on social mobility and to have the commission report on measures being taken by Welsh Ministers in accordance with this strategy in addition to the work that is going on in terms of child poverty. So, at least we would have belt and braces as well as an independent assessment of how successful that is. The fact that we have not got that and the fact that we are effectively severing links with the social mobility agenda through this LCM, I think, indicates that this is unsatisfactory, and I think the Welsh Liberal Democrats, as a result of that, will not be voting for this LCM.

Rwy'n pryderu bod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn gwanhau'r darpariaethau o gwmpas adrodd am dlodi plant a symudedd cymdeithasol yng Nghymru. Nawr, dim ond Llywodraeth Cymru sydd gennym yn cynnal ei dadansoddiad ei hun o'i pholisïau a'i rhaglenni tlodi plant yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Dull gwell yn fy marn i fyddai creu strategaeth symudedd cymdeithasol i Gymru a gofyn i'r comisiwn adrodd am fesurau y mae Gweinidogion Cymru yn eu cymryd yn unol â'r strategaeth hon yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran tlodi plant. Felly, o leiaf byddai gennym sicrwydd dwbl yn ogystal ag asesiad annibynnol o ba mor llwyddiannus yw hynny. Mae'r ffaith nad oes gennym hynny a'r ffaith ein bod i bob diben yn torri cysylltiadau â'r agenda symudedd cymdeithasol drwy'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, rwy'n meddwl, yn dangos bod hyn yn anfoddhaol, ac nid wyf yn credu y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn sgil hynny, yn pleidleisio dros y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

16:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you very much. I'd like to thank Members for their contributions. I find it astounding that Mark Isherwood says that the UK Government is looking to focus on the real causes of child poverty. How can they do that when they've taken away the measure of the relative income for poverty? We remain absolutely committed to the ambition of eradicating child poverty by 2020. I fully acknowledge the challenges that we have in relation to that. It hasn't been helped by the additional £12 billion of welfare cuts that have been announced by the UK Government in their autumn statement. That's going to add to the losses already incurred from welfare cuts implemented by the UK Government over the last few years. And, of course, who will it hit? It will hit the low-income households right across Wales the most. And I know, as a Government, we're not going to be able to make up every shortfall that comes from the UK Government, but, nonetheless, we are going to do everything we can with the levers that we have available.

Diolch yn fawr iawn. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Rwyf wedi fy syfrdanu bod Mark Isherwood yn dweud bod Llywodraeth y DU yn bwriadu canolbwyntio ar yr hyn sy'n achosi tlodi plant mewn gwirionedd. Sut gallan nhw wneud hynny a hwythau wedi cael gwared ar y mesur incwm cymharol ar gyfer tlodi? Rydym yn dal i fod yn gwbl ymrwymedig i'r uchelgais o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Rwy'n cydnabod yn llwyr yr heriau sy'n ein hwynebu yn hynny o beth. Nid yw wedi ei helpu gan y £12 biliwn ychwanegol o doriadau lles a gyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ei datganiad yr hydref. Mae hynny'n mynd i ychwanegu at y colledion a achoswyd eisoes gan y toriadau lles gan Lywodraeth y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ac, wrth gwrs, pwy fydd hynny'n ei daro? Y cartrefi incwm isel ledled Cymru gaiff eu taro galetaf. Ac rwy'n gwybod, fel Llywodraeth, nad ydym yn mynd i allu gwneud iawn am bob diffyg a ddaw gan Lywodraeth y DU, ond, serch hynny, rydym yn mynd i wneud popeth o fewn ein gallu gyda'r dulliau sydd ar gael inni.

I'm fully committed to working with partners to deliver on this agenda, and I will maintain an ongoing dialogue with the Social Mobility and Child Poverty Commission. I certainly will use the state of the nation annual report that will come from the commission and use those findings to strengthen our approach to tackling child poverty and reducing inequalities.

Rwy'n gwbl ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid i gyflawni'r agenda hon, a byddaf yn cynnal deialog barhaus gyda'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant. Byddaf yn sicr yn defnyddio adroddiad blynyddol cyflwr y genedl a ddaw gan y comisiwn ac yn defnyddio'r canfyddiadau hynny i gryfhau ein dull o drechu tlodi plant a lleihau anghydraddoldebau.

Also, the decision to withdraw—and it was my decision, you're quite right, Mark Isherwood—the Welsh commissioner was not taken lightly. I think Catriona Williams has done an outstanding job, and I mentioned in my opening remarks that we will continue to use her expertise. She's the chief executive of Children in Wales and I think she will very much remain engaged with my tackling poverty external advisory group throughout the policy session. So, I do ask Members to support the motion.

Hefyd, ynglŷn â'r penderfyniad i gael gwared ar gomisiynydd Cymru—ac fy mhenderfyniad i oedd hwnnw, rydych chi'n hollol iawn, Mark Isherwood—ni chafodd ei wneud ar chwarae bach. Rwy'n meddwl bod Catriona Williams wedi gwneud gwaith rhagorol, a dywedais yn fy sylwadau agoriadol y byddwn yn parhau i ddefnyddio ei harbenigedd. Hi yw prif weithredwr Plant yng Nghymru ac rwy'n meddwl y bydd hi'n sicr yn parhau i ymgysylltu â fy ngrŵp cynghori allanol ar gyfer trechu tlodi drwy gydol y sesiwn polisi. Felly, rwyf yn gofyn i'r Aelodau gefnogi'r cynnig.

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 7. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2014-15

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies.*

## 7. Debate on the Commissioner for Older People in Wales's Impact and Reach Annual Report 2014-15

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies.*

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 7 is the debate on the older people's commissioner for Wales's impact and reach annual report. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Eitem 7 yw'r ddadl am adroddiad blynyddol effaith a chyrhaeddiad comisiynydd pobl hŷn Cymru. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5909 Jane Hutt

Motion NDM5909 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad 2014-15 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2015.

Notes the Impact and Reach Annual Report of the Commissioner for Older People in Wales for 2014-15, laid in Table Office on 9 December 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:33 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser gen i groesawu'r pedwerydd adroddiad blynyddol gan Sarah Rochira, y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru presennol. Rydw i am gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Sarah a'r tîm am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i helpu pobl hŷn ar draws Cymru. Cafodd yr adroddiad sydd yn cael ei drafod heddiw ei gyhoeddi ar 10 Mehefin 2015, ac mae'n edrych ar y cyfnod rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015. Er bod llawer wedi digwydd ers y cyfnod yma, wrth agor y drafodaeth, rydw i am sicrhau bod digon o amser i ganolbwyntio ar y negeseuon pwysig sydd i'w gweld yn yr adroddiad sydd o flaen y Cynulliad y prynhawn yma.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. It's a pleasure to welcome this fourth annual report from Sarah Rochira, the current Commissioner for Older People in Wales. I want to take this opportunity to thank Sarah and the team for their work over the past year in assisting older people across Wales. The report being discussed this afternoon was published on 10 June 2015, and it looks at the period between April 2014 and March 2015. Although much has happened since that period, in opening this debate, I do want to ensure that there is plenty of time to concentrate on the important messages that are contained within the report before the Assembly this afternoon.

Wrth ddarllen yr adroddiad, y peth cyntaf sy'n taro rhywun yw'r swm sylweddol o weithgarwch y mae'r comisiynydd a'i swyddfa wedi'i gyflawni yn cwrdd â 216 o grwpiau o bob rhan o Gymru, gan gynnwys dros 5,700 o bobl hŷn.

In reading the report, the first thing that strikes one is the significant amount of activity the commissioner and her office have undertaken in meeting with 216 groups in all parts of Wales, including over 5,700 older people.

Dirprwy Lywydd, it is not just the scale, but it's also the scope of the report that will strike any reader. From Chinese elders to Men in Sheds, from the Swansea transgender festival to the Women's Institute, the report demonstrates the enormous variety of concerns, interests, organisations and activities that are to be found amongst older people in Wales, and the ways in which the commissioner's office has reached into these aspects of their lives.

Ddirprwy Lywydd, caiff unrhyw ddarllenydd ei daro, nid yn unig gan faint yr adroddiad, ond gan ei gwmpas hefyd. O hynafgwyr Tseiniaidd i Ddynion mewn Siediau, o ŵyl drawsryweddol Abertawe i Sefydliad y Merched, mae'r adroddiad yn dangos yr amrywiaeth enfawr o bryderon, diddordebau, sefydliadau a gweithgareddau sydd i'w canfod ymhlith pobl hŷn yng Nghymru, a'r ffyrdd y mae swyddfa'r comisiynydd wedi cyrraedd yr agweddau hyn ar eu bywydau.

Now, as well as about reach, the report is also about impact, and here, too, the landscape covered by the commissioner and her staff cannot fail to impress. There is no significant public body and very few in relevant parts of the third sector that do not feature in the pages of the report and whose activities have not been influenced by the older persons' commissioner. Dirprwy Lywydd, in the time available to me, I want to focus on a number of areas where impact is clearly demonstrated in the report's pages.

Nawr, yn ogystal â chyrhaeddiad, mae'r adroddiad hefyd yn sôn am effaith, ac yma, hefyd, mae'r dirwedd y mae'r comisiynydd a'i staff yn ei chwmpasu yn drawiadol iawn. Does dim corff cyhoeddus o bwys, ac ychydig iawn yn y rhannau perthnasol o'r trydydd sector, nad ydynt yn ymddangos yn nhudalennau'r adroddiad ac nad ydynt wedi teimlo dylanwad y comisiynydd pobl hŷn yn eu gweithgareddau. Ddirprwy Lywydd, yn yr amser sydd ar gael imi, hoffwn ganolbwyntio ar nifer o feysydd lle mae tudalennau'r adroddiad yn dangos effaith glir.

This was the year when the commissioner published her landmark inquiry into residential care homes in Wales. In welcoming the report, I was especially struck by its emphasis on those small things, which, when done properly, make such a difference to the lives of people in residential care. That is why, as a Government, we have since invested a £0.25 million from 2015-16 onwards for improved dental services in residential care and a similar sum to accelerate the rate of dementia diagnosis amongst older people in residential care settings. All of this takes place under the auspices of the care homes steering group, which is chaired by the Welsh Government director of social services and that provides the leadership necessary to make sure that action is taken to address the issues that arise from the commissioner's review, and, indeed, from the Health and Social Care Committee's inquiry into residential care in Wales.

Hon oedd y flwyddyn pan gyhoeddodd y comisiynydd ei hymchwiliad pwysig i gartrefi gofal preswyl yng Nghymru. Wrth groesawu'r adroddiad, cefais fy nharo yn enwedig gan ei bwyslais ar y pethau bach hynny, sydd, o'u gwneud yn iawn, yn gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau pobl mewn gofal preswyl. Dyna pam, fel Llywodraeth, yr ydym ers hynny wedi buddsoddi £0.25 miliwn o 2015-16 ymlaen ar gyfer gwell gwasanaethau deintyddol mewn gofal preswyl a swm tebyg i gyflymu cyfradd diagnosis dementia ymhlith pobl hŷn mewn lleoliadau gofal preswyl. Mae hyn i gyd yn digwydd o dan nawdd y grŵp llywio cartrefi gofal, sy'n cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac sy'n darparu'r arweiniad angenrheidiol i wneud yn siŵr bod camau'n cael eu cymryd i ymdrin â'r materion sy'n codi o adolygiad y comisiynydd, ac, yn wir, o ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofal preswyl yng Nghymru.

In terms of impact, the report also shows the investment made by the commissioner in assisting this National Assembly in our key role as a legislature. The report reflects the commissioner's support for campaigns by older people to improve the provision of public toilets, and that campaign is now reflected in the proposals contained in the public health Bill before the Assembly.

O ran effaith, mae'r adroddiad hefyd yn dangos y buddsoddiad a wnaeth y comisiynydd wrth gynorthwyo'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn ein swyddogaeth allweddol o fod yn ddeddfwrfa. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu cefnogaeth y comisiynydd i ymgyrchoedd gan bobl hŷn i wella darpariaeth tai bach cyhoeddus, ac mae'r ymgyrch honno bellach wedi'i hadlewyrchu yn y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil iechyd cyhoeddus sydd gerbron y Cynulliad.

Given the period covered by the report, it's unsurprising to see its focus on the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. The commissioner highlights the theme of integration, which lies at the heart of that piece of legislation. As we all know, older people use both health and social care services in order to help them go on living independent lives for as long as possible and over which they have both choice and control. As a Welsh Government, we have sought to broaden the integration agenda still further to embrace, for example, housing, the third sector and the independent sector, too. The way in which the intermediate care fund has developed shows, I believe, the influence that the commissioner has had in this area.

O ystyried y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad, nid yw'n syndod gweld ei bwyslais ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r comisiynydd yn tynnu sylw at thema integreiddio, sy'n ganolog i'r darn hwnnw o ddeddfwriaeth. Fel yr ydym i gyd yn gwybod, mae pobl hŷn yn defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn eu helpu i barhau i fyw bywydau annibynnol am gyhyd ag y bo modd, ac i sicrhau bod ganddynt ddewis a rheolaeth yn eu bywydau. Fel Llywodraeth Cymru, rydym wedi ceisio ehangu'r agenda integreiddio ymhellach i gynnwys, er enghraifft, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol, hefyd. Mae'r ffordd y mae'r gronfa gofal canolraddol wedi datblygu yn dangos, yn fy marn i, sut y mae'r comisiynydd wedi dylanwadu ar y maes hwn.

Dirprwy Lywydd, in noting the impact that the commissioner has had on legislation, I can indicate that the Government will support the one amendment placed to the motion this afternoon. There will be further action in the next Assembly to protect and promote the rights of older people, because the detailed legislation that flows from the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill will come before Members during that term. New legislative proposals beyond May of this year will, of course, fall to an incoming administration to determine.

Ddirprwy Lywydd, wrth nodi'r effaith y mae'r comisiynydd wedi'i chael ar ddeddfwriaeth, gallaf nodi y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r un gwelliant a roddwyd i'r cynnig y prynhawn yma. Cymerir camau pellach yn y Cynulliad nesaf i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, oherwydd bydd y ddeddfwriaeth fanwl sy'n deillio o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn dod gerbron yr Aelodau yn ystod y tymor hwnnw. Wrth gwrs, y weinyddiaeth nesaf fydd yn penderfynu ar gynigion deddfwriaethol newydd y tu hwnt i fis Mai eleni.

Dirprwy Lywydd, I'd like to highlight for a moment the Ageing Well in Wales programme in which the commissioner has taken such a lead, and which places developments here in Wales on a European stage. In December, I visited Brussels to represent Wales at a major conference of the European innovation partnership on active and healthy ageing. Being a reference site for the partnership allows us to work closely with other European countries and regions on this shared agenda. It allows us to demonstrate as well the impact of some of the ideas and practical policies that are being taken forward in Wales. The commissioner herself had been in Brussels earlier in the week of that conference as part of the same effort, and I can certainly assure Members that, on that European stage, the fact that we have an older persons' commissioner for Wales is well known and the actions taken by the current post holder have had an impact at that European level. The fact that we have an older persons' commissioner's office in Wales will be an important part of our effort in this year to achieve 4* reference status for innovation and partnership working for active, healthy ageing within Wales. If we do achieve that status, then all sorts of possibilities for research and practice within Wales will flow from it.

Ddirprwy Lywydd, hoffwn dynnu sylw am eiliad at y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru y mae'r comisiynydd wedi'i harwain, ac sy'n gosod datblygiadau yma yng Nghymru ar lwyfan Ewropeaidd. Ym mis Rhagfyr, ymwelais â Brwsel i gynrychioli Cymru mewn cynhadledd bwysig o'r bartneriaeth arloesi Ewropeaidd ar heneiddio gweithgar ac iach. Mae bod yn safle cyfeirio ar gyfer y bartneriaeth yn caniatáu inni weithio'n agos gyda gwledydd a rhanbarthau eraill yn Ewrop ar yr agenda hon a rennir. Mae hefyd yn ein galluogi i ddangos effaith rhai o'r syniadau a'r polisïau ymarferol sy'n cael eu datblygu yng Nghymru. Roedd y comisiynydd ei hun wedi bod ym Mrwsel yn gynharach yn wythnos y gynhadledd honno yn rhan o'r un ymdrech, ac yn sicr gallaf sicrhau'r Aelodau, ar y llwyfan Ewropeaidd, fod y ffaith bod gennym gomisiynydd pobl hŷn ar gyfer Cymru yn hysbys a bod y camau a gymerwyd gan ddeiliad presennol y swydd wedi cael effaith ar y lefel Ewropeaidd. Bydd y ffaith bod gennym swyddfa comisiynydd pobl hŷn yng Nghymru yn rhan bwysig o'n hymdrech yn ystod y flwyddyn hon i ennill statws cyfeirio 4* ar gyfer arloesi a gweithio mewn partneriaeth dros heneiddio gweithgar, iach o fewn Cymru. Os gwnawn gyflawni'r statws hwnnw, bydd pob math o bosibiliadau ar gyfer ymchwil ac ymarfer yng Nghymru yn deillio ohono.

Dirprwy Lywydd, finally, in this very brief account of some of the major strands in this annual report, I'd like to highlight some of the work being taken forward in areas little explored or discussed in the lives of older people. I'd like to commend the commissioner for her work in producing a bilingual booklet that provides information for older people experiencing domestic abuse or sexual violence here in Wales. At the point when it was published, 25,000 copies of the booklet had already been distributed across Wales to a wide range of relevant partners, helping to make them aware of the impact that such things can have on the lives of older people and where that impact is often not easily understood or recognised.

Ddirprwy Lywydd, yn olaf, yn yr adroddiad byr iawn hwn am rai o brif feysydd yr adroddiad blynyddol hwn, hoffwn dynnu sylw at rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn meysydd sydd heb gael eu harchwilio na'u trafod ryw lawer ym mywydau pobl hŷn. Hoffwn ganmol y comisiynydd am ei gwaith i gynhyrchu llyfryn dwyieithog sy'n rhoi gwybodaeth i bobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol yma yng Nghymru. Ar adeg cyhoeddi'r llyfryn, roedd 25,000 o gopïau ohono eisoes wedi'u dosbarthu ledled Cymru i ystod eang o bartneriaid perthnasol, gan helpu i'w gwneud yn ymwybodol o sut y gall y pethau hyn effeithio ar fywydau pobl hŷn a phryd y mae'n aml yn anodd deall neu gydnabod yr effaith honno.

Dirprwy Lywydd, there's much more that is covered in the pages of this report, to which I'm sure other Members will make reference during the debate. Whatever the topic, the account provided offers a vivid insight into the work of the commissioner and the balance that she must strike in attempting to represent the views of many, many thousands of people in widely differing circumstances and with an equally wide range of views, perspectives and priorities. Not everyone reading through the pages of the report will agree with every conclusion drawn in them, but no-one, I believe, could leave them without a clear sense of the commitment of the commissioner, the determination of her office to articulate issues of concern to older people in Wales and the difference that her work has made to the lives of many individuals and in the provision of our public services. I look forward to the contribution of Members during the rest of this debate.

Ddirprwy Lywydd, mae llawer mwy sy'n cael sylw yn nhudalennau'r adroddiad hwn, ac rwy'n siŵr y bydd Aelodau eraill yn cyfeirio at hynny yn ystod y ddadl. Beth bynnag fo'r pwnc, mae'r disgrifiad a ddarparwyd yn cynnig cipolwg bywiog ar waith y comisiynydd a'r cydbwysedd y mae'n rhaid iddi ei daro wrth geisio cynrychioli barn miloedd lawer o bobl dan amgylchiadau gwahanol iawn a gydag amrywiaeth yr un mor eang o farnau, safbwyntiau a blaenoriaethau. Ni fydd pawb sy'n darllen drwy dudalennau'r adroddiad yn cytuno â phob casgliad sydd wedi'i ffurfio ynddynt, ond ni allai neb, yn fy marn i, eu gadael heb deimlad clir o ymrwymiad y comisiynydd, penderfyniad ei swyddfa i fynegi materion sy'n peri pryder i bobl hŷn yng Nghymru a'r gwahaniaeth y mae ei gwaith wedi ei wneud i fywydau llawer o unigolion ac i'n darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ni. Rwy'n edrych ymlaen at gyfraniad Aelodau yn ystod gweddill y ddadl hon.

16:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the amendment to the motion, and I call on Darren Millar to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi cyfeiriadau at hawliau pobl hŷn yn yr adroddiad effaith a chyrhaeddiad ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i gyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.*

*Notes references to the rights of older people in the impact and reach report and calls on the Welsh Government to work with the Older People's Commissioner to bring forward legislation to protect and promote the rights of older people.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:42

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the amendment on the order paper. I want to thank the Minister for his indication that he will accept and support that amendment when we come to the vote today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig y gwelliant ar bapur y gorchymyn. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am awgrymu y bydd yn derbyn ac yn cefnogi'r gwelliant hwnnw pan ddeuwn at y bleidlais heddiw.

I think it is important that we have the opportunity, on an annual basis, to visit the impact and reach report that's been published by the older people's commissioner in Wales. Like the Minister, I'm always astounded at the level of activity that she is undertaking across the whole of Wales. I think it does note in the report that she's visited every single local authority area. I don't think that anyone can complain that she hasn't been to their constituency in the Chamber this afternoon.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn cael y cyfle, yn flynyddol, i edrych ar yr adroddiad effaith a chyrhaeddiad sy'n cael ei gyhoeddi gan y comisiynydd pobl hŷn yng Nghymru. Fel y Gweinidog, rwy'n synnu bob tro o ba mor weithgar yw hi ledled Cymru gyfan. Rwy'n meddwl bod yr adroddiad yn nodi ei bod hi wedi ymweld â phob un ardal awdurdod lleol. Nid wyf yn credu y gall neb gwyno nad yw hi wedi bod i'w hetholaeth nhw yn y Siambr y prynhawn yma.

We all know that old age is something that we ought to be celebrating more as a nation. Many people see old age as something that is a burden to society. I think it's actually something that we should be drawing on in terms of the knowledge and experience of our older people, and we should be celebrating the fact that Wales is increasingly becoming a nation of older people. I want to thank the older people's commissioner for reminding us of that in her report. I think she does some fantastic work. She's covered many thousands of miles, the report notes, and she's had many thousands of meetings with many thousands of older people across Wales in the period to which this report relates. No-one can doubt that her outreach work has been exceptional.

Rydym i gyd yn gwybod bod henaint yn rhywbeth y dylem wneud mwy i'w ddathlu fel cenedl. Mae llawer o bobl yn gweld henaint fel rhywbeth sy'n faich ar gymdeithas. Rwy'n credu ei fod mewn gwirionedd yn rhywbeth y dylem fod yn tynnu arno o ran gwybodaeth a phrofiad ein pobl hŷn, a dylem fod yn dathlu'r ffaith bod Cymru yn gynyddol yn dod yn genedl o bobl hŷn. Hoffwn ddiolch i'r comisiynydd pobl hŷn am ein hatgoffa o hynny yn ei hadroddiad. Rwy'n meddwl ei bod yn gwneud gwaith gwych. Mae hi wedi teithio miloedd lawer o filltiroedd, mae'r adroddiad yn nodi, ac mae hi wedi cael miloedd lawer o gyfarfodydd â miloedd lawer o bobl hŷn ledled Cymru yn y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef. Ni all neb amau nad yw ei gwaith allgymorth wedi bod yn eithriadol.

I think, also, it's important to draw attention to the fact that she engages with the third sector in a very practical way, working with them on a whole range of issues, and, indeed, she engages very much with Assembly Members in this Chamber of all political colours. It was a pleasure to be able to welcome the commissioner to Abergele in my own constituency just last week, where we visited Tŷ Cariad, a fantastic new dementia facility in the constituency there, which really is the sort of example that needs to be set for other dementia care facilities in Wales in the future.

Rwy'n meddwl, hefyd, ei bod yn bwysig tynnu sylw at y ffaith ei bod yn ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ffordd ymarferol iawn, gan weithio gyda nhw ar ystod eang o faterion, ac, yn wir, mae hi'n ymgysylltu'n dda ag Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr hon o bob lliw gwleidyddol. Roedd yn bleser gallu croesawu'r comisiynydd i Abergele yn fy etholaeth i yr wythnos diwethaf, lle y buom yn ymweld â Thŷ Cariad, cyfleuster dementia newydd gwych yn yr etholaeth yno, sydd yn wir y math o esiampl y mae angen ei gosod ar gyfer cyfleusterau gofal dementia eraill yng Nghymru yn y dyfodol.

I think the survey results that appear in this report allude to the fact that many older people across Wales attach a great deal of value to the older people's commissioner post. We saw, in the survey results, which have been reported, that 75 per cent of people in Wales think that there's a need for an older people's commission. But I think what was slightly depressing is that, in spite of the activity and in spite of the work that's been done, only a third actually know that we have an older people's commissioner. So, clearly, we collectively, as Assembly Members, the Welsh Government and the older people's commissioner's office need to do even more to raise the profile of her important work.

Rwy'n meddwl bod y canlyniadau arolwg sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y ffaith bod llawer o bobl hŷn ledled Cymru o'r farn bod swydd y comisiynydd pobl hŷn yn werthfawr iawn. Gwelsom, yng nghanlyniadau'r arolwg, sydd wedi eu hadrodd, fod 75 y cant o bobl Cymru yn credu bod angen comisiwn pobl hŷn. Ond rwy'n meddwl mai'r hyn oedd ychydig yn ddigalon yw, er gwaethaf y gweithgaredd ac er gwaethaf y gwaith sydd wedi'i wneud, mai dim ond traean sy'n gwybod mewn gwirionedd bod gennym gomisiynydd pobl hŷn. Felly, yn amlwg, mae angen i ni ar y cyd, fel Aelodau'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru a swyddfa'r comisiynydd pobl hŷn, wneud mwy fyth i godi proffil ei gwaith pwysig.

Advocacy is a big part of the older people's commissioner's office workload and we know that many hundreds of people have been assisted, according to the report, by the older people's commissioner over the 12-month period referred to. I know, because of much of the casework that I'm involved with, that that work continues to go on and it's of an exceptionally high quality.

Mae eiriolaeth yn rhan fawr o lwyth gwaith swyddfa'r comisiynydd pobl hŷn ac rydym yn gwybod bod llawer o gannoedd o bobl wedi cael cymorth, yn ôl yr adroddiad, gan y comisiynydd pobl hŷn dros y cyfnod o 12 mis dan sylw. Rwy'n gwybod, oherwydd llawer o'r gwaith achos yr wyf yn ymwneud ag ef, bod y gwaith hwnnw'n parhau i fynd ymlaen a'i fod o safon eithriadol o uchel.

The report also refers to some of the interaction that there has been with a number of the different committees in the Assembly. Just as Chair of the Public Accounts Committee, if I may, I want to put on record my thanks to the commissioner for her involvement in the NHS governance work that we have been doing as a committee. She's had very clear thoughts on the future of governance in the NHS that are going to be very useful when we're drawing our conclusions, I'm sure, on that piece of work. I know that the commissioner has monitored very carefully some of the issues that have arisen over the past couple of years in the Welsh NHS, particularly where there have been failings of care for older people. I know that she will continue to pursue those with some tenacity until her concerns are resolved.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at rywfaint o'r rhyngweithio a fu gyda nifer o'r gwahanol bwyllgorau yn y Cynulliad. Dim ond fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus,, hoffwn gofnodi fy niolch, os caf, i'r comisiynydd am ymwneud â'r gwaith o lywodraethu'r GIG yr ydym wedi bod yn ei wneud fel pwyllgor. Roedd ganddi feddyliau clir iawn am ddyfodol llywodraethu yn y GIG a fydd yn ddefnyddiol iawn pan fyddwn yn llunio ein casgliadau, rwy'n siŵr, am y darn hwnnw o waith. Rwy'n gwybod bod y comisiynydd wedi monitro'n ofalus iawn rhai o'r materion sydd wedi codi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn y GIG yng Nghymru, yn enwedig lle bu diffygion o ran gofal i bobl hŷn. Rwy'n gwybod y bydd yn parhau i fynd ar drywydd y rheini gyda digon o ddycnwch nes i'w phryderon gael eu tawelu.

Also, of course, she's been influential in the shaping of some of our legislation here in Wales, not least the Public Health (Wales) Bill, which the Minister referred to in terms of the future arrangements for the planning of public conveniences in Wales, but also in terms of helping to shape some other pieces of legislation as well. If there's one piece of legislation, in addition to the legislation on older people's rights, that I would like to see, it's an amendment to the regulations about the older people's commissioner's appointment. We know that, at the moment, the current arrangements are that there's an appointment for a four-year term with an opportunity to apply for reappointment for a further four-year term. That's not consistent with some of the other commissioner appointment arrangements in Wales. I would very much like to see the Welsh Government bringing forward some legislation to drive some consistency in that in the future.

Hefyd, wrth gwrs, mae hi wedi bod yn ddylanwadol wrth lunio rhywfaint o'n deddfwriaeth yma yng Nghymru, gan gynnwys y Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru), y cyfeiriodd y Gweinidog ato o ran y trefniadau yn y dyfodol ar gyfer cynllunio cyfleusterau cyhoeddus yng Nghymru, ond hefyd o ran helpu i lunio darnau eraill o ddeddfwriaeth. Os oes un darn o ddeddfwriaeth, yn ychwanegol at y ddeddfwriaeth ar hawliau pobl hŷn, yr hoffwn ei weld, diwygiad i'r rheoliadau ynghylch penodi comisiynydd pobl hŷn fyddai hwnnw. Rydym yn gwybod mai'r trefniadau presennol ar hyn o bryd yw penodiad am dymor o bedair blynedd a chyfle i wneud cais am ailbenodiad am gyfnod o bedair blynedd arall. Nid yw hynny'n gyson â rhai o'r trefniadau penodi comisiynwyr eraill yng Nghymru. Hoffwn yn fawr iawn weld Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i ysgogi rhywfaint o gysondeb yn hynny o beth yn y dyfodol.

If I may, very briefly, on the issue of older people's rights, I'm very heartened to hear that there can be a cross-party consensus, certainly between my party and the Government, on the need for legislation on older people's rights in the future. We know that we have recognition of the UN principles for older persons on our statute books already, and we need to emphasise that so that there's an extension of the rights-based approach in Wales. So, I welcome the Minister's announcement today.

Os caf, yn fyr iawn, ar fater hawliau pobl hŷn, mae'n fy nghalonogi'n fawr clywed y gellir cael consensws trawsbleidiol, yn sicr rhwng fy mhlaid i a'r Llywodraeth, ynglŷn â'r angen am ddeddfwriaeth ar hawliau pobl hŷn yn y dyfodol. Rydym yn gwybod bod ein llyfrau statud eisoes yn cydnabod egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn, ac mae angen inni bwysleisio hynny er mwyn ymestyn y dull seiliedig ar hawliau yng Nghymru. Felly, rwy'n croesawu cyhoeddiad y Gweinidog heddiw.

16:48

## Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, what a magnificent start to 2016. If I had one serious question on this report, it would be: how many Sarah Rochiras are there in Wales? Because the woman is absolutely amazing, and I don't think we realise how fortunate we are. I welcome this report and I would genuinely like to pay tribute to the dedication and the sheer energy shown by the commissioner in providing an essential voice for older people throughout Wales.

Wel, am ddechrau gwych i 2016. Pe byddai gennyf un cwestiwn difrifol am yr adroddiad hwn, y cwestiwn fyddai: sawl Sarah Rochira sydd yng Nghymru? Oherwydd mae'r fenyw yn hollol anhygoel, ac nid wyf yn meddwl ein bod yn sylweddoli pa mor ffodus yr ydym. Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn a hoffwn yn wir dalu teyrnged i'r ymroddiad a'r egni pur y mae'r comisiynydd wedi'i ddangos o ran darparu llais hanfodol i bobl hŷn ledled Cymru.

Now, she raises a number of points in the report that we in Plaid Cymru, of course, would fully endorse—and, I'm sure, most people in this room. First of all, her emphasis on the importance, as has been mentioned by the Minister, of advocacy as a means of securing the rights of older people. We did work hard to make sure that this featured very prominently in the Social Services and Well-being (Wales) Act, and the Minister recognised that. Secondly, the need to ensure as well that family carers too have rights to have their needs properly assessed and catered for.

Nawr, mae hi'n codi nifer o bwyntiau yn yr adroddiad y byddem ni ym Mhlaid Cymru, wrth gwrs, yn eu cymeradwyo'n llwyr—ac, rwy'n siŵr, y rhan fwyaf o'r bobl yn yr ystafell hon. Yn gyntaf oll, ei phwyslais ar bwysigrwydd, fel y dywedodd y Gweinidog, eiriolaeth fel modd o sicrhau hawliau pobl hŷn. Gwnaethom weithio'n galed i wneud yn siŵr bod hon yn nodwedd amlwg iawn yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac roedd y Gweinidog yn cydnabod hynny. Yn ail, yr angen i sicrhau bod gan ofalwyr teulu hawliau hefyd i gael asesiad priodol o'u hanghenion a darpariaeth briodol ar eu cyfer.

There are another two vital issues on which Plaid Cymru and the commissioner are in complete agreement. The first is for a greater integration of health and social care. You will know that, in our view, that means the combination of health and social care into one organisation. The second issue is the question, which the commissioner raises, of charges for social care. We have clearly stated our intention of abolishing charges for those elderly people who receive care in the community.

Mae Plaid Cymru a'r comisiynydd hefyd yn cytuno'n llwyr ar ddau fater hanfodol arall. Y cyntaf yw mwy o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwch yn gwybod, yn ein barn ni, bod hynny'n golygu cyfuno iechyd a gofal cymdeithasol i mewn i un sefydliad. Yr ail fater yw'r cwestiwn, y mae'r comisiynydd yn ei godi, ynglŷn â thaliadau am ofal cymdeithasol. Rydym wedi datgan yn glir ein bwriad o ddiddymu taliadau gan y bobl oedrannus hynny sy'n cael gofal yn y gymuned.

In this report, there's a clear intention to safeguard older people against various forms of abuse. I would like to know what steps, in the future, the commissioner will be taking, with the help of the police and local authorities, to stamp out scams against older people, whether they are by social media, by telephone or by actually calling at their homes. I equate scams with scum, because those who prey on particularly vulnerable older people, in my opinion, are just that.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi bwriad clir i ddiogelu pobl hŷn rhag gwahanol fathau o gam-drin. Hoffwn wybod pa gamau, yn y dyfodol, y bydd y comisiynydd yn eu cymryd, gyda chymorth yr heddlu ac awdurdodau lleol, i ddileu twyll yn erbyn pobl hŷn, pa un a yw'n digwydd ar gyfryngau cymdeithasol, dros y ffôn neu drwy alw yn eu cartrefi. I mi, mae sgamiau'n golygu gwehilion, oherwydd dyna beth yw pobl sy'n cymryd mantais ar bobl hŷn arbennig o agored i niwed, yn fy marn i.

The commissioner mentions the poor quality of care in certain care homes, but she also mentions awards to outstanding individuals. It would be interesting to read about the examples of excellence in the field of elderly services that could be used as a standard for other services to actually aim for. This is too brief here, really. I could eulogise for too long on my admiration for the work of Sarah Rochira and her entire department. But, to sum up: I want to thank the commissioner and her staff for their extremely valuable work, and what they are doing in order to make the lives of older people throughout Wales meaningful, valued and secure.

Mae'r comisiynydd yn sôn am ansawdd gwael y gofal mewn rhai cartrefi gofal, ond mae hi hefyd yn sôn am wobrau i unigolion eithriadol. Byddai'n ddiddorol darllen am yr enghreifftiau o ragoriaeth ym maes gwasanaethau i'r henoed y gellid eu defnyddio fel safon i wasanaethau eraill gael y nod o'u cyrraedd. Mae hyn yn rhy fyr yma, a dweud y gwir. Gallwn sôn yn rhy hir am fy edmygedd o waith Sarah Rochira a'i hadran gyfan. Ond, i grynhoi: hoffwn ddiolch i'r comisiynydd a'i staff am eu gwaith hynod werthfawr, a'r hyn y maent yn ei wneud i wneud bywydau pobl hŷn ledled Cymru yn ystyrlon, yn werthfawr ac yn ddiogel.

16:51

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the opportunity to contribute to the debate on the older people's commissioner for Wales's impact and reach annual report, a report that reflects on some of the really important issues affecting older people in Wales that the commissioner has driven forward over the past 12 months. For example, there is the Ageing Well in Wales programme, the first of its kind in Europe, with one simple aim: to improve the wellbeing of people over the age of 50, with the collaboration of organisations, groups and individuals across Wales. With a growing older people population in Wales, it is great that we are leading the way to create a country where everyone has the opportunity to make the most of their older years. Active engagement across all local authorities, best practice guidance issued and the safeguarding of older people all demonstrate how the role of our older people's commissioner benefits older people in Wales, and I, for one, am very proud of that.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl am adroddiad blynyddol effaith a chyrhaeddiad comisiynydd pobl hŷn Cymru, adroddiad sy'n adlewyrchu ar rai o'r materion gwirioneddol bwysig sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru y mae'r comisiynydd wedi gweithio arnynt dros y 12 mis diwethaf. Er enghraifft, y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, y cyntaf o'i math yn Ewrop, gydag un nod syml: gwella lles pobl dros 50 oed, gyda chydweithrediad sefydliadau, grwpiau ac unigolion ledled Cymru. Mae poblogaeth pobl hŷn ar gynnydd yng Nghymru, ac mae'n wych ein bod yn arwain y ffordd i greu gwlad lle mae gan bawb y cyfle i wneud y mwyaf o'u blynyddoedd hŷn. Mae mynd ati i ymgysylltu ar draws pob awdurdod lleol, cyhoeddi canllawiau arfer gorau a diogelu pobl hŷn i gyd yn dangos sut mae gwaith ein comisiynydd pobl hŷn o fudd i bobl hŷn yng Nghymru, ac rwyf fi, yn un, yn falch iawn o hynny.

Looking forward, I am pleased to see that the commissioner has a specific focus on dementia and those who care for people with dementia—an issue that is very close to my heart and one that requires much more attention. I very much look forward to hearing more and working with the commissioner on this over the coming months. For now, though, I would like to place on record my recognition of all the hard work and dedication the commissioner has shown in taking forward her report into residential care in Wales. I would like to thank her for taking the time to visit some care homes with me locally in Torfaen. I congratulated and welcomed the work undertaken by the commissioner in this Chamber when she first published the care home review. I believed then, as I do now, that it really does give us a comprehensive blueprint—a roadmap to develop and deliver the kind of residential care sector here in Wales that we all want to see for the future. It is not too much to ask that people who live in care homes receive the best possible care within a setting that they can really call their home. This is of paramount importance, especially in the light of events such as the collapse of Southern Cross, and things like Dr Margaret Flynn's report into the shocking abuse and neglect at care homes across south Wales. Of course, I welcome that much of this change is being taken forward in the Welsh Government's Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. I am pleased to see the Welsh Government recognising and addressing these challenges. I was also pleased that all of the bodies subject to the commissioner's review, overall, strongly welcomed the requirements for action and are committed to delivering change going forward.

I edrych ymlaen, rwy'n falch o weld bod y comisiynydd yn canolbwyntio'n benodol ar ddementia a'r rhai sy'n gofalu am bobl â dementia—mater sy'n agos iawn at fy nghalon ac un sydd ag angen llawer mwy o sylw. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at glywed mwy a gweithio gyda'r comisiynydd ar hyn dros y misoedd nesaf. Am y tro, fodd bynnag, hoffwn gofnodi fy nghydnabyddiaeth o'r holl waith caled ac ymroddiad a ddangoswyd gan y comisiynydd wrth iddi fwrw ymlaen â'i hadroddiad am ofal preswyl yng Nghymru. Hoffwn ddiolch iddi am roi o'i hamser i ymweld â rhai cartrefi gofal gyda mi yn lleol yn Nhorfaen. Gwnes i longyfarch a chroesawu'r gwaith a wnaeth y comisiynydd yn y Siambr hon pan gyhoeddodd yr adolygiad cartrefi gofal am y tro cyntaf. Roeddwn yn credu bryd hynny, ac rwy'n dal i gredu nawr, ei fod yn wir yn rhoi glasbrint cynhwysfawr inni—map ffordd i ddatblygu a darparu'r math o sector gofal preswyl yma yng Nghymru yr hoffem i gyd ei weld ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n ormod i ofyn bod pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael y gofal gorau posibl mewn lleoliad y gallant wir ei alw'n gartref. Mae hyn yn hollbwysig, yn enwedig yng ngoleuni digwyddiadau fel cwymp Southern Cross, a phethau fel adroddiad Dr Margaret Flynn i'r cam-drin a'r esgeulustod gwarthus mewn cartrefi gofal ledled y de. Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r ffaith bod llawer o'r newid hwn yn cael ei ddatblygu o fewn Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) Llywodraeth Cymru. Rwy'n falch o weld Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau hyn ac yn ymdrin â hwy. Roeddwn hefyd yn falch bod pob corff a oedd yn destun adolygiad y comisiynydd, yn gyffredinol, wedi croesawu'n gryf y gofynion ar gyfer gweithredu ac wedi ymrwymo i sicrhau newid yn y dyfodol.

When I spoke in the debate on the review, I said that I thought it was essential that the Welsh Government embraced the work of the commissioner, and that there was nothing in the commissioner's report that the Welsh Government should be fearful of. As I said, it should be said as the blueprint for change in residential care, and I am really keen for the Welsh Government to press ahead, with pace, in that direction. I understand that the commissioner had some concerns with some of the requirements for action from Welsh Government in their initial response to the review. But I also understand that the Welsh Government has since made sufficient progress in this area. But I would be keen to hear from the health Minister today an update on the difference that the Welsh Government's work is making in this regard, and how the Government is meeting the requirements for action. Indeed, I know that myself and other Assembly Members will continue to keep this firmly at the top of the Welsh Government's agenda, and I'm very much looking forward to welcoming Sarah Rochira back to the Health and Social Care Committee on 20 January as part of our follow-up work on the care home report in Wales. Thank you.

Pan siaradais yn y ddadl am yr adolygiad, dywedais fy mod yn meddwl ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn croesawu gwaith y comisiynydd, ac nad oedd unrhyw beth yn adroddiad y comisiynydd y dylai Llywodraeth Cymru ei ofni. Fel y dywedais, dylid ei ddweud fel glasbrint ar gyfer newid mewn gofal preswyl, ac rwy'n awyddus iawn i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen, gyda chyflymder, i'r cyfeiriad hwnnw. Rwyf ar ddeall y bu'r comisiynydd yn pryderu ychydig am rai o'r gofynion ar gyfer gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb cychwynnol i'r adolygiad. Ond rwyf hefyd ar ddeall bod Llywodraeth Cymru ers hynny wedi gwneud cynnydd digonol yn y maes hwn. Ond byddwn yn awyddus i glywed gan y Gweinidog Iechyd heddiw y newyddion diweddaraf am y gwahaniaeth y mae gwaith Llywodraeth Cymru'n ei wneud yn hyn o beth, a sut y mae'r Llywodraeth yn bodloni'r gofynion ar gyfer gweithredu. Yn wir, rwy'n gwybod y byddaf i ac Aelodau Cynulliad eraill yn parhau i gadw hyn yn bendant ar frig agenda Llywodraeth Cymru, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at groesawu Sarah Rochira yn ôl i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 20 Ionawr yn rhan o'n gwaith dilynol ar yr adroddiad cartrefi gofal yng Nghymru. Diolch.

16:55

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod adroddiad y comisiynydd pobl hŷn heddiw. Rwyf yn adlewyrchu beth y mae'r Gweinidog a phawb arall wedi ei ddweud ynglŷn â'r ffaith bod yr adroddiad yma, rwy'n meddwl, yn dangos pa mor weithgar ydy'r comisiynydd, a hefyd, i fod yn deg, yr holl staff o fewn y swyddfa.

I, too, welcome this opportunity to discuss the older people's commissioner's report today. I endorse what the Minister and everyone else has said about the fact that this report shows how active the commissioner is and, to be fair, how active all of the staff within her office are.

Rwy’n meddwl ei fod yn galonogol, fel y dywedodd y Gweinidog, ein bod ni yn darllen yn yr adroddiad yma fod yna 316 o achosion unigol sydd wedi cael eu cyfeirio at swyddfa’r comisiynydd rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr, er, yn dibynnu ar ba gwynion y mae’r bobl yna wedi dod gerbron y comisiynydd, hwyrach bod hynny yn achosi cryn dipyn o bryder, hefyd, mewn rhai llefydd. Rwyf yn teimlo bod yr adroddiad yma yn gadarnhaol. Rwyf hefyd yn meddwl ei fod yn adroddiad adeiladol, a hefyd yn dangos, hwyrach, fod y comisiynydd yn barod i fynd i’r afael efo rhai problemau sydd yn wynebu pobl hŷn—er, wrth ddweud fy mod i’n 52, nid wyf yn hoff iawn o’r ffaith fy mod i, yn bersonol, yn cael fy nghyfrif fel rhywun hŷn erbyn hyn, ac yn bendant ni fuasai fy mam, sydd yn 78, hyd yn oed, yn cyfrif ei hun fel person hŷn. Ond, rwy’n meddwl bod yna, fel y dywedodd Lynne Neagle, faterion o bwys sy’n cael eu cyfeirio atyn nhw yn yr adroddiad: y ffaith bod y comisiynydd yn dod efo adroddiad gerbron, yn gofyn i bobl ymateb o fewn tri mis yn benodol, ac yn dweud ei bod hi’n gobeithio bod pawb sy’n ymwneud â’r sector yna yn mynd i ymateb; hefyd, y ffaith ein bod ni’n darllen yn yr adroddiad bod mwyafrif llethol y rhai sy’n ymwneud â gofal mewn cartrefi henoed wedi ymateb yn gadarnhaol. Hefyd, i fod yn deg, rŷm ni’n cydnabod bod y Llywodraeth eu hunain wedi ymateb yn gadarnhaol trwy roi £320,000 yn ychwanegol at ofal deintyddol o fewn cartrefi henoed, fel canlyniad i rai o’r materion a gafodd eu crybwyll yn yr adroddiad.

I think that it is encouraging, as the Minister has said, that we read in this report that 316 cases have been referred to the commissioner’s office between April and December, although, depending on what complaints those people have brought forward, perhaps that is also a cause of some concern in some places. But, I do feel that this report is very positive. I also feel that it’s a constructive report and that is shows, perhaps, that the commissioner is willing to get to grips with some of the problems facing older people—although, having said that, I would say that I am 52 and I’m not too pleased about the fact that I, personally, am considered to be someone who is older, and my mother, who is 78, would certainly not consider herself to be an older person. But, as Lynne Neagle said, I think that there are important matters that are referred to in this report: the fact that the commissioner has brought forward a report asking people to respond within three months specifically, and said that she hopes that everyone dealing with the sector is going to respond; also, the fact that we read in the report that the vast majority of those involved in care in care homes for older people have responded positively. To be fair, we should also acknowledge that the Government itself has responded positively by giving £320,000 in extra funding for oral health in care homes for older people, as a result of some of the matters that were mentioned in the report.

Rwy’n meddwl hefyd fod gennym gomisiynydd yma sydd yn barod i ddefnyddio ei phwerau lle bod rhaid. Fel y dywedodd Darren Millar, mae hi wedi bod yn barod iawn i ddod gerbron pwyllgorau’r Cynulliad yma, a hefyd i godi materion efo’r arolygiaeth iechyd, a hefyd efo Swyddfa Archwilio Cymru, lle nad yw hi, hwyrach, yn fodlon iawn efo’r ymateb mae hi wedi’i gael mewn rhai sefyllfaoedd.

I also think that we have a commissioner here who is willing to use the powers that she has where that is necessary. As Darren Millar said, she has been very willing to come before committees at this Assembly, and also to raise matters with the health inspectorate and also with the Wales Audit Office, where she is not satisfied, perhaps, with the response that she has received in some situations.

Ond er hynny, er yr holl ganllawiau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan y comisiynydd, er yr holl enghreifftiau o arfer da sy’n cael eu rhoi gerbron yn yr adroddiad yma, rwy’n meddwl bod pob un ohonom, yn siŵr, yn cyfaddef bod yr arfer ar lawr gwlad mewn rhai achosion yn wahanol iawn. Rwyf yn canmol y comisiynydd o fewn fy rhanbarth i: lle mae yna achosion lle mae yna wasanaethau yn cael eu newid—gwasanaethau hanfodol yn cael eu newid—gan gynghorau, a hyd yn oed gan y gwasanaeth iechyd, mae hi wedi bod yn barod i ddod i fyny i siarad efo’r pobl hŷn sydd yn poeni am y newidiadau, ac i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb yn iawn, ac yn ymgynghori efo’r bobl yn hytrach na thicio’r bocsys fel y maen nhw wedi ar adegau, yn bendant yn y gogledd.

But, despite all of that, and all of the guidance that has been published by the commissioner, despite all of the examples of good practice that are put forward in this report, I think that all of us would admit that practice at the grass-roots level in some cases is very different. I do praise the commissioner within my region: where there are cases where services are being changed—vital services are being changed—by councils, and even by the health service, she has been willing to come up to speak to those older people who are concerned about those changes, and to ensure that those public services do respond in the right manner and consult those people, rather than just ticking boxes as they have done on occasion, certainly in the past in north Wales.

Mi fyddwn ni yn cefnogi’r gwelliant a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr, ac rwy’n edrych ymlaen at gydweithio, hwyrach, a hefyd y ffaith bod y Gweinidog wedi dweud ei fod o’n barod i dderbyn y gwelliant prynhawn yma. Rwy’n croesawu’r ffaith hefyd, wrth ystyried bod nifer ohonom ni yn y gwrthbleidiau wedi codi pryderon ynglŷn â rhai o’r goblygiadau o fewn y Bil gwasanaethau cymdeithasol sydd yn dod i rym y flwyddyn yma, ei bod hi wedi dweud ei bod hi’n barod i fonitro’r ffordd y mae’r cod ymarfer a rheoliadau yn cael eu gweithredu gan y Llywodraeth eleni.

We will support the amendment tabled by the Conservatives, and I look forward to collaborating and also to the fact that the Minister said that he is willing to accept the amendment this afternoon. I welcome, too, the fact, in considering that a number of us in the opposition parties have raised concerns about some of the implications of the social services Bill that will come into force this year, that the commissioner has said that she is willing to monitor how the code of practice and the regulations are implemented by the Government this year.

Yn olaf, rwy'n meddwl bod yn rhaid inni nodi'r ffaith bod y comisiynydd yn gofyn am fwy o ymwybyddiaeth o ran amddiffyn a diogelu'r henoed. Mae hi'n cyfeirio at yr adroddiad a gafodd ei ddarparu gan Brifysgol Aberystwyth, a hefyd mae hi'n dweud bod yn dal ganddi bryderon ynglŷn â'r ffordd y mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn benodol, yn edrych ar ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn, ac, fel dywedodd Darren Millar, fod rhai o'r problemau ynglŷn â rheoli o fewn y gwasanaeth iechyd. Ond rwy'n meddwl ei bod yn deilwng ein bod i gyd, o bob plaid, y prynhawn yma wedi cydnabod gwaith caled y swyddfa ac yn dymuno llwyddiant iddyn nhw yn y dyfodol.

Finally, I think that we have to note the fact that the commissioner is asking for greater awareness in terms of safeguarding and protecting older people. She refers to the report that was published by Aberystwyth University and she also said that we still have concerns about the way that the health service in Wales, specifically, considers provision for older people, and, as Darren Millar said, that some of the problems are in relation to the way management within the health service is undertaken. But I think that it's right that we all, of all parties, this afternoon have acknowledged the hard work of the office and we wish them all success in the future.

17:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Julie Morgan.

Julie Morgan.

17:00

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for calling me to speak in this debate. I'd also like to pay tribute to Sarah Rochira and all the work that she and her officers have done. I think previous speakers have covered a lot of the general issues of the report, but I'm particularly pleased that she's highlighted the issue of ageism and discrimination against older people and that she's actually tried to address this by working with professionals who are working in the field, because I think we'd probably all accept that age discrimination is widespread—not intentional, but there is a lot of work to be done in that field.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am alw arnaf i siarad yn y ddadl hon. Hoffwn innau hefyd dalu teyrnged i Sarah Rochira am yr holl waith y mae hi a'i swyddogion wedi ei wneud. Rwy'n meddwl bod y siaradwyr blaenorol wedi sôn am lawer o'r materion cyffredinol yn yr adroddiad, ond rwy'n arbennig o falch ei bod hi wedi tynnu sylw at fater rhagfarn oed a gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn a'i bod hi wedi ceisio ymdrin â hyn drwy weithio gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes, oherwydd rwy'n meddwl y byddem yn ôl pob tebyg i gyd yn derbyn bod gwahaniaethu ar sail oed yn gyffredin iawn—nid yn fwriadol, ond mae llawer o waith i'w wneud yn y maes hwnnw.

I was very pleased to read that more than 260 professionals have attended her seminars to help them understand the impact of ageism and how this does feed discrimination. I'm very aware of people who have spoken to me and said how they feel when someone looks at them —'they just see an older person rather than a person'. I think that is something that is very important that we do address in all our policies. Obviously, one of the important ways of tackling discrimination and ageism is to celebrate the achievements of older people, which the Minister mentioned when he introduced the debate. Looking back on 2015, I was thinking about the achievements of older people, and I couldn't help thinking, on a political and international level, about the wonderful success of Aung San Suu Kyi, who was over 70 last year and who had the amazing success in her country, and then of course Hilary Clinton, who is 68, and who knows what will be happening to her soon.

Roeddwn yn falch iawn o ddarllen bod mwy na 260 o weithwyr proffesiynol wedi mynychu ei seminarau i'w helpu i ddeall effaith rhagfarn ar sail oed a sut y mae hyn yn arwain at wahaniaethu. Rwy'n ymwybodol iawn o bobl sydd wedi siarad â mi a dweud sut y maent yn teimlo pan fo rhywun yn edrych arnynt—'dim ond person hŷn y maent yn ei weld, yn hytrach na pherson'. Rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth sy'n bwysig iawn inni roi sylw iddo yn ein holl bolisïau. Yn amlwg, un o'r ffyrdd pwysig o ymdrin â gwahaniaethu a rhagfarn oed yw dathlu cyflawniadau pobl hŷn; soniodd y Gweinidog am hynny wrth gyflwyno'r ddadl. Wrth edrych yn ôl ar 2015, roeddwn yn meddwl am gyflawniadau pobl hŷn, ac ni allwn beidio â meddwl, ar lefel wleidyddol a rhyngwladol, am lwyddiant rhyfeddol Aung San Suu Kyi, a oedd dros 70 y llynedd ac a gafodd y llwyddiant rhyfeddol yn ei gwlad, ac yna wrth gwrs Hilary Clinton, sy'n 68, a phwy a ŵyr beth fydd yn digwydd iddi hi cyn bo hir.

Closer to home, before Christmas, I knocked on the door of one of my constituents, 83-year-old Dilys Price, who was sitting on her sofa with a broken ankle, but not for the reason you might think. Dilys hadn't had a fall in her home or out in the street, as sadly does happen to many older people. In fact, she had just been skydiving, again, to highlight the work of the Touch Trust, an organisation of which I'm a patron. Two years ago, in fact, Dilys had a near miss when her parachute failed to open. Fortunately, she is the world's oldest skydiver and she was saved by her reserve parachute, and she's been able to carry on fundraising and having fun. I was talking to Dilys about all this just before Christmas in my constituency.

Yn nes at adref, cyn y Nadolig, curais ar ddrws un o fy etholwyr, Dilys Price, sy'n 83 mlwydd oed, ac roedd hi'n eistedd ar ei soffa wedi torri ei migwrn, ond nid am y rheswm y byddech chi'n ei feddwl. Nid oedd Dilys wedi cael codwm yn ei chartref neu allan ar y stryd, fel sy'n anffodus yn digwydd i lawer o bobl hŷn. Mewn gwirionedd, roedd hi newydd fod yn plymio o'r awyr, unwaith eto, i dynnu sylw at waith y Touch Trust, sefydliad yr wyf yn noddwr iddo. Ddwy flynedd yn ôl, a dweud y gwir, cael a chael fu hi i Dilys pan fethodd ei pharasiwt ag agor. Yn ffodus, hi yw plymiwr awyr hynaf y byd a chafodd ei hachub gan ei pharasiwt wrth gefn, ac mae hi wedi gallu parhau i godi arian a chael hwyl. Roeddwn yn siarad â Dilys am hyn i gyd ychydig cyn y Nadolig yn fy etholaeth.

So, it is important, I think, that we do make a deliberate effort to rejoice in the capabilities and in the talents of older people. Towards the end of last year, I held a meeting for older people in Cardiff North—Sarah Rochira did come and did attend the meeting. I asked them what the key messages were that they wanted to give to policy makers. One of those key messages was they do want older people's achievements to be recognised. They wanted to say they give an enormous amount of work and help to charities as volunteers. I think, if you go into many of the charity shops, you do see that most of the people who are helping there are older people—usually women, actually—who are putting an enormous amount of effort in and they make a massive contribution to our society. I'm sure we all know older people who work as volunteers for the cancer charities, the Samaritans and food banks. I think we really need to say what and celebrate their achievements.

Felly, mae'n bwysig, rwy'n meddwl, ein bod yn gwneud ymdrech fwriadol i lawenhau yng ngalluoedd a thalentau pobl hŷn. Tuag at ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, roeddwn i'n cynnal cyfarfod i bobl hŷn yng Ngogledd Caerdydd—daeth Sarah Rochira ac roedd hi'n bresennol yn y cyfarfod. Gofynnais iddynt pa negeseuon allweddol yr hoffent eu rhoi i lunwyr polisi. Un o'r negeseuon allweddol hynny oedd eu bod eisiau i gyflawniadau pobl hŷn gael eu cydnabod. Roeddent yn awyddus i ddweud eu bod yn rhoi llawer iawn o waith a chymorth i elusennau fel gwirfoddolwyr. Rwy'n meddwl, os ewch chi i mewn i lawer o'r siopau elusen, y byddwch yn gweld mai pobl hŷn yw'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n helpu yno—menywod fel arfer, a dweud y gwir—ac maent yn gwneud llawer iawn o ymdrech ac yn gwneud cyfraniad enfawr i'n cymdeithas. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn adnabod pobl hŷn sy'n gweithio fel gwirfoddolwyr i'r elusennau canser, y Samariaid a banciau bwyd. Rwy'n credu bod gwir angen inni ddweud hynny a dathlu eu cyflawniadau.

As a result of that meeting in Cardiff North with older people and with Sarah Rochira, one of the action points to come from it was that we would be asking Rubicon Dance to set up a dance class for older people in Cardiff North. If any of you have seen the video that Rubicon shows of working with very elderly, frail people through the medium of dance in old people's homes, it is deeply moving and very, very powerful. Of course, as the commissioner says, what is important to older people is their quality of life. There are issues that can prevent older people living life to the full and some of them we can do quite a bit about in terms of planning in order to prevent falls and to do all the things that we know cause big issues.

O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw yng Ngogledd Caerdydd gyda phobl hŷn a gyda Sarah Rochira, un o'r pwyntiau gweithredu a ddaeth ohono oedd y byddem yn gofyn i Rubicon Dance sefydlu dosbarth dawns i bobl hŷn yng Ngogledd Caerdydd. Os oes unrhyw un ohonoch wedi gweld y fideo y mae Rubicon yn ei ddangos o weithio gyda phobl oedrannus ac eiddil iawn drwy gyfrwng dawns mewn cartrefi hen bobl, mae'n creu cryn argraff ac yn bwerus iawn, iawn. Wrth gwrs, fel y mae'r comisiynydd yn ei ddweud, yr hyn sy'n bwysig i bobl hŷn yw ansawdd eu bywyd. Mae yna broblemau sy'n gallu atal pobl hŷn rhag byw bywyd i'r eithaf a gallwn wneud cryn dipyn am rai ohonynt o ran cynllunio er mwyn atal codymau a gwneud yr holl bethau yr ydym yn gwybod eu bod yn achosi problemau mawr.

The issue of public toilets has already been mentioned and I am hopeful that the Public Health (Wales) Bill will obviously plan and address that issue, but I think we've got to work really hard to deliver on the ground. Another issue that was raised in this meeting was the issue about bus services and how important they are to older people.

Mae mater tai bach cyhoeddus eisoes wedi ei grybwyll ac rwy'n obeithiol y bydd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn amlwg yn cynllunio ac yn ymdrin â'r mater hwnnw, ond rwy'n credu bod yn rhaid inni weithio'n galed iawn i gyflawni ar lawr gwlad. Mater arall a godwyd yn y cyfarfod hwn oedd y mater ynglŷn â gwasanaethau bws a pha mor bwysig ydynt i bobl hŷn.

The other important points that I'd just like to finish off by making are that some of the ending of services that are very important to everybody do disproportionately affect older people. At the time we had this meeting, the issue of the closure of local banks was very high in everybody's minds. The points that the women and men who were at the meeting were making were that they don't want to use cashpoints, because they don't like going there in the dark and their eyesight is not good enough to read the lettering on the cashpoints. So, I think we need to look at the discriminatory effect of some policy changes.

Y pwyntiau pwysig eraill yr hoffwn orffen drwy eu gwneud yw bod diweddu rhai o'r gwasanaethau sy'n bwysig iawn i bawb yn effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn. Ar adeg y cyfarfod hwn, roedd mater cau banciau lleol yn uchel iawn ym meddyliau pawb. Roedd y dynion a'r menywod a oedd yn y cyfarfod yn gwneud y pwynt nad ydynt yn hoff o ddefnyddio peiriannau darparu arian, gan nad ydynt yn hoffi mynd yno yn y tywyllwch ac nid yw eu golwg yn ddigon da i ddarllen y llythrennau ar y peiriannau darparu arian. Felly, rwy'n meddwl bod angen inni edrych ar effaith wahaniaethol rhai newidiadau polisi.

17:05

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Carwn i hefyd ddiolch i Sarah Rochira am ei hadroddiad, a hefyd carwn ei chymeradwyo'n fawr iawn am ei gwaith arbennig.

I would also like to thank Sarah Rochira for her report. Also, I would like to commend her very much for her excellent work.

I also want to highlight a topic that I feel may warrant her, and indeed our, future attention. When we talk about the relationship between carers and senior citizens, it's very easy to assume that it is the older people who are the ones who are being cared for. This will, of course, often be true, but it is certainly not always the case. In this, as in all areas of policy, it is our duty to see beyond the generalisations and recognise the exceptions to the rule.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at bwnc yr wyf yn teimlo y gallai fod yn haeddu ei sylw hi, ac yn wir ein sylw ninnau, yn y dyfodol. Wrth sôn am y berthynas rhwng gofalwyr a dinasyddion hŷn, mae'n hawdd iawn inni gymryd yn ganiataol mai'r bobl hŷn yw'r rhai sy'n derbyn gofal. Bydd hyn, wrth gwrs, yn aml yn wir, ond yn sicr nid yw'n wir bob amser. Yn hyn o beth, fel ym mhob maes polisi, mae dyletswydd arnom i weld y tu hwnt i'r cyffredinoli ac i gydnabod yr eithriadau i'r rheol.

There is a substantial and growing number of older people who are themselves carers—some for parents older than themselves, but many for children with serious disabilities. Happily, many severely disabled people are now living beyond the life expectancy of previous generations. This is, without doubt, a fact to be celebrated, but it seems to me our systems of support have not always been designed with this reality in mind. The particular challenges, concerns, and fears of older people and carers have been forcefully brought home to me over recent months through a series of meetings in my constituency office. Last year, Neath Port Talbot council began consultation on changes to day services for adults with learning disabilities. This has caused some considerable disquiet amongst constituents in their sixties, seventies, and even eighties, some who have for four decades or more lovingly and patiently cared for their disabled children. I am genuinely glad to be able to say that, in Neath Port Talbot, the cabinet member responsible for adult social services has committed to a thorough and meaningful consultation on this subject. Unfortunately, I note in the commissioner's report that this is far from always the case. She comments that many older people—and I quote:

Mae nifer sylweddol a chynyddol o bobl hŷn sydd eu hunain yn ofalwyr—rhai'n gofalu am rieni sy'n hŷn na hwy eu hunain, ond mae llawer yn gofalu am blant ag anableddau difrifol. Yn ffodus, mae llawer o bobl ag anabledd difrifol bellach yn byw y tu hwnt i ddisgwyliad oes cenedlaethau blaenorol. Mae hyn, heb os, yn ffaith i'w dathlu, ond mae'n ymddangos i mi nad yw ein systemau cymorth bob amser wedi eu cynllunio gyda'r gwirionedd hwn mewn golwg. Mae heriau, pryderon, ac ofnau penodol pobl hŷn a gofalwyr wedi eu cyflwyno'n rymus imi dros y misoedd diwethaf mewn cyfres o gyfarfodydd yn fy swyddfa etholaeth. Y llynedd, dechreuodd cyngor Castell-nedd Port Talbot ymgynghori am newidiadau i wasanaethau dydd i oedolion ag anableddau dysgu. Mae hyn wedi achosi anesmwythyd sylweddol ymhlith etholwyr yn eu chwedegau, eu saithdegau, a hyd yn oed eu hwythdegau; mae rhai ohonynt wedi bod yn gofalu am eu plant anabl yn gariadus ac yn amyneddgar ers pedwar degawd neu fwy. Rwy'n wirioneddol falch o allu dweud, yng Nghastell-nedd Port Talbot, bod yr aelod cabinet sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol i oedolion wedi ymrwymo i ymgynghori trylwyr ac ystyrlon ar y pwnc hwn. Yn anffodus, nodaf yn adroddiad y comisiynydd nad yw hyn bob amser yn wir o bell ffordd. Mae hi'n dweud bod llawer o bobl hŷn—ac rwy'n dyfynnu:

'do not know how to engage with their Local Authority and often feel powerless when proposals are made to reduce or bring to an end essential community services they rely upon.'

ddim yn gwybod sut i ymgysylltu â'u Hawdurdod Lleol ac yn aml yn teimlo'n ddi-rym pan wneir cynigion i leihau neu ddiweddu gwasanaethau cymunedol hanfodol y maent yn dibynnu arnynt.

This is, of course, utterly unacceptable. The situation must change. The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 puts the service user and their carers at the heart of provision. And, as the commissioner also notes, the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 further reinforces the rights of carers. But, in promoting the rights of older people to not only be heard but to shape the services they need, we should remember these services will not always be the ones we think of first. It may well be the older person who needs the carer's assessment and their 40-year-old daughter who needs access to day services. Many of us in this Chamber have rightly campaigned for the recognition of young carers; I hope we can now consider the particular and specific needs of their ageing counterparts.

Mae hyn, wrth gwrs, yn gwbl annerbyniol. Mae'n rhaid i'r sefyllfa newid. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr wrth wraidd y ddarpariaeth. Ac, fel y mae'r comisiynydd hefyd yn ei nodi, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn atgyfnerthu hawliau gofalwyr ymhellach. Ond wrth hyrwyddo hawliau pobl hŷn, nid yn unig i gael eu clywed, ond i lunio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, dylem gofio nad y gwasanaethau hyn bob amser fydd y rhai cyntaf inni feddwl amdanynt. Mae'n ddigon posibl mai'r bobl hŷn sydd ag angen yr asesiad gofalwr a'u merch 40 mlwydd oed sydd ag angen mynediad at wasanaethau dydd. Mae llawer ohonom yn y Siambr hon wedi ymgyrchu'n gywir dros gydnabod gofalwyr ifanc; rwy'n gobeithio y gallwn nawr ystyried anghenion neilltuol a phenodol eu cymheiriaid sy'n heneiddio.

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

17:09

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I thank all Members for their contributions to the debate. I think every single person who has spoken has had something important to say in reflecting on the report and thinking about where that takes us in terms of issues that are still there to be addressed in the lives of older people and the way in which the commissioner's office is able to make a significant contribution to that agenda.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl. Rwy'n meddwl bod pob un person sydd wedi siarad wedi dweud rhywbeth pwysig wrth adlewyrchu ar yr adroddiad a meddwl am i ble mae'n mynd â ni o ran materion sy'n dal i fod ag angen sylw ym mywydau pobl hŷn a'r ffordd y mae swyddfa'r comisiynydd yn gallu cyfrannu'n sylweddol at yr agenda honno.

Darren Millar began with an important point about the fact that having an annual opportunity here on the floor of the Assembly gives us all a chance, not just to celebrate the activities of the commissioner's office as every speaker has done, but also to draw out those aspects of her work that we ourselves will want to pursue in the jobs that we do as constituency Assembly Members and in the way in which in this Chamber we attempt to make policy to improve the problems and the concerns that face older people here in Wales. I started writing down some of the adjectives, adverbs, that Darren was using about the commissioner: visibility, activity, tenacity, energy. I mean, all of those things, I think, sum up the spirit that we see in the pages of this report.

Dechreuodd Darren Millar gyda phwynt pwysig am y ffaith bod cael cyfle blynyddol yma ar lawr y Cynulliad yn rhoi cyfle inni i gyd, nid yn unig i ddathlu gweithgareddau swyddfa'r comisiynydd fel y mae pob siaradwr wedi'i wneud, ond hefyd i sôn am yr agweddau hynny ar ei gwaith y byddwn ni ein hunain am eu dilyn yn y swyddi yr ydym yn eu gwneud fel Aelodau Cynulliad etholaethau ac yn y ffordd yr ydym yn y Siambr hon yn ceisio gwneud polisi i wella'r problemau a'r pryderon sy'n wynebu pobl hŷn yma yng Nghymru. Dechreuais ysgrifennu rhai o'r ansoddeiriau, yr adferfau, yr oedd Darren yn eu defnyddio am y comisiynydd: gweladwyedd, gweithgarwch, dycnwch, egni. Hynny yw, mae'r holl bethau hynny, rwy'n meddwl, yn crynhoi'r ysbryd a welwn ar dudalennau'r adroddiad hwn.

Lindsay Whittle highlighted a couple of issues that other Members went on to talk about as well. In particular, he referred to the role of carers. And, as we've just heard from Gwenda Thomas, older people play a part as carers, not simply as people who are in receipt of care from other family members, but very much in the care that they provide to friends, to neighbours, and, sometimes, as in the learning disability example that Gwenda highlighted, go on well into later life providing direct care for other members of their own families. Lindsay also highlighted safeguarding issues and this was a matter the former deputy Minister particularly personally pursued during the passage of the 2014 Act, where we put the safeguarding of older people on a par with the safeguarding of children and design mechanisms in Wales that make sure that we give equal parity of concern to safeguarding in whatever part of the life span those issues emerge.

Tynnodd Lindsay Whittle sylw at un neu ddau o faterion yr aeth Aelodau eraill yn eu blaenau i sôn amdanynt hefyd. Yn arbennig, cyfeiriodd at waith gofalwyr. Ac, fel yr ydym newydd ei glywed gan Gwenda Thomas, mae pobl hŷn yn chwarae rhan fel gofalwyr, nid yn unig fel pobl sy'n derbyn gofal gan aelodau eraill o'r teulu, ond yn y gofal y maent yn ei ddarparu i ffrindiau, i gymdogion, ac, weithiau, fel yn yr enghraifft anableddau dysgu y soniodd Gwenda amdani, maent yn parhau pan eu bod yn hŷn yn eu bywydau i ddarparu gofal uniongyrchol i aelodau eraill o'u teuluoedd eu hunain. Rhoddodd Lindsay sylw hefyd i faterion diogelu ac roedd hwn yn fater y bu'r cyn ddirprwy Weinidog yn enwedig yn ei ddilyn yn bersonol yn ystod hynt Deddf 2014, lle y rhoesom diogelu pobl hŷn yn gyfartal â diogelu plant a chynllunio mecanweithiau yng Nghymru i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi sylw cyfartal i ddiogelu ym mha bynnag ran o rychwant oes y mae'r materion hynny'n codi.

Lynne Neagle focused for a moment or two on dementia, which we know has to be one of the major policy and practice challenges of our era. I've been very glad during the last 12 months to be able to announce some additional investment in dementia services, to be able to celebrate some of the fantastic research that goes on here in Wales, both in Bangor and in Cardiff, which is genuinely world-leading in the way that it looks to help us to find new solutions to problems of dementia in the future. And dementia is an issue in the care home sector, which Lynne went on to focus on. The commissioner's report says important things about that and, in our response to her report, we focus on the things that we can do in a practical way to improve rates of diagnosis of dementia in care homes, not simply to diagnose the problem, but those practical steps that can be taken to improve the lives of people who are at the start of that sometimes very difficult journey.

Canolbwyntiodd Lynne Neagle am funud neu ddau ar ddementia; rydym yn gwybod bod hynny'n un o'r prif heriau polisi ac arfer yn ein cyfnod ni. Rwyf wedi bod yn falch iawn yn ystod y 12 mis diwethaf o allu cyhoeddi buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau dementia, i allu dathlu rhywfaint o'r ymchwil gwych sy'n digwydd yma yng Nghymru, ym Mangor ac yng Nghaerdydd, sydd wir yn arwain y byd yn y ffordd y mae'n ceisio ein helpu i ddod o hyd i atebion newydd i broblemau dementia yn y dyfodol. Ac mae dementia yn broblem yn y sector cartrefi gofal, yr aeth Lynne yn ei blaen i ganolbwyntio arno. Mae adroddiad y comisiynydd yn dweud pethau pwysig am hynny ac, yn ein hymateb i'w hadroddiad, rydym yn canolbwyntio ar y pethau y gallwn eu gwneud mewn ffordd ymarferol i wella cyfraddau diagnosis dementia mewn cartrefi gofal, nid dim ond i roi diagnosis o'r broblem, ond y camau ymarferol hynny y gellir eu cymryd i wella bywydau pobl sydd ar ddechrau'r daith honno sydd weithiau'n anodd iawn.

Aled Roberts I think pointed to one of those tightropes that any commissioner has to walk down and which you can see in the pages of that report. Any commissioner wants to be independent of public authorities—all public authorities, including the Welsh Government—but yet wants to be sufficiently engaged with those authorities to be influential. And the way in which the commissioner has assisted groups of older people right across Wales to make their voices heard when change and consultation on change is in the air I think shows her ability both to be engaged with those issues, to say some important and challenging things on them, but always to do it in a way that allows her to continue and for her voice to be heard in those places where decisions are made.

Cyfeiriodd Aled Roberts, rwy'n meddwl, at un o'r llwybrau cul hynny y mae'n rhaid i unrhyw gomisiynydd gerdded ar eu hyd, a gallwch weld hynny yn nhudalennau'r adroddiad hwnnw. Hoffai unrhyw gomisiynydd fod yn annibynnol ar awdurdodau cyhoeddus—pob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru—ond eto hoffai unrhyw gomisiynydd ymwneud digon â'r awdurdodau hynny i fod yn ddylanwadol. Ac mae'r ffordd y mae'r comisiynydd wedi helpu grwpiau o bobl hŷn ledled Cymru i leisio eu barn pan fo newid ac ymgynghori ar newid ar waith, rwy'n meddwl, yn dangos ei gallu i ymwneud â'r materion hynny, a dweud pethau pwysig a heriol amdanynt, ond hefyd i wneud hynny bob amser mewn ffordd sy'n caniatáu iddi barhau ac i'w llais gael ei glywed yn y lleoedd hynny lle caiff penderfyniadau eu gwneud.

Let me end by just referring to what Julie Morgan said. It was great I thought, Julie, the way in which you were able to bring real lives to illustrate some of the points made in the report. I think skydiving is one of the few activities that the current commissioner does not appear to have undertaken herself as yet on behalf of older people but she'll have heard of the experience of your constituent I am sure. Celebrating the achievements of older people and, to go back to something that Darren Millar said in the very beginning, the culture shift that we are trying to bring about, and which the older person often leads, is to influence the narrative about ageing from the negative to the positive, from focusing on older people as deficits to focusing on older people as assets, and to celebrate the contribution that they make.

Dewch imi orffen drwy gyfeirio at yr hyn a ddywedodd Julie Morgan. Roeddwn yn meddwl ei bod yn wych, Julie, y ffordd yr oeddech yn gallu sôn am fywydau go iawn i arddangos rhai o'r pwyntiau a wnaethpwyd yn yr adroddiad. Rwy'n meddwl bod plymio o'r awyr yn un o'r ychydig weithgareddau nad yw'n ymddangos bod y comisiynydd presennol wedi'u gwneud ei hun hyd yma ar ran pobl hŷn, ond bydd hi wedi clywed am brofiad eich etholwr, rwy'n siŵr. Mae dathlu cyflawniadau pobl hŷn ac, i fynd yn ôl at rywbeth a ddywedodd Darren Millar yn y cychwyn cyntaf, y newid diwylliant yr ydym yn ceisio ei gyflwyno, yn aml dan arweiniad y person hŷn, yn ffordd o ddylanwadu ar y naratif am heneiddio o'r negyddol i'r cadarnhaol, o ganolbwyntio ar bobl hŷn fel diffygion i ganolbwyntio ar bobl hŷn fel asedau, ac i ddathlu'r cyfraniad y maent yn ei wneud.

Shall I end by, once again, placing on record our thanks to the commissioner and to her team?

A gaf i orffen drwy, unwaith eto, gofnodi ein diolch i'r comisiynydd ac i'w thîm?

17:15

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, have you got time for a very brief intervention? One of the question I raised was about the term of office of the older people's commissioner. I know that there's been a consultation on that recently, so I wouldn't want to influence that, but in terms of changing the regulations in the future.

Weinidog, a oes gennych amser am ymyriad byr iawn? Roedd un o'r cwestiynau a ofynnais yn ymwneud â chyfnod y comisiynydd pobl hŷn yn ei swydd. Rwy'n gwybod bod ymgynghoriad wedi bod ar hynny'n ddiweddar, felly ni hoffwn ddylanwadu ar hynny, ond o ran newid y rheoliadau yn y dyfodol.

17:15

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I heard what Darren Millar said on that; he's absolutely right that there's been work done, particularly in relation to the children's commissioner. One of the things that that report does point to is that we have different terms of office, some different statutory arrangements and the Government certainly will be thinking about whether there are things we can do in order to take some of that advice forward. That won't affect the work of this current commissioner. I'm very glad we've had the chance to explore it and to mark it this afternoon, and I'm sure that in a year's time some Members of the Assembly will want to be here doing the same thing in 12 months' time. Thank you very much.

Clywais yr hyn a ddywedodd Darren Millar am hynny; mae'n llygad ei le bod gwaith wedi'i wneud, yn enwedig o ran y comisiynydd plant. Un o'r pethau y mae'r adroddiad hwnnw'n cyfeirio atynt yw bod gennym wahanol gyfnodau mewn swydd, rhai gwahanol drefniadau statudol a bydd y Llywodraeth yn sicr yn meddwl a oes pethau y gallwn eu gwneud er mwyn gweithredu ar rywfaint o'r cyngor hwnnw. Ni fydd hynny'n effeithio ar waith y comisiynydd presennol. Rwy'n falch iawn ein bod wedi cael y cyfle i archwilio a marcio hynny y prynhawn yma, ac rwy'n siŵr y bydd rhai o Aelodau'r Cynulliad ymhen blwyddyn eisiau bod yma yn gwneud yr un peth ymhen 12 mis. Diolch yn fawr.

17:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Cynnig NDM5909 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5909 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

To propose that the National Assembly for Wales

1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad 2014-15 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2015.

1. Notes the Impact and Reach Annual Report of the Commissioner for Older People in Wales for 2014-15, laid in Table Office on 9 December 2015.

2. Yn nodi cyfeiriadau at hawliau pobl hŷn yn yr adroddiad effaith a chyrhaeddiad ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i gyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.

2. Notes references to the rights of older people in the impact and reach report and calls on the Welsh Government to work with the Older People's Commissioner to bring forward legislation to protect and promote the rights of older people.

17:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is now to agree the motion as amended. Does any Member object? Then the motion is agreed.

Y cynnig yn awr yw cytuno ar y cynnig yn unol â'r gwelliant. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae'r cynnig wedi'i dderbyn felly.

*Derbyniwyd cynnig NDM5909 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion NDM5909 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:16

# 8. Cyfnod Pleidleisio

# 8. Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to voting time. Before I conduct the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll vote first on the Education Workforce Council regulations. I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote.

Rydym nawr yn symud i'r cyfnod pleidleisio. Cyn imi gynnal y pleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, byddwn yn pleidleisio'n gyntaf ar reoliadau'r Cyngor Gweithlu Addysg. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais.

17:17

## Janice Gregory Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's not working.

Nid yw'n gweithio.

17:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's still not recording. Okay. I've only got two votes to conduct, so I'll call your vote orally, if that's acceptable, Janice. So, Janice Gregory, how do you vote on these regulations?

Nid yw'n cofnodi o hyd. Iawn. Dim ond dwy bleidlais sydd gennyf i'w cynnal, felly galwaf am eich pleidlais chi ar lafar, os yw hynny'n dderbyniol, Janice. Felly, Janice Gregory, sut ydych chi'n pleidleisio ar y rheoliadau hyn?

17:18

## Janice Gregory Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ie.

17:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Close the vote. There are 42 votes in favour. Nine votes against. Therefore, the regulations are agreed.

Caewch y bleidlais. Mae 42 o bleidleisiau o blaid. Mae naw o bleidleisiau yn erbyn. Felly, mae'r rheoliadau wedi eu derbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 42, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 42, Against 9, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5910.

Result of the vote on motion NDM5910.

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the legislative consent motion on the welfare reform Bill. I call for a vote on the motion tabled in the name of Lesley Griffiths. Open the vote. Janice Gregory, how do you vote?

Byddwn nawr yn pleidleisio ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil diwygio lles. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Lesley Griffiths. Agorwch y bleidlais. Janice Gregory, sut ydych chi'n pleidleisio?

17:18 **Janice Gregory** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

For.

O blaid.

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Close the vote. There were 35 votes in favour, 16 votes against. Therefore, the regulations are agreed.

Caewch y bleidlais. Roedd 35 o bleidleisiau o blaid, 16 o bleidleisiau yn erbyn. Felly, mae'r rheoliadau wedi eu derbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 35, Yn erbyn 16, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 35, Against 16, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5908.

Result of the vote on motion NDM5908.

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:18.*

*The meeting ended at 17:18.*